department for
culture, media
and sport

# Arweiniad a Gyhoeddwyd Dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003

Yn dod i rym adeg ei roi gerbron y Senedd ar 28 Mehefin 2007

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi ceisio rhagoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiannau twristaidd, creadigol a hamdden.

department for
culture, media
and sport

# Arweiniad a Gyhoeddwyd Dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003

Cyhoeddwyd gan
**Yr Ysgrifennydd Gwladol**
**dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**

28 Mehefin 2007

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli'r Arweiniad ac fe'i cyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cyhoeddwyd yr Arweiniad ar wefan y DCMS ac ar UK Online. Mae unrhyw awdurdod lleol neu sefydliad arall yn rhydd i gyhoeddi'r Arweiniad ar ei wefan ei hun neu ddarparu cyswllt addas i'r gwefannau hyn.

Paratowyd yr Arweiniad mewn ymgynghoriad ag Adrannau Llywodraeth, asiantaethau gweithredol a Grŵp Ymgynghori sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid.

Bydd yr Arweiniad yn cael ei adolygu'n rheolaidd mewn ymgynghoriad â grwpiau rhanddeiliaid allweddol a gellir ei newid neu ychwanegu ato yn ôl yr angen ar unrhyw adeg.

improving
the quality
of life for all

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | **7** |
| **1.** | **Cyflwyniad** | **9** |
| 1.1 | Deddf Trwyddedu 2003 | 9 |
| 1.2 | Nodau ac amcanion trwyddedu | 9 |
| 1.5 | Yr Arweiniad | 10 |
| 1.9 | Polisïau trwyddedu | 11 |
| 1.11 | Gweithgareddau trwyddedadwy | 11 |
| 1.13 | Awdurdodiadau | 11 |
| 1.14 | Egwyddorion | 11 |
| 1.23 | Deddfwriaeth a strategaethau perthnasol | 13 |
| **2.** | **Yr Amcanion Trwyddedu** | **16** |
| 2.1 | Trosedd ac anhrefn | 16 |
| 2.19 | Diogelwch y cyhoedd | 19 |
| 2.32 | Niwsans cyhoeddus | 21 |
| 2.41 | Amddiffyn plant rhag niwed | 23 |
| **3.** | **Gweithgareddau trwyddedadwy** | **26** |
| 3.1 | Crynodeb | 26 |
| 3.2 | Cyfanwerthu alcohol | 26 |
| 3.6 | Gwerthu dros y rhyngrwyd a thrwy'r post | 26 |
| 3.8 | Adloniant wedi ei reoleiddio | 27 |
| 3.9 | Adloniant | 27 |
| 3.10 | Cyfleusterau adloniant | 27 |
| 3.15 | Gemau tafarn | 28 |
| 3.16 | Digwyddiadau preifat | 28 |
| 3.20 | Cerddoriaeth achlysurol | 29 |
| 3.24 | Cerddoriaeth, canu a dawnsio byrfyfyr | 30 |
| 3.25 | Lleoliadau bach sy'n darparu dawnsio a cherddoriaeth wedi ei mwyhau neu heb ei mwyhau | 30 |
| 3.32 | Lluniaeth yn hwyr y nos | 31 |
| **4.** | **Trwyddedau Personol** | **33** |
| 4.2 | Gofynion ar gyfer trwydded bersonol | 33 |
| 4.3 | Pwy all wneud cais? | 33 |
| 4.5 | Cofnod troseddol | 33 |
| 4.11 | Awdurdodau trwyddedu Cymru yn cyhoeddi trwyddedau personol | 34 |
| 4.12 | Cymwysterau trwyddedu | 34 |
| 4.14 | Awdurdod trwyddedu perthnasol | 35 |
| 4.15 | Newid enw neu gyfeiriad | 35 |
| 4.17 | Cofrestr drwyddedu canolog | 35 |
| 4.18 | Adnewyddu | 35 |
| 4.19 | Nodi goruchwylwyr dynodedig mangre newydd | 35 |
| 4.25 | Gwrthwynebiadau'r heddlu i oruchwylwyr newydd | 36 |
| 4.28 | Gwrthwynebiadau'r heddlu i oruchwylwyr presennol | 37 |
| 4.29 | Collfarnau a chyswllt â'r llysoedd | 37 |
| 4.31 | Troseddau perthnasol | 37 |

**5. Ar bwy y mae angen trwydded mangre? 38**

5.2 Rhannau perthnasol y Ddeddf 38

5.4 Mangre trwyddedig ar gyfer gamblo 39

5.5 Meysydd chwarae dynodedig, digwyddiadau chwaraeon dynodedig a stadia chwaraeon awyr agored 39

5.10 Stadia chwaraeon â thoeau sy'n agor a chau 40

5.11 Llongau 40

5.18 Meysydd awyr rhyngwladol a phorthladdoedd rhyngwladol 41

5.20 Cerbydau 41

5.22 Trenau ac awyrennau 41

5.23 Garejys 42

5.26 Digwyddiadau mawr dros dro lle mae angen trwyddedau mangreoedd 42

5.29 Ffioedd ychwanegol am ddigwyddiadau mawr 43

**6 . Tystysgrifau Mangre Clwb 44**

6.2 Cyffredinol 44

6.9 Amodau cymhwyso 45

6.10 Aelodau cyswllt a gwesteion 45

6.11 Ceisiadau i ddyfarnu neu amrywio tystysgrifau mangre clwb 46

6.13 Camau y mae angen eu cymryd i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu 46

6.16 Cydraddoldeb rhyw 47

6.17 Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro 47

**7. Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro 48**

7.2 Cyffredinol 48

7.5 Cyfyngiadau 48

7.9 Pwy all roi hysbysiadau digwyddiad dros dro? 49

7.14 Mangreoedd a hysbyswyd 50

7.15 Trefniadau hysbysu 50

7.19 Rôl yr awdurdod trwyddedu 50

7.25 Ymyrraeth gan yr heddlu 51

**8. Ceisiadau am Drwyddedau Mangre 53**

8.1 Awdurdodau trwyddedu perthnasol 53

8.3 Personau Awdurdodedig 53

8.5 Partïon â Diddordeb 53

8.12 Awdurdodau cyfrifol 54

8.18 Pwy all wneud cais am drwydded mangre? 56

8.24 Ffurflenni cais 57

8.27 Cynlluniau 57

8.28 Camau i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu 57

8.33 Amrywiadau 58

8.39 Llacio oriau agor ar gyfer achlysuron lleol, cenedlaethol a rhyngwladol 59

8.43 Hysbysebu ceisiadau 59

8.53 Ceisiadau i newid y goruchwylwyr dynodedig mangre 60

8.54 Datganiadau dros dro 60

8.66 Trosglwyddo trwyddedau mangre 62

8.70 Awdurdodau dros dro 63

8.77 Hawl rhydd-ddeiliaid ac ati i gael eu hysbysu am faterion trwyddedu 65

**9. Penderfynu ar geisiadau 66**

9.1 Cyffredinol 66

9.2 Ble na chyflwynir sylwadau 66

9.3 Ble y cyflwynir sylwadau 66

9.8 Sylwadau perthnasol, blinderus a gwamal 67

9.14 Datgelu manylion personol partïon â diddordeb 68

9.19 Gwrandawiadau 68

**10. Amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb 71**

10.1 Cyffredinol 71

10.7 Amodau arfaethedig 71

10.9 Cysondeb â chamau a ddisgrifir yn yr atodlen weithredu 71

10.11 Amodau a osodir 72

- 10.13 Cymesuredd 72
- 10.15 Dyblygu gyda darpariaethau statudol eraill 73
- 10.19 Oriau masnachu 73
- 10.22 Hawliau gweithwyr 74
- 10.23 Pobl Anabl 74
- 10.29 Cydraddoldeb Hiliol 75
- 10.30 Perfformio dramâu 75
- 10.31 Sensoriaeth 75
- 10.32 Hawlfraint a breindal 75
- 10.33 Gwyliau celfyddydol a cherddorol mawr, carnifalau, ffeiriau a syrcasau 76
- 10.38 Gostyngiadau a hyrwyddiadau gwerthiant 77

10.41 Lleoliadau sy'n dal llawer o bobl a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer yfed alcohol "ar eich traed" (HVVDau) 77

10.44 Amodau gorfodol 78

- 10.45 Goruchwyliwr Mangre Dynodedig 78
- 10.48 Awdurdodiad gan ddeiliaid trwydded bersonol 78
- 10.54 Arddangos ffilmiau 79
- 10.58 Goruchwylio drysau 80

**11. Adolygiadau 82**

11.1 Y broses adolygu 82

11.11 Sylwadau ailadroddus 83

11.15 Grymoedd awdurdod trwyddedu parthed pennu adolygiad 83

11.22 Adolygiadau a gynhelir mewn perthynas â throsedd 85

11.28 Adolygu mangre yn dilyn gorchymyn cau 86

**12. Apeliadau 87**

12.2 Cyffredinol 87

12.7 Datganiadau polisi trwyddedu a Chanllawiau adran 182 87

12.9 Rhoi rhesymau dros benderfyniadau 88

12.10 Gweithredu penderfyniad llys ynadon 88

12.11 Datganiadau dros dro 88

**13. Datganiadau Polisi Trwyddedu 89**

13.2 Cyffredinol 89

13.6 Ymgynghori ar bolisïau 89

13.13 Egwyddorion sylfaenol 90

13.19 Dyblygu 91

13.20 Amodau safonol 91

13.21 Gorfodi 92

13.23 Yr angen am fangre trwyddedig 92

13.24 Effaith cronnus casgliad o fangreoedd trwyddedig 92

- 13.24 Beth yw effaith cronnus? 92
- 13.26 Tystiolaeth o effaith cronnus 93
- 13.29 Effaith polisïau arbennig 93

13.33 Cyfyngiadau polisïau arbennig sy'n gysylltiedig ag effaith cronnus 94

13.39 Mecanweithiau eraill ar gyfer rheoli effaith cronnus 95

13.40 Oriau trwyddedu 96

13.43 Plant 96

13.52 Awdurdod cyfrifol a phlant 98

13.53 Plant a sinemâu 98

13.55 Integreiddio strategaethau 99

13.56 Atal troseddu 99

13.57 Strategaethau diwylliannol 99

13.61 Cludiant 100

13.62 Twristiaeth a chyflogaeth 100

13.64 Rheoli cynllunio ac adeiladu 100

13.69 Hyrwyddo cydraddoldeb hiliol 101

13.70 Cerddoriaeth byw, dawns a theatr 101

13.76 Gweinyddu, gweithredu a dirprwyo swyddogaethau 102

13.79 Swyddogaethau y gellir eu dirprwyo 104

**Atodiadau**

**A Atodlen 1 Deddf Trwyddedu 2003 (adloniant rheoledig) 105**

**B Atodlen 2 Deddf Trwyddedu 2003 (lluniaeth gyda'r hwyr) 110**

**C Atodlen 4 Deddf Trwyddedu 2003 (troseddau perthnasol) 113**

**D Rhestr Amodau 117**

**E Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol 134**

**Mynegai 139**

# Rhagair

## Gan Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Pan gyhoeddwyd yr Arweiniad hwn gyntaf yng Ngorffennaf 2004, roeddem ar fin cyflwyno dull gweithredu newydd a chyffrous ar gyfer trwyddedu. Yr oedd diben y gyfundrefn ar fin cael eglurder o'r newydd gan roi'r lle blaenaf i'r pedwar amcan statudol wrth ystyried unrhyw faterion perthnasol. Yr amcanion yw :

- atal trosedd ac anhrefn;
- diogelwch y cyhoedd;
- atal niwsans i'r cyhoedd; a
- diogelu plant rhag niwed.

Diolch i ymdrechion neilltuol llawer o swyddogion a chynghorwyr awdurdodau lleol, daeth Deddf trwyddedu 2003 i rym ar 24 Tachwedd 2005 gan ddechrau rhoi mwy o lais ar unwaith i bobl leol mewn penderfyniadau trwyddedu a helpu ymdrechion ehangach awdurdodau lleol i greu economi gyda'r hwyr a chyda'r nos mwy diogel a gwâr.

Dechreuodd roi hwb hefyd i'n nodau o ddarparu gwell cyfundrefn rheoli i fusnesau, mwy o ddewis i ddefnyddwyr a, lle'r oedd hynny'n bosib, help i ardaloedd sydd angen adfywiad economaidd.

Cawsom ein beirniadu gan rai am ein bod yn argyhoeddedig y byddai'r newidiadau sylweddol hyn yn cael effaith gadarnhaol, ac yn ategu, ein strategaeth ehangach ar gyfer delio â throsedd ac anhrefn, yfed dan oed, niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Erbyn hyn mae gennym ddarlun mwy eglur o'r ffordd y mae'r Ddeddf yn gweithio yn ymarferol ar lawr gwlad ac rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan yr ymateb hynod gadarnhaol yr ydym yn ei gael gan awdurdodau trwyddedu, trigolion lleol, yr heddlu a'r fasnach trwyddedu.

Mae yno dystiolaeth bod deiliaid trwydded yn dechrau cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif ac yn weithgar wrth gydweithio â'r heddlu a'i gilydd i ddileu gwerthu alcohol i yfwyr dan oed ac i ymladd trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Ceir tystiolaeth eang o bartneriaeth dda ac effeithiol. Mewn sawl ardal, mae awdurdodau lleol wedi sefydlu fforymau trwyddedu sy'n dwyn trigolion, deiliaid trwydded, awdurdodau cyfrifol fel yr heddlu ac eraill at ei gilydd i drafod a cheisio datrys materion trwyddedu. Mae gorfodi hefyd wedi elwa o'r dull yma o weithio mewn partneriaeth gyda thargedu gwell o fangreoedd problemus a gwell cydlynu a chydweithredu i gyfyngu ar weithgareddau'r lleiafrif o adwerthwyr anghyfrifol. Mae'r pwerau cau ac adolygu newydd yn gweithio.

Mae pobl leol yn dechrau arddangos gwell dealltwriaeth o'u hawliau i wrthwynebu a cheisio adolygiad ac maent yn dod yn fwy ymwybodol ac yn ymwneud fwyfwy â'r broses trwyddedu. Mae cyflwyniadau gan drigolion wedi arwain at osod amodau newydd ar filoedd o drwyddedau ac yn aml llwyddwyd i gyflawni hyn trwy gyflafareddu heb orfod mynd i wrandawiad ffurfiol.

Byddwn yn parhau i fonitro effaith Deddf 2003 ar drosedd ac anhrefn a'r amcanion trwyddedu eraill. Ni all y Ddeddf Trwyddedu ar ei phen ei hun ddarparu ateb i holl broblemau cymdeithas sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol. Mae'n rhaid iddi fod yn rhan o strategaeth ehangach i gyflawni gwell rheolaeth o'r economi gyda'r hwyr a gwell cydbwysedd rhwng hawliau a chyfrifoldebau pawb sy'n byw a gweithio ym mhob cymuned.

Rydym yn sylweddoli hefyd ein bod yn cychwyn ar daith hir tuag at y newid diwylliannol a fydd maes o law yn sylfaen i foderneiddio'r gyfraith.

Er mai cyngor gennyf i i'r awdurdodau trwyddedu yw'r fersiwn diwygiedig yma o'r Arweiniad, mae'n gynnyrch partneriaeth rhwng Llywodraeth ganol ac ystod eang o randdeiliaid yn cynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu, diwydiant, y sector gwirfoddol, mudiad y clybiau, cerddorion a pherfformwyr eraill, cynrychiolwyr y gymuned ac ymgynghoriad cyhoeddus ehangach. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd rhan ac edrychaf ymlaen at wneud rhagor o waith gyda'n gilydd er mwyn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

Yr wyf yn hyderus y bydd y fersiwn diwygiedig yma o'r Arweiniad yn annog lledaeniad arfer gorau ac yn gymorth i sicrhau hyd yn oed mwy o gysondeb mewn dulliau gweithredu ar draws awdurdodau trwyddedu.

Byddwn wrth gwrs yn parhau i fonitro effaith y Ddeddf ar yr amcanion trwyddedu ac os bydd angen, yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth bellach gyda chaniatâd y Senedd er mwyn cryfhau neu newid unrhyw ddarpariaethau.



**Tessa Jowell AS**
**Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**

# 1. Cyflwyniad

## DEDDF TRWYDDEDU 2003

1.1 Gellir gweld Deddf 2003, y nodiadau esboniadol cysylltiedig ag unrhyw offerynnau statudol a wnaethpwyd dan ei darpariaethau ar wefan OPSI www.opsi.gov.uk. Gellir gweld yr holl offerynnau statudol ar wefan DCMS hefyd www.culture.gov.uk.

- Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Darpariaethau trosiannol) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau personol) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Trwydded mangre a thystysgrif mangre clwb) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Cofrestr awdurdod trwyddedu) (gwybodaeth arall) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) (Newidiad) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (gweithgareddau Dros Dro a Ganiateir) (Hysbysiadau) 2005
- Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Ffioedd trosiadau trosiannol) 2005
- Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Ffioedd) (Newidiad) 2005

## NODAU AC AMCANION TRWYDDEDU

1.2 Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi ffocws clir ar hyrwyddo pedwar amcan statudol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy wrth gyflawni swyddogaethau trwyddedu:

**Yr amcanion trwyddedu**

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans i'r cyhoedd; a
- Diogelu plant rhag niwed.

1.3 Mae pob amcan yr un mor bwysig â'i gilydd. Mae'n bwysig nodi na cheir amcanion trwyddedu eraill, felly mae'r pedwar amcan hyn yn ystyriaethau o'r pwys mwyaf bob amser.

1.4 Ond mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cefnogi nifer o amcanion a dibenion allweddol eraill. Mae'r rhain yn hanfodol bwysig a dylent fod yn nodau pennaf ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â gwaith trwyddedu. Maent yn cynnwys:

- diogelu angenrheidiol trigolion lleol, y gall eu bywydau gael ei ddifetha gan aflonyddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad rhai pobl sy'n ymweld â lleoedd adloniant. ;
- cyflwyno rheoleiddio gwell a mwy cymesur i roi mwy o ryddid a hyblygrwydd i fusnesau i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid;
- mwy o ddewis i ddefnyddwyr, yn cynnwys twristiaid, ynglŷn â ble, pryd a sut y maent yn treulio eu hamser hamdden;
- annog mwy o fangreoedd sy'n gyfeillgar i deuluoedd lle mae plant iau yn rhydd i fynd allan gyda'r teulu;
- datblygiad pellach o fewn cymunedau o'n diwylliant cyfoethog o gerddoriaeth fyw, dawnsio a theatr, mewn ardaloedd gwledig ac yn ein trefi a'n dinasoedd; a'r
- adfywio, mewn ardaloedd y mae angen mwy o fuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth arnynt, y gall economi gyda'r nos ddiogel ei gyflwyno.

## YR ARWEINIAD.

1.5 Mae Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 ("Deddf 2003") yn darparu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi arweiniad i awdurdodau trwyddedu ynghylch y ffordd y cyflawnir eu swyddogaethau dan Ddeddf 2003, ac adolygu hwn o dro i dro.

### Diben

1.6 Darperir yr Arweiniad ar gyfer awdurdodau trwyddedu sy'n cyflawni eu swyddogaethau. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth ar gyfer ynadon sy'n clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau trwyddedu ac fe'i gwnaed ar gael yn eang er budd gweithredwyr mangreoedd wedi eu trwyddedu, eu cynghorwyr cyfreithiol a'r cyhoedd, Mae'n fecanwaith allweddol ar gyfer hyrwyddo arfer gorau, sicrhau gweithredu pwerau trwyddedu yn gyson ar draws y wlad ac ar gyfer hyrwyddo tegwch, triniaeth gyfartal a chymesuredd.

1.7 Yr heddlu yw prif orfodwyr cyfraith drwyddedu o hyd. Nid yw'r Arweiniad yn rhwymo swyddogion heddlu mewn unrhyw ffordd a byddant yn parhau i fod yn annibynnol yn weithredol, yn unol ag amodau gorchmynion yr heddlu a'r gyfraith. Fodd bynnag, darperir yr Arweiniad i gynorthwyo swyddogion heddlu i ddehongli a gweithredu Deddf 2003 trwy hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

### Statws cyfreithiol

**Ymysg pethau eraill, mae Adran 4 Deddf 2003 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod trwyddedu ystyried arweiniad a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan Adran 182 wrth gyflawni ei swyddogaethau. Felly, mae'r gofyniad hwn yn ymrwymo pob awdurdod trwyddedu i'r graddau hynny.**

**Fodd bynnag, cydnabyddir na all yr Arweiniad ragweld pob sefyllfa neu set o amgylchiadau posibl a allai godi, a chyn belled ag y bydd pobl yn deall ac yn ystyried yr Arweiniad yn gywir ac yn ofalus, gall awdurdodau trwyddedu wyro oddi wrtho os bydd ganddynt reswm dros wneud hynny. Pan fyddant yn gwneud hynny, bydd yn rhaid i awdurdodau trwyddedu roi rhesymau llawn dros eu gweithredoedd.**

**Gallai gwyro o'r Arweiniad arwain at apêl neu adolygiad barnwrol ac yna, bydd y rhesymau a roddir yn ystyriaeth allweddol i'r llysoedd wrth ystyried cyfreithlondeb a rhinweddau unrhyw benderfyniad a wneir.**

1.8 Ni ddylid cymryd unrhyw beth yn yr Arweiniad hwn fel arwydd y gellir diystyru unrhyw ofyniad yn y gyfraith drwyddedu neu unrhyw gyfraith arall (gan gynnwys yr ymrwymiadau i awdurdodau dan ddeddfwriaeth hawliau dynol). Nid yw'r Arweiniad yn disodli darpariaethau statudol Deddf 2003 mewn unrhyw ffordd nac yn ychwanegu i'w chwmpas a dylai awdurdodau trwyddedu nodi mai mater i'r llysoedd yw'r gwaith o ddehongli'r ddeddf. Rhaid i awdurdodau trwyddedu ac eraill sy'n defnyddio'r Arweiniad gael eu cyngor cyfreithiol a phroffesiynol eu hunain ynghylch ei weithredu.

## POLISÏAU TRWYDDEDU

1.9 Mae Adran 5 Deddf 2003 yn mynnu bod awdurdod trwyddedu yn paratoi ac yn cyhoeddi datganiad o'i bolisi trwyddedu bob tair blynedd. Rhaid cyhoeddi polisi o'r fath cyn i'r awdurdod gyflawni unrhyw swyddogaeth trwyddedu o ran ceisiadau a wneir dan amodau'r Ddeddf.

1.10 Fodd bynnag, mae gwneud datganiad yn swyddogaeth drwyddedu, ac o'r herwydd, rhaid i'r awdurdod ystyried arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol wrth lunio a chyhoeddi ei bolisi. Gall awdurdod trwyddedu wyro o'i bolisi ei hun os bydd yr amgylchiadau unigol mewn unrhyw achos yn teilyngu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Ond unwaith eto, mae'n bwysig iddynt roi rhesymau llawn dros wyro o'r datganiad polisi trwyddedu a gyhoeddwyd ganddynt. Lle cyhoeddir diwygiadau i'r Arweiniad yma gan yr Ysgrifennydd Gwladol, efallai y bydd cyfnod o amser pryd bydd y datganiad polisi lleol yn anghyson â'r Arweiniad, er enghraifft, yn ystod ymgynghori gan yr awdurdod trwyddedu. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai'r awdurdod trwyddedu ystyried, a rhoi pwyslais priodol ar yr Arweiniad a'i ddatganiad polisi trwyddedu ei hun.

## GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDADWY

1.11 At ddibenion y Ddeddf mae'r canlynol yn weithgareddau trwyddedadwy:

### Gweithgareddau trwyddedadwy

- Adwerthu alcohol;
- Cyflenwi alcohol trwy neu ar ran clwb i neu trwy archeb aelod o'r clwb;
- Darparu adloniant wedi ei reoleiddio; a
- Darparu lluniaeth yn hwyr y nos.

1.12 Ceir esboniad pellach o'r telerau hyn ym Mhennod 3.

## AWDURDODIADAU

1.13 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer pedwar awdurdodiad gwahanol, fel a ganlyn:

### Awdurdodiadau

- Trwyddedau personol- i werthu neu gyflenwi alcohol a/neu awdurdodi'r gwerthiant/cyflenwad.
- Trwyddedau Mangre – i ddefnyddio mangre ar gyfer gweithredoedd trwyddedadwy
- Tystysgrifau Mangre Clwb – i alluogi clwb cymhwysol i gymryd rhan mewn gweithgareddau clwb cymhwysol fel y nodir yn Adran 1 y Ddeddf
- Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro – i gynnal gweithgareddau trwyddedadwy mewn digwyddiad dros dro

## EGWYDDORION CYFFREDINOL

1.14 Os gwnaed cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn gyfreithlon ac na chafwyd unrhyw gynrychioliadau gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi'r cais, yn amodol yn unig ar amodau sy'n gyson â'r atodlen weithredu a'r amodau gorfodol perthnasol.

## Pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun

1.15 Dylid ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun ac mae'n rhaid teilwra unrhyw amodau ar drwyddedau a thystysgrifau i arddull a nodweddion unigol y fangre a'r digwyddiadau dan sylw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi gosod amodau anghymesur a rhy feichus ar fangre pan na fydd angen amodau o'r fath. Dylid osgoi amodau wedi'u safoni ac yn wir, efallai eu bod yn anghyfreithlon pan na ellir dangos bod hyn yn angenrheidiol i hyrwyddo amcanion trwyddedu mewn unrhyw achos unigol.

## Osgoi dyblygu gofynion cyfreithiol eraill

1.16 Dylai'r awdurdod trwyddedu ond gosod amodau ar drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb sy'n angenrheidiol ac yn gymesur i'r amcanion trwyddedu. Os yw cyfraith arall sydd eisoes yn bodoli yn rhoi cyfrifoldebau statudol penodol ar gyflogwr neu weithredwr mangre, ni all fod yn angenrheidiol gosod yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg ar ddeiliad y drwydded mangre neu'r clwb. Dim ond lle mae mesurau ychwanegol ac atodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn angenrheidiol, y bydd angen cysylltu amodau cymesur i drwydded.

## Oriau agor

1.17 Mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf mai amserau cau sefydlog ac artiffisial o gynnar (a sefydlwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 1964) oedd un o brif achosion yfed gormod a meddwi cyn amser cau cyn cyflwyno Deddf Trwyddedu 2003; ac un o achosion anhrefn ac aflonyddu pan oedd yn ofynnol i nifer fawr o gwsmeriaid adael mangre ar yr un pryd.

1.18 Y nod trwy hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ddylai fod i leihau'r potensial ar gyfer crynodiadau a chyflawni gwasgariad arafach o bobl o fangreoedd trwyddedig trwy oriau agor hyblyg. Dylid felly osgoi cyfyngiadau gormesol a fyddai'n tanseilio egwyddor hyblygrwydd.

1.19 Dylai'r pedwar amcan trwyddedu fod yn brif ystyriaethau bob amser a dylai awdurdodau trwyddedu ystyried teilyngdod unigol achos ar bob adeg.

## Gweithio mewn partneriaeth

1.20 Un ffordd yn unig o gyflwyno'r amcanion a ddisgrifir yw'r swyddogaethau trwyddedadwy o dan y Ddeddf. Gallant wneud cyfraniad arwyddocaol mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig, ond nid ydynt yn ateb i bob problem gymunedol.

1.21 Dylai awdurdodau trwyddedu weithio gyda'r holl bartneriaid i gyflwyno'r amcanion trwyddedu, yn cynnwys awdurdodau cyfrifol, y masnach trwyddedig, pobl a busnesau lleol, rheolwyr canol tref, Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn, perfformwyr ac awdurdodau a gweithredwyr cludiant lleol. Er enghraifft, efallai y bydd busnesau lleol ac awdurdodau lleol yn datblygu Ardal Gwella Busnes, trefniant partneriaeth i ddwyn ymlaen cynlluniau sydd o fudd i gymuned ardal arbennig, yn amodol ar gytundeb talwyr trethi busnes.

1.22 Yn arbennig, pwysleisir bod gan y sector preifat, trigolion lleol a grwpiau cymunedol rôl yr un mor hanfodol mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell yn gryf bod awdurdodau trwyddedu yn ffurfio grwpiau a fforymau cyswllt trwyddedu sy'n cynnull yr holl rai sydd â diddordeb at ei gilydd yn rheolaidd i fonitro datblygiadau a chynnig atebion posibl i unrhyw broblemau sy'n codi. Yn ogystal, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylai pob awdurdod trwyddedu gynnal cyfarfodydd agored rheolaidd gan roi llawer o gyhoeddusrwydd iddynt, lle y gall pobl a busnesau lleol fynegi eu teimladau ynghylch pa mor dda y bodlonir yr amcanion trwyddedu.

## DEDDFWRIAETH A STRATEGAETHAU PERTHNASOL

1.23 Mae'r Ddeddf Drwyddedu yn rhan o strategaeth ehangach gan y Llywodraeth i fynd i'r afael â throsedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau niwed alcohol. Dylai awdurdodau trwyddedu ddatblygu strategaethau effeithiol gyda'r heddlu i reoli'r economi nos. Yn ganolog i hyn fyddai gorfodi'r gyfraith ynghylch gwerthu alcohol i bobl feddw a than oed a medd-dod neu anhrefn yn y fangre. Dylai gorfodaeth wedi'i thargedu fel hyn, yn unol ag argymhellion Adroddiad 'Hampton'[1] gael effaith gadarnhaol ar gyffiniau'r fangre trwyddedig dan sylw.

1.24 Mae gan awdurdodau lleol hefyd y pŵer o dan adran 13 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001 i lunio 'gorchymyn man cyhoeddus dynodedig' (DPPO) i reoli yfed alcohol mewn man cyhoeddus y tu allan i fangre trwyddedig.

1.25 Ar ben hyn nid oes dim i atal yr heddlu, awdurdodau trwyddedu a'r diwydiant croesawiaeth i gyrraedd cytundeb ynglŷn ag arfer gorau lle mae problemau yn debygol o godi.

1.26 Nid cyfraith trwyddedu yw'r prif ddull ar gyfer rheolaeth gyffredinol unigolion unwaith y maent oddi ar y fangre trwyddedig ac felly y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y deiliaid trwydded neu'r deiliaid tystysgrif. Fodd bynnag, fe ddylai deiliaid trwydded a deiliaid tystysgrif gymryd camau rhesymol i atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus yn union y tu allan i'w mangre, er enghraifft ar y palmant, mewn gardd gwrw, neu (unwaith y daw'r gwaharddiad ysmygu i rym) mewn cysgodfan ysmygu, i'r graddau y mae'r materion hyn o fewn eu rheolaeth.

1.27 Yn ychwanegol i hyn, wrth ystyried trwydded mangre newydd neu yn dilyn adolygiadau sydd wedi nodi problemau gyda mangre benodol, fe all awdurdodau trwyddedu ystyried gosod amodau fel sy'n briodol, megis atal cwsmeriaid rhag cymryd cynhwysyddion agored y tu allan i'r fangre neu osod camerâu cylch caeedig. Fodd bynnag, ni ddylai unrhyw amodau a osodir fod yn ddyheadol a rhaid iddynt fod o fewn rheolaeth deiliad y drwydded. Er enghraifft, mewn achos lle mae amod yn ei gwneud yn ofynnol i fangre fabwysiadu polisi gwasgaru penodol, ond lle nad yw deiliad trwydded yn gallu gorfodi cwsmeriaid i lynu wrth amod o'r fath.

1 'Reducing administrative burdens: effective inspection and enforcement' gan Phillip Hampton, Mawrth 2003

## Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

1.28 Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gyflawni eu rhwymedigaethau o dan adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 wrth gyflawni eu swyddogaethau fel awdurdodau trwyddedu o dan Ddeddf 2003.

1.29 Nod Adran 17 yw rhoi ffocws i'r gwaith hanfodol o leihau trosedd ac anhrefn ar draws ystod eang gwasanaethau lleol a'i roi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau'n lleol. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol penodol, yn cynnwys awdurdodau lleol ac awdurdodau'r heddlu a thân i wneud popeth sy'n rhesymol iddynt ei wneud i atal trosedd ac anhrefn yn eu hardal.

1.30 Cred y Llywodraeth y dylai awdurdodau trwyddedu, fel arfer da, gynnwys Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn (CDRPau) wrth wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod datganiadau polisi trwyddedu yn cynnwys strategaethau effeithiol a'u bod yn ystyried goblygiadau trosedd ac anhrefn yn llawn.

## Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol

1.31 Dylai awdurdodau trwyddedu ymgyfarwyddo a Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol y Llywodraeth. Yn Lloegr y strategaeth hon yw *Safe. Sensible. Social. The next steps in the National Alcohol Strategy* a gyhoeddwyd ym Mehefin 2007 ac yng Nghymru cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol *Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru:* Y *Dull Partneriaeth* ym Medi 2000, sy'n cael ei datblygu ymhellach ar hyn o bryd. Dylai awdurdodau trwyddedu sicrhau bod eu polisïau trwyddedu yn cydweddu â'r strategaeth berthnasol a mesurau dilynol, lle maent yn helpu i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

## Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

1.32 Mae angen i awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o'r pwerau newydd a fydd ar gael i awdurdodau lleol o dan adrannau 40 a 41 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Os bydd y sŵn o unrhyw fangre trwyddedig yn peri niwsans i'r cyhoedd, mae'r Ddeddf yn darparu y byddai gan swyddog iechyd yr amgylchedd y pŵer i gyhoeddi gorchymyn cau yn ei gylch a fyddai'n effeithiol am hyd at 24 awr. Dan y ddarpariaeth hon, bydd Prif Weithredwr yr awdurdod lleol yn dirprwyo ei bŵer neu ei phŵer i swyddogion iechyd yr amgylchedd yn ei awdurdod neu ei hawdurdod. Os bydd y fangre yn aros ar agor ar ôl rhoi gorchymyn cau, gall yr un sy'n gyfrifol gael dirwy o hyd at £20, 000 ar gollfarn ddiannod neu eu carcharu am gyfnod o hyd at dri mis, neu'r ddau. Bydd hyn yn cydweddu â phwerau'r heddlu o dan Rhan 8 o Ddeddf 2003 i gau mangre drwyddedig am gyfnodau dros dro.

## Deddf Lleihau Troseddu Treisgar

1.33 Cafodd Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Tachwedd 2006.Mae'r Ddeddf yn cyflwyno mesurau newydd i sicrhau bod gan yr heddlu a chymunedau lleol y grymoedd sydd eu hangen arnynt i ddelio â drylliau, cyllyll a thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r mesurau perthnasol yn cynnwys:

– (o 3 Mai 2007) newid i'r Ddeddf Trwyddedu i gyflwyno trosedd newydd o werthu alcohol i blant yn barhaus. Cyflawnir y drosedd os, ar dri achlysur gwahanol mewn cyfnod o dri mis dilynol, y bydd alcohol yn cael ei werthu'n anghyfreithlon i blentyn yn yr un fangre

– pwerau newydd i awdurdodau lleol a'r heddlu i ddynodi Ardaloedd Anhrefn Alcohol (ADZau) fel cam olaf i ddelio â throsedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd dynodi ardal fel ADZ yn galluogi awdurdodau lleol i godi tâl ar ddeiliaid trwydded am weithgaredd gorfodi ychwanegol sy'n effeithio ar bob mangre trwyddedig o fewn yr ardal. Y dyddiad cychwyn cynharaf ar gyfer ADZau yw 1 Hydref 2007.Unwaith y bydd y drefn hon ar waith bydd arweiniad a rheoliadau perthnasol yn cael eu gosod ar wefan y Swyddfa Gartref (www.homeoffice.gov.uk).

– newid i'r Ddeddf Trwyddedu fydd yn galluogi awdurdodau trwyddedu, trwy wneud cais i uwch swyddog heddlu mewn achosion o drosedd ac anhrefn difrifol, i osod amodau dros dro i drwyddedau cyn cynnal adolygiad llawn. Y dyddiad cychwyn cynharaf ar gyfer y pwerau hyn yw 1 Hydref 2007.

## Cod Arfer GorauTSI/LACORS ynghylch Prynu Prawf

1.34 Yn ogystal, dylai awdurdodau trwyddedu ymgyfarwyddo â Chod Arfer Gorau LACORS a Sefydliad Safonau Masnachu (TSI) ynghylch Prynu Prawf i'r graddau y mae'n ymwneud â gweithgarwch prynu alcohol at ddibenion prawf gan swyddogion safonau masnachu. Mae LACORS yn parhau i gyflawni rôl gydlynu bwysig wrth gynghori a hysbysu awdurdodau trwyddedu ynghylch gofynion Deddf 2003 a'r cyfnod trosiannol. Gellir troi at wefan LACORS sef www.lacors.gov.uk.

1.35 Ceir manylion unrhyw fentrau perthnasol eraill y diwydiant yn Atodiad E.

## Deddf Iechyd 2006 – gwahardd ysmygu yn y gweithle

1.36 Bydd y gwaharddiad ar ysmygu mewn gweithleoedd caeedig a mannau cyhoeddus yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2007. Bydd y gwaharddiad yn cynnwys ysmygu mewn tafarnau, tai bwyta a chlybiau aelodau lle cyflogir staff bar neu staff eraill. Yn y cyswllt hwn ystyr 'caeedig' fydd unrhyw fan lle mae mwy na 50% o ofod muriau a nenfydau wedi'i fewnlenwi.

## Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005

1.37 Mae'r Ddeddf yma yn rhoi pŵer ychwanegol i awdurdodau lleol i gyhoeddi rhybudd cosb sefydlog i unrhyw fangre trwyddedig y mae ei sŵn yn uwch na'r lefel a ganiateir rhwng 11 yr hwyr a 7 y bore.

# 2. Yr Amcanion Trwyddedu

## TROSEDD AC ANHREFN

2.1 Mae'r camau y gall unrhyw ddeiliad trwydded neu glwb eu cymryd i atal trosedd ac anhrefn yn amrywio gymaint â'r mangreoedd neu'r clybiau lle gellir cynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy. Dylai awdurdodau trwyddedu felly ystyried yr heddlu fel y prif ffynhonnell cyngor ar y materion hyn. Dylent hefyd geisio cynnwys y CDRP lleol, fel yr argymhellir ym mharagraff 1.21 o'r Arweiniad hwn.

2.2 Disgwyliad y Llywodraeth yw y bydd gan yr heddlu rôl allweddol yn ymgymryd â'r tasgau canlynol:

- datblygu perthynas waith adeiladol gyda swyddogion trwyddedu awdurdod trwyddedu a chyrff fel adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, y Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant neu gorff cymwys arall;
- datblygu perthynas waith adeiladol gyda goruchwylwyr mangreoedd penodedig a rheolwyr eraill mangreoedd, yn cynnwys mangreoedd sy'n darparu lluniaeth yn hwyr y nos;
- cynghori, lle bod angen, ar ddatblygiad polisi cyffuriau lleoliad;
- gweithio gyda pherchnogion a rheolwyr lleoliad i ddatrys problemau'n ymwneud â chyffuriau a phroblemau anhrefn, medd-dod ac ymddygiad gwrth gymdeithasol; a
- chytuno ar y protocolau ar gyfer camau a gymerir gan oruchwylwyr drysau mewn perthynas â chyffuriau anghyfreithlon neu ymddygiad treisgar, yn enwedig pan ddylid galw swyddogion yr heddlu ar unwaith;
- cynghori ar a chymeradwyo gweithdrefnau chwilio a'r gweithdrefnau storio ar gyfer cyffuriau wedi eu hatafael;
- casglu a rhannu gwybodaeth am ddelio a defnyddio cyffuriau gyda sefydliadau partner a lleoliadau lleol;
- cynghori ar osod a monitro dyfeisiadau diogelwch fel Teledu Cylch Cyfyng;
- cynghori ar ddarparu cludiant diogel adref mewn ymgynghoriad â chydweithwyr diogelwch cymunedol, awdurdodau cludiant lleol a gweithredwyr cludiant;
- gweithio gyda pherchnogion a rheolwyr lleoliad i ddatrys problemau'n ymwneud â chyffuriau a phroblemau anhrefn, meddwdod ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- chynghori ar amddiffyn cyflogeion mewn mangreoedd trwyddedig y gellir eu targedu gydag ymosodiadau a dialedd.

2.3 Mae Awdurdod y Diwydiant Diogelwch hefyd yn chwarae rôl bwysig mewn atal trosedd ac anhrefn trwy sicrhau bod goruchwylwyr drysau yn meddu trwydded briodol ac, mewn partneriaeth â'r heddlu ag asiantaethau eraill, yn sicrhau nad yw cwmnïau diogelwch yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgaredd troseddol difrifol a threfnedig a bod goruchwylwyr drysau yn meddu trwyddedau priodol. Fe allai hynny gynnwys gwneud ymholiadau penodol neu ymweld â mangre trwy weithrediadau ar sail gwybodaeth ar y cyd â'r heddlu, awdurdodau lleol ac asiantaethau partner eraill. Wrth weithredu eu swyddogaethau dylai awdurdodau trwyddedu geisio cydweithredu â'r SIA cyn belled â phosib ac ystyried ychwanegu amodau perthnasol i drwyddedau yn ôl yr angen a lle mae hynny'n briodol.

2.4 Diben hanfodol y drwydded neu'r dystysgrif yn y cyd-destun hwn yw i reoleiddio ymddygiad mewn mangreoedd a mynediad iddynt lle mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy a'r amcanion trwyddedu. Ni all amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau geisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid unwaith y maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded a'u staff neu asiantau, ond gallant gael effaith uniongyrchol ar ymddygiad cwsmeriaid yn, neu yng nghyffiniau, y fangre wrth iddynt geisio dod i mewn neu adael.

2.5 Ni ddylai amodau trwydded ddyblygu troseddau trwyddedu a nodir yn Neddf 2003. Er enghraifft, byddai amod sy'n nodi na fydd deiliad trwydded yn caniatáu meddwdod ac ymddygiad afreolus yn ei fangre yn ddiangen am ei bod eisoes yn drosedd. Byddai amod sy'n nodi na fydd deiliad trwydded yn caniatáu gwerthu cyffuriau rheoledig yn ddiangen yn yr un modd.

2.6 Mae'n well targedu amodau ar ataliaeth ac atal trosedd ac anhrefn. Er enghraifft, lle mae rheswm da dros dybio y gallai anhrefn ddigwydd, gall presenoldeb camerâu teledu cylch cyfyng y tu mewn ac yn union y tu allan i'r fangre atal anhrefn, ymddygiad niwsans a gwrth gymdeithasol a throseddu yn gyffredinol. Efallai y bydd rhai deiliaid trwydded yn dymuno cael y fath gamerâu yn eu mangreoedd i ddiogelu eu staff eu hunain ac i atal troseddu wedi ei anelu at y busnes ei hun neu ei gwsmeriaid. Ond gall fod angen ymagwedd ehangach ar unrhyw amod, a gall fod yn angenrheidiol sicrhau bod union leoliad camerâu yn cael ei nodi ar gynlluniau i sicrhau bod ardaloedd penodol yn cael eu cynnwys yn iawn ac nad oes unrhyw ddadl ddilynol ynghylch telerau'r amod.

2.7 Yn yr un modd, gall fod angen darparu gofynion ar gyfer goruchwylio drysau i sicrhau nad yw pobl sy'n feddw neu'n delio cyffuriau neu'n cario gynnau yn dod i mewn i'r fangre, gan leihau'r potensial ar gyfer trosedd ac anhrefn, ac yr hysbysir yr heddlu.

2.8 Mae galwyr testun a radio yn galluogi deiliaid trwydded mangre, goruchwylwyr penodedig a rheolwyr mangreoedd a chlybiau i gyfathrebu ar unwaith â'r heddlu lleol a hwyluso ymateb cyflym i unrhyw anhrefn a all fod yn peryglu'r cwsmeriaid a'r staff yn y fangre.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylid ystyried galwyr testun neu radio yn amodau angenrheidiol priodol ar gyfer tai cyhoeddus, tafarnau a chlybiau nos sy'n gweithredu mewn ardaloedd hamdden dinasoedd a threfi sydd â nifer fawr o fangreoedd trwyddedig.

2.9 Bydd rhai amodau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar atal trosedd ac anhrefn hefyd yn hyrwyddo amcanion trwyddedu eraill. Er enghraifft, efallai bydd angen amod yn gofyn bod yr holl wydrau a ddefnyddir yn y fangre i werthu diodydd alcoholaidd wedi eu gwneud o blastig neu wydr wedi ei gryfhau neu efallai bydd angen peidio â chaniatáu poteli ar draws bar i atal trais trwy wrthod arfau addas i ymosodwyr, ond gall hefyd fod o fudd i ddiogelwch cymunedol trwy leihau'r niwed a achosir i ddioddefwyr pan fydd ymosodiadau o'r fath yn digwydd (er enghraifft, niwed i'r wyneb oherwydd gwydr wedi torri).

2.10 Mae'n rhaid hefyd gallu bodloni amod. Er enghraifft, efallai fod gwydrau cwrw ar gael mewn gwydr wedi ei gryfhau ond efallai nad oes gwydrau gwin ar gael. Dylai awdurdodau trwyddedu ystyried amodau o'r math hyn yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod nid yn unig yn angenrheidiol ond yn ymarferol ac y gellir eu cyflawni.

2.11 Yn yr un modd, er y'i gwneir yn amod trwydded ar sail diogelwch y cyhoedd gan amlaf, dylai awdurdodau trwyddedu hefyd ystyried amodau sy'n gosod terfynau gallu ar gyfer mangreoedd neu glybiau trwyddedig lle gall fod yn angenrheidiol atal gorboblogi a all arwain at anhrefn a thrais. Lle ystyrir amod o'r fath yn angenrheidiol, dylai'r awdurdod trwyddedu ystyried a oes angen goruchwylwyr wrth y drws i reoli'r niferoedd.

2.12 Yng nghyd-destun trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd, gall cadw trefn ar fangre lle mae nifer fawr iawn o bobl a lle mae alcohol yn cael ei gyflenwi i'w yfed achosi pryderon mawr ynghylch gallu'r tîm rheoli sy'n gyfrifol am gynnal trefn. Fe allai hyn ddigwydd, er enghraifft, mewn mangre lle ceir nifer fawr o bobl a lle cyflenwir alcohol i'w yfed, neu mewn mangre lle ceir problemau trefn gyhoeddus.

2.13 Goruchwyliwr dynodedig y fangre yw'r person allweddol a fydd fel arfer wedi ei ddirprwyo gan ddeiliad y drwydded i reoli'r fangre o ddydd i ddydd, yn cynnwys atal anhrefn. Fodd bynnag, ni ddylai amodau yn gysylltiedig â gallu rheoli goruchwylwyr penodedig mangreoedd fel arfer fod yn gysylltiedig â thrwyddedau mangreoedd. Gellid ond cyfiawnhau amod o'r math hwn mewn amgylchiadau prin lle y gellid dangos yn yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r fangre benodol, y gallai gallu rheoli gwael achosi problemau trosedd ac anhrefn a diogelwch y cyhoedd.

2.14 Cyfrifoldeb deiliad trwydded y fangre fel cyflogwr, ac nid yr awdurdod trwyddedu fel arfer, bydd sicrhau bod y rheolwyr sy'n cael eu penodi yn y mangreoedd yn gymwys ac wedi eu hyfforddi'n briodol ac mae'n rhaid i'r awdurdodau trwyddedu sicrhau nad ydynt yn crwydro y tu hwnt i'w pwerau a'u dyletswyddau o dan Ddeddf 2003. Mae hyn yn bwysig i sicrhau hygludedd y drwydded bersonol ac mae'r troseddau a nodir yn Neddf 2003 yn sicrhau, er enghraifft, bod atal anhrefn yn ffocws cryf ar gyfer pob rheolwr, deiliad trwydded a chlwb o'r fath.

2.15 Gall cyfathrebu rhwng rheolwyr y fangre a'r heddlu hefyd fod yn hanfodol i atal trosedd ac anhrefn. Gall cyfranogiad gweithredwyr a rheolwyr mewn cynlluniau a mentrau gwirfoddol fod yn arbennig o werthfawr. Gall amodau yn gofyn am gysylltiadau testun neu alwyr wedi eu neilltuo rhwng timau rheoli a gorsafoedd lleol yr heddlu roi rhybudd cynnar o anhrefn a hefyd gellir eu defnyddio i hysbysu deiliaid trwydded eraill bod problem wedi codi yn yr ardal yn gyffredinol. Er enghraifft, lle mae gang o ieuenctid yn achosi problemau mewn un tŷ cyhoeddus a bod eu taflu allan ond yn golygu eu bod yn mynd rhywle arall i achosi problemau mewn mangreoedd eraill, mae mantais mewn cysylltiadau cyfathrebu rhwng yr heddlu a mangreoedd a chlybiau trwyddedig eraill.

2.16 Fodd bynnag, er y gall hyn fod yn angenrheidiol ac yn effeithiol mewn rhannau penodol o ardaloedd awdurdod trwyddedu, gall fod yn llai effeithiol neu hyd yn oed yn ddiangen mewn eraill. Dylid rhoi pwysau sylweddol i farn yr heddlu am faterion o'r fath ac mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu gofio mai dim ond amodau angenrheidiol, sydd o fewn rheolaeth deiliad trwydded neu glwb, y gellir eu gosod.

2.17 Mae Deddf Arddangosfeydd Anweddus 1981 yn gwahardd arddangos deunydd anweddus yn gyhoeddus, yn amodol ar rai eithriadau. Ni ddylai felly fod yn angenrheidiol i unrhyw amodau fod yn gysylltiedig â thrwyddedau neu dystysgrifau yn ymwneud ag arddangosiadau o'r fath mewn neu tu allan i'r fangre gysylltiedig. Er enghraifft, caiff arddangos deunydd hysbysebu y tu mewn neu yn union y tu allan i fangre o'r fath ei reoleiddio gan y ddeddfwriaeth hon. Yn yr un modd, er y gall amodau'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd o ran dawnsio fod yn angenrheidiol mewn amgylchiadau penodol, mae'r gyfraith sy'n llywodraethu anwedduster ac afledneisrwydd yn ddigonol i reoli adloniant oedolion yn ymwneud â stripio a dawnswyr côl sy'n mynd

y tu hwnt i'r hyn sy'n gyfreithlon. Yn unol â hynny, ni ellid cyfiawnhau amodau'n ymwneud â chynnwys y fath adloniant nad yw'n berthnasol i drosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, niwsans cyhoeddus neu amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn, fodd bynnag, dylid nodi ei fod er mwyn i amodau'n ymwneud ag eithrio plant bach neu ddiogelwch perfformwyr gael ei gynnwys yn amodau trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb lle bod angen. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 cyhyd â bod ei ddarpariaethau mabwysiadol yn ymwneud â sefydliadau rhyw – siopau rhyw, sinemâu rhyw yn Llundain a sefydliadau cyswllt rhyw – hefyd yn dal mewn gweithrediad.

2.18 Bellach gellir gweld arweiniad ar bwerau'r heddlu i gau mangre (yn flaenorol Pennod 11 yr Arweiniad hwn) arwefan DCMS yn www.culture.gov.uk.

## DIOGELWCH Y CYHOEDD

2.19 Dylai awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol nodi bod amcan diogelwch y cyhoedd yn ymwneud â diogelwch corfforol pobl sy'n defnyddio'r mangreoedd perthnasol ac nid â iechyd y cyhoedd, sy'n cael ei drin mewn deddfwriaeth arall. Bydd adegau, wrth gwrs, lle na ddylai fod yn ddiben yr amod am y byddai hyn y tu hwnt i awdurdod Deddf 2003. Yn unol â hynny, ni ddylid gosod amodau ar drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb sy'n ymwneud â glendid neu hylendid. Yn ogystal, ni ddylid gwneud unrhyw ymgais i ddefnyddio amod trwyddedu i wahardd smygu yn sgil iechyd neu ddymuniad. Mae'r rhain yn faterion ar gyfer deddfwriaeth arall a chodau ymarfer gwirfoddol a dylid osgoi dyblygu.

2.20 O 1 Hydref 2006 disodlodd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ddeddfwriaeth diogelwch tân flaenorol. Yn yr un modd bydd unrhyw dystysgrif tân a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Rhagofalon Tân 1971 wedi peidio â bod mewn grym. Dylai awdurdodau trwyddedu nodi o dan adran 43 Gorchymyn Diogelwch Tân nad oes gan unrhyw amodau a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu sy'n ymwneud ag unrhyw ofynion neu waharddiadau sydd wedi neu y gellid eu gosod gan y Gorchymyn unrhyw rym. Golyga hyn na ddylai awdurdodau trwyddedu geisio gosod amodau diogelwch tân lle mae'r Gorchymyn yn berthnasol.

2.21 Yr eithriad i hyn fydd achosion lle mae yr un corff yw'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdod gorfodi ar gyfer y gorchymyn diogelwch tân. Er enghraifft meysydd chwaraeon ac eisteddleoedd lle mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gorchymyn diogelwch tân. Mewn amgylchiadau o'r fath ni ddylid pennu amodau diogelwch tân mewn trwyddedau newydd, ond bydd amodau mewn trwyddedau presennol yn parhau mewn grym a gellir eu gweithredu gan yr awdurdod trwyddedu.

2.22 Mae'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'n cynnwys 'rhagofalon tân cyffredinol' a dyletswyddau diogelwch tân eraill y mae eu hangen i ddiogelu 'personau perthnasol' yn achos tân yn 'y rhan fwyaf o fangreoedd' ac o amgylch iddynt. Mae'r Gorchymyn yn gofyn bod rhagofalon tân yn cael eu sefydlu 'lle bo angen' ac i'r graddau sy'n rhesymol ac yn ymarferol yn amgylchiadau'r achos.

2.23 Cyfrifoldeb y 'person cyfrifol' yw cydymffurfio â'r Gorchymyn, a gall hwn fod yn gyflogwr, neu unrhyw berson neu bobl eraill sy'n rheoli'r eiddo. Mae'n rhaid i bob person cyfrifol gynnal asesiad perygl tân y mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ar ddiogelwch yn achos tân ar gyfer yr holl

'bersonau perthnasol'. Bwriad yr asesiad perygl tân yw nodi peryglon y gellir eu dileu neu eu lleihau a phenderfynu ar natur a graddau'r rhagofalon tân cyffredinol y mae angen eu cymryd yn cynnwys, lle bo'r angen, cyfyngiadau uchafswm niferoedd.

2.24 Bydd yr awdurdod tân ac achub lleol yn gorfodi'r Gorchymyn yn y rhan fwyaf o fangreoedd ac mae ganddynt y pŵer i archwilio'r fangre i sicrhau bod y person cyfrifol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau yn unol â'r Gorchymyn. Byddant yn chwilio am dystiolaeth bod y person cyfrifol wedi gwneud asesiad perygl tân addas ac wedi gweithredu ar ganfyddiadau arwyddocaol yr asesiad hwnnw. Os nad yw'r awdurdod sy'n gorfodi yn fodlon â chanlyniad yr asesiad perygl tân neu'r camau a gymerwyd, gallant gyhoeddi hysbysiad gorfodi sy'n gofyn bod y person cyfrifol yn gwneud gwelliannau penodol neu, mewn achosion eithriadol, gallant gyhoeddi hysbysiad gwahardd sy'n cyfyngu'r defnydd o'r holl fangre neu rannau ohoni nes bod y gwelliannau wedi eu gwneud.

2.25 Mae mwy o wybodaeth ac arweiniad ar y Gorchymyn a deddfwriaeth diogelwch tân ar gael ar wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol www.communities.gov.uk/fire

2.26 Lle mae gofyniad mewn deddfwriaeth arall i fangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd neu i gyflogwyr feddu ar dystysgrifau yn tystio i ddiogelwch neu natur foddhaol offer neu osodiadau penodol yn y fangre, ni fyddai'n angenrheidiol i amod trwyddedu ofyn am feddu ar dystysgrif o'r fath. Fodd bynnag, gellid caniatáu gofyn, fel amod trwydded neu dystysgrif, os oes angen, bod gwiriadau ar offer o'r fath yn cael eu cynnal ar amodau penodedig a bod tystiolaeth o'r fath wiriadau'n cael ei chadw gan ddeiliad trwydded y fangre neu'r clwb ar yr amod nad yw hyn yn dyblygu neu'n gorchuddio gofyniad mewn deddfwriaeth arall. Yn yr un modd, gellid caniatáu awdurdodau trwyddedu, os ydynt yn derbyn cynrychioliadau perthnasol gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb, i gynnwys amodau sy'n gofyn am offer o safonau penodol i gael eu cynnal a'u cadw yn y fangre. Dylai awdurdodau cyfrifol – fel awdurdodau iechyd a diogelwch – felly egluro eu disgwyliadau mewn enghreifftiau o'r fath i alluogi deiliaid trwyddedau neu glybiau arfaethedig i baratoi atodlenni gweithredu effeithiol ac atodlenni gweithredu clwb.

2.27 Dylid gosod "uchafswm diogel" ond lle bod angen ar gyfer hybu diogelwch y cyhoedd neu atal anhrefn yn y fangre berthnasol. Er enghraifft, os yw uchafswm wedi ei osod trwy ddeddfwriaeth arall, ni fyddai angen ei atgynhyrchu mewn trwydded mangre. Yn wir, byddai'n anghywir gosod amodau sy'n gwrthdaro â gofynion cyfreithiol eraill. Fodd bynnag, os nad oes unrhyw uchafswm diogel wedi ei osod trwy ddeddfwriaeth arall, gall yr awdurdod tân ystyried ei fod yn angenrheidiol gosod uchafswm newydd i'r fangre a fyddai'n berthnasol ar unrhyw adeg faterol pan fod gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd a gwneud sylwadau i'r perwyl hwnnw. Wrth ystyried y sylwadau, dylai awdurdodau trwyddedu roi pwysau penodol i'r rheiny a wnaed gan yr awdurdod tân mewn amgylchiadau o'r fath. Gall uchafsymiau fod yn angenrheidiol mewn amgylchiadau penodol i osgoi anhrefn, oherwydd gall lleoliadau wedi eu gorboblogi gynyddu'r perygl o anhrefn wrth i dyrfaoedd deimlo'n rhwystredig ac yn elyniaethus.

2.28 Fel nodwyd uchod, ni ddylid pennu uchafswm niferoedd fel amod trwydded ar sail diogelwch tân (oni bai, am resymau diogelwch tân, mai yr un awdurdod yw'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdod gorfodi) oherwydd, o dan erthygl 43 y Gorchymyn Diogelwch Tân, ni fyddai'n cael unrhyw effaith ac felly ni ellid ei weithredu.

2.29 Mae'r darpariaethau arbennig a wnaed ar gyfer dawnsio, cerddoriaeth wedi ei mwyhau a heb ei mwyhau yn adran 177 Deddf 2003 ond yn berthnasol i fangre ag "uchafswm a ganiateir" heb fod yn fwy na 200 o bobl. Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid cael uchafswm lle mae'r awdurdod tân wedi gwneud argymhelliad ar uchafswm y fangre o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân. Yn yr achos cyntaf, unrhyw gais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb ar gyfer mangre heb uchafswm presennol wedi ei ganiatáu lle mae'r ymgeisydd yn dymuno manteisio ar y darpariaethau arbennig a nodir yn adran 177 Deddf 2003, dylai'r ymgeisydd gynnal eu hasesiad risg eu hunain ynglŷn ag uchafswm priodol y fangre. Dylent anfon eu hargymhelliad i'r awdurdod tân a fydd yn ei ystyried ac yna'n penderfynu beth ddylai'r "uchafswm a ganiateir" fod ar gyfer y fangre honno.

2.30 Er nad yw Rheoliadau Sinematograff (Diogelwch) 1955 (S. I 1995/1129) a oedd yn cynnwys nifer arwyddocaol o reoliadau yn ymwneud â darpariaeth diogelwch tân mewn sinemâu, yn berthnasol mwyach, bydd ymgeiswyr sy'n manteisio ar y "hawliau taid" yn unol ag Atodlen 8 Deddf 2003 Act wedi bod yn destun amodau sy'n ailddatgan y rheoliadau hynny yn eu trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb newydd. Byddai angen i unrhyw ddeiliaid trwydded wedi ei thrawsnewid sy'n ceisio dileu'r amodau hyn a lleihau'r baich rheoliadol arnynt (i'r graddau y gellir gwneud hynny tra'n dal i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu), wneud cais i amrywio eu trwyddedau neu dystysgrifau wedi eu trawsnewid. Wrth ystyried y fath geisiadau amrywio neu geisiadau ar gyfer trwyddedau newydd, dylai awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol gydnabod yr angen i gamau gael eu cymryd i sicrhau diogelwch y cyhoedd mewn mangreoedd o'r fath yn absenoldeb Rheoliadau 1955.

2.31 Mae diogelwch y cyhoedd yn cynnwys diogelwch perfformwyr sy'n ymddangos mewn unrhyw fangre.

## NIWSANS CYHOEDDUS

2.32 Mae Deddf 2003 yn gofyn i awdurdodau trwyddedu (yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol) ac awdurdodau cyfrifol, trwy sylwadau, i roi barn am yr hyn y mae niwsans cyhoeddus yn ei olygu a'r hyn sy'n angenrheidiol i'w atal o ran amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau mangreoedd penodol a thystysgrifau mangre clwb. Mae felly'n bwysig, wrth ystyried hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn, bod awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol yn canolbwyntio ar effeithiau'r gweithgareddau trwyddedadwy yn y mangreoedd penodol ar bobl sy'n byw ac yn gweithio (yn cynnwys gwneud busnes) yn yr ardal sydd yn anghyfartal ac yn afresymol. Bydd y materion hyn yn bennaf yn ymwneud â niwsans sŵn, llygredd golau, arogleuon niweidiol a sbwriel.

2.33 Rhoddir ystyr statudol i niwsans cyhoeddus mewn sawl darn o ddeddfwriaeth. Nid yw, fodd bynnag, yn cael ei ddiffinio'n fanwl yn Neddf 2003 ac yn cynnal ei ystyr cyfraith gyffredin, eang. Mae'n bwysig cofio y gallai atal niwsans cyhoeddus felly gynnwys niwsans lefel isel sy'n effeithio ar ychydig bobl sy'n byw'n lleol yn ogystal â tharfu mawr sy'n effeithio ar gymuned gyfan. Gall hefyd gynnwys, mewn amgylchiadau priodol, lleihau mwyniant ac amgylchedd byw a gweithio partïon â diddordeb (fel y'u diffinnir yn Neddf 2003) yng nghyffiniau'r fangre drwyddedig.[2]

2.34 Bydd amodau'n ymwneud â niwsans sŵn fel arfer yn ymwneud â chamau angenrheidiol i reoli lefel y sŵn sy'n dod o fangre. Gellir cyflawni hyn trwy fesur bach fel sicrhau bod drysau a ffenestri yn

2 Dylid nodi yn y cyd-destun hwn ei bod yn dal yn drosedd o dan Ddeddf 2003 i werthu neu gyflenwi alcohol i berson sydd wedi meddwi. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd yr ymddygiad niwsans a gwrthgymdeithasol y gellir ei beri ar ôl gadael mangre drwyddedig.

cael eu cadw ar gau ar ôl amser penodol gyda'r nos i fesurau mwy soffistigedig fel gosod llenni acwstig neu osodiadau seinyddion rwber. Dylid teilwra unrhyw amodau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo atal niwsans cyhoeddus i arddull a nodweddion y fangre benodol. Dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau diangen neu anghyfartal a allai atal digwyddiadau sy'n werthfawr i'r gymuned, fel cerddoriaeth fyw. Mae cyfyngwyr sŵn, er enghraifft, yn ddrud iawn i'w prynu a'u gosod ac maent yn debygol o fod yn faich sylweddol i leoliadau llai.

2.35 Fel gyda phob amod, bydd yn glir efallai na fydd angen amodau sy'n ymwneud â niwsans sŵn mewn amgylchiadau penodol lle mae darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, Deddf Sŵn 1996, neu Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn amddiffyn yn ddigonol y rheiny sy'n byw yng nghyffiniau'r fangre. Ond fel y nodwyd yn gynharach yn yr Arweiniad hwn, dylai ymagwedd awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol fod yn un sy'n amddiffyn a phan mae eu pwerau'n cael eu defnyddio, dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o'r ffaith efallai na fydd deddfwriaeth arall yn cynnwys yn ddigonol pryderon a godir mewn sylwadau perthnasol ac efallai y bydd angen amodau ychwanegol.

2.36 Lle mae ceisiadau wedi achosi sylwadau, dylai unrhyw amodau angenrheidiol a phriodol fel arfer ganolbwyntio ar y cyfnodau mwyaf sensitif. Er enghraifft, mae sŵn cerddoriaeth o fangre fel arfer yn digwydd rhwng canol gyda'r nos i yn hwyr y nos neu'n gynnar yn y bore pan fydd trigolion mewn eiddo cyfagos yn ceisio mynd i gysgu neu yn cysgu. Mewn amgylchiadau penodol, gall amodau yn ymwneud â sŵn fod yn angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw aflonyddu a ragwelir wrth i gwsmeriaid fynd i mewn a gadael y fangre ac felly, yn union gerllaw y fangre.

2.37 Bydd angen ystyried mesurau i reoli llygredd golau yn ofalus hefyd. Efallai y bydd golau llachar y tu allan i fangre a ystyrir yn angenrheidiol i atal trosedd ac anhrefn ei hun yn achosi llygredd golau i rai cymdogion. Bydd angen i ymgeiswyr, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol gydbwyso'r fath faterion.

2.38 Yng nghyd-destun atal niwsans cyhoeddus, unwaith eto mae'n hanfodol bod amodau'n canolbwyntio ar fesurau o fewn rheolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded neu'r clwb. Ni ellir cyfiawnhau amodau'n ymwneud â niwsans cyhoeddus a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol cwsmeriaid unwaith y maent y tu hwnt i reolaeth deiliad y drwydded, rheolaeth y clwb neu'r fangre ac ni chânt eu defnyddio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

2.39 Y tu hwnt i gyffiniau'r fangre, mae'r rhain yn faterion cyfrifoldeb personol unigolion o dan y gyfraith. Mae unigolyn sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn atebol yn ei rinwedd ei hun. Fodd bynnag, byddai'n gwbl resymol i awdurdod trwyddedu osod amod yn dilyn sylwadau perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb sy'n gofyn i ddeiliad y drwydded neu'r clwb roi arwyddion gerllaw allanfeydd yr adeilad yn annog mynychwyr i fod yn dawel nes iddynt adael yr ardal ac i barchu hawl pobl sy'n byw gerllaw i noson heddychlon.

2.40 Gall effeithiau cynyddol sbwriel yng nghyffiniau mangre sy'n cynnal gweithgareddau trwyddedadwy achosi niwsans cyhoeddus. Er enghraifft, gall fod yn briodol ac yn angenrheidiol i amod trwydded ofyn i fangre sy'n gwasanaethu

cwsmeriaid o safleoedd bwyd parod o 11.00pm ddarparu biniau sbwriel yng nghyffiniau'r fangre er mwyn atal sbwriel rhag crynhoi. Gall amodau o'r fath fod yn angenrheidiol ac yn briodol mewn amgylchiadau lle gall cwsmeriaid yn hwyr y nos fod wedi bod yn yfed alcohol ac yn tueddu i fod yn esgeulus ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

## AMDDIFFYN PLANT RHAG NIWED

2.41 Mae amddiffyn plant rhag niwed yn cynnwys amddiffyn plant rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol, a byddai hyn yn cynnwys amddiffyn plant rhag dod i gysylltiad â iaith fras a rhegfeydd rhywiol, er enghraifft, yng nghyd-destun arddangosfeydd ffilm neu lle darperir adloniant i oedolion.

2.42 Fodd bynnag, yng nghyd-destun llawer o fangreoedd trwyddedig fel tafarnau, bwytai, barau caffi a gwestai, dylid nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn argymell na ddylai datblygiad amgylcheddau sy'n gyfeillgar i deuluoedd gael ei rwystro gan amodau rhy gaeth mewn perthynas â phlant.

2.43 Bwriad yr Ysgrifennydd Gwladol yw y dylai derbyn plant i fangre sydd â thrwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb fel arfer gael ei ganiatáu'n rhydd heb amodau caeth oni bai bod Deddf 2003 ei hun yn gosod y fath gyfyngiad neu bod rhesymau da dros gyfyngu mynediad neu i eithrio plant yn gyfan gwbl. Dylai awdurdodau trwyddedu, yr heddlu a phersonau eraill ag awdurdod ganolbwyntio ar orfodi'r gyfraith yn ymwneud â phlant yn yfed alcohol.

2.44 Mae amodau'n ymwneud â mynediad plant sydd yn angenrheidiol i'w hamddiffyn rhag niwed yn amlwg yn bwysig iawn. Fel y nodwyd mewn cysylltiad â datganiadau polisi trwyddedu ym Mhennod 13 yr Arweiniad hwn, bydd materion yn codi am fynediad plant mewn cysylltiad â mangreoedd:

- lle darperir adloniant i oedolion;
- lle mae'r person sy'n rheoli wedi ei gael yn euog o werthu alcohol i blant neu bod ganddo enw am ganiatáu yfed o dan oedran (ar wahân i yfed yng nghyd-destun yr eithriad yn Neddf 2003 yn ymwneud â phlant 16 a 17 oed yn yfed cwrw, gwin a seidr yng nghwmni oedolion yn ystod pryd o fwyd wrth fwrdd);
- lle nad yw gofynion cardiau prawf oedran neu ddulliau eraill o brofi oedran i atal plant rhag prynu alcohol yn norm;
- sydd â chysylltiad hysbys â chymryd neu ddelio cyffuriau;
- lle mae elfen gref o hapchwarae yn y fangre (ond dim nifer fach o beiriannau gwobrau ariannol);
- lle mai prif bwrpas y gwasanaethau a ddarperir yn y fangre yw cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.

2.45 Mae hefyd yn bosibl y gall gweithgareddau, fel adloniant i oedolion, ddigwydd ar adegau penodol mewn mangre ond nid ar adegau eraill. Er enghraifft, gall mangre weithredu fel bar caffi yn ystod y dydd yn darparu prydau ar gyfer teuluoedd ond gall hefyd ddarparu adloniant â chynnwys rhywiol ar ôl 8.00pm. Dylai arferion masnachu o'r fath fod yn amlwg o'r atodlen weithredu neu atodlen weithredu'r clwb a ddarperir gyda'r cais perthnasol yn caniatáu ar gyfer llunio amod priodol wedi ei gyfyngu gan amser.

2.46 Yn yr un modd, gall hapchwarae ddigwydd mewn rhan o ganolfan hamdden ond nid mewn rhannau eraill o'r fangre honno. Mae hyn yn golygu y bydd angen i fynediad plant gael ei ystyried yn ofalus gan ymgeiswyr, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol. Mewn sawl cyswllt, dylai fod yn bosibl dibynnu ar ddisgresiwn a synnwyr cyffredin deiliaid trwydded a thystysgrif. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol ddisgwyl i ymgeiswyr, wrth baratoi atodlen weithredu neu atodlen weithredu clwb, nodi eu bwriad i ymarfer y fath ddisgresiwn o hyd, a lle bo angen, i nodi'r camau i'w cymryd i amddiffyn plant rhag niwed pan fyddant yn y fangre.

2.47 Dylai amodau, lle maent yn angenrheidiol, adlewyrchu'r gweithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd yn y fangre a gallant gynnwys:

- lle mae alcohol yn cael ei werthu, gofynion ar gyfer dangos cardiau prawf oedran cyn gwerthu i unigolion o dan 18oed (p'un a yw'r terfyn oedran yn 18 neu'n 16 fel yn achos yfed cwrw, gwin a seidr yng nghwmni oedolion yn ystod pryd o fwyd wrth fwrdd);
- cyfyngiadau ar yr oriau y gall plant fod yn bresennol;
- cyfyngiadau ar bresenoldeb plant o dan oedrannau penodol pan fydd gweithgareddau a nodir yn benodol yn cael eu cynnal;
- cyfyngiadau ar y rhannau o'r fangre y gall fod mynediad i blant yn cael ei ganiatáu;
- cyfyngiadau oed (o dan 18);
- cyfyngiadau neu eithriadau pan fydd gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal;
- gofynion ar gyfer oedolyn i ganlyn (yn cynnwys er enghraifft, cyfuniad o ofynion sy'n datgan bod yn rhaid i oedolyn ganlyn plant o dan oedran penodol); ac
- eithrio pobl o dan 18 yn gyfan gwbl o'r fangre pan fydd unrhyw weithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal.

2.48 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylid rhoi pwysau sylweddol i sylwadau a wneir gan gyrff amddiffyn plant a'r heddlu yn ymwneud â cheisiadau unigol pan fyddant yn mynd i'r afael â materion angenrheidiol yn ymwneud â derbyn plant.

2.49 Mae Deddf 2003 yn darparu lle mae trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn awdurdodi arddangos ffilm, bod yn rhaid iddo gynnwys amod yn gofyn bod derbyn plant i weld ffilmiau'n cael ei gyfyngu yn unol â'r argymhellion a roddir naill ai gan gorff dynodedig o dan adran 4 Deddf Recordiadau Fideo 1984 a nodir yn y drwydded (Bwrdd Prydeinig Dosbarthiad Ffilmiau ar hyn o bryd yw'r unig gorff sydd wedi ei ddirprwyo felly) neu gan yr awdurdod trwyddedu ei hun. Ceir mwy o fanylion ym Mhennod 10.

2.50 Ni ddylid fel arfer rhoi cyfyngiadau ar dderbyn plant i theatrau, fel gyda mangreoedd trwyddedig eraill. Fodd bynnag, gall theatrau gyflwyno ystod o weithgareddau amrywiol. Dylai derbyn plant i berfformiad drama fel arfer fod yn ôl disgresiwn deiliad y drwydded ac ni ddylid cysylltu unrhyw amod yn cyfyngu eu mynediad i ddramâu. Fodd bynnag, gall theatrau hefyd gyflwyno ystod eang o adloniant yn cynnwys, er enghraifft, sioeau amrywiol yn cynnwys adloniant i oedolion. Gall fod angen amod yn cyfyngu mynediad plant o dan y fath amgylchiadau. Gellir hefyd cyflwyno adloniant mewn theatrau yn arbennig ar gyfer plant.

Gall fod yn angenrheidiol ystyried a ddylid cysylltu amod i drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb sy'n gofyn am bresenoldeb nifer digonol o staff sy'n oedolion yn y fangre i sicrhau lles plant yn ystod unrhyw argyfwng.

## Troseddau yn ymwneud â gwerthu a chyflenwi alcohol i blant

2.51 Disgwylir i awdurdodau trwyddedu gadw mewn cyswllt agos â'r heddlu, timau troseddwyr ifanc a swyddogion safonau masnach (a fydd yn gallu cynnal pryniadau profi o dan adran 154 y Ddeddf) ynghylch graddfa'r gwerthiannau anghyfreithlon ac yfed alcohol gan blant ac ymwneud â datblygu unrhyw strategaethau i reoli neu atal y gweithgareddau anghyfreithlon hyn ac erlyn troseddwyr. Er enghraifft, lle, fel mater o bolisi, rhoddir rhybudd i adwerthwyr cyn cymryd unrhyw benderfyniad i erlyn yng nghyswllt trosedd, mae'n bwysig bod pob un o'r canghennau gorfodi yn ymwybodol o'r rhybuddion y mae pob un ohonynt wedi eu rhoi.

## Tabl troseddau perthnasol o dan Ddeddf 2003

| Adran | Trosedd |
|---|---|
| Adran 145 | Gwahardd plant heb oedolyn o fangre penodol |
| Adran 146 | Gwerthu alcohol i blant |
| Adran 147 | Caniatáu gwerthu alcohol i blant |
| Adran 147A | Gwerthu alcohol i blant yn barhaus |
| Adran 148 | Gwerthu melysion gwirodlyn i blant dan 16 |
| Adran 149 | Prynu alcohol gan neu ar ran plant |
| Adran 150 | Yfed alcohol gan blant |
| Adran 151 | Cyflenwi alcohol i blant |
| Adran 152 | Anfon plentyn i brynu alcohol |
| Adran 153 | Gwahardd gwerthu heb oruchwyliaeth gan blant |

# 3. Gweithgareddau trwyddedadwy

## CRYNODEB

3.1 Mae trwydded mangre yn rhoi’r awdurdod i ddefnyddio unrhyw fangre (a ddiffinnir yn y Ddeddf fel cerbyd, llong neu adeiledd symudol neu unrhyw le neu ran o unrhyw fangre), ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a ddisgrifir ac a ddiffinnir yn adran 1(1) o Atodlenni 1 a 2 i Ddeddf 2003. Mae’r gweithgareddau trwyddedadwy fel a ganlyn:

- adwerthu alcohol
- cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu i archeb, aelod o’r clwb;
- darparu adloniant wedi ei reoleiddio; a
- darparu lluniaeth yn hwyr y nos.

## CYFANWERTHU ALCOHOL

3.2 Nid oedd cyfanwerthu alcohol i’r cyhoedd yn gyffredinol yn weithred drwyddedadwy cyn i Ddeddf 2003 ddod i rym. Bydd awdurdodau trwyddedu am roi sylw arbennig i’r diffiniad o “adwerthu” a roddir yn adran 192 o Ddeddf 2003. Mae’r adran hon yn ei gwneud yn glir bod angen y canlynol er mwyn eithrio gwerthiant o ystyr "adwerthu":

- Wedi ei wneud o’r fangre sydd yn eiddo i’r sawl sy’n gwerthu, neu lle mae'n preswylio o dan brydles gyda sicrwydd daliadaeth, ac
- ar gyfer ei yfed oddi ar y fangre.

3.3 Yn ychwanegol, i'w eithrio, mae'n rhaid iddo fod yn werthiant sydd yn cael ei wneud i'r canlynol:

- masnachwyr ar gyfer dibenion eu masnach (yn cynnwys, er enghraifft, cyfanwerthwr arall),
- deiliaid tystysgrifau mangre clwb, trwyddedau mangre, neu drwyddedau personol, neu
- ddefnyddwyr mangre sydd wedi derbyn hysbysiad digwyddiad dros dro ar gyfer dibenion gwerthiant a awdurdodwyd gan yr hysbysiadau hynny.

3.4 Fodd bynnag, mae unrhyw werthiant arall a wnaed fel arall i aelod o'r cyhoedd mewn symiau cyfanwerthol yn weithgaredd trwyddedadwy ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 2003. Bydd hyn yn effeithio ar lawer o fusnesau cyfanwerthol, siopau talu a chludo a warws fondio ar draws Cymru a Lloegr.

3.5 Pe bai gweithiwr yn prynu alcohol fel “asiant” i'w gyflogwr ac at ddibenion masnach ei gyflogwr (h.y. gwerthu alcohol), gellid trin hyn fel gwerthiant i fasnachwr. Fodd bynnag, pe bai gweithiwr yn prynu ar gyfer ei ddibenion ei hun, byddai hynny yn cael ei ystyried fel adwerthiant ac yn golygu bod angen trwydded.

## GWERTHU DROS Y RHYNGRWYD A THRWY’R POST

3.6 Gall y man lle gwerthir yr alcohol fod yn wahanol i’r man lle mae’r alcohol yn cael ei neilltuo i’r contract h.y. ei ddewis yn benodol ar gyfer y prynwr penodol. Mae adran 190 yn darparu bod gwerthu alcohol i gael ei drin fel pe bai’n digwydd yn y man lle mae’r alcohol yn cael ei neilltuo i’r contract, sef y fangre y mae angen trwydded arni. Felly, er enghraifft, ni fyddai angen trwydded ar ganolfan alwadau sy’n derbyn archebion am alcohol, ond byddai angen trwydded ar y warws lle mae’r alcohol yn cael ei storio a’i ddewis yn benodol a’i anfon at y prynwr.

3.7 Mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen i awdurdod trwyddedu ystyried yn ofalus y gadwyn gyflenwi o bell wrth benderfynu a yw'r alcohol yn rhan briodol o'r contract. Mae'n rhaid i unrhyw fangre lle cyflenwir alcohol o dan drwydded mangre gael goruchwyliwr dynodedig mangre. Fel rheol bydd yr unigolyn hwn yn rhedeg y fangre o ddydd i ddydd a bydd angen iddo/iddi feddu ar ‘drwydded bersonol’. Ar ben hyn, mae'n rhaid i werthiant alcohol gael ei wneud neu ei awdurdodi gan ddeiliad trwydded bersonol. (gweler paragraffau 10.48 – 10.53 yr Arweiniad hwn).

## ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO

3.8 Mae Atodlen 1 Deddf 2003 (Atodiad A) yn nodi pa weithgareddau a ystyrir yn adloniant wedi ei reoleiddio (adloniant a chyfleusterau adloniant) a'r rhai nad ydynt yn cael eu hystyried felly ac felly wedi eu heithrio o agweddau adloniant wedi ei reoleiddio y gyfundrefn drwyddedu (yn cynnwys cerddoriaeth achlysurol - gweler 3.20 - 3.23 isod).

## ADLONIANT

3.9 Yn ddarostyngedig i'r amodau, y diffiniadau a'r eithriadau yn Atodlen 1, mae'r canlynol yn ddisgrifiadau o adloniant a reoleiddir o dan Ddeddf 2003:

- perfformiad o ddrama;
- dangos ffilm;
- digwyddiad chwaraeon dan do;
- adloniant paffio neu wreslo; (dan do neu yn yr awyr agored)
- perfformiad o gerddoriaeth fyw;
- chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio;
- perfformiad o ddawns;
- adloniant o fath tebyg i'r adloniant sy'n dod o fewn diffiniad o berfformiad o gerddoriaeth fyw, chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio a pherfformiad o ddawns

ond dim ond lle mae'r adloniant yn digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa ac yn cael ei ddarparu, yn rhannol o leiaf, er mwyn difyrru'r gynulleidfa honno.

## CYFLEUSTERAU ADLONIANT

3.10 Yn ddarostyngedig i'r amodau, y diffiniadau a'r eithriadau yn Atodlen 1, ystyr cyfleusterau adloniant yw cyfleusterau sy'n galluogi unigolion i gymryd rhan mewn adloniant sy'n cynnwys:

- creu cerddoriaeth;
- dawnsio;
- adloniant o fath tebyg i greu cerddoriaeth neu ar gyfer dawnsio.

3.11 Rhaid darparu'r cyfleusterau hyn at ddiben cwsmeriaid ac i'w difyrru. Mae cyfleusterau adloniant yn cynnwys, er enghraifft:

- peiriant carîocî a ddarperir at ddefnydd ac adloniant cwsmeriaid mewn tŷ cyhoeddus;
- llawr dawnsio a ddarperir at ddefnydd y cyhoedd mewn clwb nos;
- offerynnau cerddorol a ddarperir i'w defnyddio gan y cyhoedd i ddifyrru eraill mewn mangre drwyddedig.

3.12 Wrth gyflawni eu swyddogaethau, bydd angen i awdurdodau trwyddedu ystyried a yw gweithgaredd yn gyfystyr â darparu adloniant wedi ei reoleiddio. Er enghraifft, nid yw'r gweithgareddau canlynol yn gyfystyr ag adloniant wedi ei reoleiddio:

- addysg – dysgu myfyrwyr i berfformio cerddoriaeth neu ddawnsio;
- gweithgareddau sy'n cynnwys cyfranogi mewn gweithredoedd o addoli mewn cyd-destun crefyddol;
- arddangos nwydd – er enghraifft, gitâr – mewn siop gerdd; neu
- ymarferion drama neu ar gyfer perfformiad cerddorol nad yw'r cyhoedd yn cael mynediad iddynt.

3.13 Mae llawer o hyn yn golygu defnyddio synnwyr cyffredin ac ni all yr Arweiniad roi enghreifftiau o bob posibilrwydd neu weithgaredd posibl. Dim ond pan fydd awdurdod rheoleiddio yn fodlon bod y gweithgareddau'n gyfystyr ag adloniant neu ddarparu cyfleusterau adloniant y dylai fynd ati i ystyried yr amodau, y diffiniadau a'r eithriadau cymwys yn Atodlen 1 i weld a oes a wnelo â darparu adloniant wedi ei reoleiddio, ac os felly, bod gweithgaredd trwyddedadwy yn mynd ymlaen y dylid ei reoli o dan ddarpariaethau Deddf 2003.

3.14 Mae nifer o adloniannau eraill, nad ydynt eu hunain yn weithgareddau trwyddedadwy, lle mae cerddoriaeth fyw neu wedi ei recordio yn ymylol i'r prif atyniad neu berfformiad ac na ellir ei drwyddedu felly (gweler isod). Er enghraifft nid yw comedi un dyn yn weithgaredd trwyddedadwy ac ni fyddai cyfeiliant cerddorol sy'n ymylol i'r prif berfformiad yn ei wneud yn weithgaredd trwyddedadwy.

## GEMAU TAFARN

3.15 Gall gemau a chwaraeir yn aml mewn tafarnau ac mewn clybiau cymdeithasol a chlybiau ieuenctid megis pŵl, dartiau, tenis fwrdd a biliards ddod o dan y diffiniad o chwaraeon dan do yn Atodlen 1, ond fel rheol ni fyddent yn cael eu chwarae er adloniant gwylwyr ond er mwynhad preifat y cyfranogwyr. Fel y cyfryw ni fyddent fel arfer yn cyfateb i adloniant wedi ei reoleiddio, ac nid yw'r cyfleusterau a ddarperir (hyd yn oed os yw tafarn yn eu darparu er mwyn gwneud elw) yn dod o fewn y rhestr gyfyngedig o gyfleusterau adloniant yn yr Atodlen honno (gweler paragraff 3.10 uchod). Dim ond pan fydd gemau felly yn digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa ac yn cael eu darparu, yn rhannol o leiaf, er mwyn difyrru'r gynulleidfa honno, er enghraifft, cystadleuaeth pencampwriaeth dartiau, y byddai'r gweithgaredd yn drwyddedadwy.

## DIGWYDDIADAU PREIFAT

3.16 Mae adloniant mewn digwyddiad preifat nid yw'r cyhoedd yn cael mynediad iddo yn troi'n adloniant wedi ei reoleiddio, ac felly'n drwyddedadwy, dim ond os darperir ef am dâl ac er mwyn gwneud elw. Felly, er enghraifft, ni fyddai tâl sy'n cael ei godi ar bobl sy'n mynychu digwyddiad preifat dim ond er mwyn talu'r costau'r adloniant, ac nid ar gyfer unrhyw ddiben arall, yn gwneud yr adloniant yn drwyddedadwy. Byddai'r ffaith y byddai elw yn cael ei wneud heb fwriadu hyn yn amherthnasol cyn belled â nad oedd bwriad i wneud elw.

3.17 Hefyd mae Atodlen 1 Deddf 2003 yn ei gwneud yn eglur cyn i adloniant a chyfleusterau adloniant weithgaredd gael ei ystyried fel rhai sy'n cael ei ddarparu am dâl bod yn rhaid codi tâl gan neu ar ran unigolyn:

- sy'n gysylltiedig â threfnu neu reoli'r adloniant; neu
- sy'n gysylltiedig â threfnu neu reoli'r cyfleusterau sydd hefyd yn gysylltiedig â'r adloniant;

ac yn cael ei dalu gan neu ar ran rhai neu'r cyfan o'r bobl y mae'r adloniant hwnnw, neu'r cyfleusterau hynny, yn cael eu darparu ar eu cyfer.

3.18 Golyga hyn nad yw digwyddiad preifat ar gyfer gwahoddedigion (lle na chodir tâl a fwriedir i wneud elw) gyda band byw a dawnsio yn adloniant wedi ei reoleiddio oni bai bod trefnydd neu reolwyr y cyfleusterau hynny hefyd yn gysylltiedig â'r sefydliad neu reolaeth yr adloniant (er enghraifft, perchennog y tŷ lle lleolir yr ystafell). Fe all perchennog gyfranogi fel hyn trwy, er enghraifft, llogi llawr dawns, offer sain a/neu peiriant mwg ynghyd â'r ystafell, neu trwy drefnu DJ neu fand i chwarae yn y digwyddiad. Yn yr achos yma, bydd darparu ystafell (ac unrhyw gyfleuster adloniant arall) gan y perchennog am dâl a chyda'r bwriad o wneud

elw ynddo'i hun yn ddarpariaeth o adloniant rheoledig. Mewn gwrthgyferbyniad, os yw'r perchennog ond yn llogi'r ystafell ar gyfer digwyddiad ac os nad yw'n ymwneud ag adloniant y digwyddiad, ni fydd yn darparu adloniant rheoledig, a byddai angen ystyried y digwyddiad ar wahân i logi'r ystafell er mwyn pennu a oedd ynddo'i hun yn enghraifft o adloniant rheoledig.

3.19 Yn yr un modd, er enghraifft, mewn parti a drefnir mewn tŷ preifat gan ac er mwyn ffrindiau (ac heb fod yn agored i'r cyhoedd) lle darperir cerddoriaeth a dawnsio a lle codir tâl neu gyfraniad dim ond er mwyn talu costau'r adloniant, nid yw hyn yn ddigwyddiad trwyddedadwy. Nid yw unrhyw dâl gan y cerddorion neu gan berfformwyr eraill neu eu hasiantiaid ar drefnydd digwyddiad preifat yn gwneud yr adloniant hwnnw'n drwyddedadwy oni bai bod y gwahoddedigion eu hunain yn gorfod talu am yr adloniant er mwyn gwneud elw.[3]

## CERDDORIAETH ACHLYSUROL

3.20 Ni ellir cyfrif perfformio cerddoriaeth fyw achlysurol a chwarae cerddoriaeth achlysurol wedi ei recordio fel gweithgareddau darparu adloniant wedi ei reoleiddio o dan Ddeddf 2003 o dan rai amgylchiadau. Mae hyn yn wir pan fyddant yn rhan achlysurol o weithgaredd arall nad yw ynddo ei hun yn adloniant neu'n darparu cyfleusterau adloniant. Nid yw'r eithriad hwn yn ymestyn i ddarparu ffurfiau eraill ar adloniant wedi ei reoleiddio.

3.21 Y disgwyl yw y bydd y cwestiwn a yw cerddoriaeth o'r math hwn yn rhan "achlysurol" o weithgareddau eraill yn cael ei benderfynu fesul achos unigol ac nid oes diffiniad yn Neddf 2003. Y llysoedd fydd yn penderfynu yn y pen draw a yw cerddoriaeth yn "achlysurol" o fewn amgylchiadau unigol unrhyw achos.

3.22 Yn y lle cyntaf, rhaid i weithredydd y fangre dan sylw benderfynu a yw'n ystyried bod angen trwydded mangre arno ai peidio. Wrth ystyried a yw cerddoriaeth yn achlysurol ai peidio, efallai mai un ffactor fydd a fydd ychwanegu cerddoriaeth, yn erbyn cefndir y gweithgareddau eraill sydd eisoes yn cael eu cynnal, yn creu'r potensial i danseilio pedwar amcan trwyddedu'r Ddeddf. Gall ffactorau eraill gynnwys rhai neu'r cyfan o'r canlynol:

- Ai'r gerddoriaeth yw'r prif reswm y mae pobl yn mynychu'r fangre?
- A yw'r gerddoriaeth yn cael ei hysbysebu fel y prif atyniad?
- A yw maint sŵn y gerddoriaeth yn amharu ar neu'n blaenori ar weithgareddau eraill?

I'r gwrthwyneb, mae ffactorau na fyddent fel arfer yn berthnasol yn cynnwys:

- Nifer y cerddorion, e. e. gall cerddorfa ddarparu cerddoriaeth achlysurol mewn arddangosfa fawr.
- A yw'r cerddorion yn cael eu talu ai peidio.
- A yw'r perfformiad wedi ei drefnu ymlaen llaw.
- A godir tâl am fynediad i fangre.

3.23 Nid yw comedi un dyn yn cyfrif fel adloniant wedi ei reoleiddio ac ni fyddai cyfeiliant cerddorol sy'n rhan achlysurol o'r prif berfformiad yn ei wneud yn weithgaredd trwyddedadwy. Ond mae'n debygol y bydd rhai amgylchiadau mwy amwys. Os oes amheuaeth dylai gweithredwyr geisio cyngor yr awdurdod trwyddedu, yn enwedig mewn perthynas â'u polisi ar orfodi.

3 Nid yw cyfleusterau adloniant sy'n dod o dan baragraff 1(2)(b) Atodlen 1 y Ddeddf (mangre clwb) yn dod o dan yr adran hon o'r Arweiniad.

## CERDDORIAETH, CANU A DAWNSIO BYRFYFYR

3.24 Nid yw perfformio cerddoriaeth, canu a dawnsio'n fyrfyfyr yn cyfrif fel darparu adloniant wedi ei reoleiddio ac nid yw'n weithgaredd trwyddedadwy. Y rhan berthnasol o Ddeddf 2003 y dylid ei hystyried yn y cyd-destun hwn yw paragraff 1(3) o Atodlen 1 o'r Ddeddf. Mae hwn yn datgan mai'r ail amod a ddylai fod mewn grym cyn bod gweithgaredd yn cyfrif fel darparu adloniant wedi ei reoleiddio yw bod y fangre (sy'n golygu "unrhyw le") lle mae'r adloniant neu'r cyfleusterau adloniant yn cael eu darparu, ar gael at ddiben neu ddibenion sy'n cynnwys galluogi'r adloniant dan sylw i gael ei gynnal. Yn achos cerddoriaeth wirioneddol byrfyfyr (gan gynnwys canu) a dawnsio, ni fydd y man lle mae'r adloniant yn digwydd wedi cael ei gynnig i'r sawl sy'n cymryd rhan at y diben hwnnw.

## LLEOLIADAU BACH SY'N DARPARU DAWNSIO A CHERDDORIAETH WEDI EI MWYHAU NEU HEB EI MWYHAU

3.25 Hefyd, mae adran 177 o Ddeddf 2003 yn gwneud cais i atal y rhan fwyaf o amodau trwyddedu'n ymwneud ag adloniant cerdd mewn lleoliadau bach penodol pan fydd yr amodau a nodir yn y drwydded yn cael eu bodloni. Mae'r adran yn cyfeirio at fangreoedd â lle i uchafswm o 200 ac sydd wedi eu trwyddedu i ddarparu adloniant cerdd megis, er enghraifft, rhai tafarnau â thrwyddedau adloniant. Ceir disgrifiad manwl o adran 177 isod.

3.26 Mae Isadrannau (1) a (2) o adran 177 o Ddeddf 2003 yn darparu lle mae

- trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn awdurdodi cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre a darparu "adloniant cerdd" (cerddoriaeth fyw neu ddawnsio neu gyfleusterau sy'n galluogi pobl i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny),
- y fangre berthnasol yn cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, a lle
- caniateir uchafswm o 200 o bobl yn y fangre (gweler paragraff 2.29)

caiff unrhyw amodau'n ymwneud â darparu'r adloniant cerdd a osodir ar y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb gan yr awdurdod trwyddedu, ar wahân i'r rheiny a nodir gan y drwydded neu'r dystysgrif sy'n gyson â'r atodlen weithredu, eu hatal, ac eithrio'r rhai hynny, o dan is-adran (5), y cawsant eu gosod fel rhai sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu i atal trosedd ac anhrefn neu'r ddau.

3.27 Byddai enghreifftiau o fangreoedd a ddefnyddir yn "bennaf" ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn cynnwys rhai tai cyhoeddus a rhai mangreoedd clwb cymwys, ond ni fyddai fel arfer yn cynnwys, er enghraifft, bwyty.

3.28 Yn ogystal, mae is-adran (4) o adran 177 yn darparu lle mae

- trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn awdurdodi darparu adloniant cerdd, a lle mae'r
- fangre yn caniatáu uchafswm o 200 o bobl

yna, yn ystod yr oriau rhwng 8am a hanner nos, os yw'r fangre'n cael ei defnyddio ar gyfer darparu cerddoriaeth fyw heb ei mwyhau neu'r cyfleusterau sy'n galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath, ond nid unrhyw fath arall o adloniant wedi ei reoleiddio, bydd unrhyw amodau a osodwyd ar y drwydded gan yr awdurdod trwyddedu, unwaith eto ac eithrio'r rhai hynny sy'n cyd-fynd â'r atodlen weithredu, sy'n gysylltiedig i ddarparu'r adloniant cerddorol hwnnw, yn cael eu hatal.

3.29 Mae'r eithriad sy'n berthnasol i gerddoriaeth "heb ei mwyhau" yn berthnasol i unrhyw fangre â thrwydded briodol, yn cynnwys, er enghraifft, bwytai.

3.30 Mae'r "uchafswm niferoedd a ganiateir" o 200 yn berthnasol i'r ardal a gynhwysir yn y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb. Yn y cyd-destun yma, mae'n rhaid i'r uchafswm fod lle mae'r awdurdod tân ac achub wedi gwneud argymhelliad ynghylch uchafswm niferoedd y fangre o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân (gweler paragraff 2.29). Mae'r "uchafswm niferoedd a ganiateir" yn berthnasol yn unig i ran o'r fangre lle mae'r rhan honno yn meddu trwydded ar wahân.

3.31 Gellir anghymhwyso Adran 177 mewn perthynas ag unrhyw un o amodau trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn dilyn adolygiad o'r drwydded neu'r dystysgrif. Ystyr hyn yw y gellir gweithredu amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded mangre bresennol sy'n berthnasol i ddarparu adloniant cerddorol ar yr adegau perthnasol ac y gellir gosod amodau newydd hefyd o ganlyniad i'r broses adolygu.

## LLUNIAETH YN HWYR Y NOS

3.32 Mae Atodlen 2 (Atodiad B) yn nodi pa weithgareddau a ystyrir yn lluniaeth yn hwyr y nos a'r rheiny nad ydynt, ac sydd felly wedi eu heithrio o'r agweddau'n ymwneud â lluniaeth yn hwyr y nos yn y gyfundrefn drwyddedu.

3.33 Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2003 yn darparu diffiniad o'r hyn sy'n cyfrif fel lluniaeth yn hwyr y nos. Mae'n cynnwys 'bwyd poeth a ddiodydd poeth' yn unig. Er enghraifft, ni fydd siopau, siopau mawr ac archfarchnadoedd sy'n gwerthu bwyd a diodydd oer y gellir eu bwyta'n syth o 11.00pm yn drwyddedadwy fel rhai sy'n darparu lluniaeth yn hwyr y nos. Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y mangreoedd hynny fel caffis nos a mannau pryd ar glud lle gall pobl ymgynnull ar unrhyw adeg rhwng 11.00pm a 5.00am gan esgor ar y posibilrwydd o anhrefn a tharfu. Yn yr achos yma, mae'r cyflawni'n digwydd pan roddir y bwyd neu'r diod poeth i'r cwsmer, nid pan fo'r cwsmer yn talu amdanynt. Er enghraifft, pan yw pryd bwrdd yn cael ei weini mewn tŷ bwyta neu phan fo pryd ar glud yn cael ei roi i'r cwsmer dros y cownter.

3.34 Mae rhai mangreoedd yn darparu bwyd poeth neu ddiodydd poeth rhwng 11.00pm a 5.00am trwy gyfrwng peiriannau a osodwyd yn y fangre at y diben hwnnw. Ni fydd cyflenwi diodydd poeth trwy gyfrwng peiriant yn weithgaredd trwyddedadwy ac mae wedi ei eithrio o dan Ddeddf 2003 cyn belled â bod gan y cyhoedd fynediad i'r peiriant a'i fod yn cael ei weithredu heb gyfranogiad y staff.

3.35 Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol i fwyd poeth. Mae mangreoedd sy'n cyflenwi bwyd poeth am dâl trwy beiriannau yn drwyddedadwy os yw'r bwyd wedi cael ei gynhesu yn y fangre, hyd yn oed os nad oes unrhyw staff yn y fangre wedi ymwneud â'r weithred.

3.36 Ni ddisgwylir y bydd darparu lluniaeth yn hwyr y nos fel gweithgaredd eilradd mewn mangreoedd trwyddedig sydd ar agor at ddibenion eraill megis tafarnau, sinemâu neu glybiau nos neu gasinos yn esgor ar yr angen am amodau ychwanegol arwyddocaol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried mai prif amcanion trwyddedu mewn perthynas â lluniaeth yn hwyr y nos yw atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus, a disgwylir y bydd sylw digonol i'r ddau yn yr amodau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau trwyddedadwy eraill mewn mangreoedd o'r fath.

3.37 Mae cyflenwi diodydd poeth a wneir o alcohol neu sy'n cynnwys alcohol wedi ei eithrio o dan Ddeddf 2003 fel lluniaeth yn hwyr y nos oherwydd ei fod yn dod o dan y darpariaethau sy'n gysylltiedig â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

3.38 Nid yw cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth yn rhad ac am ddim yn weithgaredd trwyddedadwy. Ond lle codir tâl naill ai am fynediad i'r fangre neu am ryw eitem arall er mwyn cael y bwyd poeth neu'r ddiod boeth, ni chyfrifir hyn fel 'rhad ac am ddim'. Mae cyflenwadau gan elusen gofrestredig neu gan unrhyw un sydd wedi ei awdurdodi gan elusen gofrestredig wedi eu heithrio hefyd. Yn yr un modd, mae cyflenwadau a wneir o gerbydau wedi eu heithrio hefyd - ac eithrio pan fyddant wedi eu parcio'n barhaol neu dros dro.

3.39 Mae cyflenwadau o fwyd poeth neu ddiodydd poeth ar yr adeg briodol wedi eu heithrio o ddarpariaethau Deddf 2003 os nad yw'r cyhoedd yn cael mynediad i'r fangre dan sylw ac os yw'r cyflenwadau ar gyfer:

- aelod o glwb cydnabyddedig a gyflenwir gan y clwb;
- unigolion sy'n aros dros nos mewn gwesty, lle gwely a brecwast, hostel, safle carafannau neu wersylla neu unrhyw fangre arall sy'n darparu llety dros nos fel prif ddiben;
- gweithiwr a gyflogir gan gyflogwr neilltuol (ee mewn ffreutur staff).
- unigolyn sy'n dilyn proffesiwn neu alwedigaeth neilltuol (ee. Crefftwr sy'n gwneud gwaith mewn mangre arbennig).
- gwestai unrhyw un o'r uchod.

# 4. Trwyddedau Personol

4.1 Mae'r Bennod hon yn rhoi cyngor ynghylch yr arfer gorau wrth weinyddu'r broses o gyhoeddi trwyddedau personol i werthu neu gyflenwi alcohol.

## GOFYNION AR GYFER TRWYDDED BERSONOL

4.2 Oherwydd ei effaith ar y gymuned ehangach ac ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae gwerthu a chyflenwi alcohol yn cynnwys mwy o gyfrifoldeb na'r hyn sy'n gysylltiedig â darparu adloniant rheoledig a lluniaeth gyda'r nos. Dyma pam bod angen trwydded bersonol ar unigolion y gallent fod yn gwneud ac yn awdurdodi trefniadau gwerthu a chyflenwi o'r fath. Nid oes yn rhaid i bob unigolyn sy'n gwerthu alcohol mewn mangre a drwyddedwyd i'r diben hwnnw feddu ar drwydded bersonol, ond rhaid i bob achos o werthu neu gyflenwi alcohol gael ei awdurdodi gan ddeiliad trwydded o'r fath o leiaf (gweler paragraffau 10.48-10.53 o'r Arweiniad hwn). Gall unrhyw fangre lle y gwerthir neu lle y cyflenwir alcohol gyflogi un deiliad trwydded bersonol neu fwy. Er enghraifft, efallai bod gan un perchennog neu reolwr uwch drwydded bersonol ac efallai bod gan nifer o reolwyr iau gymwysterau tebyg.

## PWY ALL WNEUD CAIS?

4.3 Yn achos cais am drwydded bersonol dan Rhan 6 Deddf 2003, gwneir y gofynion canlynol ynghylch yr ymgeisydd:

- rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn;
- rhaid iddynt feddu ar gymhwyster trwyddedu wedi'i achredu gan yr Ysgrifennydd Gwladol (neu un a gaiff ei ardystio fel pe bai yn gymhwyster o'r fath neu'n cael ei ystyried yn gymhwyster cyfatebol) neu'n rhywun sy'n cyfateb â disgrifiad a ragnodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau;
- ni ddylai fod wedi fforffedu trwydded bersonol cyn pen pum mlynedd o'i gais; ac
- mae'r ymgeisydd wedi talu'r ffi briodol i'r awdurdod trwyddedu.

ac:

- nid yw'r heddlu wedi rhoi hysbysiad gwrthwynebu ynghylch dyfarnu trwydded bersonol yn dilyn hysbysiad o unrhyw drosedd berthnasol nas treuliwyd neu drosedd mewn gwlad dramor, neu
- mae'r heddlu wedi rhoi hysbysiad gwrthwynebu oherwydd dedfryd am drosedd berthnasol nas treuliwyd neu drosedd dramor, ond nid yw'r awdurdod o'r farn y dylid gwrthwynebu'r cais ar sail atal troseddu.

4.4 Gall unrhyw unigolyn wneud cais am drwydded bersonol os yw'n gweithio ar hyn o bryd neu beidio neu os oes ganddo fuddiannau busnes sy'n ymwneud â defnyddio'r drwydded. Trafodir y materion sy'n codi pan fydd deiliad trwydded bersonol yn mynd yn gysylltiedig â mangre drwyddedig penodol a bod deiliad y drwydded bersonol yn cael ei nodi'n "oruchwylydd mangre dynodedig" y fangre honno, ym mharagraffau 4.19 –4.28 isod. Felly, ni chaiff awdurdodau trwyddedu ystyried materion o'r fath wrth ystyried cais am drwydded bersonol.

## COFNOD TROSEDDOL

4.5 Yng nghyd-destun ceisiadau a wneir dan Rhan 6 Deddf 2003, nid yw'r Ddeddf ei hun yn rhagnodi sut y dylai unrhyw unigolyn ddangos a oedd ganddo ddedfrydau nas treuliwyd am drosedd berthnasol neu drosedd dramor berthnasol neu beidio. Er mwyn cadarnhau a oedd ymgeisydd wedi'i ddedfrydu am drosedd berthnasol nas treuliwyd, bydd yn rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno tystysgrif collfarn droseddol neu dystysgrif cofnodion troseddol neu ganlyniadau chwiliad mynediad gwrthrych cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu gan y Gwasanaeth Adnabod Cenedlaethol i'r awdurdod trwyddedu. Mae hyn yn berthnasol os yw'r unigolyn wedi bod yn byw mewn awdurdodaeth dramor am gyfnod neu beidio.

4.6 Nid yw'n dilyn na fydd gan unigolion o'r fath gofnod eu bod wedi cyflawni troseddau yn y wlad hon. Yn ogystal, byddai disgwyl i'r holl ymgeiswyr wneud datganiadau eglur ynghylch a ydynt wedi cael eu dedfrydu y tu allan i Gymru neu Lloegr am drosedd berthnasol neu drosedd dramor gyfatebol. Mae hyn yn berthnasol i ymgeiswyr y maent fel arfer yn byw yng Nghymru a Lloegr ac i unrhyw un o awdurdodaeth dramor. Byddai disgwyl i fanylion y troseddau perthnasol fel nodir yn Neddf 2003 gael eu hatodi wrth ffurflenni cais er gwybodaeth i ymgeiswyr, ynghyd â rhybudd eglur bod gwneud unrhyw ddatganiad anghywir yn drosedd y gellir erlyn rhywun am ei chyflawni. Rhestrir troseddau perthnasol yn Atodiad C yr Arweiniad hwn.

4.7 Rhaid i awdurdodau trwyddedu hysbysu'r heddlu pan welir bod gan ymgeisydd ddedfryd nas treuliwyd am drosedd berthnasol a ddiffiniwyd yn Neddf 2003 neu am drosedd dramor. Nid oes gan yr heddlu unrhyw gyfranogiad neu hawl mewn ceisiadau o'r fath hyd nes yr hysbysir hwy gan yr awdurdod trwyddedu.

4.8 Pan fydd gan ymgeisydd ddedfryd nas treuliwyd am drosedd berthnasol neu drosedd dramor, ac mae'r heddlu'n gwrthwynebu'r cais am resymau'n ymwneud ag atal troseddu, gall yr ymgeisydd gael gwrandawiad gerbron yr awdurdod trwyddedu. Os na fydd yr heddlu'n cyhoeddi hysbysiad gwrthwynebu ac os yw'r cais yn bodloni gofynion Deddf 2003 fel arall, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ei roi.

4.9 Pan fydd yr heddlu wedi cyhoeddi hysbysiad gwrthwynebu, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell mai gwrthod y cais ddylid ei wneud fel arfer oni bai y ceir amgylchiadau eithriadol ac argyhoeddiadol ym marn yr awdurdod trwyddedu, sy'n cyfiawnhau cymeradwyo'r cais. Er enghraifft, nid oes modd treulio rhai mathau o droseddau fyth. Fodd bynnag, pan fydd ymgeisydd yn gallu dangos bod y drosedd dan sylw wedi digwydd mor bell yn ôl ac nad oes ganddo neu ganddi unrhyw duedd i aildroseddu, gall awdurdod trwyddedu ystyried bod amgylchiadau unigol yr achos mor eithriadol a chymelliadol a bod y risg i'r gymuned wedi lleihau gymaint, fel ei bod yn iawn cymeradwyo'r cais.

4.10 Os gwrthodir cais, bydd gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Yn yr un modd, os caiff y cais ei gymeradwyo er gwaethaf hysbysiad o wrthwynebiad gan yr heddlu, mae gan brif swyddog yr heddlu yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod trwyddedu. Felly, disgwylir i awdurdodau trwyddedu gofnodi'r rhesymau llawn dros unrhyw benderfyniadau a wneir ganddynt.

## AWDURDODAU TRWYDDEDU CYMRU YN CYHOEDDI TRWYDDEDAU PERSONOL

4.11 Dylai'r awdurdodau trwyddedu yng Nghymru gyhoeddi trwyddedau personol yn ddwyieithog, yn unol â'u cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain.

## CYMWYSTERAU TRWYDDEDU

4.12 Hysbysir awdurdodau trwyddedu o fanylion cymwysterau trwyddedu a achredir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar hyn o bryd a gellir gweld y manylion ar wefan DCMS.

4.13 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd awdurdodau trwyddedu yn pryderu y gellir ffugio neu ddiwygio dogfennau a thystysgrifau a gyflwynir fel tystiolaeth o feddu ar gymhwyster trwyddedu. Yn ogystal, cynhwysir pwyntiau cyswllt i awdurdodau dyfarnu ynghylch camau posibl i ffugio cymwysterau ar wefan DCMS. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gynnwys craidd cyrsiau cymhwyster trwyddedu.

## AWDURDOD TRWYDDEDU PERTHNASOL

4.14 Mae trwyddedau personol yn ddilys am ddeng mlynedd oni bai y cânt eu hildio neu eu gwahardd neu eu dirymu neu eu datgan yn fforffed gan y llysoedd. Ar ôl eu dyfarnu, yr awdurdod trwyddedu a gyhoeddodd y drwydded yw'r "awdurdod trwyddedu perthnasol" o hyd ar ei gyfer a'i ddeiliad, er y gall yr unigolyn symud o'r ardal neu gael gwaith yn rhywle arall. Bydd y drwydded bersonol ei hun yn nodi manylion yr awdurdod trwyddedu a'i rhoddodd.

## NEWID ENW NEU GYFEIRIAD

4.15 Yn unol â Deddf 2003, rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r awdurdod trwyddedu o unrhyw newidiadau i'w henw neu eu cyfeiriad. Dylai'r awdurdod trwyddedu gofnodi'r newidiadau hyn. Yn ogystal, mae dyletswydd ar y deiliad i hysbysu am unrhyw ddedfrydau am droseddau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu ac yn yr un modd, rhaid i'r llysoedd hysbysu'r awdurdod trwyddedu o unrhyw ddedfrydau o'r fath, os ydynt wedi gorchymyn ataliad neu fforffedu'r drwydded. Yn ogystal, rhaid i'r deiliad hysbysu'r awdurdod trwyddedu ynghylch unrhyw ddedfryd am drosedd dramor. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau y cedwir un cofnod o hanes deiliad o ran materion trwyddedu.

4.16 Dylai awdurdodau trwyddedu gadw cofnodion y gellir troi atynt yn hawdd a chynnal gwasanaeth sy'n galluogi'r heddlu mewn unrhyw ardal ac awdurdodau trwyddedu eraill i gael gwybod unrhyw fanylion y mae angen iddynt gael gwybod am ddeiliad y drwydded bersonol dan sylw sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau trwyddedu, yn gyflym. Mae Deddf 2003 yn awdurdodi darparu a chael gwybodaeth bersonol o'r fath i asiantaethau o'r fath at ddibenion y Ddeddf.

## COFRESTR DRWYDDEDU CANOLOG

4.17 Mae'r llywodraeth, gyda chymorth awdurdodau trwyddedu, yn bwriadu datblygu cofrestr drwyddedu ganolog a fydd, ymysg pethau eraill, yn cynnwys manylion yr holl ddeiliaid trwydded bersonol. Adroddir datblygiadau yn y dyfodol yn ymwneud â chreu cofrestr drwyddedu ganolog ar wefan DCMS.

## ADNEWYDDU

4.18 Mae adnewyddu'r drwydded bersonol bob deng mlynedd yn gyfle i sicrhau bod y trefniadau i sicrhau bod yr holl ddedfrydau am droseddau perthnasol a thramor yn cael eu hysbysu'n gywir i'r awdurdod trwyddedu, wedi gweithio ac na chollwyd unrhyw beth, ac y crybwyllwyd yr holl ddedfrydau o'r fath yn gywir ar y drwydded. Mae hefyd yn gyfle i sicrhau bod llun deiliad y drwydded bersonol yn cael ei ddiweddaru er mwyn helpu i'w adnabod.

## NODI GORUCHWYLWYR DYNODEDIG MANGRE NEWYDD

4.19 Ym mhob mangre trwyddedig, mae'n rhaid nodi un o'r deiliaid trwydded bersonol fel y 'goruchwyliwr dynodedig mangre', fel y diffinnir yn Neddf 2003. Person fydd hwn fel arfer y rhoddwyd y cyfrifoldeb o redeg y fangre o ddydd i ddydd iddo gan ddeiliad y drwydded mangre.

4.20 Mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn hanfodol bod swyddogion heddlu, swyddogion tân neu swyddogion yr awdurdod trwyddedu yn gallu nodi'r goruchwyliwr dynodedig mangre yn syth fel y gellir delio ag unrhyw broblemau yn gyflym. Oherwydd hyn, mae'n rhaid nodi enw'r goruchwyliwr dynodedig mangre a'r manylion cyswllt ar y drwydded mangre ac mae'n rhaid cadw hon yn y fangre ac arddangos ffurf gryno ohoni.

4.21 Pan gaiff goruchwyliwr dynodedig mangre newydd ei enwi, dylai deiliaid trwydded y fangre - cadwyn o archfarchnadoedd neu gwmni gweithredu tafarnau efallai – gyflwyno cais i'r awdurdod trwyddedu (gan gynnwys cais i'w weithredu'n syth) ynghyd â:

- ffurflen ganiatâd gan yr unigolyn dan sylw i ddangos ei fod yn caniatáu ymgymryd â'r rôl gyfrifol hon, a
- rhan berthnasol (Rhan A) y drwydded.

4.22 Mae'n rhaid iddynt hefyd hysbysu'r heddlu o'r cais.

4.23 Dim ond un goruchwyliwr dynodedig mangre y gellir ei nodi mewn trwydded mangre unigol, ond gall goruchwyliwr dynodedig mangre oruchwylio mwy nag un mangre cyhyd â'u bod yn gallu sicrhau bod y pedwar amcan trwyddedu yn cael eu hyrwyddo'n gywir a bod y fangre yn cydymffurfio â chyfraith trwyddedu ac amodau trwydded.

4.24 Lle bydd goruchwyliwr yn newid yn aml, fe all deiliad y drwydded mangre gyflwyno'r ffurflen rhag blaen gan nodi'r dyddiad y bydd yr unigolyn newydd yn cychwyn yn ei swydd a phryd fydd y newid yn weithredol.

## GWRTHWYNEBIADAU'R HEDDLU I ORUCHWYLWYR NEWYDD

4.25 Gall yr heddlu wrthwynebu i ddynodi goruchwylydd mangre newydd lle, mewn amgylchiadau eithriadol, y maent o'r farn y byddai'r penodiad yn tanseilio'r amcan atal troseddu. Gall yr heddlu wrthwynebu lle, er enghraifft, y mae penodi goruchwyliwr dynodedig mangre am y tro cyntaf neu ei drosglwyddo i fangre benodol a bod ei bresenoldeb mewn cyfuniad â mangre benodol yn achosi pryderon eithriadol. . Er enghraifft, lle mae deiliad trwydded bersonol wedi cael caniatâd gan y llysoedd i gadw ei drwydded er gwaethaf collfarnau am werthu alcohol i blant (trosedd berthnasol) ac yna'n cael ei drosglwyddo i fangre ag enw drwg am yfed o dan oedran.

4.26 Lle mae'r heddlu yn gwrthwynebu, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu drefnu gwrandawiad lle gellir ystyried y mater ac y gall y ddau barti gyflwyno eu dadleuon. Mae Deddf 2003 yn darparu y gall ymgeisydd wneud cais i'r unigolyn dderbyn swydd fel goruchwyliwr dynodedig mangre ar unwaith ac, mewn achosion o'r fath, y mater fyddai a ddylid tynnu'r unigolyn o'r swydd hon. Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu sy'n ystyried y mater gyfyngu eu hystyriaeth i fater trosedd ac anhrefn. Dylent roi rhesymau cynhwysfawr am eu penderfyniad a byddai gan y naill barti neu'r llall hawl i apelio pe byddai eu dadl yn cael ei gwrthod.

4.27 Mae hygludedd trwyddedau personol o un mangre i'r llall yn gysyniad pwysig yn Neddf 2003. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl y byddai gwrthwynebiadau'r heddlu yn codi mewn amgylchiadau gwirioneddol eithriadol yn unig. Os yw awdurdod trwyddedu o'r farn bod yr heddlu yn gwrthwynebu fel mater o drefn i ddynodi goruchwylwyr mangre newydd ar sail nad yw'n eithriadol, dylent godi'r , mater gyda phrif swyddog yr heddlu ar frys.

## GWRTHWYNEBIADAU'R HEDDLU I ORUCHWYLWYR PRESENNOL

4.28 Mae Deddf 2003 hefyd yn darparu ar gyfer atal a fforffedu trwyddedau personol gan y llysoedd yn dilyn collfarnau am droseddau perthnasol, yn cynnwys torri cyfraith trwyddedu. Gall yr heddlu ar unrhyw adeg ar ôl penodi goruchwyliwr dynodedig mangre geisio adolygiad o drwydded mangre ar sail yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu os yw pryderon yn codi ynghylch perfformiad goruchwyliwr. Mae hygludedd trwyddedau personol hefyd yn bwysig i'r diwydiant oherwydd yr amlder y mae rhai busnesau yn symud rheolwyr o fangre i fangre. Ni ddisgwylir felly i awdurdodau trwyddedu neu'r heddlu geisio defnyddio pŵer ymyrryd fel mater o drefn i rwystro hygludedd trwydded neu ddefnyddio gwrandawiadau o'r math hyn fel ffordd i brofi cefndir a chymeriad unigolyn. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol felly yn disgwyl i wrandawiadau o'r fath fod yn brin ac yn wirioneddol eithriadol.

## COLLFARNAU A CHYSWLLT Â'R LLYSOEDD

4.29 Lle mae deiliad trwydded bersonol yn cael ei ganfod yn euog gan lys o drosedd berthnasol, mae dyletswydd ar y llys i hysbysu'r awdurdod trwydded perthnasol o'r gollfarn ac unrhyw benderfyniad i orchymyn bod y drwydded bersonol yn cael ei hatal neu ei fforffedu. Mae dedfryd y llys yn dod i rym ar unwaith er gwaetha'r ffaith y gellir apelio yn erbyn y gollfarn neu'r ddedfryd (er y gall y llys atal y fforffed neu ataliad y drwydded yn dibynnu ar ganlyniad unrhyw apêl).

4.30 Pan fydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn y fath hysbysiad, dylai gysylltu â'r deiliad a gofyn am y drwydded fel y gellir cymryd y camau angenrheidiol. Yna mae'n rhaid i'r deiliad gyflwyno'i drwydded i'r awdurdod o fewn 14 diwrnod. Disgwylir y byddai prif swyddog yr heddlu ar gyfer yr ardal lle mae'r deiliad yn byw yn cael ei hysbysu os na fyddant yn ymateb yn brydlon. Dylai'r awdurdod trwyddedu gofnodi manylion y gollfarn, ei rhoi ar y drwydded, ynghyd ag unrhyw gyfnodau atal ac yna dychwelyd y drwydded i'r deiliad. Os caiff y drwydded ei fforffedu, dylai'r awdurdod trwyddedu ei chadw.

## TROSEDDAU PERTHNASOL

4.31 Nodir troseddau perthnasol yn Atodlen 4 Deddf 2003 (gweler Atodiad C yr Arweiniad hwn).

# 5. Ar bwy y mae angen trwydded mangre?

5.1 Mae trwydded mangre yn awdurdodi defnyddio unrhyw fangre, (a ddiffinnir yn Neddf 2003 fel cerbyd, llong neu adeilad y gellir ei symud neu unrhyw le neu ran o unrhyw fangre), ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a ddisgrifir ac a ddiffinnir yn adran 1(1) o ac Atodlenni 1 a 2 o Ddeddf 2003.

## RHANNAU PERTHNASOL Y DDEDDF

5.2 Wrth bennu a ddylid trwyddedu unrhyw fangre, mae rhannau canlynol Deddf 2003 yn berthnasol:

| Rhan berthnasol y Ddeddf | Disgrifiad |
|---|---|
| Adran 1 | Amlinellu'r gweithgareddau trwyddedadwy |
| Rhan 3 | Amlinellu darpariaethau'n ymwneud â thrwyddedau mangre |
| Rhan 4 | Darpariaethau ar gyfer clybiau cymhwysol |
| Adran 173 | Gweithgareddau mewn lleoliadau penodol nad ydynt yn drwyddedadwy |
| Adran 174 | Gall mangreoedd fod wedi eu heithrio ar sail diogelwch gwladol |
| Adran 175 | Rafflau a thombola |
| Adran 175 | Gwobrau alcohol ddim i gael eu trin fel rhai trwyddedadwy os cyflawnir amodau penodol |
| Adran 176 | Gwahardd gwerthu alcohol mewn ardaloedd gwasanaethau traffyrdd; ac yn cyfyngu'r amgylchiadau lle y gellir gwerthu alcohol mewn garejys |
| Adran 189 | Darpariaeth arbennig yn ymwneud â thrwyddedu llongau, cerbydau ac adeiladau y gellir eu symud |
| Adran 190 | Lle mae'r man lle mae'r contract ar gyfer gwerthu alcohol yn cael ei wneud yn wahanol i'r man lle mae'r alcohol wedi ei neilltuo i gontract gwerthu alcohol i gael ei drin fel petai'n digwydd lle mae'r alcohol wedi ei neilltuo i'r contract; |
| Adran 191 | Yn diffinio "alcohol" at ddibenion y Ddeddf |
| Adran 192 | Yn ddiffinio ystyr "adwerthu" |
| Adran 193 | Yn ddiffinio ymysg pethau eraill "mangre", "cerbyd", "llong" a "gwin" |
| Atodlenni 1 a 2 | Darparu adloniant rheoledig a Darparu lluniaeth yn hwyr y nos |

5.3 Mae Adran 191 yn darparu ystyr “alcohol” at ddibenion Deddf 2003, a dylid nodi bod amrywiaeth mawr o fwydydd yn cynnwys alcohol ond ychydig iawn o’i gymharu â chyfaint y cynnyrch. At ddibenion y Ddeddf, nid yw gwerthu neu gyflenwi alcohol nad yw’n gryfach na 0.5 y cant ABV (alcohol trwy gyfaint) ar adeg y gwerthu neu’r cyflenwi dan sylw yn weithgaredd trwyddedadwy. Ond lle mae’r bwyd yn cynnwys lefel uwch o alcohol, er enghraifft, mewn rhai jelis alcoholaidd, byddai eu gwerthu yn weithgaredd trwyddedadwy

## MANGRE TRWYDDEDIG AR GYFER GAMBLO

5.4 Mae gamblo yn destun deddfwriaeth ar wahân. Bydd Deddf Gamblo 2005 yn dod i rym ym Medi 2007, pryd diddymir y ddeddf bresennol (Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963, Deddf Hapchwarae 1968 a Deddf Loterïau a Difyrion 1976). Wrth ganiatáu, amrywio neu adolygu trwyddedau sy’n awdurdod gweithgareddau trwyddedadwy o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn mangreoedd o'r fath, ni ddylai awdurdodau trwyddedu ddyblygu unrhyw amodau a osodir yn rhinwedd deddfwriaeth o’r fath. Wrth wneud cais am drwydded, fe all yr ymgeisydd, wrth nodi'r camau i'w cymryd i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu, gyfeirio at yr amodau statudol parthed eu trwydded hapchwarae lle mae hynny'n berthnasol. Ar ben hynny, ni ddylai unrhyw amodau sydd ynghlwm â thrwyddedau mangre atal deiliad trwydded rhag cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth gamblo neu reoliadau ategol. Mae mwy o wybodaeth am y trosglwyddiad i Ddeddf Gamblo 2005 i’w gweld ar wefan DCMS yn www.culture.gov.uk.

## MEYSYDD CHWARAE DYNODEDIG, DIGWYDDIADAU CHWARAEON DYNODEDIG A STADIA CHWARAEON AWYR AGORED

5.5 Mae stadia chwaraeon awyr agored yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth ar wahân mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a diogelwch tân, felly dylai awdurdodau trwyddedu osgoi unrhyw ddyblygu wrth ganiatáu, amrywio neu adolygu trwyddedau mangreoedd.

5.6 Nid yw’r digwyddiadau chwaraeon a gynhelir mewn stadia awyr agored o’r fath yn dod o fewn y diffiniad o ddarparu adloniant wedi ei reoleiddio o dan Ddeddf 2003; ac eithrio gornestau paffio a wreslo. Dylai awdurdodau trwyddedu felly gyfyngu eu hystyriaethau o geisiadau am drwyddedau mangre i weithgareddau sy’n drwyddedadwy o dan Ddeddf 2003.

5.7 Yn aml bydd nifer o fariau a thai bwyta mewn stadia pwysig gan gynnwys bariau sydd fel arfer ar agor i’r holl wylwyr yn ogystal â bariau a thai bwyta nad oes gan aelodau’r cyhoedd fynediad rhydd iddynt. Darperir alcohol hefyd mewn blychau ac ardaloedd gwylio preifat. Gall trwydded mangre wneud trefniadau ar wahân ar gyfer ardaloedd preifat a chyhoeddus neu ar gyfer ardaloedd tai bwyta yn yr un mangre. Gall hefyd ddynodi ardaloedd lle na ellir yfed alcohol o gwbl neu ar adegau arbennig.

5.8 Mae hanes yn dangos bod rhai digwyddiadau chwaraeon yn fwy tebygol nag eraill i arwain at bryderon ynghylch diogelwch gwylwyr ac anhrefn yn eu plith. Dylai awdurdodau trwyddedu ystyried hyn wrth bennu amodau trwydded mangre. Oherwydd materion rheoli tyrfaoedd sy’n codi o amgylch meysydd chwaraeon, disgwylir i awdurdodau trwyddedu roi pwysau sylweddol ar farn prif swyddog yr heddlu lleol wrth roi sylwadau’n ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy.

5.9 Dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol nad yw paragraffau 98 a 99(c) o Atodlen 6 o'r Ddeddf a diddymiad adran 2(1A) ac adran 5A o Ddeddf Digwyddiadau Chwaraeon (Rheoli alcohol ac ati. ) 1985 wedi eu cychwyn gyda'r darpariaethau sy'n weddill o Ddeddf 2003, oherwydd byddai'r effaith wedi bod yn wahanol iawn i'r un a fwriadwyd gan y Senedd. Mae'r Llywodraeth yn debygol o geisio cyflwyno'r polisi a fwriadwyd trwy ffyrdd amgen a bydd unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn ymwneud â hyn ar gael ar wefan DCMS.

## STADIA CHWARAEON Â THOEAU SY'N AGOR A CHAU

5.10 Nid yw caeau chwarae pwysig gyda thoeau sy'n agor a chau, megis Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, yn dod o fewn y diffiniad o "ddigwyddiad chwaraeon dan do" o dan Ddeddf 2003. O ganlyniad nid yw digwyddiadau a gynhelir mewn stadia o'r fath yn 'adloniant wedi ei reoleiddio' fel y'i diffiniwyd ac nid ydynt yn drwyddedadwy o dan Ddeddf 2003.

## LLONGAU

5.11 Mae Deddf 2003 yn berthnasol i bob llong (sy'n cynnwys llongau mawr a chychod) fel pe byddent yn fangreoedd. Caiff llong nad yw wedi ei hangori neu ei mwrio'n barhaol fel pe bai'n fangre ei thrin fel pe bai'n fangre wedi ei lleoli mewn man lle mae wedi ei hangori neu ei mwrio fel arfer. Yr awdurdod trwyddedu perthnasol ar gyfer ystyried cais ar gyfer trwydded mangre mewn perthynas â llong felly yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer yr ardal lle mae hi wedi ei hangori neu ei mwrio fel arfer.

5.12 Serch hynny, nid yw gweithgaredd yn weithgaredd trwyddedadwy os yw'n digwydd ar long sy'n teithio ar daith ryngwladol. Ystyr "taith ryngwladol" yw taith uniongyrchol o fan yn y Deyrnas Unedig i gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu daith uniongyrchol o fan y tu allan i'r Deyrnas Unedig i gyrchfan yn y Deyrnas Unedig.

5.13 Os nad yw llong wedi eu hangori'n barhaol ac yn cludo mwy na 12 teithiwr ynallong teithwyr ydyw a bydd yn destun rheoliad diogelwch gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. (MCA).

5.14 Lle gwneir cais am drwydded mangre mewn perthynas â llong, dylai ystyried hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ond ni ddylai ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud â mordwyo neu weithredu'r llong yn ddiogel, diogelwch cyffredinol teithwyr neu ddarpariaeth frys, sydd i gyd yn ddarostyngedig i reoliadau y mae'n rhaid eu bodloni cyn rhoi Tystysgrif Teithwyr a Thystysgrif Rheoli Diogelwch i long.

5.15 Os bydd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn fodlon bod y llong yn cydymffurfio â Safonau Llongau Masnach ar gyfer llong deithwyr, yna dylid derbyn bod y fangre yn cwrdd ag amcan diogelwch y cyhoedd. Mewn perthynas ag agweddau eraill diogelwch y cyhoedd o'r cais, dylid rhoi pwys arbennig ar sylwadau a gyflwynir gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

5.16 Os yw llong nad yw wedi eu hangori'n barhaol ac nad yw'n cludo mwy na 12 teithiwr yn hwylio i'r môr, bydd yn destun cod diogelwch Llongau Bach Masnachol. Mae'r cod yma yn pennu safonau ar gyfer adeiladu, offer diogelwch a chriw llongau o'r fath a bydd yr MCA yn gallu cadarnhau bod ganddi dystysgrif diogelwch dilys.

5.17 Os yw llong yn cludo dim mwy na 12 teithiwr ac nad yw'n hwylio i'r môr, gellir ei rheoleiddio neu ei thrwyddedu gan yr awdurdod harbwr perthnasol, awdurdod mordwyo neu awdurdod lleol. Y safon genedlaethol ar gyfer y llongau hyn yw'r Cod Cychod Teithio Bychain Dyfroedd Mewndirol (anstatudol), sy'n darparu arweiniad ar safonau ar gyfer adeiladu, offer diogelwch a chriw. Fe all rhai awdurdodau ddefnyddio eu rheolau lleol eu hunain. Nid oes gan MCA gyfrifoldeb uniongyrchol am y llongau hyn ac ni fydd fel rheol yn cynnig sylwadau ar gais am drwydded mangre.

## MEYSYDD AWYR RHYNGWLADOL A PHORTHLADDOEDD RHYNGWLADOL

5.18 O dan Ddeddf 2003, gall yr Ysgrifennydd Gwladol 'ddynodi' porthladd, porthladd i hofranlongau neu faes awyr gyda swm sylweddol o draffig rhyngwladol fel nad yw gweithgaredd a wneir yno yn weithgaredd trwyddedadwy. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol gadw hefyd dynodiadau presennol a wnaed o dan ddeddfwriaeth gynharach. Gellir gweld manylion am y porthladdoedd, porthladdoedd i hofranlongau a meysydd awyr a ddynodwyd felly ar wefan DCMS.

5.19 Mae ardaloedd mewn porthladdoedd/meysydd awyr dynodedig sydd yn ymyl y rhedfa awyrennau neu wrth ochr y dŵr wedi eu cynnwys yn yr eithriad yn Neddf 2003 o'r gyfundrefn drwyddedu. Nid yw'r cyhoedd nad yw'n teithio yn cael mynediad i'r ardaloedd hyn ac maent yn ddarostyngedig i is-ddeddfau caeth. Mae'r eithriad yn caniatáu darparu lluniaeth o bob math i deithwyr ar bob adeg o'r dydd a'r nos. Mae rhannau eraill o borthladdoedd, porthladdoedd i hofranlongau a meysydd awyr dynodedig yn ddarostyngedig i'r rheolaethau trwyddedu arferol.

## CERBYDAU

5.20 O dan Ddeddf 2003, ni chaniateir gwerthu alcohol ar gerbyd sy'n symud ac ni chaniateir trwyddedu'r cerbyd at y diben hwnnw. Er hynny, gall awdurdodau trwyddedu ystyried ceisiadau mewn perthynas â cherbyd ar gyfer gwerthu alcohol pan fydd wedi ei barcio neu'n llonydd. Er enghraifft, gallai bariau symudol werthu alcohol mewn digwyddiadau arbennig cyn belled â'u bod wedi eu parcio. Byddai unrhyw ganiatâd a roddid yn berthnasol i'r man lle mae'r cerbyd wedi ei barcio'n unig a lle bydd y gwerthu'n digwydd.

5.21 Ni ystyrir darparu unrhyw fath o adloniant neu gyfleusterau adloniant ar fangre sydd yn gerbyd neu'n rhan o gerbyd sydd yn symud a heb fod wedi ei barcio'n barhaol neu dros dro fel adloniant wedi ei reoleiddio at ddibenion Deddf 2003. Er enghraifft , ni ellid rhoi trwydded mangre i fand sy'n perfformio ar gerbyd sy'n teithio mewn gorymdaith os yw'r perfformiad yn digwydd dim ond pan fydd y cerbyd yn symud.

## TRENAU AC AWYRENNAU

5.22 Mae cerbydau rheilffyrdd ac awyrennau sy'n teithio wedi eu heithrio o'r gyfundrefn drwyddedu. Er hynny, dylai awdurdodau trwyddedu nodi bod rhai awyrennau a cherbydau rheilffordd segur yn cael eu defnyddio fel tai bwyta a bariau, ac yn aros yn eu hunfan. Mae'r mangreoedd hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf 2003.

## GAREJYS

5.23 Mae Adran 176 o Ddeddf 2003 yn gwahardd gwerthu neu ddarparu alcohol o fangre a ddefnyddir yn bennaf fel garej. Defnyddir mangre fel garej os yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

- adwerthu petrol;
- adwerthu derv;
- gwerthu cerbydau modur; a
- chynnal a chadw cerbydau modur.

5.24 Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu benderfynu a yw mangre benodol yn cael ei defnyddio'n bennaf fel garej ai peidio. Mae'r dull o bennu'r prif ddefnydd a gymeradwywyd gan y llysoedd hyd yn hyn wedi bod yn seiliedig ar ddwysedd defnydd i bennu prif ddefnydd. Er enghraifft, os yw siop garej mewn unrhyw ardal wledig yn cael ei defnyddio'n ddwysach gan gwsmeriaid sy'n prynu nwyddau eraill na chan gwsmeriaid sy'n prynu nwyddau neu wasanaethau a restrir uchod, efallai ei bod yn briodol i geisio awdurdod i werthu neu gyflenwi alcohol.

5.25 Pan nad oes tystiolaeth ddigonol i sefydlu prif ddefnydd, mater i'r awdurdod trwyddedu yw penderfynu caniatáu trwydded a delio ag unrhyw faterion trwy weithredu gorfodi neu ohirio caniatáu trwydded nes bod modd datrys y prif ddefnydd yn foddhaol.

## DIGWYDDIADAU MAWR DROS DRO LLE MAE ANGEN TRWYDDEDAU MANGREOEDD

5.26 Dylai awdurdodau trwyddedu nodi hefyd y gellir gwneud cais am drwydded mangre am gyfnod byr, ar wahân. Mae Deddf 2003 yn darparu hefyd ar gyfer rhoi rhybuddion am ddigwyddiadau dros dro sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau amrywiol (gweler Pennod 7 o'r Arweiniad hwn). Byddai angen awdurdod trwydded mangre ar unrhyw ddigwyddiad dros dro nad yw o fewn y terfynau hyn os yw'r fangre neu'r lle heb drwydded ar yr adeg honno ar gyfer y gweithgareddau cysylltiedig. Er enghraifft, byddai hyn yn codi pe byddai'r digwyddiad yn cynnwys dros 499 yn mynychu neu os byddai hysbysiad o ddigwyddiad dros dro yn cael ei roi, byddai'n golygu terfyn ar gyfer mangre unigol o dros 12 hysbysiad mewn blwyddyn calendr.

5.27 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am drwydded o'r fath a'i chaniatáu yr un peth â'r rhai ar gyfer trwydded mangre cyfnod amhenodol ac eithrio'r ffaith y dylid datgan ar y cais y bydd cyfnod y drwydded yn gyfyngedig. Dylai awdurdodau trwyddedu nodi'n eglur ar drwydded felly pa bryd y daw i rym a pha bryd y bydd yn dod i ben. Os bydd alcohol yn cael ei werthu bydd angen pennu goruchwylydd mangre dynodedig sydd yn gorfod bod yn ddeiliad trwydded personol.

5.28 Gall digwyddiadau dros dro amrywio o ddigwyddiadau lleol cymharol fach, fel perfformiadau drama, all barhau am bum niwrnod, i wyliau pop mawr sy'n parhau am ddiwrnod yn unig. Gall y digwyddiadau dros dro mwyaf ddenu torfeydd anferth o fwy na 100,000 a gall fod risgiau sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd ac i drosedd ac anhrefn yn ogystal â

niwsans cyhoeddus. Disgwylir i awdurdodau trwyddedu ei gwneud hi'n eglur mewn cyhoeddusrwydd lleol y dylent gael rhybudd buan o ddigwyddiadau mawr er mwyn caniatáu i awdurdodau cyfrifol drafod atodlenni gweithredu gyda'r trefnwyr ymhell cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno. Bydd llawer o'r digwyddiadau hyn yn esgor ar ystyriaethau arbennig mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd. Dylai atodlenni gweithredu felly adlewyrchu ymwybyddiaeth o'r materion hyn a bydd y cyngor a roddir yn y dogfennau canlynol yn arbennig o berthnasol:

- The Event Safety Guide – A guide to health, safety and welfare at music and similar events (Yr Awdurdod Gweithrtedol Iechyd a Diogelwch 1999) ("The Purple Book") ISBN 0 7176 2453 6
- Managing Crowds Safely (Yr Awdurdod Gweithrtedol Iechyd a Diogelwch 2000) ISBN 0 7176 1834 X
- 5 Steps to Risk Assessment: Case Studies (Yr Awdurdod Gweithrtedol Iechyd a Diogelwch 1998) ISBN 07176 15804
- The Guide to Safety at Sports Grounds (Y Llyfrfa, 1997) ("The Green Guide") ISBN 0 11 300095 2
- Safety Guidance for Street Arts, Carnival, Processions and Large Scale Performances a gyhoeddir gan yr Independent Street Arts Network, mae copïau ar gael drwy www.streetartsnetwork.org.uk/pages/publications.htm
- Fire Safety Risk Assessment – Open Air Events and Venues (ISBN 978 1 85112 823 5) – ar gael ar wefan Cymunedau a Llywodraeth Leol www.communities.gov.uk/fire

## FFIOEDD YCHWANEGOL AM DDIGWYDDIADAU MAWR

5.29 Dylid nodi nad yw trwyddedau mangre ar gyfer digwyddiadau mawr dros dro yn awtomatig yn denu ffioedd uwch fel y nodir yn y Rheoliadau ffioedd perthnasol, y mae'n rhaid eu talu yn ogystal â'r cais safonol neu'r ffioedd amrywiad pan fydd trwydded y fangre'n ymwneud â gweithgareddau sy'n denu torf o 5,000 neu fwy.

5.30 Mae lleoliadau parhaol neu a adeiladwyd at y diben neu wedi eu haddasu'n strwythurol ar gyfer y gweithgarwch wedi eu heithrio o'r ffi ychwanegol.

5.31 Mae rheoliadau'n rhagnodi na fyddai'r ffi ychwanegol ar gyfer digwyddiadau mawr yn daladwy os yw'r fangre yn adeilad nad yw'n llong, yn gerbyd nac yn adeilad y gellir ei symud, a'i fod wedi ei hadeiladu neu ei haddasu'n strwythurol i alluogi:

- Y gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig i gael eu cynnal
- Y fangre i gael ei haddasu dros dro, o bryd i'w gilydd, os yw'n berthnasol ar gyfer y gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig
- Y nifer arfaethedig yn y fangre ar unrhyw adeg
- I'r fangre gael ei defnyddio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r atodlen weithredu.

Ceir manylion llawn y ffi ychwanegol yn Rheoliad 4(5) Rheoliadau 2003 (Ffioedd) Deddf Trwyddedu 2005 ar wefan DCMS.

# 6. Tystysgrifau Mangre Clwb

6.1 Mae'r Bennod hon yn rhoi cyngor am yr arfer gorau o ran gweinyddu'r prosesau ar gyfer rhoi, amrywio ac adolygu tystysgrifau mangre clwb a gweithdrefnau cysylltiedig eraill.

## CYFFREDINOL

6.2 Cymdeithasau yw'r clybiau yma lle mae aelodau wedi dod ynghyd at ddibenion cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol arbennig ac yna wedi cyfuno i brynu alcohol mewn swmp fel aelodau o'r gymdeithas i'w gyflenwi yn y clwb. Enghreifftiau cyffredin yw Clybiau Llafur, Ceidwadwyr a Rhyddfrydwyr, y Lleng Brydeinig Frenhinol, clybiau cyn-filwyr eraill, clybiau gwaith, sefydliadau lles glowyr, clybiau cymdeithasol a chwaraeon.

6.3 Yn dechnegol nid oes adwerthu alcohol yn digwydd gan y clwb mewn mangre o'r fath heblaw i westeion. O ran yr aelodau, nid oes gwerthiant yn y pwynt hwnnw (gan fod yr aelod yn berchen ar ran o'r stoc alcohol) a phan fo arian yn pasio ar draws y bar wrth gyflenwi alcohol i aelod, dull yw hwnnw o gadw tegwch rhwng aelodau lle mae rhai yn yfed mwy na'r lleill. Mae hyn yn egluro pam bod Deddf 2003 yn aml yn cyfeirio at gyflenwi alcohol yng nghyd-destun clybiau ac nid yr adwerthu yn unig.

6.4 Dim ond clybiau 'cymhwysol' all gael tystysgrifau mangre clwb. Er mwyn bod yn glwb cymhwysol, mae'n rhaid bod gan glwb 25 aelod o leiaf ac mae'n rhaid iddo fodloni'r amodau a nodir ym mharagraff 6.9 isod. Mae rhoi tystysgrif mangre clwb yn golygu bod gan glwb cymhwysol hawl i fuddion penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr awdurdod i gyflenwi alcohol i aelodau a'i werthu i westeion yn y fangre y mae'r dystysgrif yn perthyn iddi heb yr angen i unrhyw aelod neu weithiwr ddal trwydded bersonol;
- dim gofyniad i bennu goruchwyliwr mangre dynodedig (gweler paragraffau 4.19 a 4.20 o'r Arweiniad hwn);
- hawliau mynediad mwy cyfyngedig i'r heddlu a phobl awdurdodedig oherwydd bod y fangre'n cael ei hystyried yn breifat heb fod ar agor i'r cyhoedd fel rheol;
- wedi ei eithrio rhag gallu cael ei gau yn syth ar orchymyn yr heddlu ar sail terfysg a niwsans sŵn (heblaw pan yn cael ei ddefnyddio o dan awdurdod rhybudd neu drwydded mangre digwyddiad dros dro) oherwydd eu bod yn gweithredu o dan eu codau disgyblaeth a'u rheolau sy'n cael eu gorfodi'n llym; ac
- wedi ei eithrio rhag gorchmynion gan y llysoedd ynadon i gau pob mangre drwyddedig mewn ardal lle mae terfysg yn digwydd neu'n cael ei ddisgwyl.

6.5 Ni ddylid cymysgu clybiau cymhwysol o'r fath gyda chlybiau perchnogol, sef clybiau sy'n cael eu rhedeg yn fasnachol gan unigolion, partneriaethau neu fusnesau er mwyn gwneud elw. Mae'n rhaid i'r rhain gael trwydded mangre ac nid ydynt yn glybiau cymhwysol.

6.6 Bydd hawl gan glwb cymhwysol o dan delerau tystysgrif mangre clwb i werthu a chyflenwi alcohol i'w aelodau a'u gwesteion yn unig. Ni chaniateir aelodaeth yn y fan a'r lle ac mae'n rhaid i aelodau aros o leiaf dau ddiwrnod rhwng eu cais a chael mynediad i'r clwb. Gall unrhyw glwb cymhwysol ddewis cael trwydded mangre os yw'n penderfynu ei fod am gynnig ei gyfleusterau'n fasnachol i'w defnyddio gan y cyhoedd, yn cynnwys gwerthu alcohol iddynt. Fodd bynnag, gall unigolyn ar ran clwb roi rhybuddion digwyddiad dros dro i'r fangre am gyfnod o hyd at 96 awr ar gyfer hyd at 12 achlysur bob blwyddyn galendr cyn belled nad oes mwy na 499 o bobl yn mynychu'r digwyddiad ac yn amodol ar uchafswm hyd cyffredinol yn y flwyddyn o 15 diwrnod ac ar adegau o'r fath gallant werthu alcohol i'r cyhoedd neu logi'r fangre i'w defnyddio gan y cyhoedd.

6.7 Nid yw Deddf 2003 yn atal cyflenwi alcohol i ymwelwyr â chlwb cymhwysol ar yr amod eu bod yn 'westeion' i unrhyw aelod o'r clwb neu'r clwb yn gyffredinol, ac nid oes dim yn Neddf 2003 sy'n atal caniatáu mynediad i bobl o'r fath fel gwesteion heb rybudd ymlaen llaw. Er mwyn hyblygrwydd, nid yw'r Ddeddf yn diffinio "gwestai" a chwestiwn o ffaith yw pennu a yw rhywun yn westai gwirioneddol neu beidio. Fe all y term gynnwys amrywiaeth eang o bobl a wahoddir gan y clwb cymhwysol neu aelod unigol i ddefnyddio cyfleusterau'r clwb. Mater i'r clwb i benderfynu yn ei gylch yw'r modd y caniateir mynediad iddynt fel 'gwesteion' ac ystyried pennu hynny yn rheolau'r clwb ei hun.

6.8 Nid oes gofyniad gorfodol o dan Ddeddf 2003 i aelod clwb lofnodi gwesteion i mewn. Er hynny, efallai y cyrhaeddir man lle mae clwb yn darparu gwasanaethau masnachol i'r cyhoedd mewn modd sy'n groes i'w statws fel clwb cymhwysol. Bryd hynny ni fyddai'r clwb yn cael ei gynnal mewn "ewyllys da" ac ni fyddai mwyach yn cwrdd ag "amod cyffredinol 3" ar gyfer clybiau cymhwysol yn adran 62 Deddf 2003. O dan Ddeddf 2003 mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu benderfynu pryd y mae clwb wedi peidio cael ei gynnal mewn "ewyllys da" a rhoi hysbysiad yn tynnu y dystysgrif mangre clwb yn ôl. Mae gan y clwb yr hawl i apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad o'r fath. Oni bai bod yr apêl yn llwyddiannus, byddai angen i'r clwb wneud cais am drwydded mangre lawn i gynnwys unrhyw weithgareddau trwyddedadwy a gynhelir yno.

## AMODAU CYMHWYSO

6.9 Mae Adran 62 o Ddeddf 2003 yn gosod pum amod cyffredinol y mae'n rhaid i glwb perthnasol eu cwrdd i fod yn glwb cymhwysol. Mae Adran 63 yn nodi hefyd materion penodol i awdurdodau trwyddedu i'w galluogi i benderfynu a yw clwb wedi ei sefydlu ac yn cael ei redeg yn ddidwyll – y trydydd amod cymhwyso. Mae Adran 64 yn nodi'r amodau ychwanegol sydd ond yn berthnasol i glybiau sy'n bwriadu cyflenwi alcohol i aelodau a gwesteion. Mae Adran 90 Deddf 2003 yn rhoi pwerau i'r awdurdod trwyddedu gyhoeddi hysbysiad i glwb yn tynnu ei dystysgrif lle mae'n ymddangos nad yw bellach yn cwrdd â'r amodau cymhwyso. Mae hawl i apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

## AELODAU CYSWLLT A GWESTEION

6.10 Yn ogystal â'u haelodau a'u gwesteion eu hunain, gall clybiau cymhwysol roi mynediad hefyd i aelodau cyswllt a'u gwesteion (h. y. aelodau a gwesteion o 'glwb cydnabyddedig' yn ôl diffiniad adran 193 o Ddeddf 2003) i'r fangre clwb pan fo gweithgareddau clwb cymhwysol yn digwydd a hynny heb gyfaddawdu ar ddefnydd eu trwydded mangre clwb. Mae hyn yn adlewyrchu'r trefniadau traddodiadol lle mae clybiau o'r fath yn rhoi eu cyfleusterau ar agor i aelodau clybiau eraill sy'n gweithredu trefniadau felly yn eu tro.

## CEISIADAU I DDYFARNU NEU AMRYWIO TYSTYSGRIFAU MANGRE CLWB

6.11 Mae'r trefniadau i wneud cais am dystysgrifau mangre clwb neu i'w hamrywio yn debyg iawn i'r rheiny i gael trwydded mangre. Dylai awdurdodau trwyddedu felly edrych ar Bennod 8 o'r Arweiniad hwn ar drafod ceisiadau o'r fath ac oriau agor. Yn y Bennod honno gellir darllen y rhan fwyaf o'r cyfeiriadau at y drwydded mangre, deiliaid trwydded mangre ac ymgeiswyr at ddibenion y Bennod hon fel tystysgrifau mangre clwb, clybiau cymhwysol ac ymgeiswyr clwb.

6.12 Yn ychwanegol i gynllun o'r fangre ac atodlen weithredu clwb, mae'n rhaid i glybiau hefyd gynnwys rheolau'r clwb gyda'u cais. Ar ôl hysbysu'r awdurdod trwyddedu ynghylch unrhyw newid yn y rheolau hyn mae'n ofynnol i'r clwb dalu'r ffi a bennwyd yn y rheoliadau. Efallai bydd awdurdodau trwyddedu am ystyried dychwelyd copi wedi ei ardystio o'r rheolau i'r ymgeisydd gyda'r dystysgrif. Dylai awdurdodau trwyddedu gadw mewn cof na allant wneud unrhyw newid yn y rheolau yn ofynnol fel amod i dderbyn trwydded oni bai bod sylwadau perthnasol wedi eu cyflwyno. Fodd bynnag, os bodlonir awdurdod trwyddedu bod rheolau clwb yn awgrymu nad yw'n cwrdd â'r amodau cymhwyso sydd yn y Ddeddf, yna ni ddylid caniatáu tystysgrif mangre clwb.

## CAMAU Y MAE ANGEN EU CYMRYD I HYRWYDDO'R AMCANION TRWYDDEDU

6.13 Mae'n rhaid i atodlenni gweithredu clwb sy'n cael eu paratoi gan glybiau, fel atodlenni gweithredu trwyddedau mangre, gynnwys y camau y bwriada'r clwb eu dilyn i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Bydd y rhain yn cael eu trosi i'r amodau a gynhwysir yn y dystysgrif, oni bo'r amodau wedi eu haddasu gan yr awdurdod trwyddedu yn dilyn ystyried sylwadau perthnasol gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb. Rhoddir Arweiniad ar yr amodau hyn ym Mhennod 10 o'r Arweiniad hwn.

6.14 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol am bwysleisio bod clybiau nad ydynt yn gwneud elw yn gwneud cyfraniad pwysig a thraddodiadol i fywyd nifer o gymunedau yng Nghymru a Lloegr ac yn dwyn manteision sylweddol. Mae eu gweithgareddau hwy hefyd yn cael eu cynnal mewn mangre nad yw'r cyhoedd fel arfer yn cael mynediad iddo ac maent yn gweithredu o dan godau disgyblaeth sydd mewn grym i aelodau a'u gwesteion.

6.15 Dylai awdurdodau trwyddedu gadw'r materion hyn mewn cof wrth ystyried sylwadau ac ni ddylent osod amodau ar dystysgrifau oni bai eu bod yn gallu dangos eu bod yn wirioneddol angenrheidiol. Bydd costau anuniongyrchol amodau yn cael eu hysgwyddo gan aelodau unigol o'r clwb ac ni ellir eu hadfer drwy basio'r costau hyn ymlaen i'r cyhoedd.

## CYDRADDOLDEB RHYW

6.16 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylai pob clwb cymhwysol fabwysiadu gweithdrefnau teg a chyfartal i roi aelodaeth i bobl, i ethol swyddogion clwb ac i roi hawliau pleidleisio. Fodd bynnag, er bod triniaeth gyfartal yn bwysig i gymdeithas yn gyffredinol, nid yw'n amcan trwyddedu. Ni ddylid felly gosod amodau sy'n ymyrryd â'r trefniadau ar gyfer roi aelodaeth neu bleidleisio yn y clwb. Byddai'n amhriodol hefyd i ddefnyddio un gyfres o reolau i glybiau cymhwysol ac un arall i glybiau nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau clwb cymhwysol ac felly ddim angen tystysgrifau mangre clwb. Ni ddylai awdurdodau trwyddedu felly geisio herio dilysrwydd unrhyw glwb cymhwysol ar y sail hwn.

## HYSBYSIADAU DIGWYDDIADAU DROS DRO

6.17 Dylai awdurdodau trwyddedu nodi paragraff 7.13 o'r Arweiniad hwn mewn cysylltiad â'r gweithgareddau dros dro a ganiateir mewn mangre clwb.

# 7.Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro

7.1 Mae’r Bennod hon yn disgrifio’r arfer gorau o ran y system o weinyddu’r trefniadau yn Neddf 2003 ar gyfer cynnal gweithgareddau trwyddedig mewn mangre heb ei hawdurdodi gan drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb.

## CYFFREDINOL

7.2 Agwedd bwysicaf y system o weithgareddau dros dro a ganiateir yw nad oes angen awdurdodiad fel y cyfryw ar gyfer y digwyddiadau hynny gan yr awdurdod trwyddedu. Mae’r system yn golygu rhoi gwybod am ddigwyddiad i’r awdurdod trwyddedu a’r heddlu, yn amodol ar gyflawni rhai amodau.

7.3 Yn gyffredinol, dim ond yr heddlu all ymyrryd i atal digwyddiad o’r fath rhag cael ei gynnal neu gytuno ar newid yn y trefniadau; ac ychydig iawn o fiwrocratiaeth sy’n dilyn. Yr unig bryd y gall yr awdurdod trwyddedu ymyrryd o’i ran ei hun yw os eir y tu hwnt i’r terfynau statudol ar nifer yr hysbysiadau o ddigwyddiadau dros dro y gellir eu rhoi mewn gwahanol amgylchiadau. Fel arall, dim ond rhoi cydnabyddiaeth brydlon sydd angen i’r awdurdod trwyddedu ei wneud.

7.4 Dylid nodi nad yw rhoi hysbysiad o ddigwyddiad dros dro yn rhyddhau defnyddiwr y fangre rhag unrhyw ofynion o dan y gyfraith gynllunio am ganiatâd cynllunio priodol lle bo angen.

## CYFYNGIADAU

7.5 Mae’n bosibl bod yn ysgafn ynglŷn â hyn oherwydd y cyfyngiadau y mae Deddf 2003 ei hun yn eu gosod yn uniongyrchol ar y defnydd o’r system. Mae’r cyfyngiadau’n ymwneud â:

- y nifer o weithiau y gall person (“y defnyddiwr mangre”) roi hysbysiad o ddigwyddiad dros dro (50 gwaith y flwyddyn i ddeiliad trwydded bersonol a 5 gwaith y flwyddyn i bobl eraill);
- y nifer o weithiau y gellir rhoi hysbysiad o ddigwyddiad dros dro ar un mangre arbennig (12 o weithiau mewn blwyddyn galendr);
- hyd y gall digwyddiad dros dro bara (96 awr);
- uchafswm cyfartalog hyd y cyfnodau y mae’r hysbysiadau o ddigwyddiad dros dro yn cyfeirio atynt mewn unrhyw un mangre (15 diwrnod); a
- graddfa’r digwyddiad o safbwynt uchafswm nifer y bobl sy’n mynychu ar unrhyw un adeg (llai na 500).

7.6 Mewn unrhyw amgylchiadau eraill, byddai angen trwydded mangre llawn neu dystysgrif mangre clwb ar gyfer cyfnod y digwyddiad dan sylw. Gall person ddewis gwneud cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb os nad yw am gymryd mantais o’r trefniadau ysgafn.

7.7 Wrth bennu a yw uchafswm cyfanswm hyd y cyfnodau a nodir mewn hysbysiadau digwyddiad dros dro mewn mangre unigol wedi bod yn fwy na 15 niwrnod, dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol y byddai unrhyw ddigwyddiad sy'n cychwyn cyn hanner nos ac yn parhau i'r diwrnod canlynol yn cyfrif fel dau ddiwrnod o'r cyfyngiad 15 niwrnod.

7.8 Ni fydd gan nifer o ddefnyddwyr mangre sy’n rhoi hysbysiadau o ddigwyddiad dros dro gefndir masnachol neu fynediad hawdd at gyngor cyfreithiol, yn cynnwys, er enghraifft, pobl sy’n gweithredu ar ran elusennau, grwpiau cymuned a gwirfoddol, ac ati a all fod yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy i godi arian. Dylai awdurdodau trwyddedu sicrhau felly bod cyhoeddusrwydd lleol am y system o weithgareddau dros dro a ganiateir yn eglur ac yn ddealladwy a dylent geisio gadw’r trefniadau yn rhai hawdd eu trafod a’u deall i’r grwpiau hyn.

## PWY ALL ROI HYSBYSIADAU DIGWYDDIAD DROS DRO?

### Deiliaid trwydded bersonol

7.9 Gall deiliad trwydded bersonol roi hysbysiad o ddigwyddiad dros dro mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedadwy, mewn unrhyw fangre at hyd at 50 o achlysuron y flwyddyn am hyd at bedwar diwrnod ar bob achlysur (yn amodol ar y cyfyngiadau i bob mangre - gweler paragraff 7.11 isod), cyn belled â'i fod yn hysbysu'r awdurdod trwyddedu a'r heddlu yn yr ardal lle mae'r achlysur yn digwydd am y manylion perthnasol. Ceir manylion y wybodaeth berthnasol yn yr hysbysiad penodol a geir yn y rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd ar wefan y DCMS.

7.10 Gall deiliad trwydded bersonol hefyd ddefnyddio ei ddyraniad o 50 o hysbysiadau o ddigwyddiad dros dro mewn mangre sydd wedi derbyn trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb. Gall hyn fod, er enghraifft, i gynnal digwyddiad yn cynnwys cerddoriaeth fyw, i ymestyn yr oriau y gellir gwerthu alcohol ar gyfer achlysur ad hoc neu i ddarparu lluniaeth yn hwyr y nos ar ôl noson gwis. Fodd bynnag, os yw'r digwyddiad ad hoc yn rhywbeth y gellir ei ragweld a disgwylir iddo ddigwydd ar nifer o achlysuron, disgwylir y byddai gweithgareddau trwyddedadwy yn rhan o'r cais am drwydded mangre. .

7.11 Dim ond 12 hysbysiad y gellir eu caniatáu ar gyfer yr un mangre hyd at uchafswm o 15 diwrnod.

### Lle nad oes deiliad trwydded bersonol

7.12 Mae Deddf 2003 yn darparu y gall unrhyw berson unigol 18 oed neu drosodd roi hysbysiad o ddigwyddiad dros dro p'un ai eu bod yn dal trwydded bersonol ai peidio. Ni fyddant felly wedi cwrdd â'r profion a'r cymwysterau a ddisgrifir yn Rhan 6 y Ddeddf. Os nad oes alcohol yn cael ei werthu, ni ddylai hyn wneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, bydd nifer o ddigwyddiadau yn golygu cyfuniad o weithgareddau trwyddedadwy. Os nad oes gan defnyddiwr mangre drwydded bersonol sy'n dangos bod y profion a'r cymwysterau hyn wedi eu cwrdd, mae'r Ddeddf yn cyfyngu nifer yr hysbysiadau y gellir eu rhoi gan unrhyw un nad yw'n dal trwydded bersonol i 5 y flwyddyn. Ym mhob ffordd arall, mae'r Arweiniad a'r wybodaeth a roddwyd yn y paragraffau uchod yn wir.

7.13 Dylid nodi y gellir rhoi hysbysiadau o ddigwyddiad dros dro i fangre clwb sydd yn dal tystysgrif mangre clwb gan rai nad ydynt yn dal trwydded bersonol. Golyga hyn, er enghraifft, y gall clwb sydd yn ôl ei drwydded ond yn gallu cyflenwi alcohol i'w aelodau a'u gwesteion fel rheol, yn ystod cyfnod yr hysbysiad o ddigwyddiad dros dro (yn amodol ar y cyfyngiadau ar niferoedd ac achlysuron) o dan awdurdod yr hysbysiad a chyfrifoldeb yr unigolyn sy'n rhoi'r hysbysiad (y defnyddiwr mangre) roi mynediad i aelodau o'r cyhoedd a gwerthu alcohol iddynt hwy hefyd yn ogystal â darparu adloniant rheoledig. Dim ond 12 rhybudd o'r fath y gellir eu rhoi i'r un mangre clwb mewn unrhyw flwyddyn galendr a bydd yr uchafswm hyd cyfartalog o 15 diwrnod mewn grym hefyd.

## MANGREOEDD A HYSBYSWYD

7.14 Gellir rhoi hysbysiad o ddigwyddiad dros dro ar gyfer rhan o adeilad fel un ystafell yn neuadd y pentref, darn o dir o fewn darn mwy o dir, neu ardal ar wahân mewn pabell fawr cyhyd â'i fod yn cynnwys disgrifiad clir o'r ardal lle bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd a bod defnyddiwr y fangre'n bwriadu cyfyngu nifer y bobl sy'n bresennol yn yr ardal ddynodedig ar unrhyw adeg i lai na 500. Os yw defnyddiwr y fangre'n methu cyfyngu'r niferoedd i uchafswm o 499, gall ef neu hi gael eu herlyn am gynnal gweithgareddau trwyddedadwy heb awdurdod.

## TREFNIADAU HYSBYSU

7.15 Mae'n ofynnol ar ddefnyddwyr mangre i anfon hysbysiad o ddigwyddiad dros dro, ar y ffurf a nodir yn y rheoliadau, i'r awdurdod trwyddedu a'r heddlu o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn digwyddiad. Mae'r Llywodraeth yn argymell na ddylid dychwelyd hysbysiadau os ydyn tyn cynnwys gwallau amlwg neu fân walau ffeithiol y gellir eu cywiro'n hwylus.

7.16 Nid oes dim i rwystro hysbysiad o sawl digwyddiad ar yr un pryd ar yr amod bod y digwyddiad cyntaf o leiaf ddeng niwrnod i ffwrdd. Er enghraifft, efallai y bydd deiliad trwydded personol sydd am arddangos a gwerthu cwrw mewn cyfres o sioeau gwledig yn dymuno cyhoeddi sawl hysbysiad ar yr un adeg. Fodd bynnag, byddai hyn ond yn bosib lle mae'r digwyddiadau i'w cynnal yn yr un awdurdod trwyddedu (ac ardal heddlu) ac na fyddai mwy na 499 o bobl yn bresennol yn y fangre i'w defnyddio yn y sioe ar unrhywun adeg.

7.17 Er mai 10 diwrnod gwaith yw'r lleiafswm rhybudd posibl y gellir ei roi, dylai awdurdodau trwyddedu gyhoeddi'n lleol eu dymuniadau o ran hysbysiad ymlaen llaw ac annog rhoddwyr hysbysiad i roi'r hysbysiad cyn gynted ag y bo modd gwneud hynny. Dylai awdurdodau trwyddedu ystyried hefyd cyhoeddi'r uchafswm amser ymlaen llaw i wneud cais am ddigwyddiad. Er enghraifft, os gwneir cais yn rhy gynnar o flaen llaw, gall fod yn anodd i'r heddlu wneud asesiad synhwyrol a gallai arwain at wrthwynebiadau y byddid wedi gallu eu hosgoi fel arall.

7.18 Mae Adran 193 o'r Ddeddf yn diffinio "diwrnod gwaith" fel unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig, Gwener y Groglith, neu ddiwrnod sy'n ŵyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Masnachu Ariannol 1971 yng Nghymru a Lloegr. Mae hysbysiad o "ddeg diwrnod gwaith" yn golygu deg diwrnod gwaith ar wahân i ddiwrnod cyntaf y digwyddiad, ac yn eithrio'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

## RÔL YR AWDURDOD TRWYDDEDU

7.19 Un rheswm dros y gofyniad hysbysu yw i alluogi'r awdurdod trwyddedu i sicrhau bod y cyfyngiadau a nodir yn Rhan 5 o Ddeddf 2003 yn cael eu dilyn ac i ymyrryd os nad ydynt. Er enghraifft, byddai hysbysiad o ddigwyddiad dros dro yn ddi-rym oni bai bod isafswm o 24 awr rhwng y digwyddiadau yr hysbyswyd yn eu cylch gan yr un defnyddiwr mangre, neu bartner cyswllt, neu rywun sydd mewn busnes gyda'r defnyddiwr mangre perthnasol, yn ymwneud â'r un fangre. Mae hyn er mwyn atal osgoi'r terfyn amser o 96 awr ar ddigwyddiadau o'r fath a'r angen i gael trwydded mangre lawn neu dystysgrif mangre clwb ar gyfer digwyddiadau mwy neu barhaol.

Yn ogystal, at y dibenion hyn, caiff hysbysiad ei drin fel un gan yr un defnyddiwr mangre os caiff ei roi gan bartner cyswllt. Mae Deddf 2003 yn diffinio partner cyswllt fel a ganlyn:

- priod neu bartner sifil y person hwnnw;
- plentyn, rhiant, ŵyr/wyres, mam-gu/tad-cu, brawd neu chwaer y person hwnnw;
- asiant neu gyflogai'r person hwnnw;
- priod neu bartner sifil person a restrir yn y ddau bwynt bwled blaenorol.

7.20 Caiff person sy'n byw gyda pherson arall fel ei gŵr neu ei wraig ei drin at y dibenion hyn fel priod y person hwnnw. Caiff 'Partner sifil' ei ddiffinio gan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004.

7.21 Os na fydd y cais o fewn y paramedrau statudol a ddisgrifiwyd yn gynharach, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cyhoeddi gwrth-hysbysiad i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad – defnyddiwr y fangre. Os yw'r hysbysiad o ddigwyddiad dros dro yn orchymyn, a'r ffi a ragnodwyd gan yr ysgrifennydd gwladol yn caei ei dalu, mae'r digwyddiad yn dod o fewn y cyfyngiadau yn y Ddeddf, ac ni fu unrhyw ymyriad gan yr heddlu ar sail atal troseddu, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cofnodi'r hysbysiad yn ei gofrestr ac yn anfon cydnabyddiaeth i ddefnyddiwr y fangre.

7.22 Efallai na fyddawdurdodau trwyddedu yn ceisio gosod unrhyw delerau, amodau na chyfyngiadau ar gynnal gweithgareddau trwyddedadwy mewn digwyddiadau o'r fath o dan awdurdod hysbysiad o ddigwyddiad dros dro. Fodd bynnag, mae'n ddymunol bod awdurdodau trwyddedu yn rhoi cyngor lleol ynglŷn â pharchu pryderon trigolion lleol; gofynion deddfwriaethol eraill o ran iechyd a diogelwch; llygredd sŵn neu adeiladu strwythurau dros dro; caniatâd am bethau eraill, er enghraifft, cau'r ffordd neu ddefnyddio tân gwyllt mewn mannau cyhoeddus; is-ddeddfau lleol; a'r angen i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y rhai sy'n mynychu'r digwyddiad. Nid yw'n ofynnol i ddefnyddwyr mangre fod yn y fangre trwy gydol cyfnod cynnal y digwyddiad, ond byddant yn parhau yn agored i'w herlyn am rai troseddau y gellid eu cyflawni yn y fangre yn ystod y digwyddiad dros dro os nad yw'r digwyddiad wedi ei reoli/goruchwylio yn ddigonol gan gynnwys y deddfau sy'n rheoli gwerthu alcohol i unigolion dan oed. Gellir ymdrin â'r materion hyn yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod trwyddedu.

7.23 Yn achos digwyddiad yn mynd rhagddo o dan awdurdod hysbysiad o ddigwyddiad dros dro, byddai methu â glynu at ofynion Deddf 2003, fel y cyfyngiad o beidio â chael mwy na 499 o bobl yn bresennol ar unrhyw un adeg, yn golygu y byddai'r digwyddiad heb awdurdod. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai'r defnyddiwr mangre yn agored i gael ei erlyn.

7.24 Mae Adran 8 y Ddeddf yn gofyn i awdurdodau trwyddedu gadw cofrestr yn cynnwys materion penodol, yn cynnwys cofnod o hysbysiadau dros dro a dderbyniwyd. Dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol nad oes unrhyw ofyniad i gofnodi'r holl wybodaeth a roddir mewn hysbysiad o ddigwyddiad dros dro, a dylid osgoi cofnodi rhai manylion penodol, megis rhifau yswiriant gwladol, a allai arwain at dwyll hunaniaeth.

## YMYRRAETH GAN YR HEDDLU

7.25 Ail ddiben a'r un pwysicaf o'r gofyniad hysbysu yw rhoi cyfle i'r heddlu ystyried a ddylent wrthwynebu cynnal y digwyddiad am resymau atal trosedd ac anhrefn.

7.26 Gallai achosion o'r fath godi oherwydd pryderon am raddfa, lleoliad neu amseriad y digwyddiad. Fodd bynnag, ni ddylai'r mwyafrif o achosion cyffredinol lle y cyflenwir alcohol i ffwrdd o fangre drwyddedig neu mewn bar dros dro o dan reolaeth deiliad trwydded bersonol (e.e. mewn priodasau neu ddigwyddiadau cymdeithasol, cymunedol, elusennol neu chwaraeon bychain) arwain at ddefnyddio'r pwerau heddlu hyn. Os nad yw'r heddlu'n ymyrryd, byddant yn dal i allu dibynnu ar eu pwerau cau o dan Ran 8 o Ddeddf 2003 pe bai anhrefn neu niwsans sŵn yn digwydd wedyn.

7.27 Gall yr heddlu gyhoeddi hysbysiad o wrthwynebiad o'r fath o fewn 48 awr o gael hysbysiad. Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y gwrthwynebiad mewn gwrandawiad cyn y gellir cyhoeddi hysbysiad o wrthwynebiad, ond mae'n rhaid iddo gyfyngu ei ystyriaeth i'r amcan atal troseddu. Efallai na fydd, er enghraifft, yn cynnal hysbysiad o wrthwynebiad yr heddlu ar sail niwsans cyhoeddus, neu hysbysiad o wrthwynebiad a roddir dros 48 awr ar ôl rhoi'r rhybudd o ddigwyddiad dros dro. Yn y gwrandawiad, gall yr heddlu a'r defnyddiwr mangre gael eu clywed gan y pwyllgor trwyddedu perthnasol. Ni fyddai angen gwrandawiad pe bai'r heddlu'n tynnu eu hysbysiad yn ôl.

7.28 Mae'r posibilrwydd o ymyrraeth gan yr heddlu yn rheswm arall pam y dylid annog trefnwyr digwyddiadau trwy gyhoeddusrwydd lleol i beidio â dibynnu ar roi'r rhybudd lleiaf ac i gysylltu â swyddogion trwyddedu'r heddlu lleol cyn gynted ag y bo modd am eu bwriadau.

7.29 Gall yr heddlu dynnu eu hysbysiad o wrthwynebiad yn ôl ar unrhyw adeg os yw'r defnyddiwr mangre yn cytuno i addasu ei gynnig i gwrdd â'u pryderon. Er enghraifft, os yw'r defnyddiwr mangre yn cytuno i newid y cyfnod pryd y gellir gwerthu alcohol. Bydd yr awdurdod trwyddedu wedyn yn derbyn copi o'r hysbysiad a newidiwyd gan yr heddlu fel prawf o'u dadl, ond gallant ei dynnu yn ôl wedi hynny.

# 8. Ceisiadau am Drwyddedau Mangre

## AWDURDODAU TRWYDDEDU PERTHNASOL

8.1 Cyhoeddir trwyddedau mangreoedd gan yr awdurdod trwyddedu y mae'r fangre wedi'i lleoli ynddo, neu yn achos mangre sy'n mynd ar draws ffin ardal, yr awdurdod trwyddedu y lleolir y rhan fwyaf o'r fangre ynddo. Ble y lleolir y fangre yn gyfartal mewn dwy neu ychwaneg o ardaloedd, caiff yr ymgeisydd ddewis, ond, yn yr achosion prin hyn, mae'n bwysig bod yr awdurdodau trwyddedu dan sylw yn cadw mewn cysylltiad agos.

8.2 Yn adran 13, mae Deddf 2003 yn diffinio tri phrif grŵp sy'n chwarae rhannau pwysig yng nghyd-destun ceisiadau, arolygu, gorfodi ac adolygu trwyddedau mangreoedd.

## PERSONAU AWDURDODEDIG

8.3 Mae'r grŵp cyntaf - "personau awdurdodedig" - yn gyrff a gafodd rym drwy'r Ddeddf i wneud gwaith arolygu a gorfodi. Ni chynhwysir yr heddlu oherwydd eu bod wedi cael grym ar wahân dan y Ddeddf i gyflawni eu dyletswyddau. Mewn perthynas â'r holl fangreoedd, mae personau awdurdodedig yn cynnwys:

- swyddogion yr awdurdod trwyddedu
- arolygwyr tân
- arolygwyr sy'n gyfrifol yn lleol am orfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, a
- swyddogion iechyd amgylcheddol.

8.4 Fel rheol swyddogion awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch, ond yn achos rhai mangreoedd, mae'r cyfrifoldeb hwn yn perthyn i'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Yn achos llongau, gall personau awdurdodedig gynnwys arolygwr neu syrfëwr llongau a benodwyd o dan Adran 256 Deddf Llongau Masnach 1995.Swyddogion fyddai'r rhain fel rheol sy'n gweithredu ar ran Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ragnodi personau awdurdodedig eraill hefyd trwy gyfrwng rheoliadau, ond nid yw wedi rhagnodi unrhyw gyrff ychwanegol hyd yma. Os bydd yn penderfynu gwneud hynny, bydd manylion ar gael ar wefan DCMS.

## PARTÏON Â DIDDORDEB

8.5 Yr ail grŵp - "partïon â diddordeb" - yw'r cyrff neu'r unigolion sydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i awdurdodau trwyddedu ynghylch ceisiadau i ganiatáu, amrywio neu adolygu trwyddedau mangreoedd. Hefyd gall partïon â diddordeb ofyn eu hunain am adolygiad o drwydded mangre. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys:

- unigolyn sy'n byw yng nghyffiniau'r fangre dan sylw;
- corff sy'n cynrychioli unigolion sy'n byw yn y cyffiniau, er enghraifft, cymdeithas preswylwyr, neu gyngor plwyf;
- unigolyn sy'n ymwneud â busnes yng nghyffiniau'r fangre dan sylw; a
- corff sy'n cynrychioli unigolion sy'n ymwneud â busnesau o'r fath, er enghraifft, cymdeithas fasnachu.

8.6 Disgwylir hefyd y rhoddir y dehongliad ehangaf posibl i'r ymadrodd "unigolion sy'n ymwneud â busnes", gan gynnwys partneriaethau, ac nad oes rhaid ei gyfyngu i'r rhai hynny sy'n gweithio ym myd masnach. Disgwylir hefyd y gellir defnyddio'r ymadrodd i gynnwys swyddogaethau elusennau, eglwysi a phractis meddygol.

8.7 Gall unrhyw un o'r unigolion neu'r grwpiau hyn ofyn yn benodol i gynrychiolydd gyflwyno sylwadau ar eu rhan. Er enghraifft, gallai cynrychiolydd cyfreithiol, cyfaill, Aelod Seneddol, Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu gynghorydd ward leol i gyd weithredu yn y modd hwn.

8.8 Mae cynghorwyr lleol yn chwarae rhan bwysig yn eu cymunedau lleol. Yn ogystal â chyflwyno sylwadau ar ran parti â diddordeb os gofynnir yn benodol iddynt wneud hynny. Gall cynghorydd lleol hefyd gyflwyno sylwadau fel parti â diddordeb ei hun os yw'n byw, neu'n ymwneud â busnes yng nghyffiniau'r fangre dan sylw.

8.9 Fodd bynnag, mae cynghorwyr lleol yn ddarostyngedig i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Model o God Ymddygiad) 2007 sy'n cyfyngu ar eu hymwneud â materion, a'u cyfranogiad mewn cyfarfodydd i drafod materion, lle mae ganddynt ddiddordeb sy'n 'rhagfarnu' (h.y. diddordeb y byddai aelod o'r cyhoedd yn ei ystyried yn rhesymol fel un mor sylweddol y byddai'n debygol o ragfarnu barn yr aelod o les y cyhoedd). Fodd bynnag, mae'r fersiwn diweddaraf y Cod, a ddaeth yn weithredol ar 3 Mai 2007, wedi llacio'r rheolau ar ddiddordeb sy'n rhagfarnu. O safbwynt trwyddedu, effaith hyn yw caniatáu i gynghorwyr sydd â diddordeb sy'n rhagfarnu mewn cais i fynychu cyfarfodydd perthnasol a gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, ar yr amod bod y cyhoedd hefyd yn cael mynychu ar gyfer yr un diben, boed o dan ddeddfwriaeth trwyddedu neu fel arall ar yr amod eu bod yn tynnu nôl o'r cyfarfod yn union ar ôl hynny. Rhaid pwysleisio bod gan gynghorwyr ddyletswydd i weithredu er lles eu holl etholaeth. Rhaid i'w rôl fel eiriolwr cymunedol felly gael ei gydbwyso â'u gallu i gynrychioli diddordebau penodol.

8.10 Mae'r Cod yn berthnasol i unrhyw aelod cyngor, boed yn aelod o'r pwyllgor trwyddedu neu beidio. Byddai disgwyl i aelod sy'n cynrychioli eraill neu'n gweithredu dan eu hawl eu hunain, ac sydd hefyd yn aelod o'r pwyllgor trwyddedu, ddiarddel eu hunain o unrhyw ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y drwydded mangre dan sylw. Ar ben hynny, ni ddylai unrhyw aelod sydd â diddordeb sy'n rhagfarnu mewn mater geisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r drwydded yn amhriodol mewn ffordd arall.

8.11 Yn ogystal â hyn, gallai cynghorwyr nad ydynt eu hunain yn barti â diddordeb neu'n cynrychioli un, ddymuno cael eu hysbysu am faterion sy'n gysylltiedig â thrwyddedu o fewn yr ardal, megis ceisiadau ac adolygiadau. Nid yw'r Ddeddf yn atal awdurdodau trwyddedu rhag darparu'r wybodaeth hon i gynghorwyr, er enghraifft, ar ffurf diweddariadau rheolaidd, cyn belled ag y gwneir hyn mewn modd diduedd na ellid ystyried ei fod yn 'cymell' sylwadau. Dylid cofio mai'r 'awdurdod trwyddedu' ran amlaf yw'r cyngor llawn, gan gynnwys pob cynghorydd ward, ac felly mae gan bob un ohonynt hawl i wybodaeth sy'n angenrheidiol i hysbysu'r rôl.

## AWDURDODAU CYFRIFOL

8.12 Mae'r trydydd grŵp - "awdurdodau cyfrifol" - yn cynnwys cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu'n llawn am geisiadau ac sydd â'r hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu mewn perthynas â'r cais am ganiatáu, amrywio neu adolygu trwydded mangre. Mae'r holl sylwadau a gyflwynir gan awdurdodau cyfrifol yn berthnasol os ydynt yn ymwneud ag effaith y cais ar yr amcanion trwyddedu. Yn achos pob mangre, mae'r rhain yn cynnwys:

- prif swyddog yr heddlu;
- yr awdurdod tân ac achub lleol;
- yr asiantaeth orfodi leol ar gyfer Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974 (gweler paragraff 8.4 uchod).
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am iechyd amgylcheddol;
- yr awdurdod cynllunio lleol;
- unrhyw gorff sy'n cynrychioli'r rhai sy'n gyfrifol am, neu â diddordeb mewn, materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed;
- yr awdurdod pwysau a mesurau lleol (safonau masnach); ac
- unrhyw awdurdod trwyddedu, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu perthnasol, y lleolir rhan o'r fangre yn ei ardal.

8.13 Dylai'r awdurdod trwyddedu nodi yn ei bolisi trwyddedu pa gorff a gydnabuwyd ganddo fel un cymwys i gynghori ar amddiffyn plant rhag niwed. Mae hyn yn bwysig gan fod yn rhaid i'r ymgeisydd anfon copi o geisiadau am drwyddedau mangreoedd i'r awdurdodau cyfrifol, er mwyn iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau sydd yn eu tyb hwy'n berthnasol. Gall hyn fod yn adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, Pwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal neu gorff arall cymwys. Mae hyn yn bwysig gan fod angen i'r ymgeisydd wneud copi o drwyddedau mangre ar gyfer yr awdurdodau cyfrifol er mwyn iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau sy'n berthnasol.

8.14 Mewn perthynas â llong, mae awdurdodau cyfrifol hefyd yn cynnwys awdurdodau mordwyo o fewn ystyr adran 221(1) Deddf Adnoddau Dŵr 1991, sy'n meddu ar swyddogaethau statudol mewn perthynas â'r dyfroedd ble mae'r llong wedi ei hangori neu ei docio, neu unrhyw ddyfroedd ble y bwriedir ei mordwyo ar adeg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy; Asiantaeth yr Amgylchedd; Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain; a'r Ysgrifennydd Gwladol. Ystyr yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr achos hwn yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, sy'n gweithredu'n ymarferol drwy Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA). Yn ymarferol, Asiantaeth yr Amgylchedd a Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain yn unig sydd â chyfrifoldeb mewn perthynas â llongau ar ddyfroedd lle maent yn awdurdod mordwyo statudol.

8.15 Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yw'r awdurdod arweiniol gyda chyfrifoldeb am ddiogelwch cyhoeddus, gan gynnwys diogelwch tân, materion sy'n effeithio ar longau teithwyr (rhai sy'n cludo mwy na 12 teithiwr) lle bynnag y maent yn gweithredu a llongau masnachol bychain (yn cludo dim mwy na 12 teithiwr) sy'n hwylio i'r môr. Gorfodir y gyfundrefn ddiogelwch ar gyfer llongau teithwyr dan Ddeddfau Llongau Masnach gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, sy'n gweithredu cynllun ardystio llongau teithwyr. Dylai awdurdodau tân, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac arolygwyr iechyd a diogelwch awdurdodau lleol fel arfer allu diystyru llongau teithwyr a dibynnu ar Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau i gyflwyno unrhyw sylwadau sydd eu hangen mewn perthynas â'r amcan trwyddedu hwn.

8.16 Nid yw deddfwriaeth llongau masnach, fodd bynnag, yn berthnasol i longau sydd wedi eu hangori'n barhaol. Felly, er enghraifft, dylai llongau sy'n cynnwys tai bwyta, sydd wedi eu hangori ar Lan yr Afon Tafwys, gyda chysylltiadau parhaol â'r lan, gael eu hystyried gan awdurdodau cyfrifol eraill sy'n ymwneud â diogelwch cyhoeddus, gan gynnwys diogelwch tân. Nid yw llongau sy'n cludo dim mwy na 12 teithiwr ac nad ydynt hwylio i'r môr, yn destun arolwg ac ardystiad gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, ond gellir eu trwyddedu gan yr awdurdod harbwr perthnasol, awdurdod mordwyo neu awdurdod lleol.

8.17 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ragnodi awdurdodau cyfrifol eraill trwy gyfrwng rheoliadau. Gellir edrych ar unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd o'r fath ar wefan DCMS.

## PWY ALL WNEUD CAIS AM DRWYDDED MANGRE?

8.18 Gall unrhyw berson (os yw'n unigolyn 18 oed neu hŷn) sy'n rhedeg neu'n bwriadu rhedeg busnes sy'n cynnwys defnyddio mangre (unrhyw le, gan gynnwys un yn yr awyr agored) ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, wneud cais am drwydded mangre naill ai'n barhaol neu am gyfnod cyfyngedig.

8.19 Mae "unigolyn" yn y cyd-destun hwn yn cynnwys, er enghraifft, busnes neu bartneriaeth. Ni ddylai awdurdodau trwyddedu fynnu bod unigolyn yn cael ei enwebu i ddal y drwydded na phenderfynu pwy yw'r unigolyn mwyaf addas i ddal y drwydded. Er enghraifft, yn achos y rhan fwyaf o dafarndai dan brydles, gall tenant redeg neu fwriadu rhedeg y busnes yn y fangre mewn cytundeb â chwmni sy'n berchen ar dafarndai. Byddai'r ddau'n gymwys i wneud cais am y drwydded briodol a'r busnesau neu'r unigolion hyn sydd i benderfynu'n gytundebol ymysg ei gilydd pwy ddylai wneud hyn. Fodd bynnag, yn achos tŷ tafarn a redir gan reolwyr, dylai'r cwmni sy'n berchen ar y dafarn wneud cais am y drwydded gan na fyddai'r rheolwr (sy'n gyflogedig ganddo) yn gymwys i wneud hynny. Yn yr un modd, yn achos cadwyni sinema, deiliad arferol y drwydded mangre fyddai'r cwmni sy'n berchen ar y sinema, ac nid rheolwr y sinema (sy'n gyflogedig gan y prif gwmni).

8.20 Wrth ystyried ceisiadau ar y cyd (nid yw'n debygol o ddigwydd yn aml) rhaid pwysleisio dan adran 16(a) Deddf 2003 bod yn rhaid i bob ymgeisydd fod yn rhedeg busnes sy'n cynnwys defnyddio'r fangre ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. Yn achos tafarndai, byddai'n haws i denant ddangos hyn nag i gwmni sy'n berchen ar y dafarn, ond nad yw'n cynnal gweithgareddau trwyddedadwy ei hun. Pan fo trwyddedau i gael eu dal gan fusnesau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylai hwn fod yn fusnes sengl, er mwyn osgoi unrhyw ddiffyg eglurder o ran atebolrwydd.

8.21 Gallai gŵr a gwraig, neu bartneriaethau eraill o natur debyg, fod yn berchen ar, neu ddal tenantiaeth ar dy tafarn ar y cyd, gyda'r ddau yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn y fangre. Yn yr achosion hyn, mae'n gwbl bosibl i'r gŵr a'r wraig neu'r partneriaid wneud cais ar y cyd fel ymgeisydd ar gyfer y drwydded mangre, hyd yn oed os nad ydynt yn bartneriaid ffurfiol yn nhermau busnes. Mae hyn yn annhebygol o arwain at yr un problemau o atebolrwydd niwlog a allai godi pan fydd dau fusnes gwahanol yn gwneud cais ar y cyd am y drwydded. Os yw'r cais yn cael ei ganiatáu, byddai'r drwydded mangre yn nodi'r deiliad drwy gynnwys y ddau enw, a byddai angen i unrhyw geisiadau dilynol, er enghraifft i amrywio'r drwydded, gael eu gwneud ar y cyd.

8.22 Gall amrywiaeth eang o unigolion a chyrff eraill, a nodir yn adran 16 Deddf 2003, wneud cais am drwyddedau mangreoedd. Maent yn cynnwys, er enghraifft, Adrannau Llywodraeth, awdurdodau lleol, ysbytai, ysgolion, elusennau neu heddluoedd. Yn ogystal â'r cyrff a restrir yn adran 16, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ragnodi trwy reoliadau gyrff eraill a all wneud cais, a gellir edrych ar unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd o'r fath ar wefan DCMS.

8.23 Does dim yn Neddf 2003 sy'n atal cais am drwydded mangre mewn mangre lle y delir trwydded mangre eisoes. Er enghraifft, gall un unigolyn ddal trwydded mangre yn awdurdodi gwerthu alcohol a gallai unigolyn arall wneud cais am drwydded mangre mewn perthynas â'r un fangre neu ran o'r fangre honno a fyddai'n awdurdodi adloniant wedi ei reoleiddio. Mae hyn hefyd yn sicrhau na allai un busnes wneud cais am drwyddedau mangreoedd, er enghraifft, ar gyfer yr holl safleoedd syrcas posibl yng Nghymru a Lloegr, a thrwy hyn atal syrcasau

eraill rhag defnyddio'r safleoedd hynny, hyd yn oed pe baent wedi cael caniatâd y tirfeddiannwr.

## FFURFLENNI CAIS

8.24 Rhaid gwneud cais am drwydded mangre yn y ffurf ragnodedig i'r awdurdod trwyddedu perthnasol, gan anfon copi at bob un o'r awdurdodau cyfrifol perthnasol (nid yw ceisiadau ar gyfer mangreoedd nad ydynt yn llongau, er enghraifft, yn cael eu hanfon i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau). Rhaid anfon gyda'r cais:

- y ffi ofynnol (gellir gweld manylion am ffioedd ar wefan DCMS);
- atodlen weithredu (gweler isod);
- cynllun o'r fangre ar ffurf ragnodedig; ac
- os yw'r cais yn cynnwys cyflenwi alcohol, ffurflen gydsyniad gan yr unigolyn sydd i'w enwi yn y drwydded fel y goruchwyliwr mangre dynodedig.

8.25 Mae'r Llywodraeth yn argymell na ddylid dychwelyd ffurflenni os ydynt yn cynnwys camgymeriadau ffeithiol amlwg a mân y gellir eu cywiro'n hwylus. Gellir gweld y rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau ffioedd a ffurf ragnodedig ceisiadau ac atodlenni gweithredu ar wefan DCMS.

8.26 Mae'r rheoliadau yn caniatáu gwneud ceisiadau, hysbysiadau neu sylwadau yn electronig. Er hynny, mae hyn yn destun rhai cyfyngiadau (gweler y rheoliadau am fwy o fanylion) yn cynnwys gofyniad i anfon fersiwn ysgrifenedig yn brydlon i'r sawl sy'n eu derbyn, ynghyd ag unrhyw dâl, cynllun neu ddogfen neu wybodaeth arall os yw'n briodol.

## CYNLLUNIAU

8.27 Fel rheol, dylid llunio cynlluniau mewn graddfa safonol (1:100), ond gellir defnyddio graddfa wahanol os yw'r awdurdod trwyddedu wedi cytuno â hynny. Byddai'n synhwyrol i awdurdodau trwyddedu roi eu caniatâd yn ysgrifenedig er mwyn osgoi unrhyw anghydfod. Nid yw'n ofynnol i'r cynlluniau gael eu llunio'n broffesiynol ond dylent arddangos yr holl wybodaeth angenrheidiol yn glir.

## CAMAU I HYRWYDDO'R AMCANION TRWYDDEDU

8.28 Wrth baratoi atodlen weithredu, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi ystyried y datganiad polisi trwyddedu ar gyfer eu hardal. Dylent hefyd fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol ynghylch y camau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Disgwylir felly i awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol gyhoeddi deunydd cyn belled ag y bo'n bosibl, ynghylch hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, ac i sicrhau y gall ymgeiswyr gael mynediad rhwydd i gyngor ar y materion hyn

8.29 Disgwylir i'r holl bartïon weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo ar y cyd. Nid oes gofyn i'r ymgeiswyr geisio barn y prif awdurdodau cyfrifol cyn cyflwyno ceisiadau'n ffurfiol, ond efallai y byddant yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor arbenigol. Dylai awdurdodau trwyddedu annog cydweithredu er mwyn lleihau nifer yr anghydfodau sy'n codi. Lle nad oes anghydfodau, bydd y camau y mae ymgeiswyr yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, fel y nodir yn yr atodlen weithredu, yn aml yn trosi'n uniongyrchol yn amodau a gaiff eu cysylltu â thrwyddedau mangreoedd heb fawr o drafferth.

8.30 Lle bwriedir gofyn am ganiatâd i gynnal adloniant wedi ei reoleiddio sy'n cynnwys darparu cerddoriaeth fyw neu weithgarwch diwylliannol arall, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu yn dymuno cynghori'r ymgeiswyr i ystyried ymgynghori â swyddog celfyddydau'r awdurdod lleol neu gynrychiolwyr lleol Undeb y Cerddorion cyn cwblhau eu hatodlenni gweithredu.

8.31 Dylai'r camau a gymerir fod yn rhai ymarferol ac o fewn rheolaeth yr ymgeisydd a rheolwyr y fangre. Os caniateir trwydded gydag amodau ynghlwm sy'n gofyn i gamau o'r fath gael eu gweithredu, bydd yr amodau'n rhai y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol, a bydd yn drosedd i fethu â chydymffurfio â hwy (dan adran 136 Deddf 2003). Yn hyn o beth, byddai'n hollol amhriodol gosod amodau sydd y tu hwnt i reolaeth y rhai sy'n gyfrifol am redeg y fangre.

8.32 Yn achos rhai mangreoedd, mae'n gwbl bosibl na fydd angen unrhyw fesurau i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu, er enghraifft, am fod deddfwriaeth bresennol arall yn delio'n ddigonol â hwy. Mae'n bwysig, serch hynny, fod yr holl atodlenni gweithredu'n egluro'n fanwl y mesurau y bwriedir eu gweithredu i hyrwyddo pob un o'r amcanion trwyddedu, ac yn enwedig, amddiffyn plant rhag niwed.

## AMRYWIADAU

8.33 Os bydd deiliad trwydded mangre yn dymuno diwygio'r drwydded, mae'r Ddeddf yn caniatáu, yn y mwyafrif o achosion, gwneud cais i amrywio yn hytrach na gorfod gwneud cais am drwydded newydd.

8.34 Yn achosion newid enw neu gyfeiriad rhywun a enwir yn y drwydded (adran 33) neu gais i amrywio'r drwydded i ddynodi unigolyn newydd fel y goruchwyliwr mangre dynodedig (adran 37), mae prosesau symlach ar gyfer gwneud cais o'r fath.

8.35 Unrhyw newidiadau eraill i'r drwydded sy'n gofyn am wneud cais i amrywio o dan adran 34 y Ddeddf, yn cynnwys:

- amrywio'r oriau lle caniateir gweithgaredd trwyddedadwy;
- ychwanegu neu dynnu gweithgareddau trwyddedadwy;
- addasu, ychwanegu neu dynnu amodau o fewn trwydded; a
- newid unrhyw agwedd o osodiad mangre a ddangosir ar y cynllun.

8.36 Bydd angen awdurdodau trwyddedu i ystyried a oes yno effaith tebygol ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth benderfynu a oes angen cais i amrywio mewn perthynas â nodweddion nad oes angen eu dangos ar y cynllun o dan adran 17 y Ddeddf, ond sydd eto i gyd wedi eu cynnwys, er enghraifft, dodrefn symudol (newid safle byrddau a chadeiriau) neu gerddi cwrw (codi cysgodfan ysmygu na fydd yn effeithio ar y defnydd o allanfeydd neu lwybrau dianc).

8.37 Fodd bynnag, dylid nodi na ellir defnyddio cais adran 34 i amrywio trwydded fel y gellir:

- ehangu'r cyfnod y mae trwydded sydd â chyfyngiad amser i gyfnod penodol yn effeithio arno; neu i
- drosglwyddo'r drwydded o un mangre i fangre arall.

8.38 Os bydd ymgeisydd yn dymuno gwneud y mathau hyn o newidiadau i'r drwydded mangre, dylent wneud cais newydd am drwydded mangre dan adran 17 Deddf Trwyddedu 2003.

## LLACIO ORIAU AGOR AR GYFER ACHLYSURON LLEOL, CENEDLAETHOL A RHYNGWLADOL

8.39 Fel rheol, dylai fod yn bosibl i ymgeiswyr am drwyddedau mangreoedd a thystysgrifau mangre clwb ragweld achlysuron arbennig sy'n digwydd yn rheolaidd bob blwyddyn - megis gwyliau banc, dydd San Siôr neu Sant Padrig - ac ymgorffori oriau agor addas yn eu hatodlenni gweithredu. Yn yr un modd, dylai hysbysiadau o ddigwyddiadau dros dro fod yn ddigonol i gwmpasu digwyddiadau eraill sy'n cael eu cynnal mewn mangreoedd nad oes ganddynt drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb.

8.40 Fodd bynnag, gallai digwyddiadau eithriadol o arwyddocâd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol godi na ellid fod wedi eu rhagweld pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi gorchymyn oriau trwyddedu i alluogi mangreoedd i agor am oriau penodol, estynedig fel arfer, ar yr achlysuron arbennig hyn. Mae hyn yn osgoi'r angen am nifer fawr o geisiadau i amrywio trwyddedau mangreoedd a thystysgrifau clybiau. Gallai enghreifftiau o ddigwyddiadau o'r fath gynnwys gŵyl leol unigryw, Jiwbilî Brenhinol, Cwpan y Byd neu'r Gemau Olympaidd.

8.41 Dylai digwyddiadau o'r fath fod yn wirioneddol eithriadol, ac ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried gwneud gorchymyn o'r fath ar chwarae bach. Cynghorir awdurdodau trwyddedu (neu unrhyw unigolion eraill) y dylid cysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch gwneud gorchymyn o'r fath o leiaf chwe mis cyn y dathliad dan sylw. Cyn cyhoeddi gorchymyn o'r fath, mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori fel bo'n briodol, a byddai hyn yn gyffredinol yn galluogi ystod eang o sefydliadau a chyrff i gyflwyno sylwadau iddi ar gyfer eu hystyried. Yn ogystal â hyn, bydd gofyn cael cymeradwyaeth gan y ddau Dŷ Seneddol ar gyfer gorchymyn o'r fath. Naw mis fyddai'r cyfnod lleiaf posib ar gyfer cwblhau proses o'r fath yn foddhaol.

8.42 Dylai awdurdodau trwyddedu nodi nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud gorchymyn oriau trwyddedu mewn perthynas â Nos Galan. Byddai angen i ymgeiswyr am drwyddedau neu dystysgrifau newydd gynnwys yr oriau arfaethedig ar gyfer Nos Galan yn eu ceisiadau, os ydynt yn wahanol i'r oriau safonol y gwneir cais amdanynt.

## HYSBYSEBU CEISIADAU

8.43 Cynhwysir rheoliadau sy'n llywodraeth hysbysebu ceisiadau ar gyfer caniatáu, amrywio neu adolygu trwyddedau mangreoedd mewn deddfwriaeth eilaidd a grëir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a gellir eu gweld ar wefan DCMS.

8.44 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr:

- gyhoeddi hysbyseb mewn papur newydd lleol neu, os oes un yn bodoli, mewn taflen newyddion, cylchlythyr neu ddogfen debyg leol sy'n cael ei ddosbarthu yng nghyffiniau'r fangre; ac
- arddangos crynodeb fer o'r cais ar hysbyseb maint A4 ar neu y tu allan i'r fangre.

8.45 Dylai crynodeb y cais nodi materion fel y gweithgaredd trwyddedadwy arfaethedig a'r oriau agor arfaethedig, a dylid eu harddangos yn glir am y cyfnod y gellir cyflwyno sylwadau, ynghyd â gwybodaeth ynghylch ble y gellir gweld manylion y cais.

8.46 Dylai awdurdodau trwyddedu yng Nghymru ystyried annog ymgeiswyr i ddarparu gwybodaeth mewn iaith amgen (Cymraeg neu Saesneg) i iaith y brif hysbyseb am ble y gellir gweld y cais. Felly, os bydd ymgeisydd yn cyhoeddi hysbyseb yn Saesneg, dylid eu hannog i ddarparu datganiad yn Gymraeg yn nodi lle y gellir gweld y cais, ac i'r gwrthwyneb. Byddai hyn yn galluogi darllenwr yr hysbyseb i wneud ymholiadau i'r awdurdod trwyddedu i ganfod natur y cais.

8.47 Dylai ceisiadau i amrywio trwydded mangre bresennol gynnwys disgrifiad byr o'r amrywiad arfaethedig, e.e. manylion yr oriau ychwanegol y gofynnir amdanynt, oriau i'w hamrywio.

8.48 Yn achos ceisiadau am drwyddedau mangre sy'n ymwneud â gwerthu dros y rhyngrwyd neu drwy'r post, dylid arddangos hysbysiadau mewn lle amlwg yn y fan lle priodolir alcohol i'r contract yn unol â'r rheoliadau perthnasol (gweler paragraff 3.6).

8.49 Bydd llong nad yw wedi ei hangori neu ei docio'n barhaol yn cael ei thrin fel pe bai yn fangre wedi ei lleoli mewn lleoliad lle mae wedi ei hangori neu ei docio fel arfer. Byddai angen i hysbysiad hysbyseb papur newydd ar gyfer llong o'r fath fod mewn perthynas â'r lleoliad yma (lle mae wedi ei hangori neu ei docio fel arfer) ac nid oes darpariaeth sy'n gofyn am hysbysebu mewn mannau eraill, er enghraifft, os yw'r llong yn teithio trwy ardaloedd awdurdod trwyddedu arall.

8.50 Cyn belled ag y bo modd, yn ogystal â sefydlu trefniadau i'r partïon â diddordeb gael gweld cofnod o'r cais yn y gofrestr drwyddedu, fel y disgrifir yn Atodlen 3 i Ddeddf 2003, disgwylir y bydd awdurdodau trwyddedu yn cynnwys y manylion hyn ar eu gwefannau hefyd. Ni ddylai ffioedd a godir am gopïau o'r gofrestr fod yn fwy na'r gost o baratoi copïau o'r fath.

8.51 Efallai y bydd awdurdodau trwyddedu yn dymuno cynnal ymweliadau ar hap ac yn annisgwyl i fangreoedd i gadarnhau bod hysbysiadau wedi'u harddangos yn eglur a'u bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chywir.

8.52 Mae awdurdodau trwyddedu yn rhydd i hysbysu preswylwyr sy'n byw yng nghyffiniau'r fangre, drwy gylchlythyr, am fangre sy'n gwneud cais, ond nid yw'n ofyniad statudol i wneud hyn.

## CEISIADAU I NEWID Y GORUCHWYLWYR DYNODEDIG MANGRE

8.53 Mae paragraffau 4.19 – 4.28 uchod yn trafod y goruchwylwyr dynodedig mangre a cheisiadau i amrywio trwydded mangre sy'n cynnwys gwerthu alcohol drwy bennu goruchwyliwr mangre dynodedig newydd.

## DATGANIADAU DROS DRO

8.54 Lle mae mangreoedd yn cael, neu ar fin cael eu hadeiladu, eu hymestyn neu eu haddasu mewn rhyw ffordd arall, at ddiben cael eu defnyddio ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy, gallai buddsoddwyr fod yn anfodlon ymrwymo'r buddsoddiad oni bai eu bod yn cael rhyw fath o sicrwydd y byddai trwydded mangre sy'n cynnwys y gweithgareddau trwyddedadwy a ddymunir yn cael ei chaniatáu ar gyfer y fangre unwaith y byddai'r gwaith adeiladu wedi ei gwblhau.

8.55 Nid yw Deddf 2003 yn diffinio'r geiriau "wedi ei addasu mewn rhyw ffordd arall" ond rhaid i'r addasiad fod yn berthnasol i'r diben o gael ei ddefnyddio ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy. Er enghraifft, dylai trwydded mangre nodi'r cwbl neu'r rhan o'r fangre sy'n cael ei thrwyddedu ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy. Os bwriedir addasu'r adeilad er mwyn caniatáu i ardal a fu'n ddidrwydded cyn hynny gael ei defnyddio ar gyfer gweithgaredd trwyddedadwy, gellir gwneud cais am ddatganiad dros dro mewn perthynas â'r ardal ychwanegol.

8.56 Gall unrhyw berson sy'n dod o fewn adran 16 Deddf 2003 wneud cais am drwydded mangre cyn i fangreoedd newydd gael eu hadeiladu neu eu hymestyn neu eu newid. Byddai hyn yn bosibl ble mae cynlluniau eglur o'r adeiledd arfaethedig yn bodoli a ble mae'r ymgeisydd mewn sefyllfa i allu cwblhau atodlen weithredu yn cynnwys gwybodaeth am:

- y gweithgareddau fydd yn cael eu cynnal yno;
- yr amser y bydd y gweithgareddau'n cael eu cynnal;
- yr oriau agor arfaethedig;
- os yw'r ymgeisydd yn dymuno i'r drwydded fod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, y cyfnod dan sylw;
- y camau i'w cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu; a
- ble mae bwriad i werthu alcohol, a yw'r cyflenwadau wedi'u bwriadu i'w hyfed yn y fangre neu'r tu allan (neu'r ddau) ac enw'r goruchwyliwr mangre dynodedig y mae'r ymgeisydd yn dymuno ei bennu.

8.57 Mewn achosion o'r fath, byddai'r awdurdod trwyddedu yn cynnwys yn y drwydded y dyddiad y byddai hyn yn dod i rym. Fel arfer, dim ond pan na fydd y wybodaeth a ddisgrifir uchod ar gael y bydd angen datganiad dros dro.

8.58 Mae Deddf 2003 felly yn caniatáu i unigolyn, os yw'n unigolyn 18 oed neu hŷn, sydd â budd yn y fangre, wneud cais am "ddatganiad dros dro". Ni fydd cyfyngiad amser ar y datganiad dros dro, ond po hiraf yr oedi cyn gwneud cais am drwydded mangre y mwyaf yw'r tebygolrwydd y bydd newidiadau materol ac y bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn sylwadau.

8.59 Mae "Unigolyn" yn y cyd-destun hwn yn cynnwys busnes. Gallai'r ymgeisydd fod yn gwmni o benseiri neu'n gwmni adeiladu neu'n ariannydd. Byddai'r cais yn cynnwys manylion a chynlluniau'r fangre, yn disgrifio'r gwaith sydd i'w wneud, a'r gweithgareddau trwyddedadwy y bwriedir eu cynnal yn y fangre. Rhaid hysbysebu'r cais a rhoi gwybod i awdurdodau cyfrifol yn yr un modd â'r trefniadau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau mangreoedd, ac fel y'u nodir mewn rheoliadau. Gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau. Lle na chyflwynir sylwadau, rhaid cyhoeddi datganiad dros dro. Lle y cyflwynir sylwadau perthnasol, rhaid i'r awdurdod trwyddedu drefnu gwrandawiad i'w hystyried. Dim ond drwy gydsyniad gan yr awdurdod trwyddedu, yr ymgeisydd ar gyfer y datganiad dros dro a'r holl bartïon a gyflwynodd sylwadau perthnasol y gellir hepgor yr angen am wrandawiad.

8.60 Pan gynhelir gwrandawiad, rhaid i'r awdurdodau trwyddedu benderfynu, pe byddai'r fangre yn cael ei hadeiladu neu ei haddasu yn y ffordd a nodwyd yn yr atodlen waith a phe byddai cais yn cael ei wneud am drwydded mangre ar gyfer y fangre honno, a fyddai o'r farn bod angen i'r gwaith o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu:

- osod amodau ar y drwydded,
- hepgor unrhyw rai o'r gweithgareddau trwyddedadwy y gwnaed cais amdanynt,
- gwrthod pennu'r unigolyn a enwebwyd yn oruchwyliwr y fangre, neu
- wrthod y cais.

8.61 Yna bydd yn cyhoeddi datganiad dros dro i'r ymgeisydd yn amlinellu manylion y penderfyniad hwnnw ynghyd â'r rhesymau drosto. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu anfon copi o'r datganiad dros dro i bob unigolyn a gyflwynodd sylwadau perthnasol ac i brif swyddog yr heddlu yn yr ardal y lleolir y fangre ynddi. Dylai'r awdurdod trwyddedu roi rhesymau llawn a chynhwysfawr dros ei benderfyniad. Mae hyn yn bwysig rhag ofn i unrhyw barti tramgwyddedig wneud apêl.

8.62 Pan fydd unigolyn yn gwneud cais am drwydded mangre mewn perthynas â mangre (neu ran o'r fangre neu fangre sydd yr un fath i raddau helaeth) y rhoddwyd datganiad dros dro amdani, bydd sylwadau gan awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb yn cael eu heithrio dan amgylchiadau penodol, sef pan fo'r:

- cais am drwydded ar yr un ffurf â'r drwydded a ddisgrifir yn y datganiad dros dro; a
- gwaith yn yr atodlen waith wedi cael ei gwblhau'n foddhaol;
- o ystyried y wybodaeth a ddarperir yn y cais am ddatganiad dros dro, pan allai'r awdurdod neu'r parti â diddordeb fod wedi gwneud yr un sylwadau, neu'r un sylwadau i raddau helaeth, ynghylch y cais, ond eu bod wedi methu â gwneud hynny heb esgus rhesymol, a phan na fu newid materol yn yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r fangre neu â'r ardal yng nghyffiniau'r fangre honno ers i'r datganiad dros dro gael ei gyhoeddi.

8.63 Dylai awdurdodau trwyddedu eithrio sylwadau dan yr amgylchiadau hyn. Bydd yn bwysig i gyfleon buddsoddi a chyflogaeth yn eu hardal bod datganiadau dros dro yn gweithredu'n gywir drwy ddarparu sicrwydd cyfyngedig. Ond dylid cydnabod y gall llawer o amser fynd heibio rhwng cyhoeddi datganiad dros dro a chwblhau mangre yn unol ag atodlen waith. Mae'n bosibl y bydd newidiadau gwirioneddol a sylweddol yn codi mewn amgylchiadau yn ystod y blynyddoedd hyn.

8.64 Dylid nodi na fyddai unrhyw benderfyniad gan yr awdurdod trwyddedu ynghylch cais am ddatganiad dros dro yn dileu'r angen i ymgeisydd wneud cais am reolaeth adeiladu.

8.65 Ni chaniateir gwneud cais am ddatganiad dros dro, na'i gyhoeddi, ar gyfer llong, cerbyd neu adeiledd symudol (gweler adran 189 Deddf 2003).

## TROSGLWYDDO TRWYDDEDAU MANGRE

8.66 Mae Deddf 2003 yn caniatáu i unrhyw berson a all wneud cais am drwydded mangre, sy'n cynnwys busnes, wneud cais i drwydded mangre gael ei throsglwyddo iddynt. Rhaid rhoi rhybudd o'r cais i brif swyddog yr heddlu. Os bydd unigolyn yn gwneud cais rhaid iddo ef neu hi fod yn 18 oed neu hŷn. Bydd trosglwyddo trwydded mangre yn digwydd yn aml pan fydd busnes sy'n cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy yn cael ei werthu i berchennog newydd. Dim ond enw deiliad y drwydded y mae trosglwyddiad y drwydded yn ei newid, ac nid yw'n newid y drwydded mewn unrhyw ffordd.

8.67 Yn y mwyafrif helaeth o achosion, disgwylir mai proses weinyddol syml fydd trosglwyddo. Mae adran 43 Deddf 2003 yn darparu mecanwaith sy'n galluogi'r trosglwyddiad i ddod i rym dros dro ar unwaith, cyn gynted ag y bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn y cais a nes y bydd yn cael ei benderfynu'n ffurfiol neu ei dynnu'n ôl. Mae hyn er mwyn sicrhau na fydd tarfu ar fusnes arferol ar y safle. Os nad yw'r heddlu'n gwrthwynebu'r cais, rhaid i'r awdurdod trwyddedu drosglwyddo'r drwydded yn unol â'r cais, diwygio'r drwydded yn briodol a'i dychwelyd i'r deiliad newydd.

8.68 Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae prif swyddog yr heddlu'n credu y gall y trosglwyddiad danseilio'r amcan atal troseddu, gall yr heddlu wrthwynebu'r trosglwyddiad. Disgwylir na fydd llawer o wrthwynebiadau o'r fath, ac y byddant yn codi oherwydd bod gan yr heddlu dystiolaeth bod y busnes neu'r unigolion sy'n gwneud cais i ddal y drwydded, neu'r busnes neu'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r cyfryw unigolion, yn cymryd rhan mewn trosedd (neu anhrefn). Er enghraifft, byddai'r heddlu o fewn eu hawl i geisio atal cwmni rhag cael trwydded drwy drosglwyddiad pe bai ganddynt dystiolaeth bod y fangre'n cael ei defnyddio i gannu arian a enillwyd drwy droseddau yn ymwneud â chyffuriau. Lle cynigir gwrthwynebiad, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad ble y bydd yr awdurdod yn ystyried y gwrthwynebiad. Byddai'r awdurdod yn ystyried mater yr amcan atal troseddu yn unig, ac ni ddylid caniatáu i'r gwrandawiad grwydro i drafod materion eraill diangen. Byddai'r pwysau ar yr heddlu i ddangos i'r awdurdod fod sail gadarn dros gredu y byddai trosglwyddo'r drwydded yn tanseilio'r amcan atal troseddu. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi rhesymau clir a chynhwysfawr dros ei benderfyniad terfynol er mwyn paratoi ar gyfer unrhyw apêl posibl gan y naill barti neu'r llall.

8.69 Pwysleisir na ddylai gwrthwynebiadau o'r math hwn (ac felly gwrandawiadau o'r math hwn) ddigwydd ond mewn amgylchiadau cwbl eithriadol. Os yw'r awdurdod trwyddedu'n credu bod yr heddlu'n defnyddio'r mecanwaith hwn yn rheolaidd i archwilio cefndir ymgeiswyr trosglwyddiad, ac i geisio cael gwrandawiadau er mwyn pysgota am wybodaeth am gefndir ymgeiswyr, disgwylir iddo godi'r mater ar unwaith gyda phrif swyddog yr heddlu.

## AWDURDODAU DROS DRO

8.70 Mae Deddf 2003 yn darparu trefniadau arbennig ar gyfer parhau caniatâd dan drwydded mangre pan fydd deiliad trwydded yn marw'n sydyn neu'n mynd yn fethdalwr neu'n analluog yn feddyliol. Yn nhrefn arferol pethau, byddai'r drwydded yn mynd yn ddi-rym mewn amgylchiadau fel hyn. Fodd bynnag, efallai y bydd cryn amser cyn, er enghraifft, y gellir delio ag ystâd y sawl sydd wedi marw neu y gellir penodi derbynnydd gweinyddol. Gallai hyn gael effaith niweidiol ar y rhai hynny sydd â diddordebau yn y fangre, megis perchennog neu brydleswr, neu weithwyr sy'n gweithio yn y fangre dan sylw; a gallai darfu heb fod angen ar gynlluniau cwsmeriaid. Mae'r Ddeddf felly yn rhoi darpariaeth i allu ailsefydlu'r drwydded o fewn cyfnod amser addas dan amgylchiadau penodol.

8.71 Dim ond pan fydd trwydded mangre wedi mynd yn ddi-rym oherwydd marwolaeth, analluogrwydd neu ansolfedd y deiliad y mae'r amgylchiadau hyn yn codi. Mewn amgylchiadau

o'r fath, gellir rhoi rhybudd "awdurdod dros dro" i'r awdurdod trwyddedu o fewn saith niwrnod, yn dechrau'r diwrnod ar ôl i'r drwydded fynd yn ddi-rym. Dylid rhoi copi hefyd i brif swyddog yr heddlu. Byddai'r drwydded mangre yn ddi-rym hyd nes y rhoddir rhybudd o'r fath, a byddai cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn y cyfnod hwnnw'n anghyfreithlon. Bydd gweithgaredd o'r fath yn drosedd fel gweithgaredd trwyddedadwy anawdurdodedig dan adran 136(1)(a) Deddf 2003, y darperir "amddiffyniad o ofal dyladwy" iddi yn adran 139. Gall hyn fod yn berthnasol, er enghraifft, os bydd rheolwr mangre arbennig yn gwbl anwybodus am gyfnod o amser bod deiliad y drwydded mangre wedi marw. Cyn gynted ag y rhoddir rhybudd awdurdod dros dro o fewn y cyfnod o saith niwrnod, gall y busnes barhau i gynnal unrhyw weithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded mangre.

8.72 Dim ond unigolyn â diddordeb rhagnodedig yn y fangre, fel y nodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau y gellir eu gweld ar wefan DCMS, neu gan berson sy'n gysylltiedig â chyn-ddeiliad y drwydded (fel rheol cynrychiolydd personol y cyn-ddeiliad neu unigolyn gyda phŵer atwrnai, neu lle mae rhywun wedi mynd yn fethdalwr, ymarferwr ansolfedd yr unigolyn hwnnw) sy'n gallu rhoi rhybudd dros dro.

8.73 Bwriad rhoi'r rhybudd yw ailsefydlu'r drwydded mangre fel petai'r unigolyn sy'n rhoi'r rhybudd yn ddeiliad y drwydded, a thrwy hynny ganiatáu i'r gweithgareddau trwyddedadwy barhau tra disgwylir am gais ffurfiol am drosglwyddiad. Dau fis yw'r cyfnod mwyaf y gall rhybudd awdurdod dros dro fod mewn grym.

8.74 Mae'r rhybudd awdurdod dros dro yn colli ei rym oni bai bod copi o'r rhybudd wedi cael ei roi i brif swyddog yr heddlu erbyn diwedd y cyfnod cychwynnol o 7 diwrnod. O fewn 48 awr i dderbyn copi o'r rhybudd, ac os ydynt yn fodlon dan amgylchiadau eithriadol yr achos y byddai methu â diddymu'r awdurdod dros dro yn tanseilio'r amcan atal troseddu, gall yr heddlu roi rhybudd i'r perwyl hwnnw i'r awdurdod trwyddedu. Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad i ystyried y rhybudd gwrthwynebiad a diddymu'r rhybudd awdurdod dros dro os bydd yn penderfynu bod angen gwneud hyn er mwyn hyrwyddo'r amcan atal troseddu.

8.75 Mewn perthynas â'r materion hyn, disgwylir y bydd yr awdurdodau trwyddedu yn effro i natur frys yr amgylchiadau a'r angen i ystyried y gwrthwynebiad yn fuan.

8.76 Dylid nodi hefyd yn rhinwedd adran 50 Deddf 2003, lle mae'r drwydded mangre yn mynd yn ddi-rym (oherwydd marwolaeth, analluogrwydd neu ansolfedd y deiliad ac ati) neu am ei bod yn cael ei hildio, ond lle nad oes rhybudd awdurdod dros dro mewn grym, gall unigolyn a fyddai'n gwneud cais am drwydded mangre o dan adran 16(1) wneud cais o fewn 7 diwrnod i'r drwydded golli ei grym i drosglwyddo'r drwydded iddo ef/hi ar unwaith, hyd nes bydd y cais yn cael ei benderfynu. Bydd hyn yn arwain at ailsefydlu'r drwydded o'r adeg y derbyniwyd y cais i drosglwyddo gan yr awdurdod trwyddedu. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud cais i drosglwyddo anfon copi o'i gais at brif swyddog yr heddlu.

## HAWL RHYDD-DDEILIAID AC ATI I GAEL EU HYSBYSU AM FATERION TRWYDDEDU

8.77 Gall unigolyn (a fydd yn cynnwys busnes neu gwmni) gyda budd eiddo mewn unrhyw fangre a leolir yn ardal yr awdurdod trwyddedu roi rhybudd am ei ddiddordeb i'r awdurdod, gan ddefnyddio ffurflen benodol ac ar ôl talu ffi a ragnodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae manylion am ffioedd a ffurflenni ar gael ar wefan DCMS. Penderfyniad y cyfryw unigolion yw os ydynt am gofrestru neu beidio. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol. Ymysg y rhai a all fanteisio ar y trefniant hwn mae'r rhydd-ddeiliad neu ddeiliad y les, morgeisai cyfreithiol mewn perthynas â'r fangre, unigolyn sy'n meddiannu'r fangre neu unrhyw unigolyn arall a ragnodir gan yr Ysgrifennydd.

8.78 Bydd y rhybudd mewn grym am 12 mis, ond gellir rhoi rhybudd newydd bob blwyddyn. Tra bydd y rhybudd mewn grym, os gwneir unrhyw newid i'r gofrestr drwyddedu (y mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd i'w chadw o dan adran 8 Deddf 2003) mewn perthynas â'r fangre dan sylw, rhaid i'r awdurdod trwyddedu hysbysu'r unigolyn a gofrestrodd ddiddordeb yn y mater y mae'r newid yn berthnasol iddo. Caiff yr unigolyn ei hysbysu hefyd o'i hawl o dan adran 8 i ofyn am gopi o'r wybodaeth a gynhwysir mewn unrhyw gofnod yn y gofrestr. Mewn achosion sy'n ymwneud â rhybuddion awdurdod dros dro (gweler uchod) mae'n bwysig bod yr awdurdod yn delio'n gyflym ag ymholiadau o'r fath.

# 9.Penderfynu ar geisiadau

## CYFFREDINOL

9.1 Pan fydd awdurdod trwyddedu yn derbyn cais am drwydded mangre newydd, neu gais i amrywio trwydded mangre gyfredol, rhaid iddo benderfynu a wnaed y cais yn briodol yn unol ag adran 17 Deddf 2003 ac yn unol â rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adrannau 17(4), 17(5), 54 a 55 y Ddeddf. Golyga hyn fod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried, ymysg pethau eraill, a yw'r cais wedi cael ei hysbysebu'n briodol yn unol â'r rheoliadau.

## BLE NA CHYFLWYNIR SYLWADAU

9.2 Nid oes angen gwrandawiad os yw cais wedi'i wneud yn gyfreithlon ac os nad yw'r un awdurdod cyfrifol na pharti â diddordeb wedi cyflwyno sylwadau ynghylch y cais. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ganiatáu'r cais dan y telerau a geisir, yn amodol yn unig ar amodau sy'n cyd-fynd â'r atodlen weithredu ac amodau gorfodol perthnasol yn y Ddeddf. Dylai hyn gael ei gyflawni fel proses weinyddol syml gan swyddogion yr awdurdod trwyddedu, ddylai drosi'r cynigion a gynhwysir yn yr atodlen weithredu i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn amodau clir a dealladwy.

## BLE Y CYFLWYNIR SYLWADAU

9.3 Ble y cyflwynir sylwadau yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu mewn perthynas ag atodlen weithredu arfaethedig gan awdurdod cyfrifol, mae'n berthnasol, a bydd yr awdurdod trwyddedu yn cael gweithredu yn ôl ei ddoethineb. Bydd hefyd yn gweithredu yn ôl ei ddoethineb os bydd parti â diddordeb yn cyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu, h. y. rhai nad ydynt yn wamal neu flinderus ac sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu (gweler paragraffau 9.8 – 9.13 isod). Gellir cyflwyno sylwadau yn gwrthwynebu neu yn cefnogi cais.

9.4 Yr awdurdod trwyddedu sydd i benderfynu yn y lle cyntaf a yw'r sylwadau'n berthnasol ai peidio. Gallai hyn gynnwys penderfynu a ydynt mewn gwirionedd wedi cael eu gwneud gan barti â diddordeb ac, er enghraifft, a yw unigolyn sy'n cyflwyno sylwadau yn preswylio neu'n ymwneud â busnes "yng nghyffiniau" y fangre dan sylw. Serch hynny, dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol y gallai eu penderfyniad cychwynnol ar y mater hwn fod yn destun her gyfreithiol yn y llysoedd.

9.5 Wrth wneud eu penderfyniad cychwynnol ynghylch y cwestiwn o gyffiniau, dylai awdurdodau trwyddedu ystyried, er enghraifft, a yw preswylfa neu fusnes yr unigolyn yn debygol o gael ei effeithio'n uniongyrchol gan anhrefn ac aflonyddwch sy'n digwydd, neu a allai ddigwydd, yn y fangre honno neu'n union y tu allan i'r fangre. Mewn geiriau eraill, effaith y materion sy'n gysylltiedig â'r pedwar amcan trwyddedu yw'r brif ystyriaeth.

9.6 Mae'r Llywodraeth yn argymell, lle mae awdurdodau lleol wedi dewis diffinio cyffiniau fel pellter sefydlog o fangre, y dylent ond ddefnyddio hynny fel canllaw yn unig a nodi yn eu datganiadau polisi y byddant yn ystyried sylwadau gan bobl sy'n byw neu'n gweithio y tu allan i'r pellter hynny os gallant ddangos eu bod (neu yn achos mangre newydd, yn debygol o fod) yn cael eu heffeithio gan anhrefn a tharfu sy'n digwydd (neu a allai ddigwydd) yn y fangre honno.

9.7 Lle mae sylwadau'n ymwneud ag "effaith gronnus", mae'n bosibl na fydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu ystyried y ffactor ac mae'n debyg y byddai angen iddo archwilio materion megis pa mor agos yw'r breswylfa neu'r busnes. I grynhoi, disgwylir y deuir i benderfyniad gan ddefnyddio synnwyr cyffredin, ac y bydd unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gymdogaeth neu'r ardal sy'n union o amgylch y fangre yn gallu cyflwyno sylwadau.

## SYLWADAU PERTHNASOL, BLINDERUS A GWAMAL

9.8 Ni fyddai sylwadau'n "berthnasol" oni bai eu bod yn gysylltiedig ag effaith debygol caniatáu'r drwydded ar hyrwyddo o leiaf un o'r amcanion trwyddedu. Er enghraifft, ni fyddai sylwadau gan ddyn busnes lleol yn dadlau y byddai busnes newydd trwyddedig yn cael niwed masnachol ar ei fusnes yn berthnasol. Ar y llaw arall, byddai sylwadau i'r perwyl y byddai'r niwsans a achosir gan y busnes newydd yn gwneud cwsmeriaid yn llai awyddus i fynd i mewn i'r ardal leol, a bod y camau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i reoli'r niwsans hwnnw yn annigonol, yn sylwadau perthnasol. Nid yw'n ofynnol i barti sydd â diddordeb neu awdurdod cyfrifol gyflwyno cofnod hanesyddol o broblemau mewn mangre i gefnogi eu sylwadau, ac mewn gwirionedd ni fyddai hyn yn bosib yn achos mangre newydd. Mae mwy o wybodaeth ar gyfer partïon â diddordeb ynglŷn â'r broses ar gyfer gwneud sylwadau ar gael yn "Arweiniad i bartïon â diddordeb: gwneud sylwadau" sydd ar gael ar wefan DCMS.

9.9 Gallai'r "effaith gronnus" y gallai crynhoad o wahanol fangreoedd trwyddedig ei gael ar yr amcanion trwyddedu hefyd arwain at gyflwyno sylwadau perthnasol pan fydd cais i ganiatáu neu amrywio trwydded mangre yn cael ei ystyried, ond nid mewn perthynas â chais i adolygu, pan fydd rhaid iddo fod yn gysylltiedig â mangre unigol.

9.10 Lle'r awdurdod trwyddedu yw penderfynu a yw sylwadau gan barti â diddordeb yn wamal neu'n flinderus ar sail yr hyn fyddai fel arfer yn cael ei ystyried yn flinderus neu'n wamal. Gall blinder godi o ganlyniad i anghydfod rhwng busnesau sy'n cystadlu â'i gilydd, ac felly bydd gwybodaeth leol yn amhrisiadwy wrth ystyried materion o'r fath. Nodwedd amlycaf sylwadau gwamal fyddai diffyg difrifoldeb. Gall parti â diddordeb sydd wedi ei dramgwyddo oherwydd i'w sylwadau gael eu gwrthod ar y sail hon herio penderfyniad yr awdurdod trwy gyfrwng adolygiad barnwrol.

9.11 Ni ddylai'r awdurdod trwyddedu wneud penderfyniadau ynghylch perthnasedd sylwadau ar sail unrhyw farn wleidyddol. Gall hyn fod yn anodd i gynghorwyr wardiau sy'n derbyn cwynion gan breswylwyr o fewn eu wardiau eu hunain. Os nad yw ystyriaeth o'r mater yn cael ei ddirprwyo, yn groes i'r argymhellion yn yr Arweiniad hwn, dylai swyddogion baratoi asesiad i'w ystyried gan yr is-bwyllgor, cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud sy'n golygu bod angen cynnal gwrandawiad. Dylai unrhyw gynghorydd ward sy'n ystyried bod ei ddiddordeb ei hun o'r fath fel na allant ystyried y mater yn annibynnol ei anghymwyso ei hun.

9.12 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylid, mewn achosion ffiniol, ddyfarnu o blaid y parti â diddordeb sy'n cyflwyno'r sylwadau. Byddai'r gwrandawiad dilynol yna'n rhoi cyfle i'r unigolyn neu'r corff sy'n cyflwyno'r sylwadau eu hegluro a'u trafod. Pe bai yna'n dod yn amlwg, er enghraifft, na ddylid cefnogi'r sylwadau, gallai'r awdurdod trwyddedu benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r cais.

9.13 Dylai awdurdodau trwyddedu ystyried darparu cyngor ar eu gwefannau am sut y gall unrhyw bartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau iddynt.

## DATGELU MANYLION PERSONOL PARTÏON Â DIDDORDEB

9.14 Ble y rhoddir rhybudd am wrandawiad i ymgeisydd, mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu dan Reoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Gwrandawiadau) 2005 ddarparu copïau o'r sylwadau perthnasol a gyflwynwyd gyda'r rhybudd i'r ymgeisydd.

9.15 Mewn rhai amgylchiadau eithriadol a phrin, gallai partïon â diddordeb fod yn amharod i gyflwyno sylwadau oherwydd ofn bygythiadau neu drais pe bai eu manylion personol, fel eu henw a'u cyfeiriad, yn cael eu datgelu i'r ymgeisydd.

9.16 Os bydd awdurdodau trwyddedu yn ystyried bod gan y parti â diddordeb ofn gwirioneddol a chyfiawn o fygythiad, ac y gallai hyn eu rhwystro rhag cyflwyno sylwadau, gallai ystyried dulliau gwahanol o weithredu.

9.17 Er enghraifft, gallai'r awdurdod trwyddedu gynghori'r partïon â diddordeb i ddarparu manylion i'r awdurdod cyfrifol perthnasol am sut y teimlir y mae'r amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio, fel y gall yr awdurdod cyfrifol gyflwyno sylwadau os yn briodol ac yn gyfiawn.

9.18 Gallai'r awdurdod trwyddedu hefyd benderfynu cadw rhywfaint neu'r cyfan o fanylion personol y parti â diddordeb oddi wrth yr ymgeisydd, gan roi digon o fanylion yn unig (fel enw stryd neu leoliad cyffredinol ar y stryd) fyddai'n galluogi ymgeisydd i fod yn fodlon bod y parti â diddordeb o fewn cyffiniau'r fangre. Serch hynny, dim ond os yw'r amgylchiadau yn cyfiawnhau gweithredu fel hyn ac os yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon nad yw'r cwynion yn wamal neu flinderus y dylid cadw manylion o'r fath yn gudd.

## GWRANDAWIADAU

9.19 Gellir gweld rheoliadau sy'n llywodraethu gwrandawiadau ar wefan DCMS. Os bydd yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu bod sylwadau a gyflwynir yn berthnasol, rhaid iddo gynnal gwrandawiad i'w hystyried. Dim ond trwy gytundeb yr awdurdod trwyddedu, yr ymgeisydd a'r holl bartïon a gyflwynodd sylwadau perthnasol y gellir hepgor ar yr angen am wrandawiad. Mewn achosion lle derbynnir sylwadau 'cadarnhaol' yn unig, yna dylai'r awdurdod trwyddedu ystyried a oes angen cynnal gwrandawiad. I'r perwyl hwn efallai y bydd am hysbysu'r partïon sydd â diddordeb a rhoi cyfle iddynt dynnu eu sylwadau yn ôl. Byddai angen gwneud hyn mewn digon o amser cyn cynnal y gwrandawiad i sicrhau nad yw'r partïon yn dioddef unrhyw anghyfleustra diangen.

9.20 Dylai awdurdodau cyfrifol geisio terfynu unrhyw drafodaethau gyda'r ymgeisydd mewn da bryd cyn y gwrandawiad. Os bydd y cais yn cael ei newid ar y funud olaf, dylai'r pwyllgor trwyddedu ystyried rhoi amser i bartïon sydd â diddordeb edrych ar y cais diwygiedig cyn cychwyn y gwrandawiad.

9.21 Mae'r rheoliadau yn nodi y dylid tynnu sylwadau yn ôl 24 awr cyn diwrnod cyntaf unrhyw wrandawiad. Os tynnir hwynt yn ôl wedi hynny, rhaid i'r gwrandawiad fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, lle mae trafodaethau ar droed rhwng ymgeisydd a'r rhai sy'n gwneud sylwadau a lle mae'n debygol bod y partïon ar fin dod i gytundeb, efallai y bydd yr awdurdod trwyddedu am ddefnyddio'r pŵer a roddwyd o fewn rheoliadau gwrandawiadau i ymestyn terfynau'r amser a ganiateir, os yw o'r farn bod hyn er budd y cyhoedd.

9.22 Dylid annog ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdodau cyfrifol cyn llunio eu ceisiadau, fel y gellir cychwyn ar y broses gyfryngu cyn i'r cyfyngiadau amser statudol ddod i rym ar ôl cyflwyno cais. Rhaid i'r broses wrando gwrdd â gofynion y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Os bydd materion nad ydynt yn cael eu cwmpasu yn y Rheoliadau yn codi, gall awdurdodau trwyddedu wneud trefniadau fel y gwelant yn briodol, cyn belled â'u bod yn gyfreithiol.

9.23 Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyfrifol sydd wedi cyflwyno sylwadau fynychu'r gwrandawiad, ond yn gyffredinol mae'n arfer da, ac yn cynorthwyo pwyllgorau i ddod i benderfyniad mwy gwybodus. Lle mae amryw o awdurdodau cyfrifol o fewn awdurdod lleol wedi cyflwyno sylwadau ynglŷn â chais, gall un swyddog awdurdod lleol eu cynrychioli yn y gwrandawiad os yw'r awdurdodau cyfrifol a'r awdurdod trwyddedu yn cytuno. Fodd bynnag, ni all swyddog o'r awdurdod trwyddedu gyflawni'r rôl hon gan y byddai'n cyfaddawdu annibyniaeth yr awdurdod trwyddedu.

9.24 Fel arfer, dylai awdurdodau trwyddedu geisio canolbwyntio yn y gwrandawiad ar y camau sydd eu hangen i hyrwyddo'r amcan trwyddedu penodol a arweiniodd at y sylwadau penodol, ac osgoi crwydro i feysydd nad oes anghydfod yn eu cylch. Gall awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb ddewis dibynnu ar eu sylwadau ysgrifenedig. Ni chânt ychwanegu sylwadau pellach at y rhai a ddatgelwyd i'r ymgeisydd cyn y gwrandawiad, ond cânt egluro eu sylwadau presennol ymhellach.

9.25 Wrth benderfynu ar y cais, gyda golwg ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu er budd cyffredinol y gymuned leol, rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi'r sylw dyladwy i:

- y camau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
- y sylwadau (gan gynnwys gwybodaeth ategol) a gyflwynir gan yr holl bartïon;
- yr Arweiniad hwn;
- ei ddatganiad polisi trwyddedu ei hun.

9.26 Dylai'r awdurdod trwyddedu roi ei benderfyniad ar unwaith, oni bai bod y Ddeddf ei hun yn nodi'n wahanol, a darparu rhesymau i gefnogi'r penderfyniad hwnnw. Bydd hyn yn bwysig os bydd unrhyw un o'r partïon yn gwneud apêl. Rhaid i hysbysiad o benderfyniad gynnwys gwybodaeth am hawl y parti i apelio. Wedi ystyried yr holl faterion perthnasol, gall yr awdurdod trwyddedu ganiatáu'r cais, yn amodol ar y cyfryw amodau sy'n gyson â'r atodlen

weithredu. Rhaid i unrhyw amodau a osodir fod yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu; nid oes gan yr awdurdod trwyddedu rym i osod amod sy'n ddyheadol yn unig. Er enghraifft, ni ellir gosod amodau sy'n ymwneud ag iechyd cwsmeriaid yn unig yn hytrach na'u diogelwch corfforol uniongyrchol.

9.27 Fel arall, gallai'r awdurdod trwyddedu wrthod y cais ar y sail bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gallai hefyd wrthod pennu goruchwyliwr mangre dynodedig a/neu ddim ond caniatáu rhai o'r gweithgareddau trwyddedadwy y gofynnwyd amdanynt. Er budd tryloywder, dylai'r awdurdod trwyddedu gyhoeddi trefn weithredu gwrandawiadau yn llawn ar ei wefan er mwyn sicrhau bod partïon sydd â diddordeb ac eraill yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

9.28 Yng nghyd-destun amrywiadau, a allai gynnwys newidiadau adeiladol neu i ddefnydd yr adeilad, ni fydd penderfyniad yr awdurdod trwyddedu yn esgusodi ymgeisydd o'r angen i wneud cais am reolaeth adeiladu neu ganiatâd cynllunio ble bo'n briodol.

# 10. Amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb

## CYFFREDINOL

10.1 Mae'r bennod hon yn cynnig cyngor ac argymhellion am arfer gorau sy'n ymwneud â'r amodau a osodir ar drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb.

10.2 Mae'r amodau'n cynnwys unrhyw gyfyngiadau sydd ynghlwm â thrwydded neu dystysgrif, ac yn eu hanfod, dyma'r camau neu'r gweithredoedd y mae gofyn i ddeiliad y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb eu cymryd neu beidio â'u cymryd pan fo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal yn yr adeilad dan sylw.

10.3 Dylai pawb sydd â diddordeb - awdurdodau trwyddedu, deiliaid trwydded a thystysgrif, personau awdurdodedig, yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill a thrigolion a busnesau lleol - fod yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sicrhau, ar y cyd, bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo.

10.4 Dan drefniadau trwyddedu blaenorol, gwnaeth y llysoedd yn glir ei bod yn arbennig o bwysig osgoi amodau sy'n aneglur neu sy'n anodd i ddeiliad trwydded gadw atynt. Mae methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â thrwydded neu dystysgrif yn drosedd, a'r gosb o gael eich dedfrydu'n euog fyddai dirwy o hyd at £20, 000 neu hyd at chwe mis o garchar, neu'r ddau.

10.5 Mae Atodiad D yn darparu rhai enghreifftiau (er nad yn rhestr gynhwysfawr) o amodau sy'n ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu a gellir eu defnyddio lle mae hynny'n angenrheidiol i amgylchiadau penodol mangre trwyddedig unigol. Yn unol â hynny, dylid trin yr atodiadau fel cronfa o amodau lle gellir canfod amodau priodol ac angenrheidiol ar gyfer trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb er mwyn llunio trwydded neu dystysgrif ar gyfer mangre benodol. Mae'n bwysig na ddylid eu cymhwyso'n gyffredinol a'u trin fel amodau safonol heb ystyried amgylchiadau neilltuol.

10.6 Mae tri math o amod y gellir eu gosod ar drwydded neu dystysgrif: amod arfaethedig, amod a osodir ac amod gorfodol. Disgrifir pob un o'r categorïau hyn yn fanylach isod.

## AMODAU ARFAETHEDIG

10.7 Dylai'r amodau sy'n angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ddeillio i gychwyn o asesiad risg gan ddarpar drwyddedai neu ddeiliad tystysgrif, a ddylai gael ei gynnal gan ymgeiswyr a chlybiau cyn gwneud eu cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb. Byddai hyn yn cael ei drosi i'r camau a gofnodir yn yr atodlen weithredu neu atodlen weithredu'r clwb, a ddylai hefyd gynnwys yr oriau agor arfaethedig.

10.8 Er mwyn lleihau problemau a'r angen am wrandawiadau, byddai'n syniad da i ymgeiswyr a chlybiau ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol pan fydd atodlenni'n cael eu paratoi. Byddai hyn yn caniatáu am gyswllt priodol cyn ei bod yn angenrheidiol cyflwyno sylwadau.

## CYSONDEB Â CHAMAU A DDISGRIFIR YN YR ATODLEN WEITHREDU

10.9 Yn ôl Deddf 2003, lle y cyflwynir atodlen weithredu neu atodlen weithredu clwb gyda chais, ac na chyflwynwyd unrhyw sylwadau perthnasol gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb, rhaid cyhoeddi'r drwydded neu'r dystysgrif, a hynny'n amodol yn unig ar yr amodau sy'n gyson â'r amserlen sydd ynghlwm â'r cais, ac unrhyw amodau gorfodol a nodir yn y Ddeddf ei hun.

10.10 Mae cysondeb yn golygu y dylai effaith yr amod fod fwy neu lai'r un fath â'r hyn a fwriadwyd gan delerau'r atodlen weithredu neu'r atodlen weithredu clwb. Gellir disgwyl i rai ymgeiswyr am drwyddedau neu dystysgrifau, a gefnogir gan gynrychiolwyr cyfreithiol neu gymdeithasau masnach, fynegi camau sy'n angenrheidiol i hybu'r amcanion trwyddedu mewn termau eglur ac y gellir eu trosi'n hawdd. Fodd bynnag, ni fydd rhai ymgeiswyr yn mynegi telerau eu hatodlenni gweithredu mor fanwl a chryno. Bydd sicrhau bod amodau yn gyson â'r atodlen weithredu yn anoddach dan yr amgylchiadau hyn. Gall torri amodau arwain at erlyniad troseddol neu at gais am adolygiad ac mae'n hynod o bwysig felly eu bod yn cael eu mynegi'n bendant ac yn ddiamwys ar y drwydded neu'r dystysgrif. Rhaid iddo fod yn amlwg i ddeiliad y drwydded neu'r clwb, i swyddogion gorfodi ac i'r llysoedd, pa ddyletswydd a osodwyd ar y deiliad neu'r clwb o safbwynt cydymffurfio.

## AMODAU A OSODIR

10.11 Ni all yr awdurdod trwyddedu osod unrhyw amodau oni bai bod disgwyl iddynt ddefnyddio eu doethineb o ganlyniad i gyflwyno sylwadau perthnasol, a'i fod wedi'i fodloni mewn gwrandawiad o'r angen i osod amodau o'r fath. Hyd yn oed wedyn, dim ond amodau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu y gall eu gosod. Rhaid i amodau o'r fath hefyd gael eu mynegi'n glir ac yn ddiamwys er mwyn osgoi dadleuon cyfreithiol.

10.12 Mae'n gwbl bosibl mewn rhai achosion, oherwydd bod y prawf yn un o anghenraid, nad oes angen unrhyw amodau ychwanegol o gwbl i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ble mae darpariaethau deddfwriaethol eraill sy'n berthnasol ac y mae'n rhaid eu dilyn gan yr ymgeisydd.

### Cymesuredd

10.13 Mae'r Ddeddf yn nodi y dylid addasu amodau trwyddedu i'r maint, arddull, nodweddion a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y fangre dan sylw. Mae hyn yn cau'r drws ar amodau safonol sy'n anwybyddu'r agweddau unigol hyn. Mae'n bwysig bod amodau'n gymesur ac yn cydnabod yn briodol y gwahaniaethau sylweddol rhwng lleoliadau. Er enghraifft, ni fydd elusennau, grwpiau cymunedol, grwpiau gwirfoddol, eglwysi, ysgolion ac ysbytai, sy'n cynnal digwyddiadau a gwyliau llai fel arfer yn gwneud hyn yn fasnachol gyda golwg ar wneud elw, a byddant yn anochel yn gweithredu gydag adnoddau cyfyngedig.

10.14 Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod ffioedd yn fater canolog ar gyfer trwyddedau a thystysgrifau, dylai awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol fod yn ymwybodol o'r costau anuniongyrchol a all godi o ganlyniad i amodau a osodir ar drwyddedau. Gallai'r rhain atal digwyddiadau rhag cael eu cynnal sy'n werthfawr i'r gymuned neu i ariannu achosion da a phwysig. Gallai cyrff o'r fath fod yn gyndyn i apelio yn erbyn amodau diangen oherwydd y costau a fyddai ynghlwm. Dylai awdurdodau trwyddedu felly sicrhau mai dim ond yr amodau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu y byddant yn eu gosod, sy'n golygu na ddylent fynd ymhellach na'r hyn sydd ei angen i'r diben hwnnw. Wrth gwrs, ni ddylid anwybyddu materion diogelwch y cyhoedd (a'r materion a nodwyd yn yr amcanion eraill), ac wrth ystyried ymateb cymesur i'r anghenion trwyddedu ar gyfer digwyddiadau o'r fath, dylai diogelwch corfforol y rhai sy'n mynychu digwyddiadau o'r fath barhau i fod yn amcan pennaf.

## Dyblygu gyda darpariaethau statudol eraill

10.15 Dim ond amodau sy'n angenrheidiol ac yn gymesur i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu y dylai'r awdurdodau trwyddedu eu gosod. Os yw deddfau eraill eisoes yn gosod cyfrifoldebau statudol arbennig ar gyflogwr neu weithredwr mangre, ni all fod yn angenrheidiol gosod yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg. Er enghraifft, mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (SI 1999/3242) yn mynnu bod cyflogwyr a phobl hunangyflogedig yn asesu'r risgiau i'w gweithwyr ac unrhyw bobl eraill (gan gynnwys aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â'r fangre) a allai gael eu heffeithio gan eu busnes, a nodi pa fesurau sydd eu hangen i osgoi neu reoli risgiau. Felly nid oes angen amodau i orfodi'r gofynion hyn.

10.16 Yn yr un modd, ni ddylai awdurdodau trwyddedu geisio gosod amodau diogelwch tân a allai ddyblygu unrhyw ofynion neu waharddiadau y gellid eu gosod o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (gweler paragraffau 2.20 - 2.29).

10.17 Ymhellach, nid yw'r Ddeddf yn effeithio ar y defnydd parhaol o bwerau archwilio a gorfodaeth a gyflwynir gan ddeddfwriaeth eraill; er enghraifft, pwerau swyddog iechyd amgylcheddol mewn perthynas â niwsans statudol dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990.

10.18 Fodd bynnag, ni fydd y dyletswyddau cyffredinol hyn bob amser yn ddigonol wrth ddelio â materion penodol sy'n codi yn y fangre, er enghraifft, mewn cysylltiad â rhai mathau o adloniant. Dim ond pan fo angen mesurau ychwanegol ac atodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu y bydd angen gosod amodau ar drwydded.

## Oriau masnachu

10.19 Mewn rhai ardaloedd canol tref a dinas ble mae nifer, math a chrynhoad y mangreoedd sy'n gwerthu alcohol ar gyfer ei yfed ar y safle yn anarferol, gallai problemau difrifol o niwsans ac anhrefn godi y tu allan neu ryw bellter i ffwrdd o fangreoedd trwyddedig. Er enghraifft, gall crynhoad o yfwyr ifanc arwain at giwiau mewn mannau gwerthu bwyd cyflym ac ar gyfer cludiant cyhoeddus, a allai yn ei dro arwain at wrthdaro, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mewn rhai amgylchiadau, gallai oriau trwyddedu hirach leihau'r effaith hwn drwy ganiatáu gwasgariad mwy graddol o gwsmeriaid o fangreoedd.

10.20 Fodd bynnag, nid oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau trwyddedu a dylai'r pedwar amcan trwyddedu gael eu hystyried bob amser. Os oes gwrthwynebiadau i gais a bod y pwyllgor o'r farn y byddai newid yr oriau trwyddedu yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, gallant wrthod y cais neu ei ganiatáu gydag amodau priodol a/neu gwahanol oriau i'r rhai y gofynnwyd amdanynt yn y cais.

10.21 Yn gyffredinol, dylid caniatáu i siopau ac archfarchnadoedd werthu alcohol ar gyfer eu hyfed oddi ar y safle ar unrhyw adeg pan fo'r man gwerthu yn agored i siopwyr, oni bai bod rhesymau da, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, ar gyfer cyfyngu'r oriau hyn.
Er enghraifft, gallai cyfyngiad fod yn briodol yn dilyn sylwadau gan yr heddlu yn achos rhai siopau sy'n adnabyddus fel canolbwynt anhrefn ac aflonyddwch o ganlyniad i bobl ifanc yn ymgynnull yno.

## Hawliau gweithwyr

10.22 Nid lle'r awdurdod trwyddedu yw ystyried materion megis hawliau'r gweithwyr a gyflogir yn y fangre ac y gellir gofyn iddynt weithio oriau hirach. Mae yno amddiffyniadau presennol dan Reoliadau Amser Gweithio 1998 (SI 1998/1833), Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i diwygiwyd) ac o dan gyfraith cyflogaeth a chyfreithiau cytundebau cyffredinol.

## Pobl Anabl

10.23 Mae'n bwysig bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddarparu ar gyfer diogelwch pobl a pherfformwyr gydag anableddau, ond dylai awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol osgoi amodau llawn bwriadau da sydd wedi'u bwriadu i ddiogelu pobl a pherfformwyr gydag anableddau, ond a allai atal gweithredwyr rhag eu gadael i mewn neu eu cyflogi.

10.24 Polisi'r Llywodraeth yw y dylid darparu cyfleusterau i bobl a pherfformwyr gydag anableddau mewn llefydd adloniant. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn annog deiliaid trwydded a chlybiau i ddarparu cyfleusterau sy'n galluogi mynediad, ac yn eu hatgoffa o'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'r ddeddf yn nodi y dylai unrhyw berson sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd wneud addasiadau rhesymol i alluogi pobl anabl i gael mynediad i'r gwasanaeth. Ni ddylid gosod amod trwyddedu wrth drwydded neu dystysgrif felly sy'n gwrthdaro neu'n ailadrodd y gofyniad hwn.

10.25 Mae gan ddarparwyr gwasanaeth ddyletswydd hefyd i wneud addasiadau rhesymol i unrhyw nodweddion materol sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl gael mynediad i wasanaeth, neu mae'n rhaid iddynt ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd arall resymol. Mae mynediad i adeiladau a'u cyfleusterau hefyd yn fater sy'n dod o dan Reoliadau Adeiladu, a gallai addasiadau a gynlluniwyd, sy'n effeithio ar fynediad, olygu gorfod gwneud cais am reoliad adeiladu.

10.26 Dylai awdurdodau trwyddedu felly fod yn barod i gynnig cyngor i ymgeiswyr am drwyddedau a thystysgrifau am sut i gyflawni hyn. Gall amodau sy'n datgan "na chaniateir cadeiriau olwyn ac offer tebyg yn yr adeilad heblaw yn unol â thelerau unrhyw ganiatâd a roddwyd gan yr awdurdod trwyddedu" fod yn amwys, a gellir eu defnyddio i gyfiawnhau gwaharddiad a gallant fod y tu hwnt i'r galluoedd. Dylai amodau gael eu geirio mewn ffordd gadarnhaol sy'n cymryd yn ganiataol bod pobl anabl yn bresennol mewn mangre drwyddedig.

10.27 Yn ychwanegol at hyn, bu arweiniad Llywodraeth sy'n eithrio cŵn tywys a chymorth o ofynion iechyd a diogelwch mewn grym ers 1995. Dylai unrhyw amod ar drwydded neu dystysgrif sy'n datgan na all "anifeiliaid anwes" fod yn bresennol mewn mangre drwyddedig er diogelwch y cyhoedd, nodi'n glir hefyd nad yw'r amod yn wir am gŵn tywys neu gymorth. Gellir cael cyngor pellach ar wefan Comisiwn Hawliau'r Anabl yn www.drc-gb.org .

10.28 Nid yw Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn berthnasol i longau. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddeb Cyngor Ewrop 2003/24/EC yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau priodol ar gyfer `unigolion â symudedd llai` (golyga hyn unrhyw un sydd ag anhawster penodol wrth

ddefnyddio cludiant cyhoeddus; yn cynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl â nam ar y synhwyrau a defnyddwyr cadair olwyn, menywod beichiog ac unigolion sy'n hebrwng plant bach) ar rai llongau teithwyr sy'n mynd ar deithiau cartref. Rhoddir rhagor o gyngor ac arweiniad yn Hysbysiad Llongau Masnach 1789 (M) a Nodyn Arweiniad Morol 306 (M) sydd i'w gweld yn adran Arweiniad a Rheoleiddio gwefan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. www.mcga.gov.uk. Mae'r dogfennau hyn yn cydweddu â'r arweiniad presennol The Design of Large Passenger Ships and Passenger Infrastructure: Meeting the Needs of Disabled People, sydd ar gael ar wefan Pwyllgor Cludiant Ymgynghorol Pobl Anabl. www.dptac.gov.uk yn yr adran morol.

## Cydraddoldeb Hiliol

10.29 Dylai awdurdodau trwyddedu hefyd osgoi gosod unrhyw amod ar drwydded neu dystysgrif sy'n ymddangos fel pe'n berthnasol i garfan eang o bobl, ond a fyddai mewn gwirionedd yn cael effaith wahaniaethol anuniongyrchol ar grwpiau ethnig arbennig. Er enghraifft, ni ddylid derbyn cais i osod arwydd "Dim Teithwyr" neu "Dim Preswylwyr Carafannau" y tu mewn i adeilad neu ar adeilad gyda honiad mai'r bwriad yw atal troseddu neu anhrefn, gan y byddai hynny'n gwrthdaro â chynllun cydraddoldeb hiliol yr awdurdod.

## Perfformio dramâu

10.30 Mae Deddf 2003 yn nodi na ddylid, heblaw er budd diogelwch y cyhoedd, gosod amodau ar drwyddedau mangre neu dystysgrifau mangre clwb sy'n awdurdodi perfformio drama sy'n ceisio sensro neu addasu cynnwys dramâu mewn unrhyw ffordd. Byddai unrhyw amod o'r fath y tu hwnt i alluoedd y Ddeddf.

## Sensoriaeth

10.31 Yn gyffredinol, heblaw yng nghyd-destun dosbarthiad ffilmiau ar gyfer arddangosfeydd ffilm, ni ddylai awdurdodau trwyddedu ddefnyddio eu pwerau dan Ddeddf 2003 i geisio gosod amodau sy'n sensro cynnwys unrhyw fath o adloniant rheoledig. Nid yw hon yn swyddogaeth briodol i gyfraith drwyddedu ac ni ellir ei chysylltu'n briodol â'r amcanion trwyddedu. Mae cynnwys adloniant rheoledig yn fater a drafodir gan gyfreithiau presennol sy'n rheoli anwedduster ac anlladrwydd. Os mai gwarchod plant yw'r nod, dylid cyfyngu ar eu mynediad lle bo angen. Ond fel arfer ni ddylid gosod unrhyw gyfyngiad arall.

## Hawlfraint a breindal

10.32 Bwriad cyfraith hawlfraint yw gwarchod bywoliaeth awduron, cyfansoddwyr, trefnwyr, dramodwyr, gwneuthurwyr-ffilm, cyhoeddwyr a chynhyrchwyr recordiadau, ac mae'n hynod o bwysig a gwneir troseddau sy'n ymwneud â hawlfraint yn "droseddau perthnasol" gan Ddeddf 2003. Ni ddylai amodau a osodir ar drwyddedau mangre fynnu ymlyniad at ofynion yn y ddeddf gyffredinol sy'n nodi bod yn rhaid awdurdodi unrhyw ddefnydd o ddeunydd hawlfraint. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu atgoffa ymgeiswyr am yr angen i gael trwyddedau'r Gymdeithas Hawliau Perfformio (PRS) a thrwyddedau Perfformiadau Ffonograffig Cyf (PPL) a chadw at drefniadau hawlfraint eraill; ac y gallai methu ag ufuddhau i'r ddeddf yn y maes hwn arwain at gais am adolygu'r drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb ar sail yr amcan atal troseddu.

## Gwyliau celfyddydol a cherddorol mawr, carnifalau, ffeiriau a syrcasau

10.33 Dylai awdurdodau trwyddedu hysbysu'r angen i drefnwyr gwyliau mawr a charnifalau gysylltu â nhw cyn gynted ag y bo modd i drafod trefniadau ar gyfer trwyddedu'r gweithgareddau hynny sy'n dod o dan Ddeddf 2003. Ar gyfer rhai digwyddiadau, gallai'r trefnwyr ofyn am drwydded mangre unigol i gwmpasu ystod eang o weithgareddau mewn gwahanol leoliadau o fewn y fangre. Byddai hyn yn golygu paratoi atodlen weithredu sylweddol, a dylai awdurdodau trwyddedu gynnig cyngor a chymorth ar gyfer ei baratoi. Yn enwedig, dylai'r awdurdod trwyddedu weithredu fel corff cydlynol ar gyfer y cyfraniad gan yr awdurdodau cyfrifol.

10.34 Ar gyfer digwyddiadau eraill, gellir gwneud ceisiadau am nifer o drwyddedau mangre cysylltiedig fydd gyda'i gilydd yn cynrychioli un ŵyl. Mae'n bwysig bod awdurdodau trwyddedu yn hysbysu'r angen i gydlynu trefniadau o'r fath yn briodol, a bydd angen iddynt sicrhau bod awdurdodau cyfrifol yn ymwybodol o natur gysylltiedig y ceisiadau unigol. Dylai awdurdodau trwyddedu annog ymgeiswyr i sefydlu pwyllgor cydlynu i sicrhau agwedd strategol tuag at ddatblygu atodlenni gweithredu. Y diben fyddai sicrhau nad oes amodau'n cael eu cynnwys mewn trwyddedau a fyddai'n gwrthdaro â'i gilydd, a fyddai'n gwneud cydymffurfio yn ansicr neu a fyddai'n anodd eu gorfodi.

10.35 Yn achos syrcas a ffeiriau, bydd llawer yn dibynnu ar gynnwys unrhyw adloniant a gyflwynir. Er enghraifft, mewn ffeiriau, gallai llawer o'r adloniant cerddorol fod yn eilbeth i'r prif atyniadau a'r reidiau yn y ffair nad ydynt yn eu hunain yn adloniant rheoledig. Fodd bynnag, yn achos syrcas, mae cerddoriaeth a dawnsio'n debygol o fod yn brif atyniadau eu hunain (ac felly'n adloniant rheoledig) ymhlith amryw o weithgareddau eraill nad ydynt i gyd yn adloniant rheoledig.

10.36 Dylid talu sylw arbennig i'r arweiniad perthnasol a roddir yn y cyhoeddiadau a restrir yn Atodiad E yr Arweiniad hwn dan 'Diogelwch Cyhoeddus'.

10.37 Yn ychwanegol, yng nghyd-destun gwyliau a charnifalau, dylai awdurdodau lleol gadw mewn cof eu gallu i ofyn am drwyddedau mangre gan yr awdurdod trwyddedu ar gyfer tir neu adeiladau sydd o dan berchnogaeth gyhoeddus o fewn y gymuned yn eu henw eu hun. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, llain pentref, sgwâr marchnad, promenâd, neuaddau cymunedol, canolfannau celfyddydol sy'n berchen i'r awdurdod lleol a mannau cyhoeddus eraill tebyg lle y gellir cynnal gwyliau a charnifalau. Ni fyddai angen wedyn i berfformwyr a difyrwyr gael trwydded neu roi hysbysiad o ddigwyddiadau dros dro eu hunain i'w galluogi i berfformio yn y mannau hyn, er y byddai angen iddynt gael caniatâd yr awdurdod lleol i gynnal y digwyddiad. Dylid sicrhau nad oes dryswch rhwng y swyddogaeth o orfodi'r ddeddfwriaeth drwyddedu, sy'n dod o dan gyfrifoldebau'r awdurdod trwyddedu, a'r swyddogaeth o roi cyngor a chymorth i drefnwyr gŵyl a charnifal o rannau eraill o'r awdurdod lleol.

## Gostyngiadau a hyrwyddiadau gwerthiant

10.38 Ni ddylai awdurdodau trwyddedu osod amodau safonol cyffredinol ar gyfer diodydd alcohol i drwyddedau mangre neu dystysgrifau mangre clwb mewn ardal gan fod hynny'n debygol o dorri cyfraith cystadleuaeth. Mae hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon i awdurdodau trwyddedu neu'r heddlu hyrwyddo cynlluniau gwirfoddol cyffredinol neu godau ymarfer sy'n ymwneud â rhoi gostyngiad ar bris diodydd alcoholig, "oriau hapus" neu hyrwyddiadau gwerthiant diodydd.

10.39 Mae'n dderbyniol, serch hynny, i awdurdodau trwyddedu annog mabwysiadu lleol o godau ymarfer y diwydiant gwirfoddol sy'n ymwneud â hyrwyddo diodydd yn anghyfrifol, fel y cod a gynhyrchir gan Gymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (BBPA) (Arweiniad y BBPA ar Hyrwyddiadau Masnachu).

10.40 Yn gyffredinol, dylai awdurdodau trwyddedu ystyried pob cais yn ei rinwedd ei hun, gan addasu unrhyw amodau'n ofalus i gwmpasu hyrwyddiadau anghyfrifol yn unig dan yr amgylchiadau penodol ac unigol yn unrhyw fangre ble mae'r rhain yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn ogystal, wrth ystyried unrhyw sylwadau perthnasol gan awdurdodau cyfrifol, fel yr heddlu, neu bartïon â diddordeb, fel trigolion lleol, sy'n dangos cysylltiad achosol clir rhwng hyrwyddiadau gwerthu neu ostwng pris a lefelau trosedd ac anhrefn yn neu yng nghyffiniau'r fangre, byddai'n briodol i'r awdurdod trwyddedu ystyried gosod amod newydd sy'n gwahardd hyrwyddiadau gwerthu anghyfrifol neu ostwng prisiau diodydd alcoholig yn y fangre hwnnw. Fodd bynnag, cyn ceisio cael unrhyw fath o gyfyngiad o gwbl, dylai awdurdodau trwyddedu fynnu cyngor cyfreithiol eu hunain. Yn aml iawn llinell denau iawn fydd yna rhwng yr hyn sy'n gyfreithlon ac yn anghyfreithlon o fewn cwmpas eu pŵer dan Ddeddf 2003.

## Lleoliadau sy'n dal llawer o bobl a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer yfed alcohol "ar eich traed" (HVVDau)

10.41 Mae mangre sy'n dal llawer o bobl ar gyfer "yfed ar eich traed", sydd weithiau'n cael eu galw'n HVVDau (High Volume Vertical Drinking establishements) yn llefydd sy'n dal mwy na'r arfer, ac sy'n cael eu defnyddio'n unig neu'n bennaf ar gyfer gwerthu ac yfed alcohol, gydag ychydig iawn neu ddim lle i eistedd i'r cwsmeriaid.

10.42 Gellir gweld arolwg cynhwysfawr o'r ymchwil a wnaed dros y chwarter canrif ddiwethaf ar alcohol a throsedd a'u perthynas â mangreoedd trwyddedig, Alcohol and Crime: Taking Stock gan Ann Deehan, Cyfres Rhif 3 Ymchwil Lleihau Trosedd y Swyddfa Gartref (1999) ar www.crimereduction.gov.uk/drugsalcohol8.htm. Mae'n dangos y gall yr amgylchedd o fewn lleoliadau o'r fath gael dylanwad mawr ar y tebygolrwydd y bydd trosedd ac anhrefn yn digwydd yn y fangre. Mae'r pwyntiau allweddol ar atal troseddu ac anhrefn yn cynnwys:

- rheoli'r niferoedd i atal gorlawnder a rhwystredigaeth i gwsmeriaid;
- sicrhau bod digon o le i gwsmeriaid eistedd; a
- sicrhau bod timau diogelwch drws yn y fangre i reoli niferoedd a sicrhau nad yw unigolion sydd eisoes yn feddw neu'n afreolus yn cael dod i mewn.

10.43 Lle bo'n angenrheidiol ac yn addas, gellir gosod amodau ar drwyddedau mangre i hybu atal troseddu ac anhrefn mewn mangreoedd o'r fath (os nad yw hyn yn cael ei wirfoddoli gan weithredwr y lleoliad ac yn dilyn sylwadau a gyflwynwyd ar seiliau o'r fath) sy'n gofyn am ymlyniad i:

- uchafswm nifer rhagnodedig;
- cymhareb addas o fyrddau a chadeiriau i gwsmeriaid, yn seiliedig ar yr uchafswm niferoedd; a

- phresenoldeb staff diogelwch sy'n meddu trwydded neu eithriad perhtnasol yr SIA (gweler pragraffau 10.58-10.64) i reoli mynediad at bwrpas cydymffurfio â'r uchafswm nifer a gwrthod mynediad i unigolion sy'n ymddangos yn feddw neu'n afreolus neu'r ddau.

## AMODAU GORFODOL

10.44 Ble bo Deddf 2003 yn gofyn i amodau gorfodol gael eu cynnwys mewn trwydded mangre, dyletswydd yr awdurdod trwyddedu sy'n cyhoeddi'r drwydded yw cynnwys yr amod hwnnw ar drwydded y fangre.

### Goruchwyliwr Mangre Dynodedig

10.45 Fe all unrhyw fangre lle mae alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi alcohol gyflogi un neu fwy o ddeiliaid trwydded bersonol. Prif ddiben 'goruchwyliwr mangre dynodedig' fel y'i diffinnir yn Neddf 2003 yw sicrhau bod yno un unigolyn penodedig ymysg y deiliaid trwydded bersonol yma y gellir ei adnabod yn hwylus ar gyfer y fangre lle mae trwydded mangre mewn grym ar bob adeg. Fel rheol bydd yr unigolyn yma wedi derbyn cyfrifoldeb dydd i ddydd am redeg y fangre gan ddeiliad trwydded bersonol.

10.46 Yn ôl Deddf 2003, lle mae trwydded mangre yn awdurdodi cyflenwi alcohol, mae'n rhaid iddi gynnwys amod na ellir cyflenwi alcohol ar adeg pan nad oes goruchwyliwr mangre dynodedig wedi ei bennu yn y drwydded neu ar adeg pan nad oes gan y goruchwyliwr mangre dynodedig drwydded bersonol neu fod eu trwydded bersonol wedi ei gwahardd.

10.47 Nid yw'r Ddeddf yn gofyn i oruchwyliwr mangre dynodedig nac unrhyw ddeiliad trwydded bersonol arall fod yn bresennol yn y fangre drwy'r amser pan fydd alcohol yn cael ei werthu. Fodd bynnag, mae'r goruchwyliwr mangre dynodedig a deiliad y drwydded mangre yn parhau i fod yn gyfrifol am y fangre drwy'r amser, gan gynnwys cydsyniad â thelerau'r Ddeddf Drwyddedu a'r amodau a osodir ar y drwydded mangre i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

### Awdurdodiad gan ddeiliaid trwydded bersonol

10.48 Yn ogystal, rhaid i'r drwydded fynnu bod pob cyflenwad o alcohol dan drwydded y fangre yn cael ei wneud neu ei awdurdodi gan berson sy'n dal trwydded bersonol. Yn y rhan fwyaf o achosion, y goruchwyliwr mangre dynodedig, gyda thrwydded bersonol ddilys, fydd hwn. Nid yw hyn yn golygu y dylai'r amod fynnu bod y goruchwyliwr mangre dynodedig neu unrhyw unigolyn arall sy'n dal trwydded bersonol yn bresennol yn y fangre bob amser.

10.49 Felly hefyd, nid yw'r ffaith bod yn rhaid i bob cyflenwad o alcohol gael ei wneud dan awdurdod deiliad trwydded bersonol yn golygu mai dim ond deiliad trwydded bersonol all werthu alcohol, neu fod yn rhaid iddynt fod yn bresennol bob tro y gwerthir. Gall deiliad trwydded bersonol awdurdodi aelodau staff i werthu alcohol yn ystod y nos, ond gall fod yn absennol ar brydiau pan fydd gwerthiant yn cael ei wneud. Fodd bynnag, ni fydd y deiliad trwydded bersonol cyfrifol yn gallu osgoi cyfrifoldeb dros weithredoedd yr unigolion a awdurdodir ganddynt i werthu alcohol.

10.50 Nid yw "Awdurdodi" yn awgrymu goruchwyliaeth uniongyrchol o bob gwerthiant o alcohol gan unigolyn sy'n dal trwydded bersonol. Mae'r cwestiwn yn codi ynghylch sut y gellir awdurdodi gwerthiant. Yn y pen draw, mater i lys fyddai penderfynu a roddwyd awdurdodiad, ar sail y dystiolaeth ger eu bron adeg erlyniad troseddol.

10.51 Serch hynny, mae'n bwysig bod awdurdodau trwyddedu, yr heddlu, cyflogwyr a gweithwyr yn y diwydiant adwerthu alcohol yn derbyn cyngor sy'n hybu gwell eglurder a chysondeb. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylai'r ffactorau canlynol fod yn berthnasol wrth ystyried a gafwyd awdurdodiad mewn gwirionedd:

- dylid nodi'r unigolyn/unigolion a awdurdodir i werthu alcohol yn glir;
- dylai'r awdurdodiad nodi pa weithredoedd y gallai'r unigolyn sy'n cael ei awdurdodi eu cyflawni;
- dylid cael gweithred eglur o awdurdodiad, er enghraifft, rhoi datganiad llafar neu ysgrifenedig i'r unigolyn/unigolion sy'n cael eu hawdurdodi; a
- dylid cael trefniadau synhwyrol ar gyfer galluogi deiliad y drwydded bersonol i fonitro'r gweithgaredd a awdurdodwyd ganddo/ganddi yn rhesymol reolaidd.

10.52 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell yn gryf y dylai deiliaid trwydded bersonol roi awdurdod ysgrifenedig penodol i unigolion y maent yn eu hawdurdodi i adwerthu alcohol. Byddai awdurdodiad unigol ysgrifenedig yn ddigonol i gynnwys aml werthiant dros gyfnod anghyfyngedig. Byddai hyn yn cynorthwyo deiliaid trwydded bersonol i ddangos diwydrwydd dyledus pe bai materion yn codi gydag awdurdodau gorfodi; ac yn amddiffyn gweithwyr pe baent yn cael eu herio ynglŷn â'u hawdurdod i werthu alcohol. Mater i ddeiliad y drwydded bersonol yw ffurf yr awdurdod ysgrifenedig ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylai fodloni meini prawf a nodir yn y paragraff uchod. Nid yw awdurdod ysgrifenedig yn un o ofynion y Ddeddf ac ni fyddai ei absenoldeb yn ei hun yn ddigon i arwain at weithredu gorfodaeth.

10.53 Rhaid cofio mai'r goruchwyliwr mangre dynodedig neu'r deiliad trwydded bersonol sy'n gyfrifol am unrhyw werthiant a wneir, er y gallant awdurdodi eraill i werthu alcohol yn eu habsenoldeb. Yn yr un modd, mae deiliad y drwydded bersonol yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod amodau'r drwydded a chyfraith trwyddedu yn cael eu dilyn yn y fangre.

## Arddangos ffilmiau

10.54 Mae Deddf 2003 yn darparu, pan fo trwydded mangre neu drwydded mangre clwb yn awdurdodi dangos ffilm, bod yn rhaid iddi gynnwys amod sy'n mynnu bod mynediad i ffilmiau yn cael ei gyfyngu ar gyfer plant, yn unol â'r argymhellion a roddir naill ai gan gorff a benodwyd o dan adran 4 o'r Ddeddf Recordiadau Fideo 1984, a nodwyd yn y drwydded (ar hyn o bryd y Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig yw'r unig gorff a benodwyd felly) neu gan yr awdurdod trwyddedu ei hun.

10.55 Mae'r Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig yn dosbarthu ffilmiau yn unol â'i Ganllawiau cyhoeddedig ar sail ymchwil helaeth i farn y cyhoedd a chyngor proffesiynol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell felly na ddylai awdurdodau trwyddedu ddyblygu'r ymdrech hon drwy ddewis dosbarthu ffilmiau eu hunain. Y dosbarthiadau a argymhellir gan y Bwrdd yw'r rhai y dylid eu defnyddio fel rheol oni bai bod rhesymau lleol da iawn i awdurdod trwyddedu gymryd y swyddogaeth hon. Dylai awdurdodau trwyddedu nodi bod darpariaethau Deddf 2003 yn eu galluogi i nodi'r Bwrdd yn y drwydded neu'r dystysgrif ac, mewn perthynas â ffilmiau unigol, i hysbysu'r deiliad neu'r clwb y bydd yn gwneud argymhelliad ar gyfer y ffilm arbennig honno.

10.56 Dylid nodi mai effaith paragraff 5 Atodlen 1 y Ddeddf yw eithrio hysbysebion o'r diffiniad o adloniant rheoledig, ond nid i'w heithrio o'r diffiniad o ddangos ffilm. Gan fod yr amod gorfodol uchod yn berthnasol i 'unrhyw ffilm', mae'n berthnasol i ddangos hysbysebion.

10.57 Gweler Atodiad D, Rhan 5 am fwy o Arweiniad ar ddosbarthiadau cyfredol y Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig ac amodau eraill sy'n ymwneud ag arddangos ffilmiau.

## Goruchwylio drysau

10.58 O dan adran 21 Deddf 2003, pryd bynnag y bydd amod yn cael ei gynnwys mewn trwydded mangre bod gofyn i unigolion fod yn bresennol yn y fangre ar amseroedd penodol i gynnal gweithgaredd diogelwch (fel y'i diffinnir yn adran 21(3)(a) trwy gyfeirio at Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 ("Deddf 2001")), yna mae'n rhaid i'r drwydded gynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob unigolyn o'r fath gael ei drwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ("yr SIA") o dan y Deddf honno, neu gael yr hawl i gynnal y gweithgaredd yna yn rhinwedd adran 4 y Ddeddf honno.

10.59 Newidiwyd adran 21 Deddf 2003 gan adran 25 y Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 er mwyn dileu'r anghysonder lle gallai trwydded mangre ei gwneud yn ofynnol i unigolion gael eu trwyddedu gan yr SIA mewn amgylchiadau lle nad oeddent yn ofynnol i'w trwyddedu gan Ddeddf 2001. Yn benodol, mae'r newid yn sicrhau nad yw trwydded mangre yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn ddal trwydded SIA os ydynt wedi eu heithrio gan adran 4 Deddf 2001. Er enghraifft, mae "gweithwyr perthnasol" wedi eu heithrio mewn perthynas ag ymddygiad yng nghyswllt defnyddio maes chwarae ardystiedig (a4(6 i 12). Hefyd, mewn amgylchiadau neilltuol caiff unigolion eu heithrio lle maent yn gweithredu o dan Gynllun Contractiwr Cymeradwy yr SIA (a4(4)).

10.60 Dylai amodau o dan adran 21 Deddf 2003 (fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006) gyfeirio yn unig at unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau diogelwch fel y'u diffinnir yn adran 21(3)(a) Deddf 2003. Felly dylent ymwneud yn unig â gweithgaredd y cyfeirir ato gan baragraff 2(1)(a)Atodlen 2 Deddf 2001 (gweithgareddau gwarchod penodol gan unigolion) ac sydd yn ymddygiad trwyddedadwy o fewn ystyr adran 3(2) y Ddeddf honno. Nid yw'r gofyniad yn ymwneud ag unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â diogelwch ac ni ddylid defnyddio adran 21 mewn perthynas â gweithgareddau o'r fath.

10.61 Mae Adran 21 Deddf 2003 yn parhau i sicrhau nad oes rhaid i drwydded mangre osod gofyniad o'r fath mewn perthynas â'r mangreoedd trwyddedig hynny y mae Deddf 2001 yn eu trin fel mangreoedd didrwydded. Y rhain yw:

- mangre yn llwyfannu dramâu neu'r arddangos ffilmiau
- casino neu neuadd bingo a drwyddedwyd o dan Ddeddf Hapchwarae 1968
- mangre lle mae tystysgrif mangre clwb mewn grym pan fo gweithgareddau yn cael eu cynnal o dan awdurdod y dystysgrif honno.

Am fanylion llawn gweler paragraff 8(3) Atodlen 2 Deddf 2001.

10.62 Dylid nodi, fodd bynnag, y bydd Deddf 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr a nifer bychan o weithwyr (rhai sy'n rheoli/goruchwylio a rhai a gyflenwir o dan gytundeb) feddu trwydded fel gwarchodwyr drws (yn hytrach na goruchwylwyr drws) wrth gyflawni ymddygiad trwyddedadwy ar fangre y mae paragraff 8(3) Atodlen 2 Deddf 2001 yn berthnasol ar ei gyfer.

10.63 Felly mae'n bwysig os yw awdurdod trwyddedu yn bwriadu i unigolion fod yn bresennol i gyflawni gweithgareddau diogelwch (fel y'u diffinnir gan adran 21(3)(a) Deddf 2003) y dylid gwneud hynny'n eglur, ac yn yr un modd dylid cyfeirio'n benodol at yr amod gorfodol i'r unigolion hynny fod yn ddeiliaid trwydded SIA neu feddu'r hawl i gynnal y gweithgaredd yna yn rhinwedd adran 4 y Ddeddf honno. Ar y llaw arall, lle mae awdurdod trwyddedu yn bwriadu i unigolion fod yn bresennol i gyflawni gweithgareddau eraill (er enghraifft, gweithgareddau sy'n ymwneud â gweithgareddau stiward neu diogelwch i drefnu, cynghori a chyfarwyddo aelodau'r cyhoedd) ni ddylid gosod amod gorfodol o dan adran 21 Deddf 2003. Ym mhob achos mae'n bwysig wrth bennu gosod amod neu beidio o dan adran 21 Deddf 2003 ystyried a yw'r gweithgareddau unrhyw unigolyn sy'n gweithio mewn mangre trwyddedig yn dod o fewn y diffiniad o weithgareddau diogelwch a nodir yn adran 21(3)(a) Deddf 2003. (Os gosodir amod o dan adran 21 neu beidio, o dan Ddeddf 2001 mae'n rhaid i unrhyw unigolyn sy'n cyflawni gweithgaredd y maent yn drwyddedadwy amdano o dan y Ddeddf honno feddu ar drwydded briodol gan yr SIA).

10.64 Dylai deiliaid trwyddedau mangre nodi na fydd y newid o dan Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 yn effeithio ar y gofynion mewn trwyddedau presennol parthed darpariaeth diogelwch. Bydd angen i'r sawl sydd am ddefnyddio staff o dan delerau'r ddeddfwriaeth a newidiwyd ac nad yw eu trwydded yn caniatáu iddynt wneud hynny gyflwyno cais i amrywio eu trwydded. Mae'r Llywodraeth yn argymell lle gwneir cais i amrywio'r drwydded yn unig er mwyn symud yr anghysonder a nodir ym mharagraff 10.59, dylai'r awdurdod trwyddedu drin y mater mor gyflym â phosib, gan gydnabod y ffaith y bydd yr amrywiad y gofynnir amdano, bron yn ddieithriad, yn un cyfangwbl dechnegol ei natur.

# 11. Adolygiadau

## Y BROSES ADOLYGU

11.1 Mae'r gweithdrefnau a amlinellir yn Neddf 2003 ar gyfer adolygu trwyddedau mangre yn cynrychioli amddiffyniad allweddol ar gyfer cymunedau lle bo problemau sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu yn digwydd ar ôl caniatáu neu amrywio trwydded mangre.

11.2 Ar unrhyw gyfnod, wedi i drwydded mangre gael ei roi, gall awdurdod cyfrifol, megis yr heddlu neu'r awdurdod tân, neu barti â diddordeb, megis preswylydd sy'n byw yng nghyffiniau'r mangre, ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded o ganlyniad i fater sy'n codi yn y fangre mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

11.3 Yn ogystal â hyn, fel arfer, bydd adolygiad o'r drwydded yn dilyn unrhyw gamau gan yr heddlu i gau'r mangre am hyd at 24 awr ar sail anhrefn neu niwsans sŵn wedi i hysbysiad o benderfyniad llys ynadon gael ei anfon i'r awdurdod trwyddedu.

11.4 Ni chaiff awdurdodau trwyddedu ddechrau eu hadolygiadau eu hunain o drwyddedau mangreoedd. Fodd bynnag, gall swyddogion yr awdurdod lleol sydd wedi'i benodi'n awdurdod cyfrifol o dan Ddeddf 2003, megis swyddogion iechyd yr amgylchedd, ofyn am adolygiadau ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

11.5 Dylai'r awdurdod trwyddedu ymdrin â sylwadau a gyflwynir gan adran o'r awdurdod lleol sy'n awdurdod cyfrifol yn yr union ffordd ag y byddent yn ymdrin â sylwadau a gyflwynir gan unrhyw gorff neu berson arall.

11.6 Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r sylwadau fod yn gysylltiedig â mangreoedd arbennig y mae trwydded mangre'n bodoli ar ei gyfer ac mae'n rhaid iddo fod yn berthnasol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Unwaith bo trwydded neu dystysgrif wedi'i roi neu amrywio, fel arfer, ni ddylai cwyn sy'n gysylltiedig â sefyllfa cyffredinol (trosedd ac anhrefn) yng nghanol tref gael ei ystyried yn sylwadau perthnasol oni bai y gellid ei glymu neu ei gysylltu gan gyswllt bras ag eiddo arbennig, fyddai'n caniatáu adolygiad go iawn o'r drwydded neu dystysgrif. Er enghraifft, gall clwstwr daearyddol o gwynion, gan gynnwys ar hyd llwybrau cludiant sy'n gysylltiedig â thŷ tafarn unigol a'i amser cau, fod yn rheswm dros gynnal adolygiad o drwydded bresennol yn ogystal â digwyddiadau uniongyrchol o drosedd ac anhrefn o gwmpas tŷ tafarn penodol.

11.7 Mae'n rhaid i sylwadau fod yn ysgrifenedig a gellid ymhelaethu arnynt yn y gwrandawiad dilynol neu gallent fodoli yn eu rhinwedd eu hunain. Ni ellir cyflwyno sylwadau ychwanegol nad ydynt yn ymhelaethu ar y sylwadau gwreiddiol yn y gwrandawiadau.

11.8 Mae'n bwysig cydnabod bod hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'n dibynnu'n helaeth ar bartneriaeth rhwng deiliaid trwyddedau, personau awdurdodedig, partïon â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol wrth geisio nodau cyffredin. Felly, mae hefyd yn bwysig nad yw adolygiadau'n cael eu defnyddio i yrru hollt rhwng y grwpiau hyn mewn ffordd fyddai'n tanseilio manteision cydweithio. Mae'n arfer da i bersonau awdurdodedig ac awdurdodau cyfrifol roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwyddedau o'u pryderon am broblemau a nodwyd yn yr eiddo dan sylw ac o'r angen am welliant. Bydd disgwyl i fethiant unigolyn i ymateb i rybudd o'r fath arwain at benderfyniad i ofyn am adolygiad.

11.9 Ble mae'r cais yn tarddu gyda pharti â diddordeb - e.e. preswylydd lleol, cymdeithas preswylwyr, busnes lleol neu gymdeithas masnach - mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried yn gyntaf a yw'r cwyn a wnaed yn berthnasol, gwacsaw, blinderus neu'n ailadroddus.

11.10 Mae mwy o wybodaeth ar gyfer partïon â diddordeb ynglŷn â'r broses adolygu ar gael yn "Arweiniad i bartïon â diddordeb: gwneud cais am adolygiad" sydd ar gael ar wefan DCMS.

## SYLWADAU AILADRODDUS

11.11 Ymdriniwyd â pherthnasedd, gofid a blinderusrwydd ym mharagraffau 9.8 – 9.13 uchod. Mae sylwadau ailadroddus yn rhai sydd yn union yr un fath â neu'n debyg iawn i:

- sail ar gyfer adolygiad a nodwyd mewn cais cynt am adolygiad a wnaed mewn perthynas â'r un drwydded mangre sydd eisoes wedi'i bennu; neu
- sylwadau a gafodd eu hystyried gan yr awdurdod trwyddedu pan roddwyd y drwydded mangre yn y lle cyntaf; neu
- sylwadau fyddai wedi'u cyflwyno pan wnaethpwyd y cais am drwydded mangre yn y lle cyntaf ac a gawsant eu heithrio bryd hynny gan fod datganiad dros dro wedi'i gyhoeddi cyn hynny;

ac yn ogystal â'r amodau uchod, nid yw cyfnod rhesymol wedi mynd heibio ers yr adolygiad blaenorol neu ers i'r drwydded gael ei rhoi.

11.12 Mae disgwyl i awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o'r angen i atal ceisiadau i adolygu trwyddedau fel ail gyfle wedi i sylwadau i berswadio'r awdurdod trwyddedu fethu ar adegau blaenorol. Mae'n rhaid i'r awdurdodau trwyddedu eu hunain farnu beth y dylid ei ystyried yn gyfnod rhesymol o dan yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell na ddylid caniatáu mwy nag un adolygiad am resymau tebyg sy'n tarddu oddi wrth un parti â diddordeb o fewn cyfnod o ddeuddeg mis ac eithrio mewn amgylchiadau cymhellol neu ble fo'n codi o ganlyniad i orchymyn cau.

11.13 Nid yw eithrio cwyn ar y sail ei fod yn ailadroddus yn berthnasol i awdurdodau cyfrifol, sy'n gallu gwneud mwy nag un cais am adolygiad o fangre o fewn cyfnod o 12 mis.

11.14 Pan fydd awdurdod trwyddedu'n cael cais am adolygiad oddi wrth awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb neu'n unol â'r gweithdrefnau cau a ddisgrifir yn Rhan 8 Deddf 2003, mae'n rhaid iddo drefnu gwrandawiad. Mae'n rhaid i'r trefniadau ar gyfer y gwrandawiad ddilyn y darpariaethau a amlinellwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn rheoliadau. Mae'r manylion ar gael ar wefan DCMS. Teimla'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn arbennig o bwysig bod deiliad y drwydded mangre'n gwbl ymwybodol o'r sylwadau a gyflwynwyd mewn perthynas â'u mangre, unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi'r sylwadau a'i fod ef neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol felly wedi gallu paratoi ymateb.

## GRYMOEDD AWDURDOD TRWYDDEDU PARTHED PENNU ADOLYGIAD

11.15 Mae Deddf 2003 yn darparu ystod o rymoedd i'r awdurdod trwyddedu ar bennu adolygiad y gall eu defnyddio os yw'n teimlo bod rhaid gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

11.16 Gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau os bydd yn canfod nad yw'r adolygiad yn gofyn iddo gymryd unrhyw gamau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. At hyn, nid oes unrhyw beth yn atal awdurdod trwyddedu rhag cyhoeddi rhybudd anffurfiol i ddeiliad y drwydded a/neu i argymell gwelliannau y dylid eu gwneud o fewn cyfnod penodol o amser. Disgwylir y bydd awdurdodau trwyddedu'n ystyried bod rhybuddion o'r fath yn fecanweithiau pwysig ar gyfer sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hyrwyddo'n effeithiol ac y dylid cyhoeddi rhybuddion mewn ysgrifen at ddeiliad y drwydded. Fodd bynnag, os yw awdurdodau cyfrifol fel yr heddlu neu

swyddogion iechyd yr amgylchedd eisoes wedi cyhoeddi rhybuddion yn galw am welliannau - naill ar lafar neu'n ysgrifenedig - sydd wedi methu fel rhan o'u dull gweithredu gris i ris at bryderon, ni ddylai awdurdodau trwyddedu dim ond ailadrodd yr ymagwedd honno.

11.17 Lle bo'r awdurdod trwyddedu'n teimlo bod angen iddo gymryd camau o dan ei rymoedd statudol, gall gymryd unrhyw rai o'r camau canlynol:

- addasu amodau'r drwydded mangre (sy'n cynnwys ychwanegu amodau newydd neu addasu neu ddileu unrhyw amod presennol), er enghraifft, drwy leihau'r oriau agor neu drwy fynnu bod gan y fangre oruchwylwyr drws ar gyfnodau arbennig;
- eithrio gweithgaredd trwyddedadwy o ystod y drwydded, er enghraifft, eithrio perfformiadau cerddoriaeth byw neu chwarae cerddoriaeth sydd wedi'i recordio (lle nad yw o fewn yr eithriad cerddoriaeth byw a cherddoriaeth wedi'i recordio achlysurol);
- dileu'r goruchwylydd mangre penodol, er enghraifft, oherwydd eu bod yn teimlo bod rheolaeth wael yn peri'r problemau;
- atal y drwydded am gyfnod dim hirach na thri mis;
- diddymu'r drwydded.

11.18 Wrth benderfynu pa un o'r grymoedd hyn y dylid ei ddefnyddio, disgwylir i'r awdurdodau trwyddedu geisio darganfod yr hyn sy'n achosi'r pryderon a nodir yn y sylwadau, cymaint â bo hynny'n bosibl. Yn gyffredinol, dylai'r camau adferol a gymerir ymdrin â'r achosion hyn ac ni ddylent fyth fod yn fwy nag ymateb angenrheidiol a chyfatebol.

11.19 Er enghraifft, dylai awdurdodau trwyddedu fod yn agored i'r posibilrwydd bod cael gwared ar ac amnewid y goruchwylydd mangre penodol yn ddigonol i ddatrys problem lle bo'r hyn sy'n achosi'r broblem a nodwyd yn gysylltiedig â phenderfyniadau rheoli gwael gan y person hwnnw.

11.20 Yn yr un modd, gall ddod i'r amlwg bod rheolaeth wael yn adlewyrchiad uniongyrchol o arfer neu bolisi gwael ar ran y cwmni a byddai cael gwared ar y goruchwylydd mangre penodol yn ymateb annigonol i'r problemau sy'n codi. Yn wir, lle bo gwrandawiadau adolygu olynol yn cael eu cynnal o ganlyniad i sylwadau a gyflwynir, dylai dim ond cael gwared ar gyfres o oruchwylwyr mangre penodol fod yn beth prin gan y byddai hyn yn arwydd clir bod problemau dyfnach yn bodoli sy'n effeithio ar yr amcanion trwyddedu.

11.21 Hefyd, dylai awdurdodau trwyddedu nodi y gellid addasu amodau ac eithrio gweithgareddau trwyddedadwy yn barhaol neu am gyfnod dros dro o hyd at dri mis. Gan hynny, gellir gosod newidiadau dros dro neu atal trwydded am hyd at dri mis. Gallai hyn effeithio ar y busnes sy'n meddu ar y drwydded yn ariannol a dim ond fel ffordd angenrheidiol o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu y byddai disgwyl i hyn gael ei wneud. Gan hynny, gallai trwydded gael ei atal am benwythnos fel ffordd o rwystro'r deiliad rhag caniatáu i'r problemau a berodd yr adolygiad ddigwydd eto. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bob tro sicrhau bod unrhyw effaith ariannol andwyol a allai godi o ganlyniad i benderfyniad awdurdod trwyddedu yn angenrheidiol ac yn gyfatebol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

## ADOLYGIADAU A GYNHELIR MEWN PERTHYNAS Â THROSEDD

11.22 Gall nifer o adolygiadau godi mewn perthynas â throsedd nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gweithgareddau trwyddedadwy. Er enghraifft, gall adolygiadau godi o ganlyniad i broblemau cyffuriau yn y fangre neu oherwydd bod gangiau troseddol yn gwyngalchu arian yno, neu fod nwyddau sydd wedi'u dwyn neu nwyddau contraband neu arfau yn cael eu gwerthu yno. Nid oes gan awdurdodau trwyddedu'r grym i farnu troseddolrwydd unrhyw fater. Mae hyn yn fater i'r llysoedd. Felly, nid rôl yr awdurdod trwyddedu wrth bennu adolygiad o'r fath yw penderfynu a yw unrhyw berson yn euog neu beidio ond i sicrhau bod yr amcan atal trosedd yn cael ei hyrwyddo. Mae adolygiadau'n rhan o'r broses reoleiddiol a gyflwynwyd gan Ddeddf 2003 ac nid ydynt yn rhan o gyfraith na gweithdrefnau troseddol. Bydd rhai adolygiadau'n codi wedi i rhai personau, ond nid pob un, gael eu heuogfarnu yn y llys. Mewn unrhyw achos, penderfyniad yr awdurdod trwyddedu yw p'un ai a yw'r troseddau honedig yn digwydd ar y fangre ac yn effeithio ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu. Lle bo adolygiad yn dilyn euogfarn, nid lle'r awdurdod trwyddedu yw mynd yn groes i unrhyw ganfyddiad a wneir gan y llys, a dylai'r awdurdod ymdrin â'r canfyddiadau hyn fel tystiolaeth ddiamheuol.

11.23 Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n cynnal adolygiad oherwydd bod y fangre wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion troseddol, ei unig rôl yw pennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd mewn perthynas â'r drwydded mangre er mwyn hyrwyddo'r amcan atal trosedd. Mae'n bwysig cydnabod bod rhai gweithgareddau troseddol neu broblemau cysylltiedig efallai wedi bod yn digwydd neu wedi bod yn digwydd er gwaethaf ymdrechion taer y trwyddedai a'r staff sy'n gweithio yn y fangre ac er gwaetha'r ffaith eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'r awdurdod trwyddedu'n parhau i feddu ar rymoedd i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i ddatrys y problemau. Dyletswydd yr awdurdod trwyddedu yw cymryd camau sy'n hyrwyddo'r amcanion trwyddedu er lles y gymuned ehangach ac nid er lles deiliad unigol y drwydded mangre.

11.24 Fel yr esboniwyd uchod, nid rôl awdurdod trwyddedu yw pennu a yw unigolion sydd wedi'u cyhuddo o droseddau trwyddedu neu droseddau eraill ar fangre trwyddedig yn euog neu ddieuog. Felly, nid oes unrhyw reswm dros ohirio sylwadau sy'n peri adolygiad o drwydded mangre nes bod canlyniad unrhyw achosion troseddol yn hysbys. Fel y dywedwyd uchod, ar ddiwedd adolygiad, bydd rhaid i'r awdurdod trwyddedu bennu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn perthynas â'r drwydded dan sylw, yn seiliedig ar y cais am yr adolygiad ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd, waeth beth fo dyfarniad dilynol y llysoedd ynglŷn ag ymddygiad personau.

11.25 Mae rhai gweithgareddau troseddol allai godi mewn perthynas â mangre trwyddedig y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn teimlo y dylid eu hystyried yn rhai arbennig o ddifrifol. Sef defnyddio mangre trwyddedig:

- i werthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu deilliannau trosedd cyffuriau;
- i werthu a dosbarthu arfau anghyfreithlon;
- i osgoi hawlfraint mewn perthynas â ffilmiau a cherddoriaeth ddidrwydded neu ddynwaredol, sy'n niweidio'r diwydiannau dan sylw'n sylweddol;
- i blant dan oed brynu ac yfed alcohol sy'n effeithio ar iechyd, cyrhaeddiad addysgiadol, rhagolygon gwaith a thueddfryd at drosedd pobl ifanc;
- ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;

- gan grwpiau cyfundrefnol o baedoffiliaid i feithrin perthynas amhriodol gyda phlant;
- fel canolfan ar gyfer gweithgareddau troseddol, yn enwedig gan gangiau;
- er mwyn trefnu gweithgarwch hiliol neu i hyrwyddo ymosodiadau hiliol;
- ar gyfer chwarae gemau neu gamblo anghyfreithlon; ac
- er mwyn gwerthu tybaco ac alcohol sydd wedi'u smyglo.

11.26 Rhagwelir y bydd awdurdodau trwyddedu, yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, sy'n awdurdodau cyfrifol, yn defnyddio'r gweithdrefnau adolygu'n effeithiol i atal gweithgareddau a throsedd o'r fath. Lle bo adolygiadau'n codi a lle bydd yr awdurdod trwyddedu'n pennu bod yr amcan atal trosedd yn cael ei danseilio wrth i'r mangre gael ei ddefnyddio i alluogi troseddau, disgwylir y dylid rhoi ystyriaeth wirioneddol i ddiddymu'r drwydded - hyd yn oed fel cam cyntaf. Byddem hefyd yn annog cyswllt â'r Bartneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn lleol.

11.27 Dylid nodi ei fod yn anghyfreithlon i wahaniaethu neu i wrthod gwasanaeth ar sail hil neu drwy arddangos arwyddion sy'n gwahaniaethu ar sail hil yn y mangre. Byddai sylwadau a gyflwynir oddi wrth awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb ynglŷn â gweithgarwch o'r fath yn berthnasol i hyrwyddiad yr amcan atal trosedd ac yn rheswm teilwng dros gynnal adolygiad.

## ADOLYGU MANGRE YN DILYN GORCHYMYN CAU

11.28 Mae awdurdodau trwyddedu'n destun cyfraddau amser penodol, a amlinellir yn y ddeddfwriaeth, ar gyfer adolygu trwydded mangre yn dilyn gorchymyn cau. Mae'r cyfraddau amser perthnasol yn cydredeg, sef:

- pan gaiff yr awdurdod trwyddedu rhybudd bod llys ynadon wedi gwneud gorchymyn cau, mae ganddo 28 diwrnod i bennu'r adolygiad trwyddedu: Mae'n rhaid gwneud y penderfyniad cyn diwedd y 28ain diwrnod ar ôl y diwrnod y ceir y rhybudd;
- mae'n rhaid cynnal y gwrandawiad o fewn 10 diwrnod gwaith, a'r diwrnod cyntaf o'r rhain fydd y diwrnod ar ôl y diwrnod y ceir y rhybudd oddi wrth y llys ynadon;
- mae'n rhaid rhoi rhybudd o'r gwrandawiad dim hwyrach na 5 niwrnod gwaith cyn diwrnod cyntaf y gwrandawiad. Mae'n rhaid cael pum niwrnod gwaith clir rhwng rhoi'r rhybudd a chychwyn y gwrandawiad.

# 12. Apeliadau

12.1 Mae'r bennod hon yn darparu cyngor ynglŷn â'r hawl i apelio mewn perthynas â gwahanol benderfyniadau a wneir gan awdurdod trwyddedu o dan ddarpariaethau Deddf 2003. Amlinellir hawl partïon, sy'n teimlo'u bod wedi'u tramgwyddo gan benderfyniad awdurdod trwyddedu, i apelio yn Atodlen 5 Deddf 2003.

## CYFFREDINOL

12.2 Ac eithrio yn achos trwyddedau personol, mae'n rhaid gwneud apêl i'r llys ynadon ar gyfer yr ardal sesiynau bach (neu unrhyw ardal o'r fath) y mae'r mangre dan sylw wedi'i leoli ynddi. Yn achos trwyddedau personol, mae'n rhaid gwneud yr apêl i'r llys ynadon ar gyfer yr ardal sesiynau bach y mae'r awdurdod trwyddedu (neu unrhyw ran ohono) a wnaeth y penderfyniad wedi'i leoli ynddi.

12.3 Mae'n rhaid dechrau apêl wrth i'r apelydd roi rhybudd o apêl i brif weithredwr yr ynadon ar gyfer y llys ynadon o fewn cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod trwyddedu'n rhoi gwybod i'r apelydd o'r penderfyniad y mae'r apêl ar ei gyfer.

12.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu bob tro'n wrthapelydd i'r apêl, ond mewn achosion lle bo penderfyniad o blaid deiliad trwydded, clwb neu ddefnyddiwr mangre yn erbyn sylwadau awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb neu amcanion y prif swyddog yr heddlu, bydd deiliad y drwydded mangre neu drwydded bersonol neu'r dystysgrif mangre clwb neu'r person a roddodd rhybudd awdurdod dros dro neu ddefnyddiwr y fangre hefyd yn wrthapelydd i'r apêl a'r person a gyflwynodd y sylwadau perthnasol neu brif swyddog yr heddlu fydd yr apelyddion.

12.5 Lle bo apêl wedi'i wneud yn erbyn penderfyniad a wneir gan yr awdurdod trwyddedu, yr awdurdod trwyddedu, ym mhob achos, fydd y gwrthapelydd i'r apêl a gall alw ar bartïon â diddordeb neu awdurdodau a gyflwynodd sylwadau yn erbyn y cais i fod yn dystion, os bydd yn dewis gwneud hynny. Ar yr amod bod y llys yn ei ystyried yn briodol, gallent hefyd alw ar unrhyw berson neu gorff y maent yn teimlo a allai eu cynorthwyo gyda'u hymateb i apêl i fod yn dystion.

12.6 Wrth wrando unrhyw apêl, gall y llys, adolygu teilyngdod y penderfyniad yn seiliedig ar y ffeithiau ac ystyried pwyntiau cyfreithiol neu ymdrin â'r ddau. Ar bennu apêl, fe all y llys:

- wrthod apêl;
- amnewid unrhyw benderfyniad y gall yr awdurdod trwyddedu fod wedi'i wneud am y penderfyniad sy'n cael ei apelio yn ei erbyn; neu
- rhoi'r achos i'r awdurdod trwyddedu i gael gwared arno'n unol â chyfarwyddyd y llys a gwneud gorchymyn o'r fath o ran costau fel y mae'n gweld orau.

## DATGANIADAU POLISI TRWYDDEDU A CHANLLAWIAU ADRAN 182

12.7 Wrth wrando ar apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed gan awdurdod trwyddedu, bydd y llys ynadon dan sylw yn ystyried datganiad polisi trwyddedu'r awdurdod trwyddedu hwnnw a'r Arweiniad hwn. Fodd bynnag, byddai gan y llys yr hawl i ymadael â datganiad polisi trwyddedu neu'r Arweiniad hwn os yw'n ystyried ei fod yn gyfiawn gwneud hynny o ganlyniad i amgylchiadau unigol unrhyw achos.

Mewn geiriau eraill, er y bydd y llys apeliadol fel arfer yn ystyried y mater fel pe bai'n "sefyll yn esgidiau" yr awdurdod trwyddedu, byddai ganddo'r hawl i gredu y dylai fod yr awdurdod trwyddedu wedi ymadael â'i bolisi ei hun neu'r Arweiniad oherwydd y byddai'r amgylchiadau penodol wedi cyfiawnhau penderfyniad o'r fath.

12.8 At hyn, mae gan y llys apeliadol yr hawl i ddiystyru unrhyw ran o ddatganiad polisi trwyddedu neu'r Arweiniad hwn y mae'n credu sy'n mynd yn groes i Ddeddf 2003 ac sydd felly'n anghyfreithiol. Y trywydd arferol ar gyfer herio datganiad polisi trwyddedu neu'r Arweiniad hwn yw drwy gynnal adolygiad ynadol, ond lle caiff ei gyflwyno i lys apeliadol bod datganiad o bolisi ei hun yn mynd yn groes i Ddeddf 2003 a bod hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr achos dan sylw, byddai'n amhriodol i'r llys, unwaith y bo wedi derbyn cyflwyniad o'r fath, gymhlethu'r camgymeriad gwreiddiol drwy ddibynnu ar y rhan hwnnw o'r datganiad o bolisi trwyddedu a gafodd ei effeithio.

## RHOI RHESYMAU DROS BENDERFYNIADAU

12.9 Mae'n bwysig bod awdurdodau trwyddedu'n rhoi rhesymau cynhwysfawr dros eu penderfyniadau er mwyn rhagweld unrhyw apeliadau. Gall methu â rhoi rhesymau digonol beri apêl. Mae'n arbennig o bwysig bod rhesymau hefyd yn ymdrin ag i ba raddau y gwnaethpwyd y penderfyniad gyda golwg ar ddatganiad o bolisi'r awdurdod trwyddedu a'r Arweiniad hwn. Dylid cyhoeddi'r rhesymau i'r holl bartïon sy'n rhan o unrhyw broses allai beri apêl o dan delerau Deddf 2003.

## GWEITHREDU PENDERFYNIAD LLYS YNADON

12.10 Cyn gynted ag y mae penderfyniad y llys ynadon wedi'i gyhoeddi, dylai awdurdodau trwyddedu ei weithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ymgais i ohirio'r gweithrediad yn dod â gwarth ar y system apelio. Felly, dylid sefydlu rheolau sefydlog fel y gellir cymryd unrhyw gamau angenrheidiol ar unwaith, pan fydd y penderfyniad wedi'i wneud, oni fydd y llys ynadon neu lys uwch yn gorchymyn i weithred o'r fath gael ei ohirio (er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol parhaus). Ac eithrio yn achos gorchmynion cau, nid yw Deddf 2003 yn darparu ar gyfer apêl bellach yn erbyn penderfyniad y llys ynadon a bydd rheolau arferol herio penderfyniad llys ynadon yn berthnasol.

## DATGANIADAU DROS DRO

12.11 Er mwyn osgoi dryswch, dylid nodi mai dim ond mewn perthynas â datganiad dros dro a gyhoeddir y mae'r hawl i apelio'n bodoli, yn hytrach nag un sydd wedi'i wrthod. Mae hyn yn wir am nad yw Deddf 2003 yn rhoi'r grym i awdurdod trwyddedu wrthod cyhoeddi datganiad dros dro. Ar ôl cael ac ystyried sylwadau perthnasol, gall yr awdurdod trwyddedu ond dangos, fel rhan o'r datganiad, y byddai'n ystyried bod rhai camau penodol yn ofynnol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu pan, ac os, gwnaethpwyd cais ar gyfer trwydded mangre wedi i ddatganiad dros dro gael ei gyhoeddi. Gan hynny, gall yr ymgeisydd neu unrhyw berson sydd wedi cyflwyno sylwadau perthnasol apelio yn erbyn telerau'r datganiad a gyhoeddwyd.

# 13. Datganiadau Polisi Trwyddedu

13.1 Mae'r Bennod hon yn rhoi arweiniad ar ddatblygu a pharatoi datganiadau o bolisi trwyddedu lleol i'w cyhoeddi gan awdurdodau trwyddedu, yr egwyddorion cyffredinol a ddylai eu tanategu yn ôl yr Ysgrifennydd Gwladol, a'r cynnwys craidd y gall awdurdodau trwyddedu ychwanegu ato.

## CYFFREDINOL

13.2 Mae Adran 5 Deddf 2003 yn mynnu bod awdurdod trwyddedu'n paratoi a chyhoeddi datganiad o'i bolisi trwyddedu bob tair blynedd. Mae'n rhaid i bolisi o'r fath gael ei gyhoeddi cyn i'r awdurdod gynnal unrhyw swyddogaeth o ran ceisiadau unigol a wneir o dan delerau Deddf 2003. Yn ystod y cyfnod tair blynedd, mae'n rhaid parhau i adolygu'r polisi ac mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu wneud unrhyw ddiwygiadau iddo y mae'n eu hystyried yn addas, er enghraifft yn sgil adborth oddi wrth y gymuned leol ynglŷn â p'un ai a yw amcanion statudol yn cael eu bodloni neu beidio. Dechreuodd y cyfnod tair blynedd cyntaf ar 7 Ionawr 2005.[4] Mae cyfnodau tair blynedd wedi hynny, ee yn cychwyn ar 7 Ionawr 2008 ayb, yn sefydlog ac ni newidir hyn gan unrhyw ddiwygiadau y gallai awdurdod trwyddedu ddewis eu gwneud o fewn y cyfnod, neu gan unrhyw bennu polisi newydd.

13.3 Lle bo diwygiadau i'r Arweiniad adran 182 hwn yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, dyletswydd yr awdurdod trwyddedu fydd pennu p'un ai a yw eu diwygiadau i'w datganiad polisi trwyddedu eu hunain yn briodol.

13.4 Lle mae'r awdurdod trwyddedu yn pennu polisi newydd a fydd yn gymwys o gychwyn y cyfnod tair blynedd nesaf fe all hefyd benderfynu y dylai unrhyw newidiadau fod yn gymwys hefyd ar unwaith i ddiwygio'r polisi cyfredol. Fodd bynnag, i wneud hynny byddai angen i awdurdod trwyddedu fod yn glir iawn ar adeg yr ymgynghoriad bod bwriad i'r newidiadau arfaethedig gynnwys y polisi newydd am y cyfnod tair blynedd nesaf a bod yn weithredol yn y cyfamser fel diwygiad i'r polisi presennol.

13.5 Os yw'r amser rhwng ymgynghori a chychwyn y cyfnod tair blynedd nesaf yn sylweddol, yna mae'n llai tebygol y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu dibynnu arno ar gyfer y diben yma heb ymgynghori ar y mater unwaith eto.

## YMGYNGHORI AR BOLISÏAU

13.6 Cyn pennu ei bolisi ar gyfer unrhyw gyfnod tair blynedd neu os yn diwygio polisi o fewn cyfnod, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ymgynghori â'r bobl a restrir yn adran 5(3) Deddf 2003, sef:

- prif swyddog yr heddlu'r ardal;
- awdurdod tân yr ardal;
- personau/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwyddedau mangre lleol;
- personau/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid tystysgrifau mangre clwb lleol;
- personau/cyrff sy'n cynrychioli deiliaid trwyddedau personol lleol; ac
- personau/cyrff sy'n cynrychioli busnesau a thrigolion yr ardal.

4 Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Cyfnod datganiad trwyddedu) 2004

13.7 Dylid ystyried barn yr holl bersonau/gyrff a restrir uchod wrth bennu'r polisi. Cydnabyddir, mewn rhai ardaloedd, y gall fod yn anodd nodi personau neu gyrff sy'n cynrychioli holl rannau'r diwydiant sy'n cael ei effeithio gan ddarpariaethau Deddf 2003, ond mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu wneud ymdrechion rhesymol i wneud hynny.

13.8 Dylai awdurdodau trwyddedu nodi nad yw telerau Deddf 2003 yn eu hatal rhag ymgynghori gyda chyrff neu bersonau eraill cyn pennu eu polisïau. Er enghraifft, gall rhai awdurdodau deimlo ei fod yn hanfodol iddynt ymgynghori â'r Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn (CDRP), Heddlu Cludiant Prydain, Adrannau Damwain ac Argyfwng lleol, cyrff sy'n cynrychioli defnyddwyr, grwpiau ymgynghorol yr heddlu lleol neu'r rheiny sy'n gyfrifol yn lleol am hyrwyddo twristiaeth. Gallent hefyd deimlo y byddai'n werthfawr ymgynghori â pherfformwyr lleol, undebau perfformwyr (megis yr Undeb Cerddorion ac Equity) a diddanwyr sy'n rhan o fywyd diwylliannol y gymuned leol. Yn Llundain, dylai bwrdeistrefi ystyried ymgynghori â'r Maer ac Awdurdod Llundain Fawr.

13.9 Y tu hwnt i'r gofynion statudol, gall pob awdurdod trwyddedu benderfynu ar ba raddau y maent yn ymgynghori a ph'un ai a yw unrhyw berson neu gorff penodol yn cynrychioli'r grŵp a ddisgrifir yn y statud. Er ei bod yn amlwg yn arfer da i ymgynghori'n eang a dilyn yr Arweiniad Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, efallai na fydd hynny'n angenrheidiol neu'n briodol ar bob adeg. Er enghraifft, lle bwriedir cynnal adolygiad sydd ond yn diweddaru manylion cysylltu yr awdurdod trwyddedu neu awdurdodau cyfrifol mae'n bosib y bydd ymgynghoriad symlach yn ddigonol.

13.10 Yn yr un modd lle mae awdurdod trwyddedu yn ddiweddar wedi diwygio ei bolisi o fewn cyfnod tair blynedd yn dilyn ymarfer ymgynghori llawn efallai na fydd o'r farn bod angen newidiadau pellach wrth bennu'r polisi am y cyfnod tair blynedd nesaf. Oherwydd hynny, fe all benderfynu cynnal ymgynghoriad syml gyda'r unigolion a restrir yn adran 5(3) Deddf 2003.

13.11 Fodd bynnag, fe ddylai awdurdodau trwyddedu ystyried yn ofalus iawn a yw ymgynghoriad llawn yn briodol gan na fydd ymgynghoriad cyfyngedig yn caniatáu cyfle digonol i bob unigolyn gynnig sylwadau a dylanwadu ar bolisi lleol. Er enghraifft, lle cyfyngwyd ymgynghoriad blaenorol i ran neilltuol o'r polisi, megis bwriad i gyflwyno polisi effaith cronnus.

13.12 Wrth ymgymryd ag ymarferion ymgynghorol, dylai awdurdodau trwyddedu ystyried cost ac amser. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi sefydlu lefelau ffi er mwyn darparu adferiad cost llawn yr holl swyddogaethau trwyddedu gan gynnwys paratoi a chyhoeddi datganiad o bolisi trwyddedu, ond bydd hwn wedi'i seilio ar y gofynion statudol. Lle bo awdurdodau trwyddedu'n rhagori ar y gofynion hyn, bydd rhaid iddynt dalu am y costau eu hunain.

## EGWYDDORION SYLFAENOL

13.13 Dylai pob datganiad o bolisi ddechrau drwy nodi'r pedwar amcan trwyddedu y dylai'r polisi trwyddedu eu hyrwyddo. Wrth bennu ei bolisi, mae'n rhaid i awdurdod trwyddedu ystyried y Arweiniad hwn ac ystyried barn ymgynghorai yn llawn. Mae'r Arweiniad yn bwysig er cysondeb, yn arbennig lle bo ffiniau awdurdodau trwyddedu'n cwrdd.

13.14 Er y gall datganiadau o bolisi amlinellu ymagwedd gyffredinol at wneud penderfyniadau trwyddedu, ni chânt anwybyddu na pheidio â bod yn gyson â darpariaethau Deddf 2003. Er enghraifft, ni chaiff datganiad o bolisi danseilio hawl unrhyw berson i wneud cais, o dan delerau Deddf 2003 am amrywiaeth o hawliau ac i unrhyw gais o'r fath gael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun.

13.15 Yn yr un modd, ni ddylai unrhyw ddatganiad o bolisi ddiystyru hawl unrhyw berson i gyflwyno sylwadau ar gais neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif lle bo darpariaethau wedi'u gwneud yn Neddf 2003 iddynt wneud hynny.

13.16 Dylai datganiadau o bolisi esbonio'n glir:

- Mai pwrpas trwyddedu yw rheoleiddio gweithgareddau trwyddedadwy ar fangreoedd trwyddedig, gan glybiau cymwys ac mewn digwyddiadau dros dro o fewn telerau Deddf 2003; a
- Bydd yr amodau sydd ynghlwm wrth wahanol awdurdodau'n canolbwyntio ar faterion sydd o fewn rheolaeth trwyddedigion unigol ac eraill a chanddynt awdurdodaeth berthnasol h.y. y fangre a'i chyffiniau.

13.17 Mae p'un ai a ellir ystyried bod digwyddiad 'yng nghylch' mangre trwyddedig neu beidio yn gwestiwn o ffaith a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau arbennig yr achos. Os bydd dadlau, y llysoedd fydd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cwestiwn yn y pendraw. Ond dylai datganiadau o bolisi trwyddedu ei wneud yn glir, wrth ymdrin â'r mater hwn, y bydd yr awdurdod trwyddedu yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd yn y fangre trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, gweithio neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau arferol yr ardal dan sylw.

13.18 At hyn, dylai datganiad o bolisi esbonio'n glir nad cyfreithiau trwyddedu yw'r prif fecanwaith ar gyfer rheoli niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol unigolion unwaith y maent wedi gadael y fangre trwyddedig ac felly, maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol yr unigolyn, clwb neu fusnes sy'n meddu ar y drwydded, tystysgrif neu awdurdodaeth dan sylw. Er gwaethaf hynny, mae'n agwedd hollbwysig o reolaeth o'r fath a bydd cyfreithiau trwyddedu bob tro'n rhan o'r ymagwedd gyfannol at reoli economi canol trefi a dinasoedd gyda'r nos ac yn ystod y nos.

## DYBLYGU

13.19 Dylai datganiadau o bolisi trwyddedu gynnwys ymrwymiad cadarn at osgoi atodi amodau sy'n dyblygu trefnau rheoliadol eraill cymaint â phosibl. Mae Pennod 10, yn rhoi mwy o fanylion ar y mater hwn.

## AMODAU SAFONOL

13.20 Dylai datganiadau o bolisi hefyd ei gwneud yn glir mai un o'r prif gysyniadau sy'n tanategu Deddf 2003 yw bod amodau'n cael eu teilwra i weddu'r mangre penodol dan sylw. Mae hyn yn diystyru amodau safonol, fel yr esbonnir ym mharagraff 10.13 y Arweiniad hwn. Fodd bynnag, mae'n dderbyniol i awdurdodau trwyddedu dynnu sylw at gronfeydd o amodau yn eu datganiadau o bolisi y gall ymgeiswyr ac eraill eu defnyddio fel y bo'n briodol.

## GORFODI

13.21 Fel rhan o'r datganiad o bolisi, mae'r Llywodraeth yn argymell yn gryf y dylai awdurdodau trwyddedu fynegi'r bwriad i sefydlu protocolau ar faterion gorfodi gyda'r heddlu lleol. Byddai hyn yn darparu ffyrdd mwy effeithiol o drefnu staff yr awdurdod trwyddedu a swyddogion yr heddlu sy'n rhan o orfodi cyfreithiau trwyddedu ac o arolygu mangreoedd trwyddedig.

13.22 Yn arbennig, dylai'r protocolau hyn hefyd ddarparu ar gyfer targedu problem gytûn a mangreoedd risg uchel sy'n galw am fwy o sylw, wrth ddarparu ymagwedd ychydig ysgafnach ar gyfer mangreoedd risg isel sy'n cael eu rhedeg yn dda. Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol yn y gorffennol, mae dilysrwydd cyfyng trwyddedau adloniant cyhoeddus, theatr, sinema, caffis nos a mannau lluniaeth yn hwyr y nos wedi arwain at ddiwylliant o archwiliadau blynyddol hyd yn oed os nad yw'r risgiau a aseswyd yn galw am archwiliadau o'r fath. Nid yw Deddf 2003 yn mynnu bod archwiliadau o'r fath yn cael eu cynnal ac eithrio ar ddisgresiwn y rheiny sy'n gyfrifol am y rôl yma. Dylai egwyddor asesu risg a thargedu fod yn drech, ac ni ddylid cynnal archwiliadau yn rheolaidd ond yn hytrach, dim ond pan deimlir bod eu hangen. Dylai hyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithiol i ganolbwyntio ar fangreoedd trafferthus.

## YR ANGEN AM FANGRE TRWYDDEDIG

13.23 Gall dryswch godi ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng "angen" ac "effaith cronnus" mangre ar yr amcanion trwyddedu, er enghraifft, ar drosedd ac anhrefn. Mae "angen" yn ymwneud â'r angen masnachol am dafarn neu fwyty neu westy arall. Nid yw hyn yn fater ar gyfer yr awdurdod trwyddedu yn rhinwedd ei swyddogaethau trwyddedu nac ar gyfer ei ddatganiad o bolisi trwyddedu. Mae "angen" yn fater ar gyfer y pwyllgorau cynllunio a'r farchnad.

## EFFAITH CRONNUS CASGLIAD O FANGREOEDD TRWYDDEDIG

### Beth yw effaith cronnus?

13.24 Nid yw "effaith cronnus" yn cael ei grybwyll yn benodol yn Neddf 2003 ond yn y Arweiniad hwn, ei ystyr yw'r effaith posibl a gaiff nifer sylweddol o fangreoedd trwyddedig sydd wedi'u crynodi mewn un ardal ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu. Mae effaith cronnus mangreoedd trwyddedig ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu yn fater teilwng i awdurdod trwyddedu ei ystyried wrth ddatblygu ei ddatganiad polisi trwyddedu.

13.25 Mewn rhai ardaloedd, lle bo nifer, math a dwysedd mangreoedd sy'n gwerthu alcohol i'w yfed yn y fangre yn niwsans anarferol, difrifol ac efallai bod anhrefn wedi codi neu yn dechrau codi y tu allan neu ger mangreoedd trwyddedig. Er enghraifft, gall niferoedd uchel o yfwyr ifanc greu ciwiau mewn allfeydd bwyd sydyn ac ar gyfer cludiant cyhoeddus. Yn ei dro, gall ciwio arwain at wrthdaro, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er y gall ymestyn oriau trwyddedu leihau'r effaith hwn drwy alluogi i gwsmeriaid wasgaru'n raddol o fangreoedd, mae'n bosibl y bydd effaith ymddygiad cwsmeriaid yr holl fangreoedd gyda'i gilydd ar yr ardaloedd cyfagos yn waeth byth nag effaith cwsmeriaid mangreoedd unigol. Mae'r amgylchiadau hyn yn fwy tebygol o ddigwydd mewn canol trefi a dinasoedd, ond fe allant godi hefyd mewn canolfannau trefol a maestrefi eraill.

## Tystiolaeth o effaith cronnus

13.26 Dylid darparu tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniad i gynnwys polisi arbennig o fewn y datganiad o bolisi trwyddedu. Er enghraifft, yn aml, bydd Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn wedi casglu gwybodaeth sy'n dangos effaith cronnus fel rhan gyffredinol o'u rôl i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; ac efallai bod strategaethau atal trosedd eisoes wedi nodi bod effaith cronnus yn broblem leol. Yn debyg, efallai bydd swyddogion iechyd yr amgylchedd yn gallu dangos eu bod wedi cael llawer o gwynion sy'n gysylltiedig ag aflonyddwch sŵn. Hefyd, dylai'r cyfarfodydd agored a argymhellwyd ym mharagraff 1.22 yr Arweiniad hwn helpu awdurdodau i gadw llygad ar sefyllfa i weld a yw ardal benodol yn agosáu at y pwynt hwn.

13.27 Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ac ar ôl ymgynghori gyda'r unigolion a sefydliadau hynny a restrwyd yn adran 5(3) Deddf 2003 ac unrhyw rai eraill, gall awdurdod trwyddedu benderfynu ei fod yn briodol ac yn angenrheidiol cynnwys ymagwedd at effaith cronnus yn y datganiad polisi trwyddedu. Yn yr achos hwn, dylai'r awdurdod trwyddedu nodi yn y datganiad ei fod yn mabwysiadu polisi arbennig o wrthod trwyddedau newydd pryd bynnag y caiff sylwadau perthnasol ynglŷn â'r effaith cronnus ar yr amcanion trwyddedu y mae'n penderfynu, wedi iddo glywed y sylwadau hynny, ddylai beri i'r cais gael ei wrthod (gweler paragraffau 13.29 – 13.32 isod).

13.28 Mae'r camau i'w cymryd wrth ystyried a dylid mabwysiadu polisi arbennig o fewn y datganiad o bolisi trwyddedu wedi'u crynhoi isod.

### CAMAU AT BOLISI ARBENNIG

- Nodi pryder ynglŷn â throsedd ac anhrefn neu niwsans cyhoeddus
- Ystyried a oes tystiolaeth dda bod trosedd ac anhrefn neu niwsans yn digwydd ac yn cael eu hachosi gan gwsmeriaid mangre trwyddedig, neu fod risg effaith cronnus ar ddigwydd
- Nodi ffiniau'r ardal y mae'r problemau'n digwydd ynddi
- Ymgynghori gyda'r rheiny a nodwyd yn adran 5(3) Deddf 2003, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad
- Cynnwys a chyhoeddi manylion polisi arbennig mewn datganiad polisi trwyddedu

## Effaith polisïau arbennig

13.29 Effaith mabwysiadu polisi arbennig o'r fath yw creu rhagdybiaeth amodol bod ceisiadau am drwyddedau mangre neu dystysgrifau mangre clwb newydd neu amrywiadau materol fel arfer yn cael eu gwrthod, yn dilyn sylwadau perthnasol, oni bai bod yr ymgeisydd yn gallu dangos, yn eu hatodlenni gweithredoll, na fydd y mangre'n creu effaith cronnus negyddol ar un neu fwy o';r amcanion trwyddedu.

13.30 Fodd bynnag, mae'n rhaid i bolisi arbennig bwysleisio nad yw'r dybiaeth hwn yn caniatáu i awdurdodau cyfrifol neu bartïon â diddordeb beidio â gorfod cyflwyno sylwadau perthnasol, sy'n cyfeirio at wybodaeth oedd wedi cael ei chyflwyno gerbron yr awdurdod trwyddedu pan roedd yn datblygu ei ddatganiad o bolisi trwyddedu, cyn y gall awdurdod trwyddedu ystyried gweithredu ei bolisi arbennig yn gyfreithlon. Os na chyflwynir unrhyw sylwadau, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi caniatâd i'r cais gyda thelerau sy'n gyson â'r atodlen gweithredu a gyflwynwyd.

13.31 Unwaith y bo'r polisi arbennig wedi'i fabwysiadu, dylid ei adolygu'n rheolaidd i asesu a oes ei angen mwyach neu a oes angen ei ymestyn.

13.32 Nid yw diffyg polisi arbennig yn atal unrhyw awdurdod cyfrifol neu barti â diddordeb rhag cyflwyno sylwadau ar gais newydd am drwydded, neu amrywio trwydded, ar y sail y bydd y mangre'n creu effaith cronnus negyddol ar un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

## CYFYNGIADAU POLISÏAU ARBENNIG SY'N GYSYLLTIEDIG AG EFFAITH CRONNUS

13.33 Fel arfer, ni fyddai'n gyfiawnadwy mabwysiadu polisi arbennig ar y sail bod casgliad o siopau neu archfarchnadoedd yn bodoli sy'n gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y mangre. Fel arfer, bydd polisïau arbennig yn ymdrin ag effaith casgliad o fangreoedd trwyddedig sy'n gwerthu alcohol i'w yfed yn y mangre.

13.34 Ni ddylai polisi arbennig fyth fod yn ddiamod. Dylai datganiadau o bolisi trwyddedu bob tro ganiatáu i amgylchiadau unigol pob cais gael eu hystyried yn iawn ac i drwyddedau a thystysgrifau sy'n annhebygol o ychwanegu at yr effaith cronnus ar yr amodau trwyddedu gael eu rhoi. Ar ôl cael sylwadau mewn perthynas â chais newydd neu am amrywiaeth o drwydded neu dystysgrif, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried a fyddai'n gyfiawn gwyro oddi wrth ei bolisi arbennig yn sgil amgylchiadau unigol yr achos. Gellir disgwyl i'r effaith fod yn wahanol ar gyfer mangre a chanddo wahanol arddulliau a nodweddion. Er enghraifft, er y gall clwb nos fawr neu dŷ tafarn a chanddo le i lawer o bobl ychwanegu at broblemau effaith cronnus, mae'n bosib na fyddai hyn yn wir am fwyty bach neu theatr. Os bydd yr awdurdod trwyddedu'n penderfynu y dylid gwrthod y cais, bydd rhaid iddo ddangos o hyd y byddai caniatáu'r cais yn tanseilio hyrwyddiad un o'r amcanion trwyddedu ac na fyddai gosod unrhyw amodau angenrheidiol yn effeithiol wrth atal y problemau dan sylw.

13.35 Ni ddylid byth defnyddio polisïau arbennig fel sail ar gyfer diddymu trwydded neu dystysgrif bresennol pan geir sylwadau ynglŷn â phroblemau sy'n bodoli yn y fangre hwnnw. Dylai "effaith cronnus" casgliad o fangreoedd trwyddedig ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu ond peri sylwadau perthnasol pan fo cais am neu amrywiant o drwydded neu dystysgrif yn cael ei ystyried. Mae'n rhaid i adolygiad ymwneud yn benodol â mangreoedd unigol, ac oherwydd ei natur, mae "effaith cronnus" yn ymwneud ag effaith casgliad o fangreoedd niferus. Mae'n anochel felly y byddai nodi mangreoedd unigol yng nghyd-destun adolygiad yn fympwyol.

13.36 Hefyd, ni ellir defnyddio polisïau arbennig i gyfiawnhau gwrthod ceisiadau i amrywio trwydded neu dystysgrif bresennol ac eithrio lle bo'r diwygiadau hynny yn uniongyrchol berthnasol â'r polisi (fel y byddai'n wir am gais i amrywio trwydded gyda'r bwriad o alluogi i fwy o bobl fod yn y mangre) ac yn gwbl angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amodau trwyddedu.

13.37 Ni all polisi arbennig sy'n gysylltiedig ag effaith cronnus gyfiawnhau, ac ni ddylai gynnwys, darpariaethau ar gyfer amser terfynol mewn ardal arbennig. Er enghraifft, byddai'n anghywir i beidio â chymhwyso'r polisi arbennig i geisiadau sy'n cynnwys darpariaeth i beidio â bod ar agor yn hwyrach na hanner nos, ond i gymhwyso'r polisi i unrhyw fangre arall sy'n bwriadu bod ar agor yn hwyrach. Effaith hyn fyddai gosod amser cau sefydlog fyddai'n debyg i'r un a gafwyd o dan ddarpariaethau " oriau a ganiateir" Deddf

Trwyddedu 1964.Cafodd oriau terfynol a bennwyd gan Ddeddf Trwyddedu 1964 eu diddymu i osgoi'r problemau difrifol sy'n codi pan fo cwsmeriaid yn gadael mangre ar yr un pryd. O ganlyniad, byddai ceisio gosod amser terfynu sefydlog yn tanseilio pwrpas allweddol Deddf 2003 yn uniongyrchol.

13.38 Ni chaiff polisïau arbennig bennu cwotâu - wedi seilio ar nifer y mangreoedd nac ar nifer y bobl a ganiateir yn y mangreoedd hynny - sy'n golygu na fydd unrhyw gais yn cael ei ystyried ar ei haeddiant ei hun neu sy'n ceisio gorfodi cyfyngiadau ar yr oriau masnachu mewn ardaloedd arbennig. Ni ddylid defnyddio cwotâu sy'n anuniongyrchol rhagosod canlyniad unrhyw gais gan nad ydynt yn ystyried nodweddion unigol y fangre dan sylw. Gall tai tafarn, clybiau nos, bwytai, gwestai, theatrau, neuaddau cyngerdd a sinemâu i gyd werthu alcohol, gweini bwyd a darparu adloniant ond gyda gwahanol arddulliau a nodweddion. Dylid ystyried y gwahaniaethau hynny'n drylwyr a'r effaith gwahanol y byddant yn ei gael ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu.

## MECANWEITHIAU ERAILL AR GYFER RHEOLI EFFAITH CRONNUS

13.39 Wedi iddynt adael y fangre trwyddedig, bydd lleiafrif o gwsmeriaid yn ymddwyn yn wael ac mewn ffordd anghyfreithlon. Er mwyn galluogi'r cyhoedd i werthfawrogi ehangder y strategaeth ar gyfer ymdrin â'r problemau hyn, dylai datganiadau o bolisi hefyd grybwyll y mecanweithiau eraill, y tu fewn a thu allan i'r drefn drwyddedu, sydd ar gael ar gyfer ymdrin â materion o'r fath. Er enghraifft:

### MESURAU ERAILL I REOLI EFFAITH CRONNUS

- Rheolau cynllunio.
- Mesurau positif i greu amgylchedd canol dref diogel a glân mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant ac adrannau eraill yr awdurdod lleol.
- Darparu Teledu Cylch Caeedig yng nghanol trefi, sicrhau bod digonedd o orsafoedd tacsi, darparu toiledau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr y nos, patrolau glanhau stryd a sbwriel.
- Grymoedd awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o'r ardal awdurdod lleol yn fannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus.
- Yr heddlu'n gorfodi'r gyfraith cyffredinol sy'n gysylltiedig ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig.
- Erlyn unrhyw ddeiliad trwydded bersonol neu aelod o staff mangre o'r fath sy'n gwerthu alcohol i bobl sy'n feddw.
- Atafaeliad alcohol oddi wrth oedolion a phlant mewn ardaloedd dynodedig.
- Grymoedd yr heddlu i gau unrhyw fangre trwyddedig neu ddigwyddiad dros dro ar unwaith am hyd at 24 awr ar sail anhrefn, tebygolrwydd anhrefn neu sŵn yn dod o'r mangre gan beri niwsans; a
- Grym yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu drigolyn neu fusnes lleol i geisio adolygiad o'r drwydded neu'r dystysgrif dan sylw.
- Mentrau lleol eraill sy'n ymdrin â'r problemau hyn mewn ffordd debyg.

## ORIAU TRWYDDEDU

13.40 O ran oriau trwyddedu, yn gyffredinol dylai'r datganiad o bolisi bwysleisio'r ystyriaeth a roddir i rinweddau unigol cais. Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylai datganiadau o bolisi gydnabod, o dan rhai amgylchiadau, y gall ymestyn oriau trwyddedu ar gyfer gwerthu alcohol helpu i sicrhau bod y dor o bobl sy'n gadael mangreoedd ar yr un pryd yn cael ei osgoi. Gall hyn helpu i leihau'r gwrthdaro sy'n digwydd mewn allfeydd bwyd sydyn yn hwyr y nos, gorsafoedd tacsi a ffynonellau cludiant eraill sy'n arwain at anhrefn ac aflonyddwch.

13.41 Mae'r Llywodraeth hefyd yn dymuno sicrhau nad yw oriau trwyddedu'n atal datblygiad economïau gyda'r hwyr ac yn y nos ffyniannus a diogel sy'n bwysig at ddibenion buddsoddi a chyflogi lleol ac yn ddeniadol i dwristiaid mewnol a rhyngwladol. Mae rhoi gwell ddewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr yn ystyriaeth bwysig, ond dylid bob tro ei gydbwyso'n ofalus yn erbyn y ddyletswydd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu a hawliau preswylwyr lleol i heddwch a thawelwch.

13.42 Dylai datganiadau o bolisi trwyddedu nodi bod gan siopau ac archfarchnadoedd hawl i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre yn ystod unrhyw oriau y mae'r allfa manwerthu ar agor oni bai bod rhesymau teilwng yn bodoli, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, dros gyfyngu ar yr oriau hynny. Er enghraifft, gall cyfyngiad fod yn briodol yn dilyn sylwadau gan yr heddlu yn achos rhai siopau y gwyddid eu bod yn ganolbwynt anhrefn ac aflonyddwch oherwydd bod pobl ifanc yn casglu yno. Felly, dylai datganiadau o bolisi trwyddedu adlewyrchu'r ymagwedd gyffredinol hon.

## PLANT

13.43 Yn sgil Deddf 2003, mae hi bellach yn drosedd caniatáu i blant o dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn i fod yn mewn mangre nad yw ond yn cael ei ddefnyddio neu sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre hwnnw o dan awdurdod trwydded mangre, tystysgrif mangre clwb neu lle bo'r gweithgarwch hwnnw'n cael ei gynnal o dan awdurdod hysbysiad digwyddiad dros dro.

13.44 Yn ogystal â hyn, mae'n drosedd i ganiatáu presenoldeb plant o dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn rhwng hanner nos a 5am mewn unrhyw fangre arall sy'n cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre o dan awdurdod unrhyw drwydded mangre, tystysgrif mangre clwb neu hysbysiad digwyddiad dros dro. Y tu allan i'r oriau hyn, nid yw'r trosedd yn rhwystro plant o dan 16 oed rhag bod yn yr eiddo heb oedolyn yn y rhan fwyaf o fangreoedd lle nad yfed alcohol yw unig weithgarwch neu weithgarwch pennaf y lleoliadau hynny. Gan hynny, rhwng 5 am a hanner nos ni fyddai'r drosedd o reidrwydd yn berthnasol i nifer o fwytai, gwestai, sinemâu a hyd yn oed llawer o glybiau lle mai'r prif weithgarwch busnes yw yfed a bwyta ill dau. Nid yw hyn yn golygu y dylai plant gael mynediad i fangreoedd o'r fath yn awtomatig ac felly mae'r paragraffau a ganlyn yn bwysig iawn er gwaethaf y troseddau newydd a grëwyd gan Ddeddf 2003.

13.45 Ni ddylid ystyried bod y diffiniad "unig neu pennaf" mewn perthynas ag yfed alcohol yn gysylltiedig, mewn unrhyw ffordd arbennig, â throsiant, arwynebedd llawr neu unrhyw fesur tebyg. Dylid rhoi ystyr arferol a naturiol yr ymadrodd iddo yng nghyd-destun yr amgylchiadau penodol. Fel arfer, bydd yn glir iawn mai prif fusnes y fangre yw gwerthu ac yfed alcohol. Gall busnesau cymysg fod yn anos eu diffinio a byddai'n ddoeth i weithredwyr ac

asiantaethau gorfodi ymgynghori lle bo angen ynglŷn â'u dehongliadau nhw o'r gweithgareddau sy'n cymryd lle yn y fangre cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd a allai arwain at erlyniad.

13.46 Nid yw'r ffaith y gall y drosedd newydd wahardd plant o dan 16 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn rhag mynd i fangre lle mai yfed alcohol yw'r unig weithgarwch neu'r gweithgarwch pennaf yn golygu bod Deddf 2003 yn caniatáu i blant o dan 18 oed nad ydynt yng nghwmni oedolyn fynd yn rhydd i fangreoedd eraill neu i'r un mangre hyd yn oed os ydynt yng nghwmni oedolyn, neu i fangre lle nad yw yfed alcohol yn digwydd. Yn amodol yn unig ar ddarpariaethau Deddf 2003 ac amodau unrhyw drwydded neu dystysgrif, y rhai hynny sy'n rheoli'r mangre fydd bob tro'n penderfynu pwy gaiff fod yn y mangre. Ar yr un llaw, nid yw Deddf 2003 yn cynnwys rhagdybiaeth o roi mynediad i blant, nac ar y llaw arall yn eu hatal rhag cael mynediad i fangreoedd trwyddedig. Mae'n rhaid ystyried pob cais a'r amgylchiadau sydd ynghlwm wrth bob mangre ar ei haeddiant ei hun.

13.47 Felly, ni all datganiad o bolisi trwyddedu geisio cyfyngu ar fynediad plant i unrhyw mangre oni bai ei fod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn atal niwed corfforol, egwyddorol neu seicolegol iddynt. Ni ddylai datganiadau polisi trwyddedu geisio rhagweld pob mater sy'n peri pryder allai godi parthed plant o ran mangre unigol ac o ganlyniad, dylid osgoi gosod rheolau cyffredinol. Y ffordd orau o farnu materion o'r fath yw ystyried rhinweddau unigol pob cais.

13.48 Dylai datganiad o bolisi amlygu meysydd fydd yn peri pryder arbennig o ran plant. Er enghraifft, dylai'r rhain gynnwys mangreoedd:

- lle mae adloniant neu wasanaethau o natur oedolion neu rywiol yn cael eu darparu'n gyffredin;
- lle cafodd aelodau o'r staff presennol eu herlyn am roi alcohol i blant dan oed neu sy'n meddu ar enw drwg am yfed dan oed;
- y gwyddid bod ganddynt gysylltiad â chymryd neu ddelio cyffuriau;[5]
- lle mae elfen gref o amblo yn y fangre (ond nid, er enghraifft, presenoldeb syml nifer fechan o beiriannau chwarae gwobr arian parod); a
- lle mai cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yw pwrpas unig.

13.49 Yng nghyd-destun paragraff 13.48 uchod, nid yw'n bosibl rhoi rhestr lawn o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn adloniant neu'n wasanaeth o natur oedolion neu rywiol. Bydd angen i ymgeiswyr, awdurdodau cyfrifol ac awdurdodau trwyddedu ddefnyddio synnwyr cyffredin gyda'r mater hwn. Fodd bynnag, byddai adloniant neu wasanaethau o'r fath, er enghraifft, fel arfer yn cynnwys staff bar bronnoeth, strip-bryfocio, dawnsio glin, dawnsio bwrdd neu ddawnsio polyn, perfformiadau sy'n cynnwys trais ffug neu ddigwyddiadau dychrynllyd, gweithredoedd rhywiol ffug neu wirioneddol neu ffetisiaeth, neu adloniant sy'n cynnwys rhegfeydd neu iaith dramgwyddus.

5 Mae angen i'r Heddlu, awdurdodau trwyddedu a thrwyddedigion fod yn ymwybodol y bydd grym newydd ar gael o 20 Ionawr 2004 ymlaen, o dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, i gau mangre lle bo cyffuriau Dosbarth A yn cael eu cynhyrchu, cyflenwi neu ddefnyddio neu lle bo niwsans difrifol neu anhrefn. Mae'r grym hwn yn arf ychwanegol i'r heddlu allu cymryd camau cyflym yn erbyn mangre lle bo problem cyffuriau Dosbarth A, gan eu galluogi i gau manger o fewn 48 awr os bydd rhaid. Awgrymir bod awdurdodau'r heddlu'n ymgynghori â'r Nodiadau Arweiniad ar sut i ddefnyddio'r grym hwn (Y Swyddfa Gartref, 2004) sydd ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref. Hefyd, bydd y grymoedd hyn yn cael eu trafod yn gryno yn y diweddariad i Glybio Diogelach fydd ar gael yn 2004.

13.50 Dylai datganiad o bolisi egluro'n glir yr ystod o weithgareddau eraill y gellid eu hystyried yn rhesymau dros gyfyngu ar fynediad i blant lle bo hynny'n angenrheidiol er mwyn atal niwed i blant. Mae'r rhain, y gellir eu mabwysiadau mewn cyfuniad, yn cynnwys:

- cyfyngiad o ran yr oriau y gall plant fod yn y mangre;
- cyfyngiadau o ran eithrio presenoldeb plant o dan rhai oedrannau pan fo gweithgareddau penodol yn cael eu cynnal;
- cyfyngiadau o ran y rhannau o'r mangre y gall plant fyned iddynt;
- cyfyngiadau oed (o dan 18);
- gofynion ar gyfer oedolion sydd gyda'r plant (gan gynnwys, er enghraifft, cyfuniad o ofynion sy'n golygu bod rhaid i blant o dan oed penodol fod yng nghwmni oedolyn); a
- gwaharddiad llawn ar gyfer y bobl hynny sydd o dan 18 o'r mangre pan fo unrhyw weithgareddau trwyddedadwy'n digwydd.

13.51 Hefyd, dylai datganiadau o bolisi egluro na ellir atodi unrhyw amodau i drwydded neu dystysgrif sy'n caniatáu i blant gael mynediad i unrhyw mangre. Lle nad oes angen cyfyngiad trwyddedu, dylai hyn barhau i fod yn fater ar gyfer disgresiwn y trwyddedai neu glwb neu berson unigol sydd wedi rhoi hysbysiad digwyddiad dros dro. Gall gweithredwyr lleoliad sy'n ceisio trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb hefyd wirfoddoli gwaharddiadau a chyfyngiadau o'r fath yn eu hatodlenni gweithredu oherwydd bod eu hasesiadau risg eu hunain wedi canfod bod presenoldeb plant yn annymunol neu'n amhriodol. Lle na chyflwynir sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu dan sylw, bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau gwirfoddol hyn yn dod yn amodau i'r drwydded neu'r dystysgrif ac o ganlyniad, gellid eu gorfodi. Ni all yr awdurdod trwyddedu orfodi unrhyw amodau eraill parthed presenoldeb plant ar fangre o dan yr amgylchiadau hyn.

## AWDURDOD CYFRIFOL A PHLANT

13.52 Dylai datganiad o bolisi trwyddedu ddweud pa gorff y mae'r awdurdod trwyddedu'n ei ystyried yn gymwys i weithredu fel awdurdod cyfrifol mewn perthynas ag amddiffyn plant rhag niwed. Gellid pennu mai adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol fydd hwn, neu Bwyllgor Amddiffyn Plant yr Ardal, neu gorff cymwys arall. Byddai'n ymarferol ac yn ddefnyddiol i ddatganiadau o bolisi trwyddedu gynnwys disgrifiadau cywir awdurdodau cyfrifol yr ardal a'r manylion cyswllt perthnasol.

## PLANT A SINEMÂU

13.53 Yn achos mangreoedd sy'n dangos ffilmiau, dylai'r datganiad o bolisi trwyddedu ei gwneud yn glir bod yr awdurdod trwyddedu'n disgwyl i drwyddedigion neu glybiau gynnwys trefniadau yn eu hatodlenni gweithredu ar gyfer atal plant rhag gwylio ffilmiau a chanddynt gyfyngiad oed sydd wedi eu dosbarthu'n unol ag argymhellion bwrdd Dosbarthu Ffilm Prydain neu'r awdurdod trwyddedu ei hun. Lle bo awdurdod trwyddedu'n bwriadu mabwysiadu ei system dosbarthu ei hun, dylai ei ddatganiad o bolisi nodi ymhle y bydd gwybodaeth parthed dosbarthiadau o'r fath yn cael eu cyhoeddi a dylid sicrhau eu bod ar gael i drwyddedigion, clybiau a'r cyhoedd.

13.54 Mae Deddf 2003 hefyd yn dweud ei fod yn ofynnol cynnwys amod ym mhob trwydded mangre a thystysgrif mangre clwb sy'n awdurdodi dangos ffilmiau, i fynediad plant at unrhyw ffilm gael ei gyfyngu yn unol â'r argymhellion a roddir i ffilmiau naill ai gan gorff a bennwyd o dan adran 4 Deddf Recordiadau Fideo 1984 - y Bwrdd Dosbarthu Ffilm Prydeinig yw'r unig gorff sydd wedi'i bennu ar gyfer hyn - neu gan yr awdurdod trwyddedu ei hun.

## INTEGREIDDIO STRATEGAETHAU

13.55 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylai datganiadau o bolisi roi arweiniad clir ar sut y bydd yr awdurdod trwyddedu'n sicrhau bod ei bolisi trwyddedu'n cael ei integreiddio'n gywir gyda chynlluniau atal trosedd, cynllunio, cludiant, twristiaeth, cydraddoldeb hil, a strategaethau diwylliannol ac unrhyw gynlluniau eraill a gyflwynir ar gyfer rheoli canol trefi a'r economi nos. Nid yw nifer o'r strategaethau hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, ond, yn anuniongyrchol, maent yn effeithio arnynt. Felly, mae cydlynu ac integreiddio polisïau, strategaethau a mentrau o'r fath yn bwysig.

## ATAL TROSEDD

13.56 Dylai datganiadau polisi trwyddedu ddangos y bydd amodau sydd wedi'u hatodi i drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd lleol, lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, darparu camerâu cylch cyfyng mewn rhai mangreoedd. Lle bo'n briodol, dylai adlewyrchu mewnbwn y bartneriaeth Lleihau Trosedd ac Anhrefn lleol.

## STRATEGAETHAU DIWYLLIANNOL

13.57 Mewn perthynas â strategaethau diwylliannol, dylai datganiadau polisi trwyddedu gynnwys datganiadau sydd wedi'u geirio'n glir yn dangos y byddant yn monitro effaith trwyddedu darpariaeth adloniant rheoledig, yn arbennig cerddoriaeth a dawns byw, er enghraifft, drwy ystyried p'un ai a yw mangreoedd sy'n darparu cerddoriaeth neu ddiwylliant byw yn cael eu cynrychioli ar fforymau rhanddeiliaid trwyddedu, a sicrhau yr ymgynghorir â swyddogion diwylliannol lleol ynglŷn â'r effaith ar ddiwylliant lleol. Lle bo'n briodol, mae gan reolwyr canol trefi rôl bwysig wrth gyd-lunio digwyddiadau cerddoriaeth byw yng nghanol trefi a gallent fod yn ffynhonnell wybodaeth bwysig.

13.58 Bydd rhaid gofalu mai dim ond amodau trwyddedu angenrheidiol, cymesur a rhesymol sy'n gorfodi unrhyw gyfyngiadau ar ddigwyddiadau o'r fath. Lle bo awgrym bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu rhwystro o ganlyniad i ofynion trwyddedu, dylid ailedrych ar ddatganiadau o bolisi trwyddedu gyda'r bwriad o weld sut y gellid gwrthdroi'r sefyllfa. Gall gweithgareddau ac adloniant diwylliannol ehangach hefyd gael ei effeithio gan drwyddedu. Wrth ddatblygu eu datganiadau o bolisi trwyddedu, dylai awdurdodau trwyddedu hefyd ystyried barn unrhyw bwyllgor y celfyddydau lleol, os oes un.

13.59 Mae dros 325 o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr yn aelodau o Gymdeithas Cenedlaethol Swyddogion Y Celfyddydau Llywodraeth Leol (NALGAO), sef sefydliad mwyaf y wlad sy'n cynrychioli diddordebau celfyddydol llywodraeth leol. Nid yw rhai awdurdodau lleol eto'n meddu ar arbenigwyr y celfyddydau neu swyddogion datblygu'r celfyddydau ac o dan amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd awdurdod trwyddedu'n dymuno ymgynghori â NALGAO am help ymarferol a chyngor.

13.60 Dilysodd y Deyrnas Unedig y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) ym 1976.Mae Erthygl 15 y Cyfamod yn mynnu bod mesurau cynyddol yn cael eu cymryd i sicrhau y gall pawb gymryd rhan ym mywyd diwylliannol y gymuned a mwynhau'r celfyddydau. Felly, mae'n bwysig bod yr egwyddorion sy'n tanategu ICESCR yn cael eu hintegreiddio, lle bo'n bosibl, gydag ymagwedd yr awdurdod trwyddedu at drwyddedu adloniant rheoledig.

## CLUDIANT

13.61 Dylai datganiad ddisgrifio unrhyw brotocolau y mae'r heddlu lleol a swyddogion gorfodi trwyddedu eraill yn cytuno arnynt a dangos y bydd trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn iddynt adrodd yn ôl i bwyllgorau cludiant awdurdod lleol fel y gall y pwyllgorau hynny fod yn ymwybodol o'r angen i gludo pobl o ganol trefi a dinasoedd yn gyflym ac yn ddiogel er mwyn osgoi casgliadau o bobl sy'n cynhyrchu anhrefn ac aflonyddwch wrth ddatblygu eu polisïau. Wrth ddatblygu'r datganiad, dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o bolisïau a strategaethau presennol yr awdurdod cludiant lleol perthnasol, fel yr amlinellir yn eu Cynllun Cludiant Lleol. Gallent hefyd ymgynghori â thrwyddedigion sy'n debygol o feddu ar wybodaeth dda o ddisgwyliadau a phatrymau ymddygiad cwsmeriaid o ran opsiynau cludiant.

## TWRISTIAETH A CHYFLOGAETH

13.62 Dylai datganiad ddangos bod trefniadau wedi'u gwneud er mwyn i bwyllgorau trwyddedu gael, lle bo'n briodol, adroddiadau ar anghenion yr economi twristiaeth leol ar gyfer yr ardal er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn eu hystyriaethau.

13.63 Dylai hefyd nodi bwriad yr awdurdod trwyddedu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor trwyddedu ar sefyllfa cyflogaeth yr ardal a'r angen am fuddsoddiad a swyddi newydd lle bo'n briodol.

## RHEOLI CYNLLUNIO AC ADEILADU

13.64 Dylai'r datganiad o bolisi trwyddedu ddangos y bydd trefnau cynllunio, rheoli adeiladu a thrwyddedu'n cael eu gwahanu'n briodol er mwyn osgoi dyblygiad ac aneffeithlonrwydd. Fel arfer, dylai ceisiadau am drwydded mangre ar gyfer mangreoedd masnachol parhaol ddod oddi wrth fusnesau a chanddynt ganiatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Er hynny, gellir gwneud cais am drwyddedau cyn gofyn neu dderbyn unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol gan yr awdurdod cynllunio.

13.65 Mae'r trefnau cynllunio a thrwyddedu'n cynnwys ystyried materion gwahanol (er eu bod yn gysylltiedig). Er enghraifft, mae trwyddedu yn ystyried niwsans cyhoeddus lle mae cynllunio yn ystyried mwynderau. I'r perwyl hynny ni ddylai ceisiadau trwyddedu ailadrodd y cais cynllunio ac ni ddylent dorri ar draws penderfyniadau pwyllgor cynllunio yr awdurdod lleol neu yn dilyn apeliadau yn erbyn penderfyniadau a gymerwyd gan y pwyllgor hwnnw. Nid yw pwyllgorau trwyddedu wedi eu rhwymo gan benderfyniadau a wnaed gan bwyllgor cynllunio, ac i'r gwrthwyneb.

13.66 Pe bai pwyllgor trwyddedu'n caniatáu amrywiad o drwydded, sy'n cynnwys addasu adeilad yn faterol, ni fyddai hyn yn golygu nad oes raid i'r ymgeisydd wneud cais am ganiatâd cynllunio neu reolaeth adeiladu lle bo'n briodol.

13.67 Mae amgylchiadau'n codi hefyd lle mae amser terfynol wedi'i osod yn rhan o ganiatâd cynllunio er mwyn defnyddio mangre at ddibenion masnachol. Lle bo'r oriau hyn yn wahanol i'r oriau trwyddedu, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gadw at yr amser cau cynharach. Byddai mangreoedd sy'n torri amodau eu caniatâd cynllunio yn debygol o gael eu herlyn o dan gyfreithiau cynllunio.

13.68 Dylid sicrhau integreiddiad cywir gan y pwyllgorau trwyddedu, lle bo'n briodol, gan ddarparu adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor cynllunio ar y sefyllfa parthed mangreoedd trwyddedig yn yr ardal, gan gynnwys effaith cyffredinol trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol. Byddai hyn yn galluogi'r pwyllgor cynllunio i gadw materion o'r fath mewn cof wrth wneud penderfyniadau ac i osgoi unrhyw gorgyffwrdd diangen. Fe all awdurdod cynllunio hefyd wneud sylwadau fel awdurdod cyfrifol ar yr amod eu bod yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.

## HYRWYDDO CYDRADDOLDEB HILIOL

13.69 Dylai datganiad o bolisi trwyddedu hefyd gydnabod bod:

- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) 2000, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried yr angen i ddileu anffafriaeth anghyfreithlon; ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol;
- angen i awdurdodau lleol hefyd, o dan Ddeddf 1976, fel y'i diwygiwyd, gynhyrchu cynllun cydraddoldeb hiliol, asesu ac ymgynghori ar effaith tebygol polisïau bwriedig ar gydraddoldeb hiliol, monitro polisïau ar gyfer unrhyw effaith andwyol ar hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, a chyhoeddi canlyniadau ymgynghoriadau, asesiadau a gwaith monitro o'r fath;
- arweiniad ar sut i baratoi asesiadau effaith hiliol wedi'i gynhyrchu gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) mewn ymgynghoriad â grŵp defnyddwyr y Swyddfa Gartref/Y Neuadd Wen a grŵp cynghorol awdurdod cyhoeddus wedi'i arwain gan CRED. Mae'r arweiniad hwn ar gael yn http://www.cre.gov.uk/duty/reia/index.html;
- felly, dylai'r datganiad o bolisi trwyddedu gyfeirio at y ddeddfwriaeth hon ac yn ei dro, dylid cyfeirio at y datganiad o bolisi yn y cynllun cydraddoldeb hiliol.

## CERDDORIAETH BYW, DAWNS A THEATR

13.70 Dylai datganiadau o bolisi trwyddedu hefyd gydnabod y dylid, fel rhan o weithredu strategaethau diwylliannol awdurdod lleol, rhoi ystyriaeth lawn i'r angen i annog a hyrwyddo ystod eang o adloniant, yn arbennig cerddoriaeth byw, dawns a theatr, gan gynnwys perfformio ystod eang o ddramâu traddodiadol a hanesyddol, er lles diwylliannol ehangach cymunedau. Dylid bob tro cydbwyso consyrn naturiol i atal aflonyddwch mewn cymdogaethau yn ofalus gyda'r manteision diwylliannol ehangach hyn, yn arbennig y rheiny sydd ar gyfer plant.

13.71 Wrth bennu pa amodau y dylid eu gosod ar drwyddedau a thystysgrifau fel mater o reidrwydd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu, dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau sy'n rhwystro cerddoriaeth byw, dawns a theatr drwy orfodi costau anuniongyrchol sydd o natur anghymesur. Mae perfformiadau cerddoriaeth byw a dawns wrth graidd datblygiad amrywiaeth diwylliannol a chymunedau bywiog a chyffroes lle mae rhyddid artistig i fynegi'ch hunain yn hawl sylfaenol ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Mae cerddoriaeth a dawns draddodiadol yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru a Lloegr. Hefyd, mae cerddoriaeth a dawns yn helpu i uno cymunedau yn arbennig mewn cymunedau a chanddynt amrywiaeth o grwpiau ethnig, gall ffurfiau newydd ar ddawns a cherddoriaeth gynorthwyo gyda datblygiad cymdeithas gwbl integredig. Dylid hefyd nodi bod diffyg darpariaeth ddiwylliannol mewn unrhyw ardal yn gallu peri i bobl ifanc wyro tuag at weithgareddau gwrthgymdeithasol sy'n niweidio cymunedau a'r bobl ifanc dan sylw eu hunain.

13.72 Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth diwylliannol yn ffynnu, dylai awdurdodau lleol ystyried sefydlu polisi o geisio trwyddedau mangre oddi wrth yr awdurdod trwyddedu ar gyfer mannau cyhoeddus o fewn y gymuned yn eu henw eu hunain. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, grin pentrefi, sgwariau marchnadoedd, promenadau, neuaddau cymunedol, canolfannau celf y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt a mannau cyhoeddus tebyg. Yna, ni fyddai'n rhaid i berfformwyr a diddanwyr gael trwydded neu roi hysbysiad digwyddiad dros dro eu hunain i'w galluogi i berfformio yn y mannau hyn. Byddai rhaid iddynt gael caniatâd yr awdurdod lleol o hyd gan mai nhw fyddai'r deiliad trwydded mangre ar gyfer unrhyw adloniant rheoledig y bwriadwyd ei gynnal yn y mannau hyn. Mae DCMS wedi sefydlu Cofrestr o Ofod Cyhoeddus a Drwyddedwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr. Diben hyn yw cynorthwyo trefnwyr digwyddiadau a darparwyr adloniant teithiol i benderfynu a ellid cynnal eu digwyddiad yn ardal awdurdod lleol penodol heb iddynt orfod ceisio awdurdodiad ar wahân. Mae hefyd yn eu cyfeirio at unigolyn priodol er mwyn cael mwy o wybodaeth ac i gael caniatâd i ddefnyddio'r gofod. Mae'r Gofrestr a manylion pellach ar gael ar wefan DCMS.

13.73 Mae Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 yn cynnwys newidiad i Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001 er mwyn cael eglurder ynghylch pryd a ble y byddai Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (DPPO) yn berthnasol. Mae'r newidiad yn golygu lle bydd awdurdod lleol yn preswylio neu'n rheoli mangre, neu lle caiff y fangre ei rheoli ar ran yr awdurdod lleol, a lle trwyddedir y lleoliad ar gyfer gwerthu alcohol, yna ni fydd y DPPO yn berthnasol lle defnyddir y drwydded ar gyfer gwerthu alcohol (neu 30 munud wedi hynny), ond fe fydd y lleoliad yn destun i'r DPPO ar bob adeg arall. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol hyrwyddo digwyddiadau cymunedol tra'n parhau i ddefnyddio'r DPPO i ddelio â phroblemau yfed gwrthgymdeithasol. Mae arweiniad pellach ynglŷn â'r DPPO ar gael gan y Swyddfa Gartref.

13.74 Dylid nodi, pan fydd un rhan o awdurdod lleol yn ceisio trwydded mangre o'r math yma oddi wrth yr awdurdod trwyddedu, bydd rhaid i'r pwyllgor trwyddedu a'i swyddogion ystyried y mater o safbwynt gwbl niwtral. Er enghraifft, os bydd sylwadau perthnasol yn cael eu cyflwyno gan breswylwyr lleol neu'r heddlu, mae'n rhaid i'r pwyllgor eu hystyried yn deg. Byddai gan unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ynglŷn â phenderfyniad positif awdurdod trwyddedu o blaid cais gan awdurdod lleol sy'n anfodlon gyda'r penderfyniad yr hawl i apelio i'r llys ynadon a thrwy hynny, byddai unrhyw benderfyniad yn cael ei adolygu'n annibynnol.

13.75 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylai awdurdodau trwyddedu gyhoeddi enwau cyswllt yn eu datganiadau o bolisi trwyddedu y gall y cyhoedd eu defnyddio i gael cyngor ynglŷn ag a oes angen trwyddedu gweithgaredd neu beidio.

## GWEINYDDU, GWEITHREDU A DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU

13.76 Mae Deddf 2003 yn dweud bod swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu (gan gynnwys ei benderfyniadau) i'w gwneud gan ei bwyllgor trwyddedu (ac eithrio'r rheiny sy'n gysylltiedig â gwneud datganiad o bolisi trwyddedu neu lle bo'r mater wedi'i gyfeirio at un o'r pwyllgorau eraill). Gall y pwyllgor trwyddedu ddirprwyo'r swyddogaethau hyn i is-bwyllgorau neu, o dan amgylchiadau priodol, i swyddogion sy'n cefnogi'r awdurdod trwyddedu. Lle na fydd swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu'n cael eu trosglwyddo'n awtomatig i bwyllgorau trwyddedu, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu ymgymryd â'r swyddogaethau yn ei gyfanrwydd ac nid gan ei adran weithredol. Dylai datganiadau o bolisi trwyddedu ddangos sut y mae awdurdod trwyddedu'n bwriadu ymgymryd â'i wahanol

swyddogaethau. Bydd llawer o'r penderfyniadau a'r swyddogaethau'n gwbl weinyddol eu natur a dylai datganiadau o bolisi trwyddedu danlinellu'r egwyddor o ddirprwyo er lles cyflymdra, effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd.

13.77 Nid yw Deddf 2003 yn atal awdurdod trwyddedu rhag datblygu arferion gweithio ar y cyd â rhannau eraill o'r awdurdod lleol neu awdurdodau trwyddedu eraill ar gyfer gwaith sydd o natur bur weinyddol, e.e. post-dafliadau, ond mae'n rhaid i'r pwyllgor trwyddedu, ei is-bwyllgor neu swyddogion ymgymryd ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau trwyddedu. At hyn, gellir contractio tasgau gweinyddol o'r fath allan i fusnesau preifat. Ond mae'n rhaid i'r pwyllgor trwyddedu, ei is-bwyllgorau neu swyddogion gyflawni unrhyw faterion sy'n ymwneud â phenderfyniadau trwyddedu.

13.78 Lle, o dan ddarpariaethau Deddf 2003, na cheir sylwadau perthnasol ar gais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb neu wrthwynebiad gan yr heddlu at gais am drwydded bersonol neu weithgaredd sy'n cael ei gynnal o dan awdurdod hysbysiad digwyddiad dros dro, dylai swyddogion ymdrin â'r materion hyn er mwyn cyflymu materion yn eu blaen drwy'r system. Dylai pwyllgorau trwyddedu gael adroddiadau rheolaidd ar benderfyniadau a wnaed gan swyddogion fel eu bod yn cadw trosolwg o'r sefyllfa gyffredinol. Er, yn ei hanfod, ei fod yn fater i'r awdurdodau trwyddedu bennu eu hunain, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylid defnyddio'r ymagwedd ganlynol at ddirprwyo:

13.79 **SWYDDOGAETHAU Y GELLIR EU DIRPRWYO**

| Mater i'w ymdrin ag ef | Pwyllgor Llawn | Is-Bwyllgor | Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded bersonol | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Os na cheir gwrthwynebiad |
| Cais am drwydded bersonol gydag euogfarnau nas treuliwyd | | Pob achos | |
| Cais am drwydded mangre/ tystysgrif mangre clwb | | Os ceir sylwadau perthnasol | Os na cheir sylwadau perthnasol |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Os ceir sylwadau perthnasol | Os na cheir sylwadau perthnasol |
| Cais i amrywio trwydded mangre/ tystysgrif mangre clwb | | Os ceir sylwadau perthnasol | Os na cheir sylwadau perthnasol |
| Cais i amrywio goruchwylydd mangre penodol | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Cais i beidio a bod yn oruchwylydd mangre penodol | | | Pob achos |
| Cais i drosglwyddo trwydded mangre | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Ceisiadau am awdurdodau interim | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Cais i adolygu trwydded mangre/ tystysgrif mangre clwb | | Pob achos | |
| Penderfyniad ar p'un ai a yw cwyn yn amherthnasol, blinderus, gwacsaw ac ati | | | Pob achos |
| Penderfyniad i wrthwynebu pan fo awdurdod lleol yn ymgynghorai ac nid yr awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais | | Pob achos | |
| Gwneud penderfyniad pan fydd yr heddlu'n gwrthwynebu â hysbysiad digwyddiad dros dro | | Pob achos | |

# Atodiad A

**Rhan o Ddeddf Trwyddedu 2003: Adloniant Rheoledig**

ATODLEN 1

Adran 1

DARPARU ADLONIANT RHEOLEDIG

RHAN 1

DIFFINIADAU CYFFREDINOL

*Darparu adloniant rheoledig*

1 (1) At ddibenion y Ddeddf hon mae "darparu adloniant rheoledig" yn golygu-

(a) adloniant fel y disgrifiad ym mharagraff 2, neu

(b) gyfleusterau adloniant sy'n dod o fewn paragraff 3,

lle mae'r amodau yn is-baragraffau (2) a (3) wedi eu bodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw bod yr adloniant, neu'r cyfleusterau adloniant, yn cael eu darparu-

(a) i unrhyw raddau i aelodau o'r cyhoedd neu ran o'r cyhoedd,

(b) dim ond i aelodau clwb sy'n glwb cymhwysol mewn perthynas ag adloniant rheoledig, neu i aelodau clwb o'r fath a'u gwesteion, neu

(c) mewn unrhyw achos nad yw ym mharagraff (a) neu (b), mewn cydnabyddiaeth a gyda golwg ar elw.

(3) Yr ail amod yw bod y mangre lle y cynhelir yr adloniant, neu lle y mae'r cyfleusterau adloniant, yn cael eu darparu yn cael eu rhoi ar gael i'r diben, neu at ddibenion sy'n cynnwys diben, galluogi'r adloniant dan sylw (p'un ai y'i disgrifir fel ym mharagraff 2(1) neu baragraff 3(2)) i ddigwydd.

I'r graddau bod darparu cyfleusterau adloniant yn golygu rhoi mangre ar gael, rhaid ystyried y mangre at ddibenion yr is-baragraff hwn fel mangre "ac arno" y darperir cyfleusterau adloniant.

(4) At ddibenion is-baragraff (2)(c), ystyrir bod adloniant, neu gyfleusterau adloniant, yn cael eu darparu mewn cydnabyddiaeth dim ond os oes unrhyw dâl-

(a) yn cael ei wneud gan neu ar ran-

(i) unrhyw berson sydd â chysylltiad â threfnu neu reoli'r adloniant hwnnw, neu

(ii) unrhyw berson sydd â chysylltiad â threfnu neu reoli'r cyfleusterau hynny sydd hefyd â chysylltiad â threfnu neu reoli'r adloniant o fewn paragraff 3(2) lle mae'r cyfleusterau hynny sy'n galluogi pobl i gymryd rhan, ac

(b) yn cael ei dalu gan neu ar ran rhai neu bob un o'r personau y mae'r adloniant hwnnw, neu'r cyfleusterau hynny, yn cael eu darparu ar eu cyfer.

(5) Yn is-baragraff (4), mae "tâl" yn cynnwys unrhyw dâl am ddarparu nwyddau neu wasanaethau.

(6) At ddibenion is-baragraff (4)(a), lle mae'r adloniant yn cynnwys perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth a recordiwyd, nid yw person sy'n perfformio neu'n chwarae'r gerddoriaeth yn gysylltiedig â threfnu neu reoli'r adloniant am yr unig reswm nad yw'n gwneud un neu ragor o'r canlynol-

(a) yn dewis y gerddoriaeth sydd i'w pherfformio neu ei chwarae,

(b) yn penderfynu ar y modd y mae'n cael ei pherfformio neu ei chwarae,

(c) yn darparu unrhyw gyfleusterau at ddibenion ei berfformio neu chwarae'r gerddoriaeth.

(7) Mae'r paragraff hwn yn amodol ar Ran 2 yr Atodlen hon (eithriadau).

*Adloniant*

2 (1) Y disgrifiadau o adloniant yw-

(a) perfformiad o ddrama

(b) arddangos ffilm

(c) digwyddiad chwaraeon y tu mewn

(d) adloniant paffio neu wreslo

(e) perfformio cerddoriaeth fyw

(f) unrhyw chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio

(g) perfformiad o ddawns

(h) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r un a geir ym mharagraff (e), (f) neu (g),

lle mae'r adloniant yn digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa ac wedi ei ddarparu at ddiben, neu at ddibenion sy'n cynnwys y diben, o roi adloniant i'r gynulleidfa honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn is-baragraff (1) at gynulleidfa yn cynnwys cyfeiriad at wylwyr.

(3) Mae'r paragraff hwn yn amodol ar Ran 3 o'r Atodlen hon (dehongliad).

*Cyfleusterau adloniant*

3 (1) Yn yr Atodlen hon, mae "cyfleusterau adloniant" yn golygu cyfleusterau i alluogi pobl i gymryd rhan mewn adloniant y mae ei ddisgrifiad yn dod o fewn is-baragraff (2) at ddiben, neu at ddibenion sy'n cynnwys y diben, o gael adloniant.

(2) Y disgrifiadau o adloniant yw-

(a) gwneud cerddoriaeth,

(b) dawnsio,

(c) adloniant o ddisgrifiad tebyg i'r hyn sy'n dod o fewn paragraff (a) neu (b).

(3) Mae'r paragraff hwn yn amodol ar Ran 3 o'r Atodlen hon (dehongliad).

*Pŵer i newid Atodlen*

4 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn newid yr Atodlen hon at ddiben addasu-

(a) y disgrifiadau o adloniant a ragnodwyd ym mharagraff 2, neu

(b) y disgrifiadau o adloniant a ragnodwyd ym mharagraff 3,

ac at y diben hwn y mae "addasu" yn cynnwys ychwanegu, amrywio neu gael gwared ag unrhyw ddisgrifiad.

## RHAN 2

## EITHRIADAU

*Arddangosiadau ffilm at ddibenion hysbysebu, gwybodaeth, addysg ayb.*

5 Nid yw darparu adloniant sy'n cynnwys arddangos ffilm i gael ei ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon os mai ei unig neu ei brif bwrpas yw-

(a) arddangos unrhyw gynnyrch,

(b) hysbysebu unrhyw nwyddau neu wasanaethau, neu

(c) roi gwybodaeth, addysg neu hyfforddiant.

*Arddangosiadau ffilm: amgueddfeydd ac orielau celf*

6 Nid yw darparu adloniant sy'n cynnwys arddangos ffilm i gael ei ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon os yw'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o arddangosyn a arddangosir at ddibenion amgueddfa neu oriel gelf.

*Cerddoriaeth sy'n achlysurol i rai gweithgareddau eraill*

7 Nid yw darparu adloniant sy'n cynnwys perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth a recordiwyd i'w ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon i'r graddau ei bod yn achlysurol i ryw weithgaredd arall nad yw ei hun-

(a) yn ddisgrifiad o adloniant sy'n dod o dan baragraff 2, neu

(b) yn darparu cyfleusterau adloniant.

*Y defnydd o dderbynyddion teledu neu radio*

8 Nid yw darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant i'w ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon i'r graddau ei fod yn cynnwys derbyn a chwarae ar yr un pryd raglen wedi ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni o fewn ystyr Deddf Darlledu 1990 (c. 42).

*Gwasanaethau crefyddol, lleoedd o addoliad.*

9 Nid yw darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant-

(a) at ddibenion, neu at ddibenion sy'n achlysurol i, gyfarfod neu wasanaeth crefyddol, neu

(b) mewn lle o addoliad crefyddol cyhoeddus,

i'w ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon.

*Garddwestau, ayb.*

10 (1) Nid yw darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant mewn garddwest, neu mewn gweithgarwch neu ddigwyddiad o natur debyg, i'w ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1) yn gymwys os yw'r arddwest, gweithgarwch neu ddigwyddiad yn cael ei hyrwyddo gyda golwg ar ddefnyddio'r cyfan neu ran o'i enillion er elw preifat.

(3) Yn is-baragraff (2) dylid dehongli "elw preifat", mewn perthynas ag elw garddwest, gweithgarwch neu ddigwyddiad, yn unol ag adran 22 o Ddeddf Loteriau a Difyrion 1976 (c. 32).

*Dawnsio gwerin, ayb.*

11 Nid yw darparu adloniant sy'n cynnwys perfformio cerddoriaeth fyw neu chwarae cerddoriaeth a recordiwyd i'w ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon i'r graddau ei bod yn cynnwys darparu-

(a) perfformiad o ddawnsio gwerin neu unrhyw ddawnsio o natur debyg neu berfformiad o gerddoriaeth fyw, heb ei chwyddo, fel rhan annatod o berfformiad o'r fath, neu

(b) gyfleusterau ar gyfer galluogi pobl i gymryd rhan mewn adloniant y gellir ei ddisgrifio fel ym mharagraff (a).

*Cerbydau'n symud*

12 Nid yw darparu unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant-

(a) ar fangre sy'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o gerbyd, a

(b) ar amser pan nad yw'r cerbyd wedi ei barcio'n barhaol neu dros dro,

i'w ystyried fel darparu adloniant rheoledig at ddibenion y Ddeddf hon.

## RHAN 3

## DEHONGLIAD

*Cyffredinol*

13 Mae'r Rhan hon mewn grym at ddibenion yr Atodlen hon.

*Dramâu*

14 (1) Mae "perfformiad o ddrama" yn golygu perfformiad o unrhyw ddarn dramatig, p'un ai'n cynnwys byrfyfyrio ai peidio, -

(a) sy'n cael ei gyflwyno yn gyfan neu'n rhannol gan un neu fwy o bobl sydd yno'n bresennol ac yn perfformio, a

(b) lle mae'r cyfan neu gyfran fawr o'r hyn sy'n cael ei wneud gan y person neu'r personau sy'n perfformio, p'un ai drwy siarad, canu neu symudiad, yn golygu chwarae rôl.

(2) Yn y paragraff hwn, mae "perfformiad" yn cynnwys rihyrsal (ac mae "perfformio" i'w ddehongli yn unol â hynny).

*Arddangosiadau ffilm*

*15 Mae "arddangosiad o ffilm" yn golygu unrhyw arddangosiad o luniau symudol.*

*Digwyddiadau chwaraeon y tu mewn*

16 (1) Mae "digwyddiad chwaraeon y tu mewn" yn ddigwyddiad chwaraeon-

(a) sy'n digwydd yn gyfan gwbl y tu mewn i adeilad, a

(b) lle mae'r gwylwyr sy'n bresennol yn y digwyddiad yn ei wylio yn gyfan gwbl y tu mewn i'r adeilad hwnnw.

(2) Yn y paragraff yma -

mae "adeilad" yn golygu unrhyw adeiladwaith gyda tho iddo (heblaw strwythur gyda tho y gellir ei agor neu ei gau) ac mae'n cynnwys cerbyd, llong neu adeiladwaith symudol,

mae "digwyddiad chwaraeon" yn golygu unrhyw ornest, arddangosfa neu sioe o unrhyw chwaraeon, ac

mae "chwaraeon" yn golygu-

(a) unrhyw gêm lle mae medr corfforol yw'r ffactor pennaf, ac

(b) unrhyw ffurf ar hamdden gorfforol sydd hefyd yn cael ei wneud at ddibenion cystadleuaeth neu arddangosfa.

*Adloniant paffio neu wreslo*

17 Mae "adloniant paffio neu wreslo" yn golygu unrhyw ornest, arddangosfa neu sioe o baffio neu wreslo.

*Cerddoriaeth*

18 Mae "cerddoriaeth" yn golygu cerddoriaeth leisiol neu offerynnol neu unrhyw gyfuniad o'r ddau.

# Atodiad B

**Rhan o Ddeddf Trwyddedu 2003: Lluniaeth Gyda'r Hwyr)**

ATODLEN 2

Adran 1

DARPARU LLUNIAETH YN HWYR Y NOS

*Darparu lluniaeth yn hwyr y nos*

1 (1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae person yn "darparu lluniaeth yn hwyr y nos" os-

(a) ar unrhyw adeg rhwng yr oriau 11.00 p. m. a 5.00 a. m. , y mae'n darparu bwyd poeth neu ddiod poeth i aelodau'r cyhoedd, neu ran o'r cyhoedd, ar neu o unrhyw fangre, p'un ai i'w bwyta neu yfed ar y fangre ai peidio, neu

(b) ar unrhyw adeg rhwng yr oriau hynny pan fo aelodau'r cyhoedd, neu ran o'r cyhoedd, yn cael mynediad i unrhyw fangre, ei fod yn cyflenwi, neu'n dal ei fod yn fodlon cyflenwi, bwyd poeth neu ddiod poeth i unrhyw bersonau, neu i bersonau o ddisgrifiad arbennig, ar neu o'r mangre hwnnw, p'un ai i'w bwyta neu yfed ar y safle neu oddi arno,

oni bo'r cyflenwad yn gyflenwad eithriad yn rhinwedd paragraff 3, 4 neu 5.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at "ddarparu lluniaeth yn hwyr y nos" i'w dehongli yn unol ag is-baragraff (1).

(3) Mae'r paragraff hwn yn amodol ar ddarpariaethau canlynol yr Atodlen hon.

*Bwyd poeth neu ddiod poeth*

2 Mae bwyd neu ddiod a gyflenwir ar neu o unrhyw fangre yn "boeth" at ddibenion yr Atodlen hon os yw'r bwyd neu'r diod, neu ran ohono, -

(a) cyn cael ei gyflenwi, yn cael ei gynhesu ar y safle neu'n rhywle arall at ddiben galluogi iddo gael ei fwyta neu ei yfed ar dymheredd uwchlaw'r tymheredd aer amgylchol, ac ar adeg ei gyflenwi, ei fod uwchlaw'r tymheredd hwnnw, neu

(b) wedi iddo gael ei gyflenwi, y gellir ei gynhesu ar y safle at ddiben galluogi iddo gael ei fwyta neu ei yfed ar dymheredd uwchlaw'r tymheredd aer amgylchol.

*Cyflenwadau eithriad: clybiau, gwestai ayb. a gweithwyr*

3 (1) Mae cyflenwi bwyd poeth neu ddiod poeth ar neu o unrhyw fangre ar unrhyw adeg yn gyflenwad eithriad at ddibenion paragraff 1(1) os, ar yr adeg honno, na fydd person-

(a) yn cael mynediad i'r safle, nac

(b) yn cael ei gyflenwi â bwyd poeth neu ddiod poeth ar neu o'r safle,

heblaw yn rhinwedd bod yn berson o ddisgrifiad sy'n dod o fewn is-baragraff (2).

(2) Y disgrifiadau yw-

(a) ei fod yn aelod o glwb cydnabyddedig,

(b) ei fod yn berson sy'n aros mewn gwesty arbennig, neu mewn mangre tebyg, am y noson dan sylw,

(c) ei fod yn weithiwr i gyflogwr arbennig,

(d) ei fod yn gwneud crefft arbennig, ei fod yn aelod o broffesiwn arbennig neu ei fod yn dilyn galwedigaeth arbennig,

(e) ei fod yn westai i berson sy'n dod o dan baragraffau (a) i (d).

(3) Mangre sydd, at ddibenion is-baragraff (2)(b), yn debyg i westy yw-

(a) gwesty bach, tŷ llety neu hostel,

(b) maes carafannau neu wersyll, neu

(c) unrhyw safle arall lle mae prif bwrpas ei gadw yw darparu cyfleusterau ar gyfer aros dros nos.

*Cyflenwadau eithriad: mangre a drwyddedwyd o dan Ddeddfau arbennig eraill*

4 Mae cyflenwi bwyd poeth neu ddiod poeth ar neu o fangre yn gyflenwad eithriad at ddibenion paragraff 1(1) os yw'n digwydd ar adeg pan-

(a) y gellir defnyddio'r fangre ar gyfer arddangosfa gyhoeddus o'r math a ddisgrifir yn adran 21(1) o Ddeddf Cyngor Llundain Fwyaf (Pwerau Cyffredinol) 1966 (c. xxviii) yn rhinwedd trwydded o dan yr adran honno, neu

(b) y gellir defnyddio'r fangre fel mangre ger cwrw o fewn ystyr adran 14 o Ddeddf Awdurdodau Lleol Llundain 1995 (c. x) yn rhinwedd trwydded o dan adran 16 o'r Ddeddf honno.

*Cyflenwadau eithriad amrywiol*

5 (1) Mae'r cyflenwadau canlynol o fwyd poeth neu ddiod poeth yn gyflenwadau eithriad at ddibenion paragraff 1(1)-

(a) cyflenwi diod poeth sy'n ddiod alcoholig neu'n cynnwys alcohol,

(b) cyflenwi diod poeth drwy gyfrwng peiriant gwerthu,

(c) cyflenwi bwyd poeth neu ddiod poeth yn ddi-dâl,

(d) cyflenwi bwyd poeth neu ddiod poeth gan elusen gofrestredig neu berson a awdurdodwyd gan elusen gofrestredig,

(e) cyflenwi bwyd poeth neu ddiod poeth ar gerbyd ar adeg pan nad yw'r cerbyd wedi ei barcio'n barhaol neu dros dro.

(2) Caiff diod poeth ei gyflenwi drwy gyfrwng peiriant gwerthu at ddibenion is-baragraff (1)(b) dim ond os-

(a) yw'r tâl am y diod poeth yn cael ei roi yn y peiriant gan aelod o'r cyhoedd, ac

(b) os yw'r diod poeth yn cael ei gyflenwi'n uniongyrchol gan y peiriant i aelod o'r cyhoedd.

(3) Ni ddylid ystyried bod bwyd poeth neu ddiod poeth yn cael ei roi yn ddi-dâl at ddibenion is-baragraff (1)(c) os, er mwyn cael y bwyd poeth neu'r ddiod boeth, mae'n rhaid talu-

(a) i gael mynediad i'r fangre, neu

(b) am unrhyw eitem arall.

(4) Yn is-baragraff (1)(d) mae "elusen gofrestredig" yn golygu-

(a) elusen sydd wedi ei chofrestru o dan adran 3 o Ddeddf Elusennau 1993 (c. 10), neu

(b) elusen nad yw'n ofynnol i gael ei chofrestru felly, yn rhinwedd isadran (5) o'r adran honno.

*Clybiau nad ydynt yn glybiau cydnabyddedig: aelodau a gwesteion*

6 At ddibenion yr Atodlen hon-

(a) mae cyflenwi bwyd poeth neu ddiod poeth i berson fel pe'n aelod, neu'n westai i aelod, o glwb nad yw'n glwb cydnabyddedig yn cael ei gymryd fel cyflenwi i aelod o'r cyhoedd, ac

(b) mae rhoi mynediad i unrhyw berson i unrhyw fangre fel aelod neu westai o'r fath yn cael ei gymryd fel rhoi mynediad i aelod o'r cyhoedd.

 

# Atodiad C

**Rhan o Ddeddf Trwyddedu 2003: Troseddau Perthnasol**

Mae hyn yn atgynhyrchu Atodlen 4 Deddf trwyddedu 2003 fel y'i newidiwyd gan SI 2005/2366 Gorchymyn (Newidiad) Deddf Trwyddedu 2003 (Trwydded bersonol : troseddau perthnasol)) 2005. DS. Mae trosedd dreisgar o dan baragraff 19 yn golygu 'unrhyw drosedd sy'n arwain, neu a fwriedir neu sy'n debygol o arwain at farwolaeth unigolyn neu anaf corfforol i unigolyn'. Byddai hyn yn cynnwys Niwed Corfforol Gwirioneddol, ac ymosodiad cyffredin lle mae'n arwain at anaf corfforol.

ATODLEN 4

Adran 113

TRWYDDED BERSONOL: TROSEDDAU PERTHNASOL

1 Trosedd o dan y Ddeddf hon.

2 Trosedd o dan unrhyw un o'r deddfiadau canlynol-

(a) Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Llundain 1963 (c. 33) (trwyddedu adloniant cyhoeddus);

(b) Deddf Drwyddedu 1964 (c. 26);

(c) Deddf (Trwyddedu) Mannau Adloniant 1967 (c. 19);

(d) adran 13 o Ddeddf Theatrau 1968 (c. 54);

(e) Deddf Tai Lluniaeth Hwyrnosau 1969 (c. 53);

(f) adran 6 o, neu Atodlen 1 i, Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (c. 30);

(g) Deddf Trwyddedu (Caniatadau Achlysurol) 1983 (c. 24);

(h) Deddf Sinemâu 1985 (c. 13);

(i) Deddf Awdurdodau Lleol Llundain 1990 (c. vii).

3 Trosedd o dan Ddeddf Drylliau Tanio 1968 (c. 27).

4 Trosedd o dan adran 1 o Ddeddf Disgrifiadau Masnach 1968 (c. 29) (disgrifiad masnach ffug o nwyddau) mewn amgylchiadau lle mae'r nwyddau dan sylw yn neu'n cynnwys alcohol.

5 Trosedd o dan unrhyw rai o'r darpariaethau canlynol o Ddeddf Dwyn 1968 (c. 60)-

(a) adran 1 (dwyn);

(b) adran 8 (ysbeiliad);

(c) adran 9 (bwrglera);

(d) adran 10 (bwrglera dwys);

(e) adran 11 (mynd ag eitemau o lefydd sydd ar agor i'r cyhoedd);

(f) adran 12A (dwyn cerbyd dwys), mewn amgylchiadau lle mae isadran (2)(b) o'r adran honno yn gymwys a bod y ddamwain wedi achosi marwolaeth unrhyw berson;

(g) adran 13 (tynnu trydan);

(h) adran 15 (cael eiddo trwy dwyll);

(i) adran 15A (cael trosglwyddiad arian trwy dwyll);

(j) adran 16 (cael mantais ariannol trwy dwyll);

(k) adran 17 (cyfrifo ffug);

(l) adran 19 (datganiadau ffug gan gyfarwyddwyr cwmni ayb.);

(m) adran 20 (celu ayb. dogfennau);

(n) adran 21 (blacmel);

(o) adran 22 (trafod nwyddau wedi eu dwyn);

(p) adran 24A (cadw credyd anghywir yn anonest);

(q) adran 25 (mynd allan ar gyfer dwyn ayb.).

6 Trosedd o dan adran 7(2) o Ddeddf Hapchwarae 1968 (c. 65) (caniatáu i blentyn gymryd rhan mewn hapchwarae mewn mangre a drwyddedwyd ar gyfer gwerthu alcohol).

7 Trosedd o dan unrhyw rai o'r darpariaethau canlynol o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (c. 38)-

(a) adran 4(2) (cynhyrchu cyffur rheoledig);

(b) adran 4(3) (cyflenwi cyffur rheoledig);

(c) adran 5(3) (meddu ar gyffur rheoledig gyda'r bwriad o'i gyflenwi);

(d) adran 8 (caniatáu i weithgareddau ddigwydd yn y mangre).

8 Trosedd o dan y naill neu'r llall o ddarpariaethau canlynol Deddf Dwyn 1978 (c. 31)-

(a) adran 1 (cael gwasanaethau trwy dwyll);

(b) adran 2 (osgoi atebolrwydd trwy dwyll).

9 Trosedd o dan y naill neu'r llall o ddarpariaethau canlynol Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (c. 2)-

(a) adran 170 (gan anwybyddu isadran (1)(a)) (osgoi dyletswydd yn dwyllodrus ayb.);

(b) adran 170B (cymryd camau paratoadol i osgoi dyletswydd).

10 Trosedd o dan y naill neu'r llall o ddarpariaethau Deddf Tollau ar Gynhyrchion Tybaco 1979 (c. 7)-

(a) adran 8G (meddu ar a gwerthu tybaco heb ei farcio);

(b) adran 8H (defnyddio mangre i werthu tybaco heb ei farcio).

11 Trosedd o dan Ddeddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981 (c. 45) (heblaw trosedd o dan adran 18 neu 19 o'r Ddeddf honno).

12 Trosedd o dan Ddeddf Dryllau Tanio (Newidiad) 1988 (c. 45).

13 Trosedd o dan unrhyw rai o ddarpariaethau canlynol Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988 (c. 48)-

(a) adran 107(1)(d)(iii) (arddangos yn gyhoeddus yng nghwrs busnes eitem sy'n torri hawlfraint);

(b) adran 107(3) (torri hawlfraint drwy berfformio gwaith yn gyhoeddus ayb.);

(c) adran 198(2) (darlledu ayb. recordiad o berfformiad a wnaed heb ganiatâd digonol);

(d) adran 297(1) (derbyn darllediad yn dwyllodrus);

(e) adran 297A(1) (cyflenwi ayb. datgodiwr heb ei awdurdodi).

14 Trosedd o dan unrhyw rai o ddarpariaethau canlynol Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 (c. 52)-

(a) adran 3A (achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal tra o dan ddylanwad diod neu gyffuriau);

(b) adran 4 (gyrru ayb. cerbyd tra o dan ddylanwad diod neu gyffuriau);

(c) adran 5 (gyrru ayb. cerbyd gyda lefel yr alcohol uwchlaw'r hyn a ganiateir).

15 Trosedd o dan y naill neu'r llall o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (c. 16) mewn amgylchiadau lle mae'r bwyd dan sylw yn cynnwys alcohol-

(a) adran 14 (gwerthu bwyd nad yw o'r natur, sylwedd neu'r safon y gofynnwyd amdano);

(b) adran 15 (disgrifio neu gyflwyno bwyd neu ddiod yn ffug).

16 Trosedd o dan adran 92(1) neu (2) o Ddeddf Nodau Masnach 1994 (c. 26) (defnydd heb ei awdurdodi o nod masnach, ayb. mewn perthynas â nwyddau) mewn amgylchiadau lle mae'r nwyddau dan sylw yn neu'n cynnwys alcohol.

17 Trosedd o dan Ddeddf Drylliau Tanio (Newidiad) 1997 (c. 5).

18 Trosedd rywiol, sef trosedd a -

(a) rhestrir yn Rhan 2 Atodlen 15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003[2], ar wahân i'r drosedd a nodir ym mharagraff 95 (trosedd o dan adran 4 Deddf Troseddau Rhywiol 1967 (caffael eraill i gyflawni gweithredoedd gwrywgydiol));

(b) trosedd o dan adran 8 Deddf Troseddau Rhywiol 1956 (cyfathrach gyda rhywun diffygiol);

(c) trosedd o dan adran 18 Deddf Troseddau Rhywiol (herwgipio etifeddes trwy dwyll).

19 Trosedd dreisgar, sef trosedd sy'n arwain neu a fwriedir i arwain neu sy'n debygol o arwain at farwolaeth unigolyn neu achosi anaf corfforol i unigolyn, yn cynnwys trosedd lle mae gofyn dwyn cyhuddiad o losgi bwriadol (hyd yn oed pe bai neu phe na bai fel arall yn dod o dan y diffiniad hwn).

20 Trosedd o dan adran 3 o Ddeddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 (c. 12) (cymryd rhan mewn gweithgareddau arbennig sy’n ymwneud â diogelwch heb drwydded).

# Atodiad D
# Rhestr amodau

## EGWYDDORION CRAIDD

1. Pan fo ymgeiswyr am drwyddedau mangre, neu dystysgrifau mangre clwb yn paratoi eu hatodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb, bydd awdurdodau cyfrifol yn ystyried ceisiadau o'r fath ac awdurdodau trwyddedu yn ystyried ceisiadau ar ôl derbyn sylwadau perthnasol gan awdurdod cyfrifol neu un sydd â diddordeb, dylid ystyried yr opsiynau a ganlyn fel mesurau a fyddai, pe bai angen, yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

2. Dylai unrhyw asesiad risg i adnabod mesurau angenrheidiol ystyried amgylchiadau unigol y fangre (yn cynnwys gwybodaeth leol) a chymryd ystod o ffactorau i ystyriaeth, yn cynnwys:
   - natur a steil y lleoliad;
   - y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yno;
   - lleoliad y fangre; a
   - chwsmeriaid disgwyliedig y busnes dan sylw.

**Ni ddylai awdurdodau trwyddedu mewn unrhyw amgylchiadau ystyried yr amodau hyn fel amodau safonol i'w pennu'n awtomatig ym mhob achos.**

3. Mae unrhyw unigolyn sy'n paratoi atodlen weithredol neu atodlen weithredol clwb yn rhydd i gynnig unrhyw fesur, megis y rhai isod, fel camau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Pan ymgorfforir mesurau hyn yn rhan o'r drwydded neu'r dystysgrif fel amodau, yna gellir eu gorfodi o dan y gyfraith ac fe allai eu torri arwain at erlyn.

4. Dylai awdurdodau trwyddedu roi ystyriaeth ofalus i amodau sy'n sicrhau eu bod nid yn unig yn angenrheidiol ond hefyd yn realistig, ymarferol a chyraeddadwy, fel bod modd eu cyflawni. Byddai methu cydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â thrwydded neu dystysgrif yn drosedd, ac yn dilyn collfarn gellid cosbi trwy osod dirwy o £20, 000 neu dreulio hyd at chwe mis yn y carchar neu'r ddau. I'r perwyl hynny, byddai'n gwbl amhriodol gosod amodau y tu allan i reolaeth y rhai sy'n gyfrifol am redeg y fangre. Mae hefyd yn bwysig osgoi pennu amodau amhendant neu sy'n anodd i'w gorfodi.

5. Dylid cadw mewn cof bod mangre clwb yn gweithredu o dan godau disgyblaeth i sicrhau trefn ac ymddygiad da yr aelodau ac nad oes angen amodau yn gweithredu troseddau o dan y Ddeddf.

## RHAN 1. AMODAU YN YMWNEUD AG ATAL TROSEDD AC ANHREFN

### Peiriannau galw Radio/Testun

Fe all peiriannau galw radio a thestun sy'n cysylltu deiliaid trwydded mangre, goruchwylwyr mangre dynodedig, rheolwyr mangre a chlybiau gyda'r heddlu lleol ddarparu ymateb buan gan yr heddlu i sefyllfaoedd lle ceir anhrefn a allai beryglu cwsmeriaid a staff y fangre.

Mae peiriannau galw o'r fath yn darparu cyfathrebu dwy ffordd, gan alluogi deiliaid trwydded, rheolwyr, goruchwylwyr mangre dynodedig a chlybiau i adrodd am ddigwyddiadau werth yr heddlu, a galluogi'r heddlu i rybuddio'r rhai sy'n gweithredu nifer fawr o fangreoedd tebyg o unigolion a allai achosi trafferth posib neu rai a amheuir o ymddygiad troseddol sydd mewn ardal benodol. Gellir defnyddio systemau peirannau galw hefyd gan ddeiliaid trwydded, goruchwylwyr drysau, rheolwyr, goruchwylwyr mangre dynodedig a chlybiau i rybuddio ei gilydd o bresenoldeb pobl o'r fath mewn ardal.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell y dylid ystyried peiriannau galw radio neu destun fel amodau angenrheidiol priodol ar gyfer tafarndai, bariau a chlybiau nos sy'n gweithredu mewn ardaloedd hamdden canol trefi a dinasoedd sydd â dwysedd uchel o fangreoedd trwyddedig. Mae'n bosib y gallai amodau o'r fath fod yn berthnasol ac angenrheidiol hefyd mewn ardaloedd eraill.

Argymhellir y dylai amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael cysylltiadau peiriannau galw radio neu destun gyda'r heddlu gynnwys y gofynion canlynol:

- gofyniad bod yr offer peiriannau galw radio/testun yn cael eu cadw mewn cyflwr gweithredol ar bob adeg;
- gofyniad bod y cyswllt peiriant galw yn cael ei roi ymlaen, ar gael ac yn cael ei fonitro gan y goruchwyliwr mangre dynodedig neu aelod cyfrifol o'r staff ar bob adeg y mae'r fangre'n agored i'r cyhoedd;
- gofyniad y dylid cydymffurfio gydag unrhyw gyfarwyddiadau/gorchmynion a roddir gan yr heddlu; a
- gofyniad bod pob achos o drosedd neu anhrefn yn cael ei gofnodi gan y goruchwyliwr mangre dynodedig neu aelod cyfrifol o'r staff i bwynt cyswllt gyda'r a gytunwyd gyda'r heddlu trwy gyfrwng y cyswllt peiriant galw radio/testun.

## Goruchwylwyr drysau

Fe all amodau'n ymwneud â darparu goruchwylwyr drysau a thimau diogelwch fod yn werthfawr wrth:

- atal mynediad a sicrhau bod y meddw a'r afreolus yn ymadael â'r fangre, heb achosi rhagor o anhrefn;
- cadw unigolyn a waharddwyd o'r fangre (sy'n destun gwaharddiadau llys neu waharddiadau a roddwyd gan ddeiliaid trwydded);
- chwilio a gwahardd rhai yr amheuir o gario cyffuriau anghyfreithlon, neu arfau peryglus; a
- sicrhau ciwio trefnus y tu allan i leoliadau lle mae ciwiau o'r fath yn debygol.

Lle bwriedir gosod amod ynghylch goruchwylwyr drysau'n cynnal gweithgareddau diogelwch, sy'n golygu y byddai angen iddynt gofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, efallai bydd angen hefyd i amodau ymdrin â'r canlynol:

- nifer goruchwylwyr o'r fath
- arddangos bathodynnau enw
- cario prawf eu bod wedi cofrestru
- lle ac ar ba adegau y dylid eu lleoli yn y fangre, ac
- a ddylai fod o leiaf un goruchwyliwr sy'n fenyw fod ar gael (er enghraifft, os bwriedir cynnal chwiliad corfforol o gwsmeriaid sy'n ferched).

Mae gan oruchwylwyr drysau rôl i'w chwarae hefyd wrth sicrhau diogelwch y cyhoedd (gweler Rhan 2) ac atal niwsans cyhoeddus (gweler Rhan 4).

## Gwahardd poteli

Gellir defnyddio poteli gwydr fel arfau sy'n achosi niwed mwy difrifol mewn achosion o anhrefn. Fe all amod atal gwerthu diodydd mewn poteli gwydr i'w hyfed yn y fangre. Argymhellir y dylid mynegi amod yn ei gwneud yn ofynnol i beidio gwerthu diodydd mewn poteli gwydr mewn termau clir gan gynnwys yr elfennau isod:

- ni roddir unrhyw boteli sy'n cynnwys diodydd o unrhyw fath, boed agored neu gaeedig, i gwsmeriaid yn y fangre boed wrth y bar neu gan wasanaeth staff o'r bar;
- ni chaniateir mynediad i unrhyw gwsmeriaid sy'n cario poteli agored neu wedi eu selio i'r fangre ar unrhyw adeg y mae'r fangre'n agored i'r cyhoedd (noder: mae angen geirio hyn yn ofalus lle caniateir gwerthu diod i yfed oddi ar y safle hefyd);

Mewn amgylchiadau addas, fe allai'r amod gynnwys rhai eithriadau, megis er enghraifft:

- ond gellir caniatáu gwerthu poteli sy'n cynnwys gwin i'w hyfed gyda phryd bwyd gan gwsmeriaid sy'n eistedd mewn man a neilltuwyd o brif ardal y bar ar gyfer bwyta.

Efallai y bydd gwahardd poteli hefyd yn gam angenrheidiol perthnasol i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd (gweler Rhan 2).

## Cynhwysyddion plastig a gwydr wedi'i gryfhau

Gellir defnyddio gwydrau sy'n cynnwys diodydd fel arfau yn ystod digwyddiadau o anhrefn ac ar ffurf heb ei gryfhau, gallant achosi anafiadau difrifol iawn. Felly, lle bernir bod hynny'n angenrheidiol, gellid rhoi ystyriaeth i amodau sy'n gofyn am ddefnyddio naill ai cynhwysyddion plastig neu wydrau wedi'u cryfhau sy'n achosi niwed llai difrifol. Byddai lleoliad a natur y man a'r gweithgareddau a gynhelir yno yn arbennig o bwysig wrth asesu a fyddai angen amod o'r fath. Er enghraifft, byddai defnyddio cynhwysyddion gwydr ar derasau rhai meysydd chwaraeon awyr agored o bryder amlwg, ac efallai y byddai pryderon tebyg yn berthnasol mewn digwyddiadau chwaraeon dan do megis gornestau bocsio. Yn yr un modd, efallai bydd amod ar ddefnyddio cynhwysyddion plastig neu wydr wedi'i gryfhau yn angenrheidiol yn ystod darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon, megis gemau pêl-droed rhyngwladol, lle gelid cael achosion o emosiynau a chynnwrf mawr wedi'i chwyddo gan alcohol.

Dylid nodi y gellid defnyddio cynhwysyddion diodydd plastig neu wydr wedi'i gryfhau fod yn berthnasol hefyd fel mesurau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd (gweler Rhan 2).

## Cynhwysyddion agored na ddylid eu cymryd o'r fangre

Gellir mynd â diodydd a brynir mewn mangre neu gwbl trwyddedig o'r fangre honno i'w hyfed mewn man arall. Lle trwyddedir mangre i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre byddai hynny'n gwbl gyfreithlon. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i amod sy'natal mynd â diodydd alcohol a diodydd eraill o'r fangre mewn cynhwysyddion agored (e.e. gwydrau a photeli wedi'u hagor). Unwaith eto efallai bydd angen gosod amod o'r fath er mwyn atal defnydd o'r cynhwysyddion hyn fel arfau peryglus mewn strydoedd cyfagos ar ôl i'r unigolion adael y fangre.

Efallai y bydd cyfyngiadau ar gymryd cynhwysyddion agored o'r fangre hefyd yn fesurau angenrheidiol perthnasol i atal niwsans cyhoeddus (gweler Rhan 4).

## Camerâu cylch caeedig (CCTV)

Fe all presenoldeb camerâu cylch caeedig (CCTV) fod yn fodd pwysig o atal a chanfod troseddu mewn a thu allan i fangre trwyddedig. Dylai amodau ystyried nid yn unig gofyniad i gael teledu cylch caeedig yn y fangre, ond hefyd union leoliad pob camera, y gofyniad i gynnal a chadw camerâu, a chadw recordiadau am gyfnod priodol o amser.

Dylai'r heddlu ddarparu cyngor i unigolion sy'n cynnal asesiadau risg wrth baratoi amserlenni gweithredu ar y defnydd o deledu cylch caeedig i atal troseddu.

## Cyfyngiadau ar ardaloedd yfed

Efallai bydd angen cyfyngu'r ardaloedd lle gellir yfed diodydd alcohol yn y fangre ar ôl iddynt gael eu prynu wrth y bar. Enghraifft o hyn fyddai mewn maes chwaraeon lle mae'r heddlu o'r farn bod angen atal yfed alcohol ar derasau meysydd chwaraeon yn ystod digwyddiadau chwaraeon penodol. Dylai amodau o'r fath bennu nid yn unig y meysydd hyn, ond dylent hefyd nodi'r amgylchiadau y byddai'r gwaharddiad mewn grym a'r adegau y dylid ei gweithredu.

Efallai y bydd cyfyngiadau ar ardaloedd yfed hefyd yn fesurau angenrheidiol perthnasol i atal niwsans cyhoeddus (gweler Rhan 4).

## Cyfyngiadau cynhwysedd

Er mai fel amod ynghylch diogelwch y cyhoedd y gwneir hynny amlaf (gweler Rhan 2), dylid hefyd roi ystyriaeth i amodau sy'n gosod cyfyngiadau ar gynhwysedd mangre neu glybiau trwyddedig lle bydd angen atal gorlenwi'r fangre a allai arwain at anhrefn a thrais. Lle bernir bod amod o'r fath yn angenrheidiol, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r angen am oruchwylwyr drysau er mwyn sicrhau bod niferoedd yn cael eu rheoli'n briodol (gweler uchod).

## Cardiau adnabod fel prawf oedran

Mae'n anghyfreithlon i blant o dan 18 oed geisio prynu alcohol ac mae yr un mor anghyfreithlon gwerthu neu gyflenwi alcohol iddynt hwy. Er mwyn atal troseddau o'r fath, efallai bydd angen gweithredu polisi mewn rhai mangreoedd trwyddedig sy'n ei gwneud yn ofynnol cynhyrchu “prawf oedran” cyn caniatáu gwerthiant o'r fath. Ni ddylid cyfyngu hyn yn unig i gardiau “prawf oedran” cydnabyddedig, ond dylid hefyd caniatáu cynhyrchu mathau eraill o brawf, megis trwyddedau gyrru â lluniau, cardiau myfyrwyr a phasport. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cefnogi'r system achredu PASS yn gryf sy'n ceisio cymeradwyo ac achredu amryw o gynlluniau prawf oedran sydd eisoes ar gael. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn cynnal safonau uchel, yn enwedig ym maes integriti a diogelwch, a lle bo hynny'n briodol ac angenrheidiol, fe all amodau gyfeirio'n benodol at gardiau prawf oedran, trwyddedau gyrru â lluniau, cardiau myfyrwyr a phasport a achredwyd gan PASS.

Dylid nodi hefyd nad yw llawer o oedolion yng Nghymru a Lloegr yn cario unrhyw brawf oedran ar hyn o bryd. Golyga hyn y bydd angen meddwl yn ofalus am eiriad unrhyw amod. Er enghraifft, mae amryw o fangreoedd wedi mabwysiadu “Her 21” neu gynlluniau tebyg. O dan “Her 21” mae mangreoedd sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol yn gofyn am weld tystiolaeth o oedran unrhyw unigolyn sy'n ymddangos yn iau na 21 oed ac sy'n ceisio prynu alcohol. Byddai hyn yn sicrhau y byddai angen i'r rhan fwyaf o unigolion dan oed - hyd yn oed y rhai sy'n edrych yn hŷn - gyflwyno prawf addas o'u hoedran cyn gwneud pryniad o'r fath.

Efallai y bydd prawf oedran hefyd yn angenrheidiol a pherthnasol i atal plant rhag niwed (gweler Rhan 5).

## Rhybuddion atal troseddu

Efallai bydd gofyn arddangos rhybuddion mewn rhai mangreoedd sy'n rhybuddio cwsmeriaid i fod ar eu gwyliadwriaeth rhag achosion o droseddu penodol. Efallai bydd rhai mangreoedd yn amharod i wirfoddoli arddangos rhybuddion o'r fath am resymau masnachol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, fe allai amod sy'n gysylltiedig â thrwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb ei gwneud yn ofynnol arddangos rhybuddion yn y fangre sy’n rhybuddio cwsmeriaid o'r angen i fod yn ymwybodol o bigwyr pocedi neu gipwyr bagiau, ac i ofalu am eu heiddo. Yn yr un modd, efallai bydd angen arddangos rhybuddion sy'n cynghori cwsmeriaid i beidio gadael eu bagiau ar eu pennau eu hunain oherwydd pryderon am derfysgaeth. Gellid ystyried amod sy'n ei gwneud yn ofynnol arddangos rhybudd gydag enw cyswllt ar gyfer cwsmeriaid os ydynt am adrodd ynghylch unrhyw bryderon.

## Hyrwyddo diodydd

Ni ddylid gosod amodau safonedig i drwyddedau mangre neu dystysgrifau mangre clwb sy'n hyrwyddo prisiau sefydlog am ddiodydd alcohol gan fod defnyddio amodau i reoli prisiau diodydd alcohol mewn ardal hefyd yn debygol o fod yn groes i ddeddf cystadleuaeth. Mae hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon i awdurdodau trwyddedu neu swyddogion heddlu i hyrwyddo trefniadau gwirfoddol o'r math yma, oherwydd y gallai arwain at greu cartelau.

Ar ben hyn, wrth ystyried unrhyw gyflwyniadau perthnasol sy'n dangos cyswllt achosol clir rhwng ymgyrchoedd gwerthiant neu ostyngiadau prisiau a lefelau trosedd ac anhrefn ar neu yng nghyffiniau'r fangre, byddai'n briodol i'r awdurdod trwyddedu ystyried bod angen gosod amod newydd yn gwahardd gwerthu neu ostwng prisiau diodydd alcohol mewn ffordd anghyfrifol yn y fangre honno. Er hynny, cyn dilyn unrhyw fath o gyfyngiadau o gwbl, dylai awdurdodau trwyddedu gael eu cyngor cyfreithiol eu hunain.

## Arwyddion

Efallai bydd angen arddangos yr oriau arferol o dan delerau trwydded y fangre neu dystysgrif mangre clwb lle caniateir gweithgareddau y gellir eu trwyddeduar neu yn union y tu allan i'r fangre fel ei bod yn glir os torrir telerau'r drwydded neu'r dystysgrif.

Yn yr un modd, efallai bydd angen arddangos unrhyw gyfyngiadau ar ganiatáu mynediad i blant ar y fangre neu yn union y tu allan i'r fangre fel bod canlyniadau

torri'r amodau hynny hefyd yn eglur ac er mwyn atal rhai a allai geisio mynediad yn groes i'r amodau hynny.

**Lleoliadau sy'n dal llawer o bobl a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf ar gyfer yfed alcohol ar eich traed (HVVDau)**

Mae mangreoedd sy'n dal llawer o bobl ar gyfer "yfed ar eich traed", sydd weithiau'n cael eu galw'n sefydliadau Yfed Fertigol Cyfaint Uchel, yn fangreoedd sy'n gallu dal nifer sylweddol iawn o bobl, ac fe'u defnyddir yn bennaf neu yn unig ar gyfer gwerthu ac yfed alcohol, ac nid oes ganddynt fawr ddim o fannau eistedd i gwsmeriaid neu ddim mannau eistedd o gwbl.

Lle mae hynny'n angenrheidiol ac addas, gellir gosod amodau ar drwyddedau y mangreoedd hyn sy'n gofyn am lynu wrth y canlynol:

- cynhwysiant penodedig;
- cymhareb addas o fyrddau a chadeiriau i gwsmeriaid ar sail y cynhwysiant; a
- phresenoldeb timau diogelwch sy'n meddu trwydded neu eithriad SIA perthnasol (gweler paragraffau 10.58-10.64) i reoli mynediad ar gyfer dibenion cydymffurfio gyda'r cyfyngiad ar gynhwysiant.

## RHAN 2.AMODAU'N YMWNEUD Â DIOGELWCH Y CYHOEDD

Ni fydd gosod amodau ar drwydded mangre drwyddedig neu dystysgrif mangre clwb yn rhyddhau cyflogwyr mewn unrhyw fodd rhag y ddyletswydd i gydymffurfio gyda gofynion deddfwriaeth arall gan gynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ayb, rheoliadau cysylltiedig ac yn arbennig y gofynion o dan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 i gynnal asesiadau risg. Dylai cyflogwyr asesu'r risgiau, gan gynnwys risgiau tân, a chymryd camau angenrheidiol i osgoi a rheoli'r risgiau hyn. Felly ni fyddai angen amodau'n gorfodi'r gofynion hynny.

O 1 Hydref 2006 disodlwyd deddfwriaeth diogelwch tân blaenorol gan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.Dylai awdurdodau trwyddedu nodi o dan adran 43 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 nad oes gan amodau a osodir gan yr awdurdod trwyddedu sy'n ymwneud ag unrhyw ofynion neu waharddiadau sydd wedi eu gosod neuy gellir eu gosod gan y Gorchymyn unrhyw effaith. Golyga hyn na ddylai awdurdodau trwyddedu geisio gosod amodau diogelwch tân lle mae'r Gorchymyn yn weithredol. Gweler Pennod 2 am fwy o fanylion am y Gorchymyn.

### Cyffredinol

Rhoddir ystyriaeth i faterion ychwanegol yn ymwneud â sinemâu a theatrau yn Rhan 3. Dylid cydnabod hefyd y gall materion arbennig godi mewn cysylltiad â digwyddiadau awyr agored neu ar raddfa fawr.

Yn ogystal ag ystyried y pwyntiau a wneir yn yr Atodiad hwn, dylai'r rhai hynny sy'n paratoi atodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol ystyried:

- Model National and Standard Conditions for Places of Public Entertainment and Associated Gudiance ISBN 1 904031 11 0 (Entertainment Technology Press – ABTT Publications)
- The Event Safety Guide – A guide to health, safety and welfare at music and similar events (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 1999) ("The Purple Book") ISBN 0 7176 2453 6
- Managing Crowds Safely (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2000) ISBN 0 7176 1834 X
- 5 Steps to Risk Assessment: Case Studies (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 1998) ISBN 07176 15804
- The Guide to Safety at Sports Grounds (Y Llyfrfa, 1997) ("The Green Guide") ISBN 0 11 300095 2
- Safety Guidance for Street Arts, Carnival, Processions and Large Scale Performances a gyhoeddwyd gan yr Independent Street Arts Network, y gellir cael copïau ohono drwy: www.streetartsnetwork.org.uk/pages/publications.htm

- Technical Standards for Places of Public Entertainmen" Cymdeithas Syrfewyr Rhanbarth Llundain ISBN 0 9531229 2 1

Dylid ystyried y Safonau Prydeinig a ganlyn hefyd:

- BS 5588 Rhan 6 (o safbwynt mannau ymgynnull)
- BS 5588 Rhan 9 (o safbwynt awyru a systemau tymheru awyr)
- BS 5588 Rhan 9 (o safbwynt moddion dianc i bobl anabl)
- BS 5839 (canfod tân, systemau larwm tân ac adeiladau)
- BS 5266 (systemau goleuo argyfwng)

**Yn y rhan fwyaf o fangreoedd bydd deddfwriaeth gyfredol yn darparu'n ddigonol ar gyfer diogelwch y cyhoedd neu aelodau clwb a'u gwesteion. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn wir, efallai y dylid ystyried yr amodau isod.**

## Gwiriadau diogelwch

- fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal cyn i'r cyhoedd fynd i mewn; a
- fod manylion gwiriadau o'r fath yn cael eu cadw mewn Llyfr log.

## Llwybrau dianc

- Cadw allanfeydd yn glir o unrhyw rwystr, gydag arwynebau gwastad, heb fod yn llithrig, heb unrhyw beryglon y gellid baglu drostynt ac wedi eu marcio'n eglur.
- Mewn tai bwyta a mangreoedd eraill lle darperir cadeiriau a byrddau gallai hyn gynnwys sicrhau hefyd fod pob tramwyfa'n cael ei chadw'n ddirwystr.
- Bod pob drws allanfa yn hawdd ei agor heb ddefnyddio allwedd, cerdyn, cod neu ddull cyffelyb.
- Yr edrychir dros ddrysau allanfeydd o'r fath yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n foddhaol, gan gadw cofnod i nodi hynny.
- Bod unrhyw folltiau diogelwch sy'n dod i ffwrdd yn cael eu tynnu pryd bynnag y bo'r fangre'n agored i'r cyhoedd neu pan fo'r staff yno.
- Bod ymylon stepiau a grisiau yn cael eu cynnal fel eu bod yn hawdd eu gweld.

## Pobl Anabl

- Pan fo pobl anabl yn bresennol, fod trefniadau digonol i'w cael i'w symud oddi yno'n ddiogel pe bai argyfwng; a bod pobl anabl yn y fangre'n cael gwybod am y trefniadau hyn.

## Goleuo

- Lle nad oes golau dydd digonol, bod y goleuo mewn unrhyw fan sy'n hygyrch i'r cyhoedd, aelodau neu westeion yn gweithio'n llawn pan fyddant yn bresennol.
- Nad yw goleuo argyfwng yn cael ei newid.
- Bod batris goleuo argyfwng wedi eu gwefru'n llawn cyn fod y cyhoedd, aelodau neu westeion yn dod i mewn.
- Os digwydd i'r goleuadau arferol fethu, lle bo'r batri goleuo argyfwng yn para un awr, fod trefniadau mewn llaw i ofalu fod y cyhoedd, aelodau neu westeion yn gadael y fangre o fewn 20 munud oni bai fod y golau arferol wedi dod yn ôl o fewn yr amser hwnnw a'r batri'n cael ei ail-wefru; ac, os yw'r batri goleuo argyfwng yn para tair awr, y cyfnod priodol y dylai'r cyhoedd fod wedi gadael y fangre cyn iddo ddod i ben yw un awr.

## Llenni, addurniadau a chlustogwaith

- Bod llenni ac addurniadau dros dro yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr gwrth-fflam.
- Na ddefnyddir addurniadau dros dro heb hysbysu'r awdurdod trwyddedu/awdurdod tân ymlaen llaw.

## Cyfyngiadau llety

- Y gwneir trefniadau i ofalu nad eir dros unrhyw gyfyngiad ar nifer a orfodir o dan y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb; ac
- Y dylai deiliad y drwydded, un o swyddogion y clwb, neu'r rheolwr neu oruchwyliwr dynodedig mangre fod yn ymwybodol faint o bobl sydd yn y fangre, a'i bod yn ofynnol iddo hysbysu unrhyw unigolyn ag awdurdod ar gais.

## Mynediad i gerbydau argyfwng

- Y cedwir mynediad yn glir ac yn ddirwystr i gerbydau argyfwng.

## Cymorth Cyntaf

- Bod cyflenwad digonol ac addas o offer a deunyddiau cymorth cyntaf ar gael yn y fangre.
- Os bo angen, bydd o leiaf un cynorthwywr cymorth cyntaf sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar gael pan fo'r cyhoedd yn bresennol, ac os bo mwy nag un cynorthwywr cymorth cyntaf sydd wedi cael hyfforddiant priodol, fod eu priod ddyletswyddau wedi eu nodi'n glir.

## Gosodiadau trydan dros dro

- Na ddarperir systemau gwifro a dosbarthu trydan heb [hysbysu'r awdurdod trwyddedu o leiaf ddeng niwrnod cyn dechrau'r gwaith] [archwiliad ymlaen llaw gan drydanwr priodol, cymwysedig],
- Bod systemau gwifro a dosbarthu trydan dros dro yn cydymffurfio gydag argymhellion Safon Brydeinig 7671 neu Safon Brydeinig 7909 lle bo'n berthnasol,
- Bod systemau gwifro a dosbarthu trydan dros dro yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan berson cymwys cyn eu bod yn cael eu defnyddio, os nad ydynt wedi eu gosod gan berson cymwys.

Gyda golwg ar y pwynt bwled cyntaf uchod, dylid cydnabod efallai na fydd deg diwrnod o rybudd yn bosibl lle bo timau technegol allanol yn cefnogi perfformiadau. Er enghraifft, lle gwneir gosodiadau trydan dros dro mewn theatrau ar gyfer perfformiadau sioe deledu. Mewn amgylchiadau felly, y prif ofyniad yw y dylai'r amodau sicrhau, lle bo angen, mai unigolion cymwys, cymwysedig yn unig, a gyflogir gan y cwmni teledu, er enghraifft, sy'n ymgymryd â gosodiadau trydan dros dro.

## Adloniant chwaraeon dan do

- Os bo angen, fod meddyg sydd wedi cymhwyso'n briodol yn bresennol drwy gydol adloniant chwaraeon sy'n cynnwys, bocsio, reslo, jiwdo, karate neu adloniant chwaraeon tebyg o natur gyffelyb.
- Lle bo cylch y rhan o'r chwarae, ei fod wedi ei adeiladu a'i gynnal gan berson cymwys a'i archwilio gan awdurdod cymwys, a bod unrhyw ddefnydd a ddefnyddir i lunio'r sgert o gwmpas y cylch yn wrth-fflam.
- Nad yw aelodau'r cyhoedd yn eistedd mewn unrhyw sedd o fewn 2.5 metr i'r cylch yn ystod unrhyw ymaflyd codwm neu adloniant o natur gyffelyb; ac
- Mewn adloniant chwaraeon dŵr, fod staff sydd wedi eu hyfforddi'n ddigonol mewn gweithdrefnau achub a diogelu bywyd wedi eu lleoli ac yn aros yn agos at y dŵr ar bob adeg o bwys (gweler hefyd Managing Health and Safety in Swimming Pools a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch a Sport England).

### Effeithiau arbennig

Mae'r defnydd o effeithiau arbennig mewn lleoliadau o bob math sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer adloniant wedi ei reoleiddio yn gynyddol gyffredin ac yn gallu peri risgiau sylweddol. Dylid trefnu a storio unrhyw effeithiau arbennig neu osodiad mecanyddol mewn modd sy'n lleihau i'r eithaf unrhyw risg i ddiogelwch y gynulleidfa, y perfformwyr a staff . Rhoddir rhagor o fanylion ac arweiniad yn Rhan 3.

### Newidiadau i'r fangre

Ni ddylai mangre gael ei newid yn y fath fodd fel ei bod yn amhosibl cydymffurfio ag amod trwydded cyfredol heb geisio amrywiad ar y drwydded mangre yn gyntaf yn cynnig dileu'r amod dan sylw yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd angen i'r ymgeisydd gynnig mewn atodlen weithredu newydd, sy'n adlewyrchu'r newid arfaethedig i'r safle, sut y mae'n bwriadu cymryd camau gwahanol i hyrwyddo'r amcan diogelwch y cyhoedd. Bydd y cais am amrywiad yn galluogi'r awdurdodau cyfrifol sy'n arbenigo mewn materion diogelwch i ystyried a yw'r cynnig yn dderbyniol.

### Mesurau eraill

Efallai bydd mesurau eraill a nodwyd mewn perthynas ag Atal Trosedd ac Anhrefn hefyd yn berthnasol yn ôl yr angen i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd. Fe all y rhain gynnwys darparu goruchwylwyr drysau, gwahardd poteli, a gofynion i ddefnyddio cynhwysyddion plastig neu wydr wedi'i gryfhau (gweler Rhan 1 am fwy o fanylion).

## RHAN 3.THEATRAU, SINEMÂU, NEUADDAU CYNGERDD A MANNAU TEBYG (HYRWYDDO DIOGELWCH Y CYHOEDD)

Yn ychwanegol at y pwyntiau a wneir yn Rhan 2, mae materion arbennig y dylid eu hystyried yng nghyd-destun diogelwch y cyhoedd a diogelwch tân mewn cysylltiad â theatrau a sinemâu.

## MANGREOEDD A DDEFNYDDIR AR GYFER CYNULLEIDFAOEDD SY'N EISTEDD YN AGOS AT EI GILYDD

### Hebryngwyr

(a) Dylai nifer yr hebryngwyr mewn awditoriwm lle mae'r seddau'n agos at ei gilydd ddilyn y tabl isod:

| Nifer aelodau'r gynulleidfa sy'n bresennol | Lleiafswm nifer yr hebryngwyr sydd eu hangen ar lawr i fod yn bresennol ar y llawr hwnnw |
|---|---|
| 1 – 100 | Un |
| 101 – 250 | Dau |
| 251 – 500 | Tri |
| 501 – 750 | Pedwar |
| 751 -1000 | Pump |
| Ac un hebryngwr ychwanegol ar gyfer pob 250 o bobl ychwanegol (neu ran o hynny) | |

(b) Ni chaniateir i hebryngwyr ymwneud ag unrhyw ddyletswyddau a fyddai'n eu rhwystro rhag cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-oed os byddai argyfwng neu a fyddai'n golygu eu bod yn absennol o'r llawr hwnnw neu'r awditoriwm lle maent ar ddyletswydd.

(c) Bydd yn hawdd i'r gynulleidfa adnabod unrhyw hebryngwr (ond nid oes rhaid i hyn olygu gwisgo gwisg unffurf).

(d) Ni chaniateir defnyddio'r fangre ar gyfer cynulleidfa sy'n eistedd yn agos at ei gilydd ond yn unol â'r cynllun(iau) eistedd, y bydd copi ohono ar gael yn y fangre ac a ddangosir i unrhyw unigolyn awdurdodedig ar gais.

(e) Ni chaniateir dodi unrhyw eitem ar gefn sedd a fyddai'n lleihau lled ddirwystr eisteddfannau neu'n achosi perygl baglu neu rwystr.

(f) Bydd copi o unrhyw dystysgrif yn ymwneud â dyluniad, gosod a llwytho unrhyw seddau dros dro yn cael ei gadw fel ei fod ar gael yn y fangre ac fe'i dangosir i unrhyw berson ag awdurdod ar gais.

## Seddau

Lle gallai'r gynulleidfa fod dros 250 dylai pob sedd yn yr awditoriwm, heblaw mewn bocsys lle nad oes lle ar gyfer mwy nag 8 o bobl, un ai gael eu gosod yn sownd yn y llawr neu eu hestyllu yn ei gilydd fesul dim llai na phedair neu ddim mwy na deuddeg.

## Sefyll ac eistedd mewn eiliau

(a) Ni chaniateir eistedd ar loriau ac eithrio lle bo hynny wedi ei ganiatáu yn y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb.

(b) Ni chaniateir aros neu sefyll ac eithrio yn y mannau a ddynodir yn y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb.

(c ) Ni chaniateir i unrhyw un, o dan unrhyw amgylchiadau-

(i) eistedd yn unrhyw eil

(ii) sefyll neu eistedd o flaen unrhyw allanfa; neu

(iii) sefyll neu eistedd ar unrhyw risiau gan gynnwys unrhyw landin.

## Diodydd

Ac eithrio fel yr awdurdodir gan y drwydded mangre neu'r dystysgrif mangre clwb, ni chaniateir i unrhyw ddiodydd gael eu gwerthu i gynulleidfa sy'n eistedd yn agos at ei gilydd, nac iddynt eu hyfed, heblaw eu bod mewn cynwysyddion plastig neu bapur.

## Ffryntiau Balconi

Ni chaniateir gosod dillad neu eitemau eraill dros reiliau balconi neu ar ffryntiau balconi.

## Effeithiau arbennig

Dylai unrhyw effeithiau arbennig neu osodiadau mecanyddol gael eu trefnu a'u storio mewn modd sy'n lleihau unrhyw risg i ddiogelwch y gynulleidfa, y perfformwyr a'r staff.

Mae effeithiau arbennig yn cynnwys:

- peiriannau iâ sych a niwl cryogenig;
- peiriannau mwg a generaduron mwg;
- pyrodechnegau, gan gynnwys tân gwyllt;
- fflamau go-iawn;
- arfau tân;
- cerbydau modur;
- goleuadau strôb;
- laserau
- ffrwydron a sylweddau hylosg iawn.

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn angenrheidiol mynnu fod yr awdurdod trwyddedu yn cael ei hysbysu ymlaen llaw cyn y caniateir defnyddio rhai effeithiau arbennig. Mewn achosion o'r fath dylai'r awdurdod trwyddedu hysbysu'r awdurdod tân ac achub a fydd yn gweithredu eu pwerau archwilio a gorfodi o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân ) 2005.

Rhoddir rhagor o arweiniad yn y cyhoeddiadau canlynol:

- Arweiniad Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch The Radiation Safety of lasers used for display purposes [HS(G) 95]
- Smoke and vapour effects used in entertainment' (Taflen Adloniant Rhif 3 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch);
- Special or visual effects involving explosives or pyrotechnics used in film and television production' Taflen Adloniant Rhif 16 yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch);
- Electrical safety for entertainers (HSE INDG 247)
- Theatre Essentials – Arweiniad a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Technegwyr Theatr Prydain

## Nenfydau

Dylai pob nenfwd yn y rhannau hynny o'r safle y caniateir mynediad i'r cyhoedd iddynt gael eu harchwilio gan unigolyn sydd wedi ei gymhwyso'n briodol a fydd yn penderfynu pryd fyddai angen archwiliad pellach ac yn anfon tystysgrif yn delio â chyflwr y nenfydau ymlaen i'r awdurdod trwyddedu.

## MANGREOEDD A DDEFNYDDIR AR GYFER DANGOS FFILMIAU

### Hebryngwyr – mangreoedd heb system rybuddio staff

Lle nad oes system rybuddio staff yn y fangre, dylai nifer yr hebryngwyr sy'n bresennol ddilyn y tabl isod:

| Nifer aelodau'r gynulleidfa sy'n bresennol yn y fangre | Lleiafswm nifer yr hebryngwyr yn bresennol yn y fangre sydd eu hangen ar ddyletswydd |
|---|---|
| 1 – 250 | Dau |
| Ac un hebryngwr ychwanegol ar gyfer pob 250 aelod ychwanegol o'r gynulleidfa sy'n bresennol (neu ran o hynny) | |
| Lle bo mwy na 150 aelodau bydd o leiaf un hebryngwr yn bresennol yn unrhyw gynulleidfa mewn unrhyw awditoriwm neu ar unrhyw lawr | Bydd o leiaf un hebryngwr yn bresennol mewn unrhyw awditoriwm neu ar unrhyw lawr |

### Hebryngwyr – mangreoedd â system rybuddio staff

(a) Lle bo system rybuddio staff yn y fangre, dylai nifer yr hebryngwyr sy'n bresennol ddilyn y tabl isod:

| Nifer aelodau'r gynulleidfa sy'n bresennol yn y fangre | Lleiafswm nifer hebryngwyr sydd ar ddyletswydd | Lleiafswm nifer yr hebryngwyr sydd ar gael i helpu mewn argyfwng |
|---|---|---|
| 1 – 500 | Dau | Un |
| 501 – 1000 | Tri | Dau |
| 1001 – 1500 | Pedwar | Pedwar |
| 1501 neu fwy | Pump ac un ar gyfer pob 500 dros 2000 yn y fangre | Pump ac un ar gyfer ar gyfer pob 500 o bobl (neu ran o hynny) dros 2000 yn y fangre |

(b) Nid ystyrir bod staff ar gael i helpu os bydd argyfwng yn digwydd os ydynt:

(i) yn ddeiliad y drwydded mangre neu'n rheolwr ar ddyletswydd yn y fangre; neu

(ii) yn aelod o staff y mae ei (d)dyletswyddau neu gyfrifoldebau arferol yn debygol o effeithio'n fawr neu arafu ei ymateb mewn sefyllfa o argyfwng; neu

(iii)yn aelod o staff y mae ei (l)leoliad arferol pan fo ar ddyletswydd dros 60 metr o'r lleoliad lle bydd angen iddo fynd o'i hysbysu am sefyllfa argyfwng.

(c) Cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol bosibl bydd yr holl hebryngwyr wedi eu dosbarthu'n gyfartal drwy bob rhan o'r fangre lle bo gan y cyhoedd fynediad ac yn cadw gwyliadwriaeth ar bob rhan o'r fangre lle bo gan y cyhoedd fynediad.

(d) Cedwir y system rybuddio staff mewn cyflwr gweithredol.

### Isafswm goleuo

Dylid cael cymaint ag sy'n bosib o olau yn yr awditoriwm fel y gellir cyflwyno'r ffilm yn effeithiol; ac fel arfer ystyrid bod lefel y golau a gedwir yn yr awditoriwm tra bo ffilmiau'n cael eu dangos yn foddhaol fel arfer os yw'n cyd-fynd â'r safonau a nodir yn Safon Brydeinig CP 1007 (Golau a Gynhelir ar gyfer Sinemâu).

## RHAN 4 AMODAU SY'N YMWNEUD AG ATAL NIWSANS CYHOEDDUS

Dylid nodi bod darpariaethau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 a Deddf Sŵn 1996 yn rhoi peth diogelwch i'r cyhoedd yn gyffredinol rhag effeithiau niwsans sŵn. Yn ychwanegol at hyn, mae'r darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn rhoi'r hawl i uwch swyddog heddlu gau yn syth am hyd at 24 awr fangre drwyddedig a mangre(oedd) sy'n cynnal gweithgareddau dros dro a gafodd eu caniatáu sy'n peri niwsans yn sgil sŵn yn dod o'r fangre. Dylid ystyried y materion hyn cyn penderfynu a oes angen amodau i atal niwsans cyhoeddus ai peidio.

### Oriau

Gellir cyfyngu'r oriau pryd y caniateir i'r fangre fod yn agored i'r cyhoedd neu i aelodau a'u gwesteion gan amodau trwydded mangre neu gan dystysgrif mangre clwb i atal niwsans cyhoeddus. Ond rhaid cydbwyso hyn â'r effaith bosibl ar anhrefn yn sgil amseroedd cau penodedig annaturiol o gynnar. Er hynny nid oes yno ragdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau trwyddedu a dylai'r pedwar amcan trwyddedu fod flaenaf ar bob adeg.

Gallai fod angen cyfyngiadau ar yr adegau pan fo rhai gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd er y gall y fangre fod yn agored i'r cyhoedd ar adegau o'r fath. Er enghraifft, gellid gwahardd chwarae cerddoriaeth sydd wedi ei recordio ar ôl amser penodedig, er y caniateid i weithgareddau eraill trwyddedadwy eraill barhau. Neu gellir caniatáu cerddoriaeth wedi'i recordio yn unig ar ôl amser penodedig lle gosodwyd amodau ynghlwm â'r drwydded neu'r dystysgrif er mwyn sicrhau bod unrhyw niwsans posib yn cael ei atal yn foddhaol.

Gallai fod angen cyfyngiadau ar rannau o’r fangre allai gael eu defnyddio ar gyfer rhai gweithgareddau trwyddedadwy ar rai adegau. Er enghraifft, er y gellid caniatáu darparu adloniant wedi ei reoleiddio tra bod y fangre yn agored i’r cyhoedd neu aelodau a’u gwesteion, efallai na chaniateid adloniant wedi ei reoleiddio yng ngerddi’r fangre ar ôl amser penodol.

Mewn rhai mangreoedd lle nad yw’r ddeddfwriaeth gyfredol yn darparu’n ddigonol ar gyfer atal niwsans cyhoeddus, gellid ystyried yr amodau canlynol:

## Sŵn a dirgrynu

Wrth bennu pa amodau sy’n angenrheidiol a phriodol dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol o’r angen i osgoi mesurau anghymesur a allai rwystro cynnal digwyddiadau sydd o fudd i'r gymuned, megis cerddoriaeth byw. Mae cyfyngwyr sŵn er enghraifft, yn ddrud iawn i'w prynu a’u gosod a byddent yn debygol o fod yn faich sylweddol i leoliadau llai. Gellid ystyried yr amodau canlynol:

- Nad yw sŵn na dirgrynu’n tarddu o’r fangre mewn modd sy’n creu niwsans i eiddo cyfagos. Gellid cyflawni hyn trwy un neu fwy o'r amodau canlynol:
  - gofyniad syml i gadw drysau a ffenestri’r fangre ar gau;
  - cyfyngu cerddoriaeth byw i un rhan benodol o'r adeilad;
  - symud lleoliad a chyfeiriad seinyddion o waliau allanol neu waliau sy’n ffinio â mangre breifat;
  - gosod llenni acwstig;
  - gosod sêl rwber o amgylch drysau;
  - gosod mowntiau rwber ar seinyddion;
  - ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad trwydded gymryd camau i sicrhau na fydd y gerddoriaeth yn uwch na lefel cefndir yn y lleoliad sensitif agosaf;
  - gofyn i ddeiliad y drwydded gynnal monitro rheolaidd i sicrhau bod lefelau cerddoriaeth allanol yn ormodol a chymryd camau addas yn ôl yr angen;
  - gosod cyfyngwyr sŵn ar offer chwyddo sain yn y fangre (a mesurau eraill os nad yw hynny'n llwyddiannus).
- Bod arwyddion amlwg, clir a darllenadwy yn cael eu harddangos ar bob allanfa yn gofyn i’r cyhoedd barchu anghenion trigolion lleol a gadael y fangre a’r ardal yn dawel.
- Y cyfyngir defnyddio ffrwydron, pyrodechnegau a thân gwyllt tebyg i hynny a fyddai’n achosi tarfu yn yr ardal o gwmpas; a
- Bod rhoi gwastraff – megis poteli – mewn cynwysyddion tu allan i’r fangre yn digwydd ar adegau pryd y tarfir cyn lleied â phosibl ar eiddo cyfagos.

## Arogleuon atgas

- Na chaniateir arogleuon atgas o fangreoedd trwyddedig a fyddai’n creu niwsans i eiddo cyfagos a bod y fangre’n cael ei awyru’n iawn.

## Llygredd golau

- Nad yw goleuadau sy’n fflachio neu oleuadau arbennig o lachar ar neu’r tu allan i fangre drwyddedig yn peri niwsans i eiddo cyfagos. Rhaid cydbwyso unrhyw amod o’r fath yn erbyn manteision goleuadau disglair mewn rhai mannau i atal trosedd ac anhrefn.

## Mesurau eraill

Efallai bydd mesurau eraill a nodwyd mewn perthynas ag Atal Trosedd ac Anhrefn hefyd yn berthnasol yn ôl yr angen i atal niwsans cyhoeddus. Fe all y rhain gynnwys darparu goruchwylwyr drysau, peidio caniatáu mynd â chynhwysyddion agored o'r fangre, a chyfyngiadau ar ardaloedd yfed (gweler Rhan 1 am fwy o fanylion).

## RHAN 5. AMODAU SY'N YMWNEUD Â DIOGELU PLANT RHAG NIWED

Dylai atodlen weithredu neu atodlen gweithredu clwb gyfeirio at unrhyw benderfyniad i eithrio plant o'r fangre yn gyfan gwbl. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen nodi yn yr atodlen weithredu y camau y bwriada'r ymgeisydd eu cymryd i hyrwyddo diogelu plant rhag niwed tra byddant yn y fangre. Fel arall, lle caniateir mynediad, dylai'r atodlen weithredu amlinellu'r camau i'w cymryd i hyrwyddo amddiffyn plant rhag niwed tra bônt yn y fangre.

### Mynediad i blant i fangre drwyddedig – yn gyffredinol

Dylid gosod cyfyngiadau ar fynediad plant o dan 18 oed i fangreoedd lle bo gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal lle bo angen diogelu plant rhag niwed. Mater i awdurdodau trwyddedu unigol fydd yr union bolisi a'r manylion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell (oni bai fod amgylchiadau'n caniatáu i'r gwrthwyneb):

- yn achos unrhyw fangre â chysylltiadau hysbys (ar ôl i dystiolaeth gael ei derbyn) gyda, neu sy'n debygol o:
  - beri yfed trwm neu sbri neu dan oed,
  - cyffuriau,
  - gamblo sylweddol, neu
  - unrhyw weithgaredd neu adloniant (pa un a yw'n adloniant wedi ei reoleiddio neu beidio) o natur rywiol amlwg neu ar gyfer oedolion.

  y dylai fod yno ragdybiaeth gref yn erbyn caniatáu unrhyw fynediad o gwbl i blant o dan 18 oed.
- ar gyfer unrhyw fangre, lle na weinir alcohol i'w yfed yn y fangre, ond lle caniateir i'r cyhoedd ddod i'r fangre ar ôl 11.00 y nos, dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn i blant dan 12 oed fod yn bresennol heb gwmni oedolyn ar ôl yr amser hwnnw.

Wrth baratoi atodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb neu amrywiadau ar yr atodlenni hynny at ddibenion cael neu amrywio trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, dylai ymgeiswyr sy'n dymuno caniatáu mynediad i blant i fangreoedd lle gallai'r cysylltiadau hyn fod yn berthnasol:

- egluro eu rhesymau; ac
- amlinellu'n fanwl y camau y bwriadant eu cymryd i ddiogelu plant rhag niwed mewn mangreoedd o'r fath.

Mewn unrhyw achos arall, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell, yn amodol ar ddisgresiwn deiliad trwydded y safle neu'r clwb, disgwylid mynediad heb ei gyfyngu i blant yn ddarostyngedig i delerau Deddf 2003.

### Cyfyngiadau oed – penodol

Er y gall fod yn briodol caniatáu mynediad heb ei gyfyngu i blant ar adegau penodol a phan nad yw rhai gweithgareddau'n mynd ymlaen, bydd angen i awdurdodau trwyddedu ystyried:

- oriau'r dydd pryd y dylai cyfyngiadau oed fod yn berthnasol a phryd na ddylent. Er enghraifft, nid yw'r ffaith y gellid cyflwyno adloniant oedolion mewn mangre ar ôl 8.00pm olygu y byddai angen gorfodi cyfyngiadau oed ar gyfer rhannau cynharach o'r dydd;
- mathau o ddigwyddiad neu weithgaredd nad oes angen unrhyw gyfyngiad oed ar eu cyfer, er enghraifft:
  - adloniant teulu; neu
  - digwyddiadau dim-alcohol ar gyfer grwpiau oedran iau, fel dawnsfeydd o dan 18 oed,
- mathau o ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n peri angen mwy dwys am gyfyngiadau oed nag arfer, er enghraifft:

- yn ystod "Oriau Hapus" neu nosweithiau hyrwyddo diodydd;
- yn ystod gweithgareddau a amlinellir yn y pwynt bwled cyntaf yn y paragraff cyntaf uchod.

## Cyfyngiadau oed – sinemâu

Mae'r Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig yn buddsoddi llawer o adnoddau ac arbenigedd yn y gwaith o ddosbarthu ffilmiau. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell felly na ddylai awdurdodau trwyddedu ddyblygu'r ymdrech hon drwy ddewis dosbarthu ffilmiau eu hunain. Y dosbarthiadau a argymhellir gan y Bwrdd yw'r rhai y dylid eu defnyddio fel rheol oni bai bod rhesymau lleol da iawn i awdurdod trwyddedu gymryd y swyddogaeth hon. Dylai awdurdodau trwyddedu nodi bod darpariaethau Deddf 2003 yn eu galluogi i nodi'r Bwrdd yn y drwydded neu'r dystysgrif ac, mewn perthynas â ffilmiau unigol, i hysbysu'r deiliad neu'r clwb y bydd yn gwneud argymhelliad ar gyfer y ffilm arbennig honno.

Dylai awdurdodau trwyddedu fod yn ymwybodol bod y Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig ar hyn o bryd yn dosbarthu ffilmiau fel a ganlyn:

- U – Cyffredinol – addas i bawb
- PG – Arweiniad Rhieni. Gall rhai golygfeydd fod yn anaddas i blant ifanc.
- 12A – Pasiwyd i gael eu gwylio gan rai 12 oed neu hŷn neu gan rai iau yng nghwmni oedolyn yn unig.
- 15 – Pasiwyd i gael eu gwylio gan rai 15 oed a hŷn yn unig.
- 18 – Pasiwyd i gael eu gwylio gan rai 18 oed a hŷn yn unig.

Dylai awdurdodau trwyddedu nodi y bydd y dosbarthiadau hyn yn newid o dro i dro a dylid mynd i wefan y Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig yn www.bbfc.co.uk cyn gweithredu'r amodau perthnasol.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn, yn ogystal â'r amod gorfodol a osodir yn rhinwedd adran 20, y dylai amodau'n cyfyngu mynediad i blant i arddangosfeydd ffilmiau gynnwys:

- amod lle bo'r awdurdod trwyddedu ei hun yn gwneud argymhellion ynglŷn â rhoi mynediad i blant i ffilmiau, fod yn rhaid i'r sinema neu'r sawl sy'n gweithredu'r lleoliad gyflwyno unrhyw ffilm y bwriada ei dangos i'r awdurdod 28 diwrnod cyn y mae'n bwriadu ei dangos. Gwneir hyn er mwyn rhoi amser i'r awdurdod ei dosbarthu fel y gall deiliad y drwydded mangre lynu wrth unrhyw gyfyngiadau oed a orfodir;
- fod amodau'n nodi fod yn rhaid arddangos ar y sgrîn am o leiaf bum eiliad, yn union cyn pob dangosiad o ffilm a basiwyd gan Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydain, ac yn y fath fodd fel y gall pawb sydd yn yr awditoriwm ei ddarllen yn hawdd, atgynhyrchiad o dystysgrif y Bwrdd neu, yn achos rhaglen yn hysbysebu ffilm, atgynhyrchiad o'r datganiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn nodi dosbarthiad y ffilm;
- amod pan fo awdurdod trwyddedu wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â chyfyngu mynediad i blant i ffilm, bod angen arddangos hysbysiadau tu mewn a thu allan i'r fangre fel y gellir rhoi ar ddeall yn rhwydd i bobl sy'n dod i mewn beth yw'r dosbarthiad a roddwyd ar unrhyw lun neu raglun:

"Lle bo rhaglen yn cynnwys ffilm y mae'r awdurdod trwyddedu'n argymell ei bod yn dod o fewn categori sy'n cyfyngu oedran ni chaniateir mynediad i unrhyw berson sy'n ymddangos o dan yr oed a bennwyd i unrhyw ran o'r rhaglen; lle mae rhaglen yn cynnwys ffilm y mae awdurdod trwyddedu wedi argymell y dylid ei osod mewn categori sy'n gofyn i unrhyw unigolyn o dan oed neilltuol fod yng nghwmni oedolyn yna ni fydd unrhyw unigolyn sy'n ymddangos eu bod o dan yr oed a bennwyd yn cael mynediad i unrhyw ran o'r rhaglen heb fod yng nghwmni oedolyn, a bydd deiliad y drwydded yn arddangos rhybudd eglur yn nodi'r cyfyngiadau a gofynion oedran perthnasol mewn man amlwg. Er enghraifft:

**NI CHANIATEIR MYNEDIAD I BERSONAU O DAN [RHODDER YR OEDRAN PRIODOL I MEWN] OED I UNRHYW RAN O'R RHAGLEN**

Lle bo ffilmiau o wahanol gategorïau'n ffurfio rhan o'r un rhaglen, bydd y rhybudd yn cyfeirio at y cyfyngiad oed hynaf.

Nid yw'r amod hwn yn berthnasol i aelodau staff o dan yr oed perthnasol tra byddant ar ddyletswydd ar yr amod y cafwyd caniatâd ysgrifenedig rhiant neu warcheidwad cyfreithlon y person ymlaen llaw."

## Theatrau

Ni ddisgwylir cyfyngu mynediad plant i theatrau, fel yn achos mangreoedd trwyddedig eraill, fel arfer oni bai fod angen hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ddiogelu plant rhag niwed. Ond mae theatrau'n gallu bod yn lleoliad ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau. Fel arfer disgwylir mai mater a adewir i ddisgresiwn deiliad y drwydded yw mynediad i blant i berfformiad drama ac ni ddylid gosod unrhyw amod yn cyfyngu mynediad blant i ddramâu. Ond mae theatrau hefyd yn gallu cyflwyno adloniant sy'n cynnwys sioeau amrywiaethol, er enghraifft, sioeau amrywiol yn cynnwys adloniant ar gyfer oedolion. Gall fod yn angenrheidiol cael amod yn cyfyngu mynediad i blant mewn amgylchiadau o'r fath. Gellir cyflwyno adloniant mewn theatrau yn arbennig ar gyfer plant hefyd (gweler isod).

Disgwylir i awdurdodau trwyddedu ystyried hefyd a ddylid gosod amod ar drwydded mangre sy'n mynnu fod nifer digonol o staff sy'n oedolion yn bresennol ar y safle i sicrhau lles plant sy'n bresennol ar y safle yn ystod argyfwng (Gweler Rhan 3).

## Perfformiadau yn arbennig ar gyfer plant

Lle cyflwynir perfformiadau yn arbennig ar gyfer plant heb oedolion yn gwmni iddynt mewn theatrau a sinemâu disgwylir y bydd angen amodau sy'n mynnu:

- fod hebryngwr wedi ei osod yn y fan/mannau ble mae'r plant, yn agos at bob allanfa, ar yr amod, mai lleiafswm nifer yr hebryngwyr ar ddyletswydd ar bob lefel lle bo plant ddylai fod un hebryngwr ar gyfer pob 50 o blant neu ran o hynny.

Dylai awdurdodau trwyddedu hefyd ystyried a ddylid caniatáu sefyll ai peidio. Er enghraifft, gallai fod llai o berygl i blant yn y llawr nag ar lefelau neu mewn rhannau eraill o'r adeilad.

## Plant mewn perfformiadau

Mae llawer o gynyrchiadau bob blwyddyn sy'n sioeau untro a'r cast yn cynnwys plant yn gyfan gwbl bron. Gallant fod yn cymryd rhan fel unigolion neu fel rhan o glwb drama, ysgol ddrama neu grŵp ysgol. Gall y rhai sy'n cymryd rhan amrywio mewn oedran o 5 i 18.Mae Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 fel y maent wedi eu newid yn nodi'r gofynion ar gyfer plant yn perfformio mewn sioe. Dylai awdurdodau trwyddedu ymgyfarwyddo gyda gofynion y rheoliadau hyn ac ni ddylent ailadrodd unrhyw rai o'r gofynion hyn. Ond os oes angen ystyried gosod amodau, yn ychwanegol at y gofynion hyn, i hyrwyddo diogelu plant rhag niwed, yna dylai'r awdurdod trwyddedu ystyried y materion a nodir isod.

- **Lleoliad** – dylai'r cyfleusterau yng nghefn y llwyfan fod yn ddigon mawr i gynnwys nifer y plant sy'n cymryd rhan yn unrhyw berfformiad yn ddiogel.

- **Effeithiau arbennig** – gall fod yn amhriodol defnyddio rhai effeithiau arbennig, gan gynnwys mwg, iâ sych, goleuadau sy'n dychlamu neu'n fflachio'n gyflym, sy'n gallu ysgogi adwaith niweidiol yn arbennig yn achos plant.
- **Gofal Plant** - mae theatrau, neuaddau cyngerdd a llefydd tebyg yn fannau gwaith ac yn gallu cynnwys llawer o offer allai fod yn beryglus. Felly mae'n bwysig fod plant sy'n perfformio mewn mangreoedd o'r fath yn cael eu goruchwylio gan oedolion bob amser gan gynnwys symud o'r llwyfan i ystafell wisgo ac unrhyw fan arall ar y safle. Mae'n bwysig gallu rhoi cyfrif o'r plant bob amser hefyd rhag ofn y bydd angen gwagio neu rhag ofn argyfwng.

#### Cod Ymddygiad Grŵp Portman ar Enwi, Pecynnu a Hyrwyddo Diodydd Alcoholaidd

Mae Grŵp Portman yn gweithredu Cod Ymddygiad ar Enwi, Pacio a Hyrwyddo Diodydd Meddwol ar ran y diwydiant alcohol. Nod y Cod yw sicrhau fod diodydd yn cael eu pecynnu a'u hyrwyddo mewn dull cymdeithasol gyfrifol a dim ond i'r rhai hynny sy'n 18 oed neu hŷn na hynny. Ystyrir cwynion ynglŷn â chynnyrch o dan y Cod gan Banel Cwynion Annibynnol a chyhoeddir penderfyniadau'r Panel ar wefan Grŵp Portman, ym mhapurau newydd y fasnach ac mewn adroddiad blynyddol. Os ceir bod pecynnu neu hysbysebu pwynt talu cynnyrch yn torri'r Cod, gall Grŵp Portman gyhoeddi Bwletin Hysbysu Adwerthwyr i roi gwybod i adwerthwyr am y penderfyniad ac i ofyn iddynt beidio adnewyddu stociau o unrhyw gynnydd o'r fath nac arddangos defnydd pwynt talu o'r fath, hyd nes y cydymffurfir â'r penderfyniad. Mae'r Cod yn fecanwaith pwysig i ddiogelu plant rhag niwed oherwydd mae'n ymdrin ag enwi, marchnata a hyrwyddo cynhyrchion alcohol a werthir mewn mangreoedd trwyddedig mewn dull allai apelio at rai dan oed neu eu denu.

Lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, gellir ystyried gosod amodau ar drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb sy'n mynnu fod yn rhaid cydymffurfio gyda Bwletinau Hysbysu Adwerthwyr Grŵp Portman.

### Cardiau Profi Oed

Trafodir cardiau profi oed o dan Rhan 1 mewn cysylltiad ag atal troseddu ac anhrefn. Ond, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, gellid gosod gofyniad i ddangos cardiau profi oed cyn y gwerthir unrhyw alcohol ar unrhyw drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb i ddiogelu plant rhag niwed.

Mae cardiau profi oed hefyd yn gallu sicrhau fod gwiriadau priodol yn cael eu gwneud lle cyfyngir presenoldeb plant drwy oed, fel 16 oed ar adegau.

Gan nad yw llawer o oedolion yng Nghymru a Lloegr yn cario unrhyw brawf o'u hoed arnynt ar hyn o bryd. Golyga hyn y bydd angen meddwl yn ofalus am eiriad unrhyw amod. Er enghraifft, mae llawer o fangreoedd wedi mabwysiadu "Her 21" neu gynlluniau tebyg. Yng nghynllun "Her 21" mae'r mangreoedd hynny sy'n gwerthu neu gyflenwi alcohol yn gofyn am gael gweld prawf o oed gan unrhyw berson sy'n ymddangos o dan 21 oed ac sy'n ceisio prynu alcohol. Byddai hyn yn sicrhau fod y rhan fwyaf o rai dan oed – hyd yn oed y rhai sy'n edrych yn hŷn – angen dangos tystiolaeth i brofi eu hoed yn briodol cyn prynu unrhyw beth felly.

# Atodiad E
# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

## MENTER PARTNERIAETHAU CYMDEITHAS CWRW A THAFARNDAI PRYDAIN

Mae'r Llywodraeth a Chymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain (BBPA) yn ymroi i annog cyfranogiad gwirfoddol grwpiau trwyddedai yn eu Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn; ac annog Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn a chynrychiolwyr lleol y diwydiant lletygarwch i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth. Ers mis Mawrth 2000, mae 240 o Bartneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn wedi ceisio ymglymiad y diwydiant yng ngwaith eu partneriaeth. Mae'r Llywodraeth a'r BBPA yn parhau i weithio tuag at annog cyfranogiad pellach.

## PUBWATCH CENEDLAETHOL A CHYNLLUNIAU PUBWATCH LLEOL

Mae cynlluniau Pubwatch wedi bodoli ledled y Deyrnas Unedig ers dros 20 mlynedd ac maent yn amrywio o ran maint o dros 200 o fangreoedd mewn dinasoedd i gynlluniau bychain gwledig a chanddynt cyn lleied â 5 mangre. Yr egwyddor gweithio sylfaenol sy'n tanategu cynllun Pubwatch yw bod trwyddedigion y mangreoedd dan sylw yn cytuno ar nifer o bolisïau i frwydro yn erbyn unigolion sy'n bygwth difrod, anhrefn a thrais neu sy'n delio mewn cyffuriau yn eu mangre. Fel arfer, mae'r camau a gymerir yn cynnwys gwrthod gweini ar unigolion sy'n achosi, neu y gwyddid eu bod wedi achosi, y math yma o broblemau. Mae gwrthod mynediad neu wrthod gweini ar y rheiny sy'n achosi helynt wedi bod yn effeithiol wrth leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Er mwyn bod yn effeithiol, mae'n rhaid i unrhyw gynllun Pubwatch weithio'n agos gyda'r heddlu, awdurdodau trwyddedu ac asiantaethau eraill. Mae Pubwatch Cenedlaethol yn sefydliad gwbl wirfoddol a sefydlwyd i gefnogi cynlluniau Pubwatch presennol ac i annog cynlluniau pubwatch newydd gyda'r nod o gael amgylchedd yfed cymdeithasol saff a diogel ym mhob mangre trwyddedig ar draws y DU, gan helpu i leihau trais sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol.

Mae Arweiniad Arfer Da Pubwatch Cenedlaethol yn rhoi cyngor ar sut i sefydlu cynlluniau o'r fath yn lleol ac mae'n cynnwys Codau Ymarfer ar rannu gwybodaeth, ffotograffau a pholisïau gwahardd gyda golwg ar gyfrifoldebau o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Dylai awdurdodau trwyddedu ymgyfarwyddo â chynlluniau Pubwatch sy'n gweithredu yn eu hardaloedd a chefnogi eu hamcanion. Mae gwybodaeth ynglŷn â Pubwatch ar gael ar eu gwefan: www.nationalpubwatch.org.uk

## BEST BAR NONE

Datblygwyd cynllun Gwobrau Best Bar None gan brosiect Canol Dinas Manceinion Diogel ar ddiwedd 2001 fel rhan o'i gylch gorchwyl cyffredinol i ymdrin â throseddau cysylltiedig ag alcohol. Mae'r cynllun yn darparu cymhelliant i weithredwyr godi safonau rheoli ac mae'n cydweddu â chamau gweithredu gorfodaeth wedi'i dargedu.

Elfennau allweddol Best Bar None yw:

- hyrwyddo rheolaeth gyfrifol yn y fasnach trwyddedu;
- hyrwyddo yfed cymdeithasol cyfrifol;
- ymrwymiad i ofalu ac amddiffyn cwsmeriaid;
- ymrwymiad i leihau'r potensial ar gyfer anhrefn mwn canol trefi a mannau cyhoeddus yn sgil camddefnyddio alcohol.

Mae asesu yn cynnwys archwilio polisi ac arfer mewn ystod eang o feysydd yn cynnwys, er enghraifft:

- polisïau ac arferion drysau;
- darpariaeth cymorth cyntaf;
- darpariaeth iechyd a diogelwch;
- polisi ac arfer wrth ddelio â chwsmeriaid;
- delio ag enghreifftiau o gamddefnyddio alcohol;

- gofal bugeiliol o gwsmeriaid, yn cynnwys darparu cyngor a gwybodaeth;
- polisi ac arfer wrth ddelio â chyffuriau;
- rheoli ymddygiad cwsmeriaid;
- sylw i fanylion wrth gydymffurfio â safonau trwyddedu;
- cynnwys pob rhanddeiliad perthnasol wrth ddelio â'r materion allweddol.

Mae mwy o wybodaeth am Best Bar None a rhagor o fanylion cyswllt ar gael ar y wefan: www.bestbarnone.com

## CLYBIO DIOGELACH – CYFFURIAU MEWN CLYBIAU

Amlinellodd y Llywodraeth ei ymrwymiad i ymdrin â chyffuriau mewn clybiau ym 1998 yn ei strategaeth “Mynd i’r afael â Chyffuriau i Adeiladu Gwell Prydain”. Yn 2001, cynhyrchodd y Swyddfa Gartref a Fforwm Polisi Cyffuriau Llundain ganllaw o’r enw “Clybio Diogelach”a gafodd, drwy adeiladu ar lwyddiant blaenorol “Dawnsio tan y Bore yn Ddiogel”, ei groesawu’n genedlaethol ac mae’n ddogfen ddefnyddiol iawn i swyddogion trwyddedu, rheolwyr a hyrwyddwyr clybiau. Cafodd y nod o leihau’r niwed posibl trwy reoli lleoliadau dawns yn well ei gadarnhau yn “Diweddaru’r Strategaeth Gyffuriau” 2003 sydd ar gael gyda “Clybio Diogelach” yn www.drugs.gov.uk

Elfen allweddol o’r strategaeth sy’n cael ei ddisgrifio yn “Clybio Diogelach” yw’r defnydd o amodau trwyddedu angenrheidiol a phriodol i reoli amgylchedd mangreoedd perthnasol. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn cymeradwyo’r ddogfen hon at ddefnydd yr heddlu, pob awdurdod trwyddedu, pob awdurdod cyfrifol a phob person awdurdodedig o dan Ddeddf 2003.

Mae “Clybio Diogelach” yn argymell bod pob Tîm Gweithredu ar Gyffuriau a chanddynt glybiau yn eu hardal, yn achub y blaen wrth gael yr heddlu, perchnogion a hyrwyddwyr clybiau, awdurdodau lleol ac asiantaethau cyffuriau lleol i eistedd gyda’i gilydd a chynllunio strategaeth sy’n sicrhau bod digwyddiadau dawns yn digwydd mewn amgylchedd sydd mor saff â phosibl. Hefyd, efallai bod angen cynnwys partneriaethau amlasiantaeth presennol, fel Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn, neu grwpiau rheoli canol dref, wrth ddatblygu strategaeth.

Mae “Clybio Diogelach” hefyd yn dangos bod clybiau eu hunain yn gyfrifol am ddatblygu polisi cyffuriau ac mewn llawer o achosion byddant yn dymuno cysylltu â’r Tîm Gweithredu ar Gyffuriau (DAT) er mwyn gwneud hyn. Bydd angen i glybiau a’u perchnogion weithio gyda’r heddlu, awdurdodau lleol a thrwyddedu a gwasanaethau cyffuriau, fel y’u cynrychiolir ar y DAT, i ddatblygu polisi cyffuriau sy’n brwydro yn erbyn delio a defnyddio cyffuriau a sicrhau diogelwch eu lleoliad. Mae rhai ffactorau’n gwaethygu’r risg i ddiogelwch y rheiny sy’n cymryd cyffuriau. Mae’r rhain yn cynnwys cymryd cyfuniad o gyffuriau rheoledig a/neu gymysgu’r rhain gydag alcohol a gorboethi a gwneud ymarfer corff nes eu bod yn lluddedig. Mae’r holl ffactorau hyn yn gyffredin mewn digwyddiadau dawns. Defnyddir llawer o gyffuriau, a chyfuniadau o gyffuriau, mewn clybiau a dylid hyfforddi staff fel eu bod yn gallu adnabod y symptomau a dylai aelodau o’r staff fod wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf priodol. Yn aml, mae camddefnyddio cyffuriau hamdden yn cynnwys Ecstasi, ac mae tua 80-100 o bobl wedi marw o’i herwydd yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf. Bu’r rhan fwyaf o’r marwolaethau hyn o ganlyniad i drawiad gwres llym. Yn y rhan fwyaf o achosion, cafodd y trawiad gwres ei achosi gan gyfuniad o ffactorau:

- mae Ecstasi’n peri i dymheredd y corff godi’n sylweddol;
- mae dawnsio di-baid yn codi’r tymheredd yma’n uwch byth;
- mae awyriad gwael, lleoliadau gorboeth sy’n orlawn yn codi’r tymheredd ymhellach;
- mae peidio ag yfed digon o ddŵr (neu ddiodydd eraill nad ydynt yn rhai alcoholig) yn gwaethygu diffyg hylif ac yn amharu ar allu’r corff i oeri ei hun; a
- gall cymryd alcohol neu gyffuriau eraill gydag Ecstasi beri i’r corff orboethi ymhellach.

Gall amodau trwyddedu effeithio ar yr holl ffactorau hyn. Hefyd, anogir awdurdodau trwyddedu i sicrhau bod eu swyddogion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau allweddol canlynol:

- rhoi gwybodaeth glir ar bolisi'r awdurdod trwyddedu ar glybio diogelach yn ei ddatganiad o bolisi lleol;
- darparu gwybodaeth glir ar sut i baratoi atodlenni gweithredu neu atodlenni gweithredu clwb i gefnogi ceisiadau am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb;
- darparu hyfforddiant sefydlu i gynghorwyr sy'n aelodau o bwyllgorau trwyddedu;
- rhoi cyngor i berchnogion lleoliadau ar sut i sefydlu a chynnal amgylchedd diogel;
- rhoi cyngor i berchnogion lleoliadau, mewn partneriaeth â swyddogion trwyddedu'r heddlu, ar ddatblygu polisi cyffuriau lleoliad;
- rhoi cyngor i weithredwyr lleoliad ar beth i'w wneud os bydd argyfwng lle gwyddid neu amheuir bod cyffuriau'n gysylltiedig â'r argyfwng;
- sicrhau bod digon o bobl sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ar gael men lleoliad a'u bod wedi'u hyfforddi i safon uchel;
- hysbysu clybwyr o'u hawliau;
- cysylltu â swyddogion trwyddedu'r heddlu a swyddogion eraill i sicrhau cyfathrebiad da parthed lleoliadau sydd o bosibl yn beryglus;
- annog lleoliadau i ddefnyddio gwasanaethau allgymorth;
- annog lleoliadau i ddarparu cludiant diogel i gwsmeriaid i'w cartrefi;
- cynnal arolygon o farn clybwyr ar agweddau diogelwch gwahanol leoliadau lleol;
- monitro gweithrediad clybiau pan maent ar eu prysuraf;
- sicrhau bod goruchwylwyr drws wedi'u cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch;
- sicrhau bod goruchwylwyr drws wedi'u hyfforddi'n iawn; ac
- annog darpariaeth dŵr oer am ddim a "mannau ymlacio" fel nad yw clybwyr yn dadhydradu neu'n mynd yn lluddedig.

Mae Clybio Diogelach wedi'i anelu'n uniongyrchol at leoliadau clwb hwyr y nos sydd wedi'u cysylltu â chamddefnyddio cyffuriau. Bydd yn cael ei ddiweddaru yn 2004 i gymryd i ystyriaeth yr angen i sicrhau diogelwch pobl sy'n mynychu digwyddiadau ym mhob mangre trwyddedig, sydd bellach yn gallu gweithredu'r math o ddigwyddiadau cerddorol y mae pobl yn fwy tebygol o gymryd cyffuriau ynddynt.

Mae "Clybio Diogelach" yn ymdrin â chyffuriau a chlybiau nos. Mae'r Swyddfa Gartref, mewn cydweithrediad â'r Adran Iechyd, y DCMS a rhanddeiliaid allweddol, hefyd wedi cynhyrchu'r Arweiniad i Glybio Diogelach sy'n cynnwys cyngor newydd cynhwysfawr i berchnogion clybiau, hyrwyddwyr digwyddiadau dawns ac adrannau trwyddedu awdurdodau lleol presennol ar sut i ddiogelu iechyd a lles pawb sy'n mynychu digwyddiadau dawns yn Lloegr. Mae'r Arweiniad ar gael yn llawn yn www.drugs.gov.uk

## YMCHWIL

Am wybodaeth ar niwed cyffredinol sy'n gysylltiedig ag alcohol, a'r berthynas rhwng alcohol a throsedd, gwahoddir awdurdodau trwyddedu i edrych ar bapur dadansoddi dros dro Uned Strategaeth y Prif Weinidog a gynhyrchwyd er mwyn crynhoi'r dystiolaeth yn seiliedig ar bob math o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol www.strategy.gov.uk/work_areas/alcohol_misuse/interim.asp. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar ymchwil trosedd sy'n gysylltiedig ag alcohol ar gael ar dudalen ymchwil alcohol a throsedd y Swyddfa Gartref http://www.homeoffice.gov.uk/rds/alcohol1.html. Hefyd, mae'n bwysig i ardaloedd lleol ddeall eu problemau trosedd sy'n gysylltiedig ag alcohol eu hunain. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu arweiniad ar gyfer asiantaethau lleol i'r gwahanol ffynonellau o ddata sydd ar gael a sut i'w chasglu er mwyn archwilio i broblemau lleol yn ddigonol http://www.homeoffice.gov.uk/rds/dprpubs1.html.

Dyma rai o brif ganfyddiadau'r Arolwg Trosedd Prydeinig mewn perthynas ag alcohol a throsedd:

- Mae bron i hanner o'r holl drais a gyflawnir yn gysylltiedig ag alcohol (47%)
- Mae trais tuag at ddieithriaid a phobl y mae'r troseddwr yn eu hadnabod yn fwy tebygol o ddigwydd gan rywun sydd dan ddylanwad alcohol (58% a 51% yn eu trefn)
- Mae un o bob 5 digwyddiad treisgar yn digwydd mewn neu o gwmpas tafarn neu glwb (21%)
- Mae chwarter o'r boblogaeth yn credu bod ymddygiad meddw neu stwrllyd yn broblem 'gweddol' fawr neu'n broblem 'mawr iawn' yn eu hardal leol.

## DIOGELWCH Y CYHOEDD

Mae yna nifer o gyhoeddiadau diogelwch allweddol yng nghyd-destun adloniant rheoledig y dylai awdurdodau trwyddedu fod yn gyfarwydd â nhw. Maent yn cynnwys:

- The Event Safety Guide – A guide to health, safety and welfare at music and similar events (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 1999) ("The Purple Book") ISBN 0 7176 2453 6
- Managing Crowds Safely (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2000) ISBN 0 7176 1834 X
- 5 Steps to Risk Assessment: Case Studies (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 1998) ISBN 07176 15804
- The Guide to Safety at Sports Grounds (Y Llyfrfa, 1997) ("The Green Guide") ISBN 0 11 300095 2
- Safety Guidance for Street Arts, Carnival, Processions and Large Scale Performances a gyhoeddwyd gan yr Independent Street Arts Network, mae copïau ohono ar gael yn www.streetartsnetwork.org.uk/pages/publications.htm

## CYMWYSTERAU SY'N CEFNOGI'R AMCANION TRWYDDEDU

Mae ystod o gymwysterau ar gael gan y British Institute of Innkeeping (BII) a ddyluniwyd i gefnogi'r amcanion trwyddedu yn ogystal â'r gofyniad statudol bod deiliaid trwyddedau personol yn meddu ar gymhwyster trwyddedu achrededig. Mae'r rhain yn cynnwysy Dystysgrif Genedlaethol ar gyfer Trwyddedigion Adloniant, y Dystysgrif Genedlaethol ar gyfer Trwyddedigion (Ymwybyddiaeth Cyffuriau), y Dystysgrif Genedlaethol ar gyfer Goruchwylwyr Drws a Thystysgrif Genedlaethol Gweithwyr Bar. Hefyd, mae'r BII yn datblygu ystod bellach o gyrsiau a chymwysterau sy'n cwmpasu materion fel asesu risg, rheoli gwrthdaro, gweithrediadau manwerthu a gwerthu cynnyrch a chanddynt gyfyngiadau oed. Mae mwy o wybodaeth ar gael drwy gysylltu â'r BII mewn neges e-bost yn y cyfeiriad canlynol: info@bii. org

## COD YMARFER Y GRŴP PORTMAN AR ENWI, PECYNNU A HYRWYDDO DIODYDD ALCOHOLIG

Mae'r Grŵp Portman yn gweithredu Cod Ymarfer ar ran y diwydiant alcohol, ar Enwi, Pecynnu a Hyrwyddo Diodydd Alcoholig. Mae'r Cod yn ceisio sicrhau bod diodydd yn cael eu pecynnu a'u hyrwyddo mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol a dim ond ar gyfer y rheiny sy'n 18 oed neu'n hŷn. Caiff cwynion a geir o dan y Cod eu hystyried gan Banel Cwynion Annibynnol a chyhoeddir penderfyniadau'r Panel ar wefan Grŵp Portman, yn y wasg fasnachol ac mewn adroddiad blynyddol. Os canfyddir bod pecynnu neu ddull hysbysebu cynnyrch yn mynd yn erbyn y Cod, gall y Grŵp Portman gyhoeddi Bwletin Rhybudd i Fanwerthwyr i hysbysu manwerthwyr o'r penderfyniad ac i ofyn iddynt beidio ag ailgyflenwi eu stociau o gynnyrch o'r fath nac i arddangos deunydd hysbysebu, hyd oni fydd pawb wedi cydymffurfio â'r penderfyniad. Mae'r Cod yn arf bwysig wrth amddiffyn plant rhag niwed oherwydd ei fod yn ymdrin ag enwi, marchnata a hyrwyddo cynnyrch alcohol a werthir mewn mangreoedd mewn ffordd allai apelio at neu ddenu

plant dan oed. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cymeradwyo'r Cod i awdurdodau trwyddedu ac yn argymell y dylent ei gymeradwyo yn eu datganiadau o bolisi trwyddedu.

## ADWERTHU ALCOHOL YN GYFRIFOL: ARWEINIAD I'R FASNACH SIOPAU GWERTHU DIODYDD

Mae Cymdeithas Siopau Hwylus, Consortiwm Adwerthu Prydain a Chymdeithas Fasnachol Gwin a Gwirodydd wedi cynhyrchu arweiniad ar y cyd i adwerthu alcohol mewn modd cyfrifol. Mae'r Arweiniad yn ymdrin â meysydd allweddol gwerthu dan oed, cardiau profi oedran, hyfforddi staff a hyrwyddo alcohol. Mae'r Arweiniad ar gael ar-lein yn:
www.thelocalshop.com/responsibleretailing

Am fwy o wybodaeth ar adwerthu alcohol mewn siopau gwerthu diodydd cysylltwch â'r canlynol:

Cymdeithas Siopau Hwylus
www.thelocalshop.com neu ffoniwch 01252515001

Consortiwm Adwerthu Prydain
www.brc.org.uk neu ffoniwch 020 7854 8900

Chymdeithas Fasnachol Gwin a Gwirodydd
www.wsta.org.uk neu ffoniwch 020 7089 3877

## YMHOLIADAU

Dylid gwneud unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Arweiniad hwn i'r:

**Licensing Policy Team**
**Department for Culture, Media and Sport**
**Tourism, Licensing and Economic Impact Division**
**6th Floor**
**2-4 Cockspur Street**
**London SW1Y 5DH**

**Ffôn: 020 7211 6380**

**e-bost: enquiries@culture.gov.uk**

# Mynegai


## A

**Adloniant bocsio neu reslo**
3.9, 5.6, Atodiad A
**Adloniant oedolion**
2.17, 2.41, 2.44, 2.45, 2.50, 13.48, Atodiad D
**Adloniant rheoledig**
1.12, 2.50, 3.1, 3.8-3.31, 4.2, 5.2, 5.6, 5.10, 5.21, 7.13, 8.23, 8.30, 10.31, 10.35, 10.56, 13.38, 13.57, 13.60, 13.70-13.72, Atodiad A, Atodiad D, Atodiad E
**Adolygiad barnwrol**
1.7, 9.10, 12.8, 12.10
**Adolygiadau**
1.27, 1.33, 3.31, 4.28, 8.5, 9.9, 10.10, 10.32, Pennod 11, 13.15, 13.35, 13.39, 13.79
**Adwerthu Alcohol yn Gyfrifol: Arweiniad i'r fasnach siopau gwerthu diodydd**
Atodiad E
**Amcanion Trwyddedu**
1.2-1.3, 1.7, 1.10, 1.15-1.16, 1.18-1.22, 1.31, Pennod 2, 3.22, 3.36, 4.23, 4.28, 5.4, 5.14, 6.13, 6.16, 8.12,8.15, 8.28-8.29, 8.32, 8.36, 8.56, 8.60, 9.2-9.3, 8.5,9.8-9.9, 9.17, 9.24-9.27, 10.3, 10.5, 10.7, 10.10-10.12,10.14-10.15, 10.18, 10.20-10.21, 10.31, 10.40, 10.47,11.1-11.2, 11.4, 11.8, 11.15-11.16, 11.20-11.24,12.11, 13.2, 13.13, 13.23-13.24, 13.27, 13.29, 13.32,13.34-13.36, 13.38, 13.41-13.42, 13.55, 13.68, 13.71, Atodiad D, Atodiad E
**Amodau**
1.14-1.16, Pennod 2, 3.25-3.31, 3.36, 4.23, 5.4, 5.8, 6.12-6.13, 6.15-6.16, 7.22, 8.29, 8.31, 8.35, 8.60, 9.2, 9.26, Pennod 10, 11.17, 11.21, 11.23, 13.16, 13.19-13.20, 13.34, 13.34, 13.46, 13.51, 13.54, 13.56, 13.58,13.67, 13.71, Atodiad D, Atodiad E
**Amrywiadau**
2.20, 2.30, 6.11, 8.21, 8.33-8.38, 8.40, 8.47, 8.53, 9.28, 10.64, 13.36, 13.66, 13.79, Atodiad D
**Apeliadau**
1.6, 1.7, 4.10, 4.26, 4.29, 6.8, 6.9, 8.61, 8.68, 9.26, 10.14, Pennod 12, 13.65, 13.74
**Ardaloedd Anhrefn Alcohol**
1.33
**Ardaloedd Gwella Busnes (BIDau)**
1.21
**Arddangos ffilmiau**
2.41, 2.49, 3.9, 10.31, 10.54-10.57, 10.61, 13.53-13.54, Atodiad A, Atodiad D
**Arogleuon atgas**
2.32, Atodiad D
**Arweiniad o dan a182 y Ddeddf Trwyddedu 2003**
1.5-1.8, 1.10, 9.25, 12.7-12.9, 13.3, 13.13
**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau**
5.13, 5.15-5.17, 8.4, 8.14-8.16, 8.24, 10.28
**Awdurdod y Diwydiant Diogelwch**
2.2-2.3, 10.58-10.59, Atodiad D
**Awdurdodau cyfrifol**
1.14, 1.21, 2.2, 2.19, 2.26-2.27, 2.30, 2.32, 2.35, 2.27, 2.46, 5.28, 8.12-8.17, 8.24, 8.28-8.29, 8.59, 8.62, 9.3, 9.17, 9.20, 9.22-9.24, 10.3, 10.8, 10.14, 10.23, 10.33-10.34, 11.4-11.5, 11.13-11.14, 11.16, 11.26, 13.39, 13.49, 13.52, 13.68, Atodiad D, Atodiad E
  **Corff amddiffyn plant**
  2.2, 2.48, 8.12-8.13, 13.52
**Awdurdodau dros dro**
8.70-8.76, 8.78
**Awdurdodau trwyddedu**
1.5-1.10, 1.14, 1.16, 1.19, 1.21-1.23, 1,25, 1.27-1.28,1.30-1.34, 2.1-2.3, 2.10-2.14, 2.16, 2.19-2.21, 2.26,2.28, 2.30, 2.32, 2.34-2.35, 2.37, 2.39, 2.43, 2.46,2.49, 2.51, 3.2, 3.7, 3.12-3.13, 3.23, 3.26, 3.28, 4.3-4.5, 4.7-4.18, 4.20-4.21, 4.26-4.30, 5.4-5.6, 5.8-5.9,5.11, 5.14, 5.20, 5.22, 5.24-5.28, 6.8-6.9, 6.11-6.13,6.15-6.17, 7.2-7.3, 7.7, 7.9, 7.15-7.17, 7.19, 7.21-7.22,7.24, 7.27, 7.29, 8.1, 8.3, 8.5, 8.11-8.13, 8.19, 8.24,8.27-8.30, 8.36, 8.41-8.42, 8.46, 8.49-8.52, 8.57-8.61,8.63-8.64, 8.67-8.69, 8.71, 8.74-8.78, 9.1-9.5, 9.7, 9.10-9.14, 9.16, 9.18-9.19, 9.21-9.27, 10.3, 10.11,10.14-10.16, 10.22-10.23, 10.26, 10.29, 10.31-10.34,10.37-10.40, 10.44, 10.51, 10.54-10.55, 10.63-10.64,11.2-11.5, 11.9, 11.11-11.12, 11.14-11.19, 11.21-11.24, 11.26, 11.28, 12.1-12.7, 12.9-12.11, Pennod 13, Atodiad D, Atodiad E
**Awdurdodi gwerthu alcohol**
3.7, 4.2, 10.48-10.53
**Awyrennau**
5.22

## B

**Best Bar None**
Atodiad E
**Bwrdd Dosbarthiad Ffilmiau Prydeinig**
2.49, 10.54-10.55, 10.57,13.53-13.54, Atodiad D

## C

**Camerau Cylch Caeedig (CCTV)**
1.27, 2.2, 13.39, 13.56, Atodiad D
**Canllaw Ymarferol LACORS i Brynu Prawf**
1.34-1.35
**Cariocî**
3.11
**Carnifalau**
10.33-10.37
**Cerbydau**
3.1, 3.38, 5.1, 5.2, 5.20-5.24, 5.31, 8.65, Atodiad A, Atodiad C, Atodiad D
**Cerddoriaeth achlysurol**
3.8, 3.14, 3.20-3.23, 10.35, 11.17, Atodiad A
**Cerddoriaeth byw**
1.4, 2.34, 3.9, 3.20, 3.26, 3.28, 7.10, 8.30, 11.17, 13.57, 13.70-13.71, Atodiad A, Atodiad D
**Cerddoriaeth, canu a dawnsio byrfyfyr**
3.24
**Cerddoriaeth wedi'i recordio**
3.9, 3.14, 3.20, 11.17,Atodiad A, Atodiad D
**Clybio Diogelach**
Atodiad E
**Clybiau**
1.11, 1.13, 1.36, 3.1, 3.27, 3.39, 5.2, Pennod 6, 7.13, 10.61, 13.6, 13.16, 13.79, Atodiad A, Atodiad B, Atodiad D, Atodiad E
**Rheolau clwb**
6.7, 6.12
**Gwesteion**
6.7-6.8, 6.10
**Amodau cymhwyso clwb**
6.4, 6.9, 6.12
**Cydraddoldeb rhywiol**
6.16
**Cludiant**
1.21, 2.2, 10.19, 10.28, 11.6, 13.8, 13.25, 13.39, 13.40, 13.55, 13.61, Atodiad E
**Cod ymddygiad**
8.9-8.10
**Cofrestr trwyddedu**
7.21, 7.24, 8.50, 8.78
**Cofrestr trwyddedu canolog**
4.17
**Comedi un dyn**
3.14, 3.23
**Cydraddoldeb hiliol**
10.29, 11.25, 11.27, 13.55, 13.69
**Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol**
13.60
**Cyfanwerthu alcohol**
3.2-3.5
**Cyfarpar electronig**
8.26
**Cyfleusterau adloniant**
3.8, 3.10-3.15, 3.17-3.18, 3.20, 3.24, 5.21, Atodiad A
**Cyffiniau**
1.23, 2.4, 2.32-2.33, 2.35-2.36, 2.39-2.40, 8.5, 8.8, 8.44, 8.52, 8.62, 9.4-9.7, 9.18, 10.40, 13.16-13.17, Atodiad D
**Cyffuriau**
2.2, 2.5, 2.7, 2.44, 8.68, 10.42, 11.22, 11.25, 13.48, Atodiadau C-E
**Cynghorwyr**
8.7-8.11, 9.11, Atodiad E
**Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain**
10.39, Atodiad E
**Cymwysterau Trwyddedu**
4.3, 4.12-4.13, 7.12, Atodiad E
**Cynhwysedd**
2.11, 2.23, 2.27-2.29, 3.25-3.26, 3.28, 3.30, 10.42-10.43, 13.34, 13.36, 13.38, Atodiad D
**Cynhwysyddion agored**
1.27, Atodiad D
**Cynllunio**
7.4, 8.12, 9.28, 13.23, 13.39, 13.55, 13.64-13.68
**Cynlluniau**
2.6, 6.12, 8.24-8.25, 8.27, 8.35-8.36, 8.56, 8.59, Atodiad D

**Cynhwysyddion plastig a gwydr wedi'i gryfhau**
2.9-2.10, Atodiad D

## D

**Datganiadau dros dro**
8.54-8.65, 11.11, 12.11,13.79
**Deddf Adnoddau Dŵr 1991**
8.14
**Deddf Arddangosfeydd Anweddus 1981**
2.17
**Deddf Bancio a Masnachu Ariannol 1971**
7.18
**Deddf Betio, Hapchwarae a Loterïau 1963**
5.4
**Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005**
1.37, 2.35, Atodiad D
**Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976**
13.69
**Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000**
13.69
**Deddf Digwyddiadau Chwaraeon (Rheoli alcohol ac ati) 1985**
5.9
**Deddf Diwydiant Diogelwch Preifat 2001**
13.58-10.63, Atodiad C
**Deddf Gamblo 2005**
5.4
**Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995**
10.24, 10.28
**Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990**
2.35, 10.17, Atodiad D
**Deddf Hapchwarae 1968**
5.4
**Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996**
10.22
**Deddf Iechyd 2006**
1.36
**Deddf Iechyd a Dioglewch yn y Gwaith ac ati 1974**
8.3, 8.12, Atodiad D
**Deddf Loteriau a Difyrion 1976**
5.4, Atodiad C
**Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2003**
1.33, 10.59-10.60, 10.64, 13.73
**Deddf Llongau Masnach 1995**
8.4
**Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982**
2.17, Atodiad C
**Deddf Partneriaeth Sifil 2004**
7.20
**Deddf Recordiadau Fideo 1984**
2.49, 10.54, 13.54
**Deddf Rhagofalon Tân 1971**
2.20
**Deddf Sŵn 1996**
2.35, Atodiad D
**Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998**
1.28-1.30
**Deddf Trwyddedu 1964**
1.17, 13.37
**Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003**
1.32
**Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001**
1.24, 13.73
**Digwyddiadau ar raddfa fawr**
5.26-5.31
**Digwyddiadau chwaraeon dan do**
3.9, 3.15, 5.10, Atodiad A, Atodiad D
**Digwyddiadau preifat**
3.16-3.19
**Diogelwch y cyhoedd**
1.2, 2.9, 2.11-2.13, 2.17, 2.19-2.31, 3.26, 5.5, 5.8, 5.13, 5.28, 7.22, 8.3-8.4, 8.12, 8.15-8.16, 9.26, 10.14-10.16, 10.23, 10.27-10.28, 10.30, 10.36, 10.63, Atodiad D, Atodiad E
**Diogelwch tân**
1.29, 2.20-2.30, 3.30, 4.20, 5.5, 5.28, 8.3, 8.12, 8.15-8.16, 10.16, 13.6, Atodiad D
**Diwylliant**
1.4, 8.30, 13.8, 13.55, 13.57-13.60, 13.70-13.72
**Drylliau**
1.33, 2.7, 11.22, 11.25, Atodiad C, Atodiad D

## E

**Economi gyda'r nos**
1.4, 1.23, 13.18, 13.41, 13.55

**Effaith cronnus**
9.7, 9.9, 13.11, 13.23-13.39
**Tystiolaeth**
13.26-13.28
**Effaith polisi arbennig**
13.29-13.32
**Cyfyngiadau**
13.33-13.38
**Mecanweithiau rheoli eraill 13.39**

## Ff

**Ffeiriau**
10.33-10.37
**Ffioedd**
1.1, 4.3, 5.29-5.31, 6.12, 7.21, 8.24-8.26, 8.77, 10.14, 13.12

## G

**Galwyr testun a radio**
2.8, 2.15, Atodiad D
**Gamblo**
2.44, 2.46, 5.4, 10.61, 11.25, 13.48, Atodiad C, Atodiad D
**Garejys**
5.2, 5.23-5.25
**Gemau tafarn**
3.15
**Gerddi cwrw**
1.26, 8.36
**Gofod Agored Trwyddedig**
13.72
**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Model o God Ymddygiad) 2007**
8.9
**Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005**
Gweler Diogelwch Tân
**Gorchymyn Man Cyhoeddus Dynodedig**
1.24, 13.39, 13.73
**Gorchmynion cau**
1.32, 2.18, 6.4, 7.26, 11.3,11.12, 11.14, 11.28,12.10, 13.39, Atodiad D
**Gorfodi**
1.7, 1.23, 1.33, 2.2, 2.21, 2.43, 2.51, 3.25, 5.25, 6.4, 8.2-8.4, 8.12, 8.31, 10.10, 10.15, 10.34, 10.34, 10.37, 10.52, 11.26, 13.21-13.22, 13.39, 13.45, 13.52, 13.61, Atodiad D, Atodiad E
**Gorlenwi**
2.11, 2.27, 10.42, Atodiad D
**Goruchwylio drysau**
2.2-2.3, 2.7, 2.11,10.58-10.64, 11.17, Atodiad D
**Goruchwylwyr mangre dynodedig**
2.2, 2.8, 2.13,3.7, 4.4, 4.19-4.28, 5.27, 6.4, 8.24, 8.34, 8.53, 8.56, 9.27, 10.45-10.48, 10.53, 11.17, 11.19-11.20, 13.79, Atodiad D
**Grŵp Portman**
Atodiad D, Atodiad E
**Gwahardd poteli**
2.9, Atodiad D
**Gwahardd ysmygu**
1.26, 1.36, 8.36
**Gwasgaru cwsmeriaid**
1.17, 2.4, 2.36, 2.38, 10.19, 13.25, 13.37, 13.40, Atodiad D
**Gweithio mewn partneriaeth**
1.20-1.22, 8.29, 10.3, 11.8, 13.39, Atodiad E
**Gwerthu drwy'r rhyngrwyd a’r post**
3.6-3.7, 8.48
**Gwrandawiadau**
4.8, 4.26, 4.29, 7.27, 8.8, 8.59-8.60, 8.68-8.69, 8.74, 9.2, 9.14, 9.19-9.28, 10.8, 10.11, 11.7, 11.14, 11.20, 11.28
**Gwyliau**
5.28, 8.40, 10.13, 10.33-10.37

## H

**Hamdden**
1.4, 2.8, 2.46, Atodiad D
**Hawlfraint**
10.32, 11.25, Atodiad C
**Heddlu**
1.7, 1.23, 1.25, 1.29, 1.32-1.33, 2.1-2.3, 2.7-2.8, 2.15-2.16, 2.18, 2.43, 2.48, 2.51, 4.3, 4.5, 4.7-4.10, 4.16, 4.20, 4.22, 4.25-4.28, 4.30, 5.8, 6.4, 7.2-7.3, 7.9, 7.15-7.17, 7.21, 7.25-7.29, 8.3, 8.12, 8.22, 8.61, 8.66-8.69, 8.71, 8.74, 8.76, 10.3, 10.21, 10.38, 10.51,

11.3, 11.16, 11.26, 12.4, 13.6, 13.8, 13.21, 13.39, 13.42, 13.61, 13.74, 13.78-13.79, Atodiad D, Atodiad E
**Hyrwyddo diodydd**
10.38-10.40, Atodiad D, Atodiad E
**Hysbysebu**
2.17, 8.43-8.52, 8.59, 9.1
**Hysbysiadau digwyddiadau dros dro**
1.13, 3.3, 5.26, 6.4, 6.17, Pennod 7, 8.39, 10.37, 13.16, 13.43-13.44, 13.51, 13.72-13.73 13.78-13.79
**Cyfyngiadau**
7.3, 7.5-7.8, 7.19, 7.21
**Hysbysiad rhydd-ddeiliaid ac ati o faterion trwyddedu**
8.77-8.78

## I

**Iechyd cyhoeddus**
2.19, 9.26, 11.25
**Iechyd yr Amgylchedd**
1.32, 8.3, 8.12, 11.4, 11.16, 13.21, 13.26

## Ll

**Llongau**
3.1, 5.1-5.2, 5.11-5.17, 5.31, 8.4, 8.14-8.16, 8.24, 8.49, 8.65, 10.28, Atodiad A
**Lluniaeth hwyr y nos**
1.11, 2.2, 3.1, 3.32-3.39, 4.2, 5.2, 7.10, 13.22 Atodiad B
**Llygredd golau**
2.32, 2.37, Atodiad D

## M

**Meysydd awyr a phorthladdoedd rhyngwladol**
5.18-5.19
**Meysydd chwaraeon**
2.21, 5.5-5.9, 10.59, Atodiad D
**Stadia chwaraeon â thoeau sy'n agor a chau**
5.10

## N

**Niwsans cyhoeddus**
1.2, 1.26, 1.32, 1.37, 2.6, 2.17, 2.32-2.40, 3.36, 5.28, 6.4, 7.26-7.27, 9.8, 10.17, 10.19, 11.3, 13.18, 13.25, 13.28, 13.39, 13.65, Atodiad D

## O

**Oriau**
1.17-1.19, 2.47, 3.28, 7.10, 8.35, 8.45, 8.47, 8.56, 10.7, 10.19-10.22, 11.17, 13.25, 13.37-13.42, 13.50, 13.67, Atodiad D
**Llacio oriau ar gyfer achlysuron lleol, cenedlaethol a rhyngwladol**
8.39-8.42
**Nos Galan**
8.42

## P

**Partion sydd â diddordeb**
1.14, 1.22, 2.26, 2.33, 8.5-8.11, 8.50, 8.59, 8.62, 9.2-9.20, 9.24, 9.27, 10.9, 11.2, 11.8-11.10, 11.1, 11.14, 11.27, 12.4-12.5, 13.30, 13.32
**Datgelu manylion personol**
9.14-9.18
**Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn**
1.21, 1.30, 2.1, 11.26, 13.8, 13.26, 13.56, Atodiad E
**Perfformio drama**
2.50, 3.9, 5.28, 10.30, 13.70, Atodiad A, Atodiad D
**Plant**
1.2.1.4, 1.33, 2.2, 2.17, 2.41-2.51, 8.12-8.13, 10.31, 10.54, 11.25, 13.39, 13.43-13.54, 13.70, Atodiad D, Atodiad E
**Polisiau Trwyddedu**
1.9-1.10, 1.30-1.31, 2.44, 7.22, 8.13, 8.28, 9.6, 9.25, 12.7-12.8, Pennod 13, Atodiad E
**Pobl anabl**
10.23-10.28, Atodiad D
**Prawf oedran**
2.44, 2.47, Atodiad D, Atodiad E
**Prynu prawf**
1.34, 2.51
**Pubwatch**
Atodiad E

## Rh

**Rheoli adeiladu**
8.64, 9.28, 10.25, 13.64-13.68
**Rheoliadau Amser Gweithio 1998**
10.22

**Rheoliadau (Dioglewch) Sinematograff 1955**
2.30
**Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**
10.15, Atodiad D
**Rhestr amodau**
13.20, Atodiad D

## S

**Safonau masnach**
1.34, 2.51, 8.12
**Sbwriel**
2.32, 2.40, 13.39
**Sensoriaeth**
10.30-10.31
**Sinemau**
2.17, 2.30, 3.36, 8.19, 13.22, 13.38
**Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol**
1.31
**Sylwadau**
1.14, 2.26-2.27, 2.32, 2.35-2.36, 2.48, 5.15, 6.12, 8.7-8.8, 8.15, 8.28, 8.45, 8.58-8.59, 8.62-8.63, 9.2-9.19, 9.21, 9.23-9.25, 10.8-10.10, 10.21, 10.29, 10.40, 10.43, 11.5-11.9, 11.11-11.14, 11.18, 11.24, 11.27, 12.4-12.5, 12.11, 13.15, 13.27, 13.30, 13.32, 13.34-13.35, 13.42, 13.51, 13.68, 13.74, 13.78-13.79, Atodiad D
**Syrcasau**
8.23, 10.33-10.37

## T

**Trenau**
5.22
**Trosedd ac Anhrefn**
1.2, 1.17, 1.23, 1.27, 2.1-2.18, ..2.37, 3.26, 4.2-4.3, 4.8, 4.25-4.26, 5.28, 7.21, 7.25, 7.27, 8.68, 8.74, 10.29, 10.32, 10.40, 10.42-10.43, 11.6, 11.22-11.27, 13.23, 13.26, 13.28, 13.55-13.56, 13.68, Atodiad D, Atodiad E
**Troseddau**
1.23, 1.33, 2.5, 2.14, 2.43, 2.44, 2.47, 2.51, 4.3-4.9, 4.15, 4.18, 4.25, 4.28-4.29, 4.31, 7.22, 8.31, 8.71, 10.4, 10.32, 11.24-11.25, 13.43-13.46, Atodiad C, Atodiad D
**Trosglwyddiadau**
8.66-8.69, 8.73, 8.76, 13.79
**Trwyddedau cyfyngedig gan amser**
5.26-5.28
**Trwyddedau personol**
1.13, 2.14, 3.3, 3.7, Pennod 4, 5.27, 6.4, 7.5, 7.9-7.13, 7.16, 7.26, 10.45-10.53, 12.2, 12.4, 13.6, 13.39, 13.78-13.79, Atodiad C, Atodiad E
**Twristiaeth**
1.4, 13.8, 13.41, 13.55, 13.62
**Twyll hunaniaeth**
7.24

## Th

**Theatr**
1.4, 2.50, 13.22, 13.34, 13.38, 13.70-13.71, Atodiad C, Atodiad D

## U

**Unigolion awdurdodedig**
2.43, 6.4, 8.3-8.4, 10.3, 11.8, Atodiad D, Atodiad E

## Y

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol**
1.4, 1.23, 2.2, 2.6, 2.38-2.40, 4.2, 7.22, 10.19, 13.18, 13.25-13.26, 13.39, 13.71, 13.73, Atodiad E

Rydym hefyd yn gallu darparu dogfennau
i gwrdd ag anghenion penodol pobl anabl.
Ffoniwch 020 7211 6200 neu anfonwch
e-bost at enquiries@culture.gov.uk

Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu
©Hawlfraint y Goron
Mehefin 2007/tt1047/1000 o gopiau

department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk